



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol
yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a Nodiadau Esboniadol

Chwefror 2016

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Cadw, isadran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, a chaiff ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fe'i paratowyd a'i cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Mai 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Yn awr, cyflwynir Memorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, mae darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 1 Mai 2015 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ken Skates AC

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

Chwefror 2016

Cynnwys

Rhestr o dalfyriadau	4
Darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol	5
Rhan 1 — Memorandwm esboniadol	6
1. Disgrifiad	6
2. Cefndir deddfwriaethol	7
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	8
4. Ymgynghori	45
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	48
Rhan 2 — Asesiad effaith rheoleiddiol	57
6. Asesiad effaith rheoleiddiol	57
7. Opsiynau, costau a manteision	59
8. Asesu'r gystadleuaeth	122
9. Adolygu ôl-weithredol	134
Atodiad 1 — Nodiadau esboniadol	136

Rhestr o dalfyriadau

Deddf 1979 — Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

Deddf 1990 — Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

Darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Darpariaeth	Adrannau'r Bil	Memorandwm Esboniadol	Asesiad Effaith Rheoleiddiol
Mesurau i gyflwyno mwy o atebolrwydd a thryloywder			
Sefydlu panel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru	38–39	tt. 11–13	tt. 116–119
Ymgynghori, gwarchod interim ac adolygu dynodiadau	3–4 a 24–26	tt. 13–16	tt. 59–63
Mesurau i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol yn fwy effeithiol			
Ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig	22	tt. 16–17	tt. 84–90
Diwygiadau i droseddau ac amddiffyniadau mewn perthynas â henebion cofrestredig	15–17	tt. 17–19	tt. 71–76
Cyflwyno hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â henebion cofrestredig	12–13	tt. 20–23	tt. 68–71
Pwerau mynediad ar gyfer archwiliad archeolegol o heneb hynafol sydd mewn perygl agos o gael ei dinistrio	19	tt. 23–24	tt. 82–84
Creu cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol	18	tt. 24–26	tt. 76–81
Ehangu cwnpas gwaith brys ar adeiladau rhestredig ac adennill costau drwy gyflwyno pridiant tir lleol	30	tt. 26–30	tt. 102–107
Cyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig	29	tt. 30–32	tt. 99–102
Creu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol	33	tt. 32–34	tt. 112–116
Mesurau i wella mecanweithiau i reoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy			
Gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol greu cofnodion amgylchedd hanesyddol a'u cynnal	34–37	tt. 34–36	tt. 107–112
Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth	11 a 28	tt. 36–41	tt. 94–99
Diwygio'r broses cydsyniad heneb gofrestredig	5–10	tt. 41–43	tt. 63–67
Llacio'r amodau o ran cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru	27	tt. 43–44	tt. 90–94

Rhan 1 — Memorandwm esboniadol

Adran 1: Disgrifiad

1. Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisïau, cyngor a chanllawiau sy'n cyflwyno newidiadau pwysig er mwyn gwella'r systemau presennol a ddefnyddir i warchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn modd cynaliadwy. Yn fras, mae'r Bil yn gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol; mae'n gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy; ac mae'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn cael eu gwneud mewn ffordd fwy tryloyw ac atebol.
2. Mae'r Bil yn creu mesurau newydd sydd:
 - yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi stop ar unwaith ar unrhyw waith anawdurdodedig wneir ar henebion cofrestredig, gan ei gwneud yn haws cymryd camau yn erbyn y sawl sydd wedi difrodi neu ddinistrio heneb;
 - yn galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os bydd adeilad rhestredig mewn perygl oherwydd gwaith anawdurdodedig, gan roi iddynt fwy o hyblygrwydd wrth ymdrin ag adeiladau hanesyddol y mae angen gwaith brys arnynt i'w gwarchod rhag dirywio ymhellach;
 - yn ei gwneud yn haws i berchnogion neu ddatblygwyr greu ffyrdd newydd a chynaliadwy o ddefnyddio adeiladau hanesyddol nad ydynt yn rhestredig, drwy lacio'r amodau ar gyfer gwneud cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru;
 - yn creu cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol Cymru;
 - yn caniatáu i berchnogion asedau hanesyddol negodi cytundebau partneriaeth dreftadaeth, ar gyfer cyfnod o rai blynyddoedd, gyda'r awdurdod cydsynio. Bydd hyn yn cael gwared ar yr angen i wneud ceisiadau am gydsyniad dro ar ôl tro ar gyfer gwaith tebyg ac yn hyrwyddo dulliau mwy cyson a chydlynol o reoli adeiladau neu henebion;
 - yn sicrhau dyfodol mwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor manwl ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd;
 - yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhest o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru;
 - yn gwneud y strwythurau presennol a ddefnyddir i ddynodi asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno ymgynghori ffurfiol â pherchnogion a mecanwaith ar gyfer adolygu penderfyniadau;
 - yn sefydlu panel annibynnol i roi cyngor ar bolisïau a strategaeth ym maes yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

Adran 2: Cefndir deddfwriaethol

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodir darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn adran 108 ac Atodlen 7.
4. Mae paragraffau 2, 3, 6 a 18 yn Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt.
 - Henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol
 - Gweddillion archeolegol. Henebion hynafol. Adeiladau a lleoedd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol. Llongddrylliadau hanesyddol.
 - Diwylliant
 - Archifau a chofnodion hanesyddol.
 - Amgylchedd
 - Cefn gwlad a mannau agored (gan gynnwys dynodi a rheoleiddio parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol).
 - Cynllunio gwlad a thref
 - Cynllunio gwlad a thref, gan gynnwys adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Cynllunio gofodol. Gwarchod amwynderau gweledol.

Adran 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Amgylchedd hanesyddol Cymru — adnodd gwerthfawr a bregus

5. Mae Cymru wedi cael ei siapio gan weithgaredd dynol ers miloedd o flynyddoedd. Mae henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol yn nodweddion amlwg mewn trefi ac yng nghefn gwlad. Ledled Cymru, mae'r dirwedd yn brawf o fywydau ac ymdrechion ein cyndeidiau.
6. Yr amgylchedd hanesyddol hwn yw etifeddiaeth ein gwlad. Mae'n werthfawr iawn ac mae'n rhan o'n diwylliant a'n hunaniaeth genedlaethol. Mae hefyd yn cyfannu at ein balchder yn ein cymunedau, gan wneud pob ardal yn unigryw. Yr amgylchedd hanesyddol yw'r cefndir i'n bywydau beunyddiol, boed yn waith neu'n hamdden. Mae'n creu syniad o le, syniad o berthyn, ac yn cyfrannu at ein hiechyd a'n lles. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd di-rif i blant ac oedolion ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd a all wella eu bywydau a'u galluogi i gyflawni eu potensial, boed yn yr ysgol neu'r gweithle.
7. Yn ogystal â'r budd diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol a ddaw i drigolion Cymru yn sgil yr amgylchedd hanesyddol, mae hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi'r wlad. Yn ôl ymchwil diweddar, caiff dros 30,000 o swyddi eu cefnogi gan yr amgylchedd hanesyddol ac mae'n ychwanegu tua £840 miliwn at Werth Ychwanegol Gros Cymru. Amcangyfrifir bod yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrif am un rhan o bump o wariant twristiaeth yng Nghymru.¹
8. Cydnabyddir, hefyd, fod yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at ysgogi adfywio mewn ardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad. Yn aml, mae adeiladau hanesyddol yn ganolbwynt neu'n lleoliad ar gyfer prosiectau adfywio a thrwy hynny gall fod yn ffactor pwysig o ran rhoi hwb i hyder cymunedau a denu buddsoddiad i ysgogi datblygiad a thwf economaidd.²
9. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr, felly. Mae hefyd yn un bregus. Gall un weithred esgeulus ddinistrio neu ddifrodi safle sydd wedi bodoli ers canrifoedd a mwy. Gall hyd yn oed newidiadau bychain, a all ymddangos yn ddiniwed fesul un, grynhoi i erydu a difetha natur hanesyddol hen adeilad, neu ardal gyfan hyd yn oed. Mae newidiadau o'r fath yn golled i'n hamgylchedd ac yn bygwth cyfoeth ac amrywiaeth cymunedau Cymru, sy'n niweidiol o safbwynt trigolion ac ymwelwyr.
10. Rhaid diogelu'r amgylchedd hanesyddol er mwyn i drigolion ac ymwelwyr ddysgu ganddo, cael eu hysbrydoli ganddo a chael budd ohono heddiw ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu treigl amser. Mae rhywfaint o newid yn anochel wrth i amser gael effaith ar hyd yn oed yr henebion a'r adeiladau mwyaf sylweddol. Yn bwysicach fyth, mae'r amgylchedd hanesyddol dan bwysau wrth i'r defnydd o'r tir, ymddygiad defnyddwyr ac arferion crefyddol newid yn y Gymru fodern. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i ymateb i ofynion bywyd

¹ ECOTEC Research and Consulting Ltd. *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru*, (2010) t. 8

² Llywodraeth Cymru, *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd*, (2013), tt. 20, 25

modern a heriau'r dyfodol heb golli ei rinweddau arbennig, rhaid ei reoli'n ofalus ac mewn ffordd gynaliadwy.

Y fframwaith presennol ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru

11. Dau ddarn o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig yw sail y fframwaith presennol ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru.
12. Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 ('Deddf 1979') yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ddynodi henebion o bwysigrwydd cenedlaethol i'w diogelu. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd difrodi heneb gofrestredig neu wneud gwaith heb ganiatâd ffurfiol Gweinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae yna dros 4,000 o henebion cofrestredig yng Nghymru.
13. Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ('Deddf 1990') yn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru ddynodi adeiladau rhestredig o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig. Mae hefyd yn nodi gweithdrefn gydsynio i ganiatáu gwaith i adeiladau rhestredig ac yn sefydlu troseddau o ran gwneud gwaith heb awdurdod, mae hefyd yn gosod mecanweithiau ar gyfer camau gorfodi. Yn ogystal, mae Deddf 1990 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn 'ardaloedd cadwraeth' gan eu hadolygu bob yn hyn a hyn. Mae bron 30,000 o adeiladau wedi'u rhestru yng Nghymru ac mae awdurdodau cynllunio lleol wedi dynodi 523 o ardaloedd cadwraeth.
14. Hefyd, rhoddir ystyriaeth yn ystod y broses gynllunio, yn unol â pholisi a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru i elfennau eraill o'r amgylchedd hanesyddol nad ydynt yn cael eu diogelu'n statudol yn benodol — er enghraifft, parciau a gerddi cofrestredig hanesyddol.
15. Caiff polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ynghylch defnydd trwm o dir eu nodi yn *Polisi Cynllunio Cymru* (Gorffennaf 2014). Mae Pennod 6 — 'Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol' yn manylu ar bolisi cynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol o ran paratoi cynlluniau datblygu lleol a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd adeiladau rhestredig.
16. Ar hyn o bryd, caiff y polisi hwn ei ategu gan y tri chylchlythyr Swyddfa Gymreig canlynol:
 - Cylchlythyr 60/96 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg
 - Cylchlythyr 61/96 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
 - Cylchlythyr 1/98 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
17. Er bo llawer o'u cynnwys yn parhau i fod yn ddilys, mae'r tri chylchlythyr hwn bellach bron yn ugain mlwydd oed ac felly mae angen eu diweddarau.

18. Yn ystod ymarferion ymgysylltu eang a gynhaliwyd yn 2012–2013, nid oedd llawer o awch am newid ysgubol i'r systemau presennol o ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn gyffredinol, roedd y bobl yr ymgysylltwyd â nhw o'r farn bod y strwythurau deddfwriaethol presennol yn gadarn yn eu hanfod, ond pennwyd meysydd lle gellid gwella'r strwythurau diogelu a rheoli. Y farn hon sydd wedi llunio datblygiad y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

19. Yn y Rhaglen Lywodraethu, cynllun strategol pum mlynedd o hyd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, gwnaed ymrwymiad i gyflwyno 'Bil Diogelu Treftadaeth' fel un o'r prif ffyrdd o wireddu'r amcan o 'gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant a'n treftadaeth'. Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw ffrwyth yr ymrwymiad hwnnw.
20. Mae nifer o ddarpariaethau'r Bil yn dibynnu ar is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol i'w rhoi ar waith. Caiff papur bwriad polisi ei gyhoeddi ar y cyd â'r Bil i amlinellu materion manwl o ran gweithredu. Ymhlith y rhain mae:
- rheoliadau'n ymwneud ag ymgynghori ar ddynodi asedau hanesyddol a cheisiadau i Weinidogion Cymru adolygu penderfyniadau i ddynodi;
 - rheoliadau'n ymwneud â mesurau i symleiddio proses cydsyniad heneb gofrestredig;
 - rheoliadau'n ymwneud â gofynion gweithredol cytundebau partneriaeth dreftadaeth;
 - rheoliadau'n llywodraethu amghymwysiadau ychwanegol o ran aelodaeth y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru; a
 - rheoliadau'n caniatáu i'r diffiniad o gofnod amgylchedd hanesyddol gael ei ddiwygio.
21. Daw drafft o'r canllawiau statudol ar reoli cofnodion amgylchedd hanesyddol y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer gyda'r datganiad o fwriad y polisi ar gofnodion amgylchedd hanesyddol.
22. At hynny, caiff Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei ategu gan bolisi, cyngor a chanllawiau a fydd yn adlewyrchu mesurau'r Bil ac yn gwneud gwelliannau ychwanegol i'r systemau sy'n bodoli eisoes o ran diogelu a rheoli'n gynaliadwy amgylchedd hanesyddol Cymru. Ymysg y rhain bydd:
- Pennod 6 diwygiedig — 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' — yn *Polisi Cynllunio Cymru*;
 - Nodyn cyngor technegol newydd ar gynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a fydd yn disodli hen Gylchlythyron y Swyddfa Gymreig 60/96, 61/96 a 1/98; a

- Cyfres o ddogfennau canllaw a fydd yn cynnwys y canlynol:
 - Rheoli Newid mewn Adeiladau Rhestredig yng Nghymru;
 - Rheoli Newid mewn Safleoedd Treftadaeth y dyn yng Nghymru; a
 - Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig.
23. Cyn unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, mae'r dogfennau ategol hyn wedi cael eu rhoi ar ffurf drafft er mwyn iddynt gael eu hystyried ar y cyd â'r Bil.

Amcanion

24. Nod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw:
- cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a gymerir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol;
 - diogelu adeiladau rhestredig a henebion rhestredig yn fwy effeithiol; a
 - gwella mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy.
25. Heblaw am dri darn o ddeddfwriaeth annibynnol, diwygio Deddfau 1979 a 1990 y mae darpariaethau'r Bil hwn. Y prif benawdau ar gyfer cyflwyno'r darpariaethau isod yw tri phrif nod y Bil.

Mesurau i gyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd

Sefydlu panel cyngori ar amgylchedd hanesyddol Cymru (adrannau 38–39)

Cefndir

26. Nid oes corff ag aelodau wedi'u penodi erioed wedi bodoli i gynghori Gweinidogion Cymru ar bolisi amgylchedd hanesyddol a datblygiad a chyflawniad rhaglenni gwaith strategol. Roedd Bwrdd Cyngorol Henebion Cymru a'r Cyngor Cyngorol Adeiladau Hanesyddol yn rhoi cyngor ar rai agweddau ar waith achos, ond daeth y rhain i ben yn 2010. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, a sefydlwyd yn 2004, yn cynnwys cynrychiolwyr enwebedig o bob rhan o'r sector amgylchedd hanesyddol ac mae'n gweithredu fel fforwm i gyfathrebu â rhanddeiliaid a gweithredu ar y cyd.

Y sefyllfa gyfredol

27. Mae Cadw (isadran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a chyrff eraill sy'n derbyn cyllid gan y llywodraeth am waith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, yn cynnal amrywiaeth o swyddogaethau mewn tri maes cysylltiedig o weithgarwch.
- Gwybodaeth — datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys rhaglenni ymchwilio, cloddio ac arolygu.

- Cadwraeth — gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a'i reoli'n gynaliadwy.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd — hyrwyddo a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a darparu mynediad i'r cyhoedd, gan gynnwys rhaglenni cynnwys y cyhoedd a dysgu ym maes cadwraeth a darganfod.

Mae'n hanfodol bod yr holl gyrff sydd ynghlwm wrth y gwaith yn datblygu ac yn gweithredu rhaglenni gwaith cydlynol ac yn gweithio ynghyd i gyflawni amcanion a rennir.

28. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau statudol heriol o ran gwarchod a rheoli treftadaeth, a rôl bwysig o ran datblygu rhaglenni dysgu gydol oes, datblygu sgiliau, cynnwys y cyhoedd a datblygu henebion fel cynnyrch. Mae llawer o'r themâu hyn yn rhan o'r agendau cadwraeth, gwybodaeth a chynnwys y cyhoedd a bennir uchod ac maent oll yn cyfrannu at saith nod Llywodraeth Cymru o ran lles ac ar gyfer creu Cymru gynaliadwy.³ Mae angen safbwyntiau newydd diddorol ar sut y gall yr amgylchedd hanesyddol gyfrannu at y blaenoriaethau heriol hyn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn arbennig o wir pan mai cyfyngedig yw'r arbenigedd o fewn Llywodraeth Cymru ar ryw fater neu'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes corff ar hyn o bryd all gynnig cyngor arbenigol ac annibynnol i Weinidogion Cymru.

Diben y darpariaethau

29. Mae'r darpariaethau'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu 'Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru'. Bydd y panel annibynnol newydd hwn yn ategu gwaith y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol ac yn rhoi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru ar sut i lunio, datblygu, ariannu a chyflawni polisi a strategaeth amgylchedd hanesyddol.
30. Bydd gan y panel gylch gwaith eang i roi cyngor ar amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru ac asedau o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archeolegol. Rhagwelir y bydd hyn yn gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hyn):
- cyngor arbenigol ar ddatblygu polisi amgylchedd hanesyddol a sut y gall hyn gyfrannu at flaenoriaethau ehangach y llywodraeth a'r saith nod lles ar gyfer Cymru gynaliadwy;
 - cyngor arbenigol fel sail i ddatblygu cynlluniau strategol ar gyfer y sector amgylchedd hanesyddol;
 - cyngor arbenigol ar gydbwyso'r adnoddau a ddyrennir rhwng y tri mae gweithgaredd craidd — gwybodaeth, cadwraeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd;
 - cyngor, arweiniad a heriau arbenigol ar gyfer y bobl sy'n cyflawni gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cyhoeddus ar lefel genedlaethol yng Nghymru;
 - cyngor arbenigol ar weithrediad ac effeithiolrwydd y fframwaith statudol cyfredol ar gyfer rheoli a diogelu amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys cyngor o dro i dro ar welliannau posibl o ran deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

³ Nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

31. Mae'r panel hefyd yn debygol o gael rôl o ran adrodd i Weinidogion Cymru ar gyflawni cynlluniau strategol ym maes amgylchedd hanesyddol Cymru.
32. Bydd y panel yn paratoi blaenraglen waith tair blynedd o hyd a fydd yn cynnwys y tri maes craidd o weithgaredd a'i chyflwyno i Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo.
33. Caiff penodiadau i'r panel eu gwneud yn unol ag Egwyddorion Nolan a'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac ni fydd gan y Panel fwy na 15 o aelodau. Gwnaiff Gweinidogion Cymru ddarparu staff, swyddfa a chyfleusterau i alluogi'r panel i gyflawni ei swyddogaethau.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

34. Drwy sefydlu'r Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru, a fydd yn banel statudol wrth gwrs, mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael cyngor arbenigol, annibynnol ar ystod o faterion yn ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisiau a strategaethau mew perthynas ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Ymgynghori, gwarchod interim ac adolygu dynodiadau (adrannau 3–4 a 24–26)

Cefndir

35. O dan Ddeddf 1979, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o henebion ('y Gofrestr') sy'n diwallu meini prawf cyhoeddedig penodol ac sydd, yn eu barn hwy, o bwysigrwydd cenedlaethol.
36. Yn yr un modd, o dan Ddeddf 1990, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. Tra bo'r gofrestr y sonnir amdani ym mhwynt 34 yn ddewisol, nid oes gan Weinidogion Cymru'r dewis i beidio â chynnwys adeilad ar y rhestr hon os yw'n diwallu'r meini prawf cyhoeddedig.
37. Ar ôl iddynt gael eu dynodi, mae henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig yn ddarostyngedig i drefn gydsynio sy'n golygu bod yn rhaid i berchnogion a meddianwyr gael caniatâd ffurfiol i gyflawni gwaith penodol. Mae gwneud caniatâd yn ofynnol yn diogelu asedau sy'n bwysig i'r genedl rhag cael eu newid mewn ffordd a allai niweidio neu ddifrodi eu nodweddion arbennig.

Sefyllfa gyfredol

Henebion cofrestredig

38. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â pherchnogion cyn gwneud penderfyniad i ychwanegu heneb at y Gofrestr. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae Gweinidogion Cymru'n ymgynghori'n rheolaidd ag unrhyw berchnogion a

meddianwyr y gellir dod o hyd iddynt, ac eithrio os byddai ymgynghori o'r fath yn golygu bod heneb yn agored i gael ei ddifrodi neu ei ddinistrio. Hefyd, rhoddir gwybod am y cynnig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol a chyrff eraill â diddordeb arbenigol. Dyletswydd Gweinidogion Cymru yw hysbysu perchnogion am benderfyniad i ddiwygio'r Gofrestr. Yn yr achosion hynny lle nad yw'n bosibl dod o hyd i'r perchennog/meddiannydd, rhoddir hysbysiad dwyieithog ar y safle — 'cofrestru drwy gyhoeddiad' yw'r enw ar y broses hon.

Adeiladau rhestredig

39. Yn draddodiadol, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol a chyrff cyhoeddus eraill sydd â diddordeb arbenigol wrth ystyried cynigion ar gyfer rhestru. Fodd bynnag, nid oes gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â pherchnogion a meddianwyr cyn gwneud penderfyniad i ychwanegu adeilad at y rhestr.
40. Yn wir, ers 2005, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â pherchnogion a meddianwyr ar bob cynnig i restru, ac eithrio os bod risg gwirioneddol y byddai ymgynghoriad o'r fath yn arwain at ddifrod neu ddinistr i'r adeilad cyn i benderfyniad ar restru gael ei wneud. Mae'r cyfnod ymgynghori yn para am 28 diwrnod a chaiff unrhyw sylwadau eu hystyried cyn i benderfyniad gael ei wneud. Dyletswydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw hysbysu perchnogion am benderfyniad i restru, ond mae Gweinidogion Cymru wedi mynd i'r arfer o roi hysbysiad anffurfiol pan gaiff adeilad ei restru.
41. Yn gyffredinol, ni wneir unrhyw beth ychwanegol i warchod adeiladau tra ystyrir eu rhestru. Fodd bynnag, os yw awdurdod cynllunio lleol o'r farn fod adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, nad yw wedi ei restru, mewn perygl o gael ei newid neu ei ddymchwel, gall roi hysbysiad diogelu adeilad ar y perchennog a'r meddiannydd. Mae hysbysiad o'r fath yn aros mewn grym am 6 mis.

Gwendidau'r systemau presennol

42. Ar ôl dynodi adeilad neu heneb, nid oes hawl statudol i wneud cais am adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru, er y gellir herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru'n barod i ystyried cais o sylwedd am ailystyried penderfyniad; gallai cais o'r fath fod yn un sydd, er enghraifft yn cyflwyno tystiolaeth ychwanegol na chafodd ei hystyried yn flaenorol.
43. Nid yw'r diffyg hwn o hawliau statudol i berchnogion a meddianwyr o ran ymgynghori â hwy ar benderfyniadau dynodi ac o ran y gallu i wneud cais am adolygiad o benderfyniadau o'r fath yn cyd-fynd â chyfiawnder naturiol na'r angen am dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl yn uniongyrchol. Nid yw'n cyd-fynd, ychwaith, â'r egwyddor, y mae Llywodraeth Cymru'n ei chefnogi, y dylai pawb gael y cyfle i gyfrannu at benderfyniadau ar yr amgylchedd hanesyddol drwy ffyrdd hygrych a chynhwysol, ac ar sail gwybodaeth.⁴

⁴ *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy* (Cadw, 2011), t. 13.

44. Fodd bynnag, byddai angen i broses ymgynghori ffurfiol gael ei hategu gan drefn warchod interim er mwyn atal asedau hanesyddol rhag cael eu difrodi neu eu dinistrio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Diben y darpariaethau

Henebion cofrestredig

45. Mae'r darpariaethau yn diwygio Deddf 1979 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau priodol, gan gynnwys y perchennog, pan fyddant yn cynnig ychwanegu at, yn dileu, neu'n diwygio'n sylweddol gofnod yn y Gofrestr. Ystyrir bod diwygiad yn sylweddol os yw'n ychwanegu at, neu'n lleihau'r ardal gofrestredig.
46. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno gwarchodaeth interim, fel bod darpariaethau Deddf 1979 yn gymwys i heneb fel pe bai wedi'i chofrestru yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. At hynny, mewn amgylchiadau penodol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu pennu mewn rheoliadau, mae'n rhoi'r hawl i berchennog neu feddiannydd wneud cais i Weinidogion Cymru adolygu penderfyniad i gofrestru heneb neu i wneud diwygiad sylweddol i gofnod yn ymwneud â heneb yn y Gofrestr.
47. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person i gynnal adolygiad o'r fath. Rhagwelir y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyflawni'r adolygiadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

Adeiladau rhestredig

48. Mae diwygiadau i Ddeddf 1990 yn rhoi mesurau tebyg i'r uchod ar waith o ran adeiladau rhestredig. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r perchennog a phersonau priodol eraill pan fyddant yn cynnig ychwanegu neu ddiddymu cofnod ar y rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd adeilad arfaethedig yn derbyn gwarchodaeth interim fel pe bai eisoes yn rhestredig o dan Ddeddf 1990.
49. Mewn amgylchiadau penodol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu pennu mewn rheoliadau, mae'r darpariaethau'n rhoi'r hawl i berchnogion a meddianwyr ofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r penderfyniad i restru adeilad.
50. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person i gynnal adolygiad o'r fath. Rhagwelir y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyflawni'r adolygiadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

Cyffredinol

51. Mae'r darpariaethau'n darparu ar gyfer talu iawndal os yw rhoi gwarchodaeth interim ar adeilad yn arwain at achosion o golled neu ddifrod uniongyrchol a bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r dynodiad arfaethedig.

52. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi, ar ffurf electronig, restr yn cynnwys manylion pob ased hanesyddol y rhoddir gwarchodaeth interim arno. I gefnogi'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cronfa ddata ar-lein ar ffurf map sy'n agored i'r cyhoedd ac a fydd yn rhoi, ymysg gwybodaeth arall, fanylion ar unrhyw adeilad neu heneb y rhoddir gwarchodaeth interim arno. Bydd yr adnodd ar-lein hwn ar gael cyn i'r darpariaethau ddod yn gyfraith.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

53. Bydd y darpariaethau'n gwneud y gwaith o ddynodi asedau hanesyddol yn dryloyw ac yn atebol drwy gynnwys perchnogion ac eraill yn ffurfiol yn y broses o wneud penderfyniadau a darparu mecanwaith ar gyfer adolygu penderfyniadau dynodi. Bydd cyflwyno gwarchodaeth interim yn diogelu asedau hanesyddol rhag cael eu difrodi neu eu dinistrio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mesurau i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i warchod yr amgylchedd hanesyddol yn fwy effeithiol.

Ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig (adran 22)

Cefndir

54. Mae dros 4,000 o safleoedd yng Nghymru wedi eu dynodi'n henebion cofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol yn unol â meini prawf cyhoeddedig. Ymhlith y rhain mae ystod o henebion o safleoedd archeolegol sy'n gyfan gwbl o dan ddaear, adeilion cestyll a mynachlogydd canoloesol gwyh Cymru a strwythurau milwrol o amser y Rhyfel Oer. Mae cofrestru yn sicrhau y caiff yr henebion hyn eu gwarchod rhag gwaith anawdurdodedig neu ddifrod.

Sefyllfa gyfredol

55. At ddibenion cofrestru, mae Deddf 1979 ar hyn o bryd yn diffinio heneb fel:
- (a) unrhyw adeilad, strwythur neu waith, p'un a yw o dan wyneb y ddaear ai peidio, ac unrhyw ogof neu gloddfa;
 - (b) unrhyw safle sy'n cynnwys adeilion unrhyw adeilad, strwythur neu waith neu ogof neu gloddfa o'r fath; a
 - (c) unrhyw safle sy'n cynnwys, unrhyw gerbyd, llong, awyren neu unrhyw strwythur symudol arall, neu ran neu adfail ohono, nad yw'n waith sy'n heneb, neu'n rhan o waith sy'n heneb, o fewn paragraff (a) uchod;
- a chaiff unrhyw beirianwaith sy'n atodedig i heneb ei ystyried fel rhan o'r heneb os na ellir ei ddatgysylltu heb ei ddatgymalu.⁵
56. Wrth i wybodaeth archaeolegol gynyddu ac wrth i dechnegau casglu tystiolaeth am y gorffennol wella, mae wedi dod yn amlwg nad yw'r diffiniad hwn yn

⁵ Adran 61(7) o Ddeddf 1979.

cynnwys safleoedd sy'n diogelu tystiolaeth archaeolegol amhrisiadwy o weithgaredd dynol yn y gorffennol, ond nad oes ganddynt strwythurau neu weithiau i'w gweld. Gall safleoedd cynhanes pwysig, er enghraifft, fod yn ddim mwy nag arteffactau ar wasgar.

Diben y darpariaethau

57. Mae'r darpariaethau'n ehangu cwrdd cofrestru drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru ddynodi ystod ehangach o safleoedd sy'n bwysig yn genedlaethol drwy ddarparu tystiolaeth archaeolegol o weithgaredd dynol yn y gorffennol.
58. Mae'r darpariaethau hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gwarchod y safleoedd prin a bregus hynny sy'n darparu tystiolaeth o orffennol cynnar Cymru, ond gellir hefyd eu gweithredu gyda safleoedd o gyfnodau hwyrach, megis meysydd brwydrau neu domenni gwastraff.
59. Er mai i henebion ar y tir yn bennaf y bydd y diffiniad newydd yn gymwys, gall hefyd gael ei ymestyn i gyd-destunau morol i gynnwys, er enghraifft, safleoedd o weithgaredd cynhanesyddol sydd bellach o dan y môr, neu weddillion ar wasgar o longddrylliadau dileoliad.
60. Er y bydd gan Weinidogion Cymru fwy o ddisgresiwn i gofrestru 'unrhyw beth, neu grŵp o bethau, sy'n dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol', nid oes disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer yr henebion cofrestredig yng Nghymru. Dim ond i warchod safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n bodloni'r meini prawf cyhoeddus y gwnaiff Gweinidogion Cymru weithredu'r diffiniad estynedig newydd.
61. Amcangyfrifir bod llai na 30 o safleoedd yng Nghymru o bob cyfnod yn debygol o fod yn gymwys i'w cofrestru o dan y diffiniad estynedig.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

62. Drwy ymestyn y diffiniad o heneb i gynnwys unrhyw beth, neu grŵp o bethau, sy'n dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol, bydd y darpariaethau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio cofrestru i gydnabod a gwarchod yr ystod lawn o safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru.

Diwygiadau i droseddau ac amddiffyniadau mewn perthynas â henebion cofrestredig (adrannau 15–17)

Cefndir

63. Caiff y trefniadau ar gyfer gwarchod henebion hynafol⁶ eu nodi o dan dair adran ar wahân o Ddeddf 1979. Mae pob adran yn sefydlu'r troseddau a'r amddiffyniad

⁶ Mae Deddf 1979 (Adran 61(12)) yn diffinio heneb hynafol ('ancient monument') fel a ganlyn: 'any scheduled monument and any other monument which in the opinion of the Welsh Ministers is of public interest by reason of the historic, architectural, traditional, artistic or archaeological interest attaching to it.'

sydd ar gael i berson sy'n cael ei gyhuddo o drosedd. O dan bob un o'r tair adran, caniateir i'r sawl sydd wedi ei gyhuddo i ddefnyddio'r hyn a elwir yn 'amddiffyniad anwybodaeth'.

64. Mae'r adran gyntaf⁷ yn ei gwneud yn drosedd i berson wneud gwaith penodol, neu achosi neu ganiatáu i waith penodol gael ei wneud, ar heneb gofrestredig oni bai bod cydsyniad heneb gofrestredig wedi ei gael oddi Weinidogion Cymru. Mewn achos o waith anawdurdodedig, mae'r Ddeddf yn caniatáu defnyddio amddiffyniad sy'n nodi nad oedd y sawl a gyhuddir yn gwybod bod yr heneb wedi'i gofrestru neu wedi'i leoli yn ardal y gwaith, ac nad oedd ganddo reswm i gredu hynny.
65. Mae'r ail adran⁸ yn datgan bod person sydd, heb esgus cyfreithiol, yn difrodi neu'n dinistrio heneb warchodedig yn cyflawni trosedd os oedd y person hwnnw'n gwybod bod yr heneb yn warchodedig a'i fod yn bwriadu ei ddinistrio neu ei niweidio neu ei fod wedi gweithredu'n ddiystyriol neu'n ddi-hid o statws gwarchodedig yr heneb. Rhaid dangos bod person y'i cyhuddir o drosedd o dan yr adran hon yn gwybod bod yr heneb yn warchodedig, felly mae'r amddiffyniad nad oedd statws yr heneb yn hysbys i'r person yn ymhlyg yn hyn.
66. Mae'r drydedd adran⁹ yn ei gwneud yn drosedd defnyddio offer canfod metal ar heneb warchodedig heb ganiatâd ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru. Gellir ateb cyhuddiad o ddefnyddio offer canfod metal ar safle gwarchodedig gydag amddiffyniad sy'n dweud bod y sawl sydd wedi ei gyhuddo wedi cymryd pob cam rhesymol i ganfod a oedd y safle'n warchodedig ac nad oedd yn credu ei fod.
67. Mae unrhyw berson sy'n euog o drosedd o dan yr adrannau hyn o'r Ddeddf yn agored i dderbyn dirwy neu hyd yn oed, mewn rhai amgylchiadau, garchar.

Sefyllfa gyfredol

68. Gall erlyniadau llwyddiannus yn erbyn pobl sy'n difrodi heneb neu'n gwneud gwaith anawdurdodedig ar heneb fod yn ddefnyddiol iawn i atal pobl rhag gwneud hynny yn y dyfodol. Pan fydd achos yn digwydd, gall Gweinidogion Cymru ei gyfeirio at yr heddlu i ymchwilio iddo a chysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron i ystyried erlyniad drwy'r llysoedd. Fodd bynnag, mae erlyniadau llwyddiannus yn anghyffredin iawn.
69. Er enghraifft, rhwng 2006 a 2012 cofnodwyd 119 o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig. Cyfeiriwyd pedwar o'r rhain at yr heddlu i ymchwilio iddynt, ond dim ond un a erlynwyd yn llwyddiannus — a dirwy weddol fach oedd canlyniad hynny. Roedd diffyg tystiolaeth fod y sawl a gyhuddwyd yn ymwybodol o statws gwarchodedig yr heneb yn rheswm cyffredin am beidio â bwrw ymlaen ag erlyniad.

⁷ Adran 2 o Ddeddf 1979.

⁸ Adran 28 o Ddeddf 1979. Heneb warchodedig yw unrhyw heneb gofrestredig ac unrhyw heneb o dan berchnogaeth neu warcheidwaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol o dan ddarpariaethau Deddf 1979.

⁹ Adran 42 o Ddeddf 1979.

70. Yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn sail i ddatblygiad y Bil, roedd y ffaith fod erlyniadau llwyddiannus am waith anawdurdodedig neu ddifrod i heneb gofrestredig yn anghyffredin yn peri pryder i sawl ymatebydd. Nododd nifer fod yr amddiffyniad anwybodaeth yn ffactor bwysig yn hyn o beth, a gofynnwyd am weithredu i wneud safon uwch o dystiolaeth yn ofynnol gan ddiffynwyr i ddangos nad oeddent wir yn ymwybodol o statws neu arwyddocâd lleoliad heneb.

Diben y darpariaethau

71. Diben y darpariaethau yw cyfyngu ar y defnydd o'r amddiffyniad anwybodaeth o dan Ddeddf 1979.
72. Dim ond os all y sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddysgu a oedd yna heneb gofrestredig yn yr ardal yr effeithir arni gan y gwaith y caiff diffyg gwybodaeth o statws neu leoliad heneb gofrestredig gael ei ddefnyddio fel amddiffyniad mewn achosion o wneud gwaith heb awdurdod.
73. Caiff y cyfeiriad at a yw person yn gwybod ei newid hefyd yn yr adran sy'n ymwneud â difrodi neu ddinistrio heneb warchodedig yn fwriadol; bydd trosedd wedi digwydd os oedd y sawl a gyhuddir yn gwybod, neu os dylai fod wedi gwybod, o fewn rheswm fod heneb yn warchodedig.
74. Caiff yr amddiffyniad presennol ar gyfer canfod metel ei gadw, yn amodol ar fân newidiadau i foderneiddio'r drafftio.
75. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith y byddai diddymu'r amddiffyniad anwybodaeth yn llwyr yn gam rhy fawr ac y bydd achlysuron lle caiff difrod ei achosi yn anfwriadol. Er enghraifft, gallai fod yn anodd pennu maint heneb mewn lleoliad. Am y rheswm hwn, ni fydd gwneud difrod i henebion, na gwaith anawdurdodedig arnynt, yn droseddau atebolrwydd llym.
76. Ar hyn o bryd, hysbysir perchnogion a meddianwyr am statws a lleoliad heneb ar adeg y cofrestru a chaiff y dynodiad ei wneud yn destun pridiant tir. At hynny, mae'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd a pherchnogion tir wedi cynyddu'n sylweddol ers Deddf 1979 Act ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod safon gwybodaeth o'r fath yn gwella ymhellach fyth. Bydd manylion lleoliad a maint pob heneb ar gael ar gronfa ddata ar ffurf map a fydd yn hygyrch i'r cyhoedd cyn i'r darpariaethau newydd ddod yn gyfraith.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

77. Nod y darpariaethau yw diwygio'r amddiffyniad anwybodaeth o ran statws neu leoliad heneb warchodedig fel y gellir, mewn achosion o ddifrod neu waith anawdurdodedig, ond defnyddio'r amddiffyniad hwn os oedd y sawl a gyhuddir wedi cymryd pob cam rhesymol i ddysgu a fyddai heneb warchodedig yn cael ei heffeithio.

Cyflwyno hysbysiadau gorfodi ac atal dros dro ar gyfer henebion cofrestredig (adrannau 12–14)

Cefndir

78. Mae gwneud gwaith ar heneb gofrestredig yn drosedd oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi drwy ganiatâd heneb gofrestredig gan Weinidogion Cymru neu fod y gwaith yn gymwys fel gwaith sydd wedi cael caniatâd heneb gofrestredig o dan Orchymyn Henebion (Caniatâd Dosbarth) 1994. Mae methu cydymffurfio ag amodau sy'n atodedig i ganiatâd heneb gofrestredig hefyd yn drosedd.
79. Fodd bynnag, nid yw Deddf 1979 yn galluogi Gweinidogion Cymru i stopio gwaith anawdurdodedig neu waith sy'n mynd yn groes i amodau caniatâd heneb gofrestredig a wneir ar heneb gofrestredig ar unwaith — gwaharddeb llys yw'r unig fecanwaith sydd ar gael. Nid yw Deddf 1979, chwaith, yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud adfer gwaith anawdurdodedig a chyflawni amodau caniatâd heneb gofrestredig yn ofynnol, heb erlyniad.

Sefyllfa gyfredol

80. Yn bron bob un o'r 119 o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig a gofnodwyd yng Nghymru rhwng 2006 a 2012, llwyddodd Gweinidogion Cymru, drwy gysylltiadau anffurfiol, i roi stop ar waith anawdurdodedig a sicrhau bod yr henebion dan sylw yn cael eu hatgyweirio neu eu hadfer. Fodd bynnag, os bydd person sydd yn, neu wedi, gwneud gwaith anawdurdodedig yn gwrthod cydweithredu, yr unig beth all Gweinidogion Cymru ei wneud yw ceisio gwaharddeb o'r llysoedd neu gyfeirio'r achos at yr heddlu i ymchwilio iddo ac erlyn, o bosib.
81. Mae hefyd yn anodd gweithredu'n gadarn mewn amgylchiadau lle mae person sy'n gwneud gwaith wedi methu â chydymffurfio ag amodau cydsyniad heneb gofrestredig. Mae'r rhan fwyaf o achosion o fethiant i gydymffurfio yn ymwneud â materion gweddol fach a chânt eu datrys yn anffurfiol. Serch hynny, rhwng 2006 a 2012, roedd o leiaf 17 achos lle roedd yna fethiant sylweddol i gydymffurfio ag amodau cydsyniad heneb gofrestredig.
82. Mewn nifer o'r achosion hyn, nid oedd yr ymgeiswyr wedi cyflwyno'r cofnodion ffotograffig gofynnol o'r gwaith neu nid oeddent wedi paratoi adroddiadau o gloddiadau archaeolegol. Nid tramgwyddau ansylweddol mo'r rhain; mae methu â chyflawni amod sy'n gwneud dadansoddi a chyhoeddi adroddiad archeolegol yn ofynnol mewn ffordd amserol yn gallu arwain at risg cynyddol y caiff cofnod archaeolegol amhrisiadwy ei golli neu ei beryglu.
83. Mae'r defnydd o hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig wedi ei sefydlu ers peth amser ac mae'r diffyg pwerau tebyg mewn cysylltiad â henebion cofrestredig wedi denu beirniadaeth.

Diben y darpariaethau

84. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i gymryd camau ffurfiol mewn achosion lle mae henebion cofrestredig wedi cael, neu yn cael, eu difrodi gan waith anawdurdodedig neu waith nad yw'n cydymffurfio â'r amodau sy'n atodedig i gydsyniad heneb gofrestrredig. Rhagwelir mai pur anaml ac yn gymesurol y caiff y pwerau newydd hyn eu defnyddio gan, ym mhob achos, y bydd datrysiad agored ac anffurfiol yn cael ei geisio gyntaf.
85. Mae'r darpariaethau yn cyflwyno dau hysbysiad sy'n ategu ei gilydd — yr hysbysiad stop dros dro a'r hysbysiad gorfodi henebion cofrestredig — y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu eu defnyddio ar wahân neu gyda'i gilydd. Rhagwelir y bydd yr hysbysiadau hyn fel arfer yn cael eu defnyddio mewn perthynas â henebion cofrestredig ar dir, ond mae'r darpariaethau wedi eu llunio i alluogi eu defnyddio yn yr amgylchedd morol os bydd angen.

Hysbysiad stop dros dro

86. Mae'r hysbysiad stop dros dro yn caniatáu i Weinidogion Cymru orfodi bod unrhyw waith sydd wedi eu gwneud yn ddiweddar, neu sy'n cael eu gwneud, ar heneb gofrestrredig yn groes i Ddeddf 1979 yn stopio. Fel arfer, mae hysbysiad stop dros dro yn cael effaith am 28 niwrnod o'r dyddiad y caiff ei arddangos ar y safle am y tro cyntaf — a rhaid nodi'r dyddiad hwnnw yn yr hysbysiad. Caiff hefyd ei gyflwyno i berson sy'n gwneud y gwaith a phobl sydd â diddordeb yn yr heneb neu'r tir (gan gynnwys y perchennog a/neu'r preswlydd).
87. Tra bo'r hysbysiad mewn grym, bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio datrysiad y cytunir arno ynghylch y gwaith sydd ar stop dros dro gyda'r person neu'r personau sy'n eu cyflawni. Os na ellir dod i gytundeb gwirfoddol o fewn yr amser hwnnw, gall Gweinidogion Cymru ystyried cyflwyno hysbysiad gorfodi heneb gofrestrredig neu geisio gwaharddeb, fel y disgrifir isod.
88. Mae mynd yn groes i hysbysiad stop dros dro yn drosedd ac, o'i gael yn euog, mae'r sawl a gyhuddir yn agored i dderbyn dirwy. Gall elw fod yn gymhelliad i wneud difrod bwriadol i heneb, felly mae'r Bil yn cyfarwyddo y dylai llys, wrth osod dirwy, ystyried unrhyw fudd ariannol y gallai'r person fod wedi ei gael, neu y mae'n debygol o'i gael, o ganlyniad i'r drosedd.
89. Gan mai dim ond stopio gwaith yr ystyrir ei fod yn anawdurdodedig am gyfnod cyfyngedig y mae hysbysiad stop dros dro, nid oes unrhyw drefniadau ar gyfer apêl ffurfiol. Fodd bynnag, mewn achosion lle cyflwynir hysbysiad stop dros dro yn anghywir neu lle bo Gweinidogion Cymru'n tynnu hysbysiad stop dros dro yn ôl cyn pryd heb roi cydsyniad heneb gofrestrredig, gall person sydd â buddiant mewn heneb neu dir, mewn rhai achosion, hawlio iawndal am golled neu ddifrod, gan gynnwys colled neu ddifrod sy'n deillio o dorri contract, a ddioddefir yn uniongyrchol o ganlyniad i hysbysiad stop dros dro.
90. Mae prif nodweddion hysbysiad stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig yn adlewyrchu nodweddion hysbysiad tebyg ar gyfer adeiladau rhestredig a gynigir mewn rhan arall o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol Cymru (gweler t. 30).

Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig

91. Os yw'r hysbysiad stop dros dro yn ymateb brys mewn achos lle mae'r difrod yn parhau i gael ei wneud i heneb, mae'r hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig yn rhoi mecanwaith ffurfiol i Weinidogion Cymru i nodi'r hyn sy'n ofynnol o ran atgyweirio difrod sydd wedi ei wneud i heneb, neu ei liniaru o leiaf.
92. Yn wahanol i'r hysbysiad stop dros dro, nid yw hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig yn cael effaith tan ddyddiad a nodir yn yr hysbysiad, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod o leiaf 28 niwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad. Cyflwynir yr hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw berson sydd â diddordeb yn yr heneb neu dir sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cael ei effeithio'n sylweddol gan yr hysbysiad.
93. Mae hysbysiad gorfodi yn caniatáu i Weinidogion Cymru orfodi i waith penodol ddod i ben ac i gamau gael eu cymryd i:
 - adfer yr heneb neu'r tir i'w gyflwr blaenorol;
 - lliniaru effeithiau gwaith a wnaed heb gydsyniad heneb gofrestredig, os nad yw adfer yn ymarferol neu'n ddymunol; neu
 - adfer yr heneb neu'r tir i'r cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai amodau cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd wedi'u cyflawni.
94. Mae'r diwethaf yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynnu bod unrhyw waith a allai fod ei angen i gyflawni amodau nas cyflawnwyd yn cael ei wneud, ond mae hefyd yn eu galluogi i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw adroddiadau archeolegol neu gofnodion eraill sydd heb eu cyflwyno yn cael eu cwblhau.
95. Gan y gallai hysbysiad gorfodi roi baich ar berchennog neu rywun arall sydd â buddiant mewn heneb neu dir sy'n destun gorchymyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer apelio i lys ynadon yn erbyn hysbysiad. Os gwneir apêl, ni fydd yr hysbysiad gorfodi yn cael effaith nes y penderfynir ar yr apêl, neu nes i'r apêl gael ei dynnu yn ôl.
96. Os na chaiff y camau a nodir mewn hysbysiad gorfodi eu cymryd o fewn yr amser a bennir, gallai'r heneb ddioddef difrod pellach neu gallai gwybodaeth archaeolegol gael ei golli. Mae'r ddeddfwriaeth, felly, yn darparu i berson a awdurdodir at y diben gan Weinidogion Cymru gael mynediad i'r tir i gymryd y camau angenrheidiol ac adfer y costau gan y perchennog neu'r deiliad prydles.
97. Mae methu â chydymffurfio â thelerau hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig yn drosedd ac, o'i gael yn euog, mae'r person sy'n gyfrifol yn agored i dderbyn dirwy. Yn yr enghraifft hon, eto, mae'r Bil yn cyfarwyddo'r llys, wrth osod lefel y ddirwy, i ystyried unrhyw fantais ariannol y gallai'r diffynnydd fod wedi ei gael neu y mae disgwyl iddo ei gael.

Gwaharddebion

98. Mae darpariaethau'r Bil hefyd yn caniatáu'n benodol i Weinidogion Cymru wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb os ydynt yn ei hystyried yn

angenrheidiol neu'n gyfleus i atal gwaith ar heneb gofrestredig sy'n mynd yn groes i Ddeddf 1979.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

99. Bydd y pwerau'n gwella'r ffordd y gwarchodir henebion cofrestredig Cymru, drwy roi offerynnau newydd i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt allu gweithredu'n gyflym i stopio difrod neu waith anawdurdodedig a gwneud camau i atgyweirio neu liniaru'r difrod heb orfod mynd i'r llysoedd. Bydd y darpariaethau yn rhoi pwerau gweithredu i Weinidogion Cymru o ran henebion cofrestredig sy'n weddol debyg i'r pwerau presennol, neu'r pwerau a gynigir, ar gyfer adeiladau rhestredig yng Nghymru.

Pwerau mynediad ar gyfer archwiliad archeolegol o heneb hynafol sydd mewn perygl agos o gael ei difrodi neu ei dinistrio (adran 19)

Cefndir

100. Ar hyn o bryd, mae Deddf 1979 yn cynnwys pwerau mynediad sy'n caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i gael mynediad i unrhyw dir ar unrhyw adeg resymol i fonitro a chofnodi cyflwr heneb gofrestredig ac i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cydsyniad heneb gofrestredig a gweithredu'r cydsyniad hwnnw.
101. Mae hefyd yn cynnwys pŵer penodol sy'n caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i wneud cloddiadau archaeolegol gyda'r bwriad o gofnodi materion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol ar dir y gwyddys neu y credir ei fod yn cynnwys heneb hynafol.¹⁰ Fodd bynnag, dim ond os yw pawb y mae angen eu cydsyniad wedi cytuno i hyn y ceir gwneud y cloddiadau hyn.

Sefyllfa gyfredol

102. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r gofyniad hwn am gydsyniad cyn y gellir cyflawni cloddiadau cofnodi fel y rhain yn peri anawsterau penodol, gan nad oes perygl mawr i'r dyddodion archaeolegol. Fodd bynnag, ceir achlysuron pan fo bygythiad o ddifrod neu ddinistr i'r dystiolaeth hanesyddol, a hynny o fewn byr amser. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, er enghraifft, mae erydu a stormydd wedi gadael dyddodion archaeolegol ar arfordir Cymru yn agored i effeithiau pellach y tywydd. Yn yr un modd, gall gwaith anawdurdodedig i henebion cofrestredig ddadorchuddio ac ymyrryd â thystiolaeth archaeolegol sydd angen ei asesu drwy gloddio a'i gofnodi ar unwaith. Mewn achosion o'r fath, gall yr angen am sicrhau'r cydsyniad neu'r cydsyniadau angenrheidiol arwain at golli gwybodaeth unigryw ac amhrisiadwy ynghylch gorffennol Cymru.
103. Yn ychwanegol at y problemau o gael y cydsyniadau angenrheidiol yn amserol, gall ansicrwydd ynghylch pwy sy'n berchen ar heneb, neu ddod o hyd i'r

¹⁰ Gweler troednodyn 6 uchod am ddiffiniad o 'heneb hynafol'.

perchennog gymhlethu pethau ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cofnodion ar berchenogaeth henebion ac mae'n ceisio eu diwedddaru'n gyson. Fodd bynnag, er bo pridiant tir yn cael ei roi ar heneb pan gaiff ei chofrestru, nid yw'n ofynnol rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pan gaiff heneb ei werthu neu ei drosglwyddo. Felly, mae'n bosibl na fydd gwybodaeth ynghylch perchenogaeth rhai henebion ar gael neu e bod yn anghywir. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai achosion lle nad yw perchenogaeth gyfreithiol heneb yn glir, neu achosion pan fo'r perchennog yn byw dramor a bod cysylltu ag ef yn anodd.

Diben y darpariaethau

104. Mae'r darpariaethau yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi cloddiadau archaeolegol at ddiben cofnodi tystiolaeth o heneb hynafol sydd dan fygythiad o ddifrod neu ddinistr heb gydsyniad y perchennog ac unrhyw berson arall y gellid bod angen ei gydsyniad. Bydd diddymu'r gofyniad am gydsyniad mewn achosion brys archaeolegol o'r fath yn caniatáu i berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru gymryd camau ar unwaith i gyfyngu ar faint o wybodaeth archaeolegol a gollir. Rhagwelir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff y pŵer newydd hwn ei ddefnyddio; er enghraifft, pan na wyddys pwy yw'r perchennog neu pan fo ymdrechion i gysylltu â'r perchennog wedi bod yn aflwyddiannus.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

105. Bydd y darpariaethau'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau amserol i gofnodi gwybodaeth am y dystiolaeth am orffennol Cymru sydd mewn perygl o gael ei golli drwy ddifrodi neu ddinistrio heneb hynafol.

Creu cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol (adran 18)

Cefndir

106. Yn ystod y 1960au a'r 70au, gwelwyd mwy a mwy o gydnabyddiaeth bod angen gwella sut yr oedd parciau a gerddi hanesyddol y Deyrnas Unedig yn cael eu gwarchod. Yn y degawdau a ddilynodd, sefydlwyd rhestrau a chofrestrau o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yng Nghymru, cyhoeddwyd cofrestr anstatudol mewn cyfres o gyfrolau rhwng 1994 a 2007.¹¹

Sefyllfa gyfredol

107. Ar hyn o bryd, mae'r gofrestr anstatudol yn cynnwys 386 o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Asesir safleoedd yn erbyn meini prawf cyhoeddedig a defnyddir system sgorio o raddau I, II* a II, sy'n cyfateb â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer adeiladau rhestredig.¹² Tan nawr, dim ond â chytundeb y

¹¹ Cadw ac ICOMOS, *Y Gofrestr Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru— Rhan 1: Parciau a Gerddi*, 7 cyfrol (1994–2007).

¹² Mae'r meini prawf a'r cynllun graddio yn ymddangos ym mhob cyfrol cyhoeddedig o'r gofrestr ac yn Atodiad B o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol – Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth*.

perchennog y caiff parciau eu cynnwys. O ganlyniad, mae yna nifer o safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf cyhoeddedig nad ydynt wedi cael eu rhoi ar y gofrestr gan nad yw perchennog y tir wedi rhoi ei ganiatâd. Mae hyn yn effeithio'n andwyol ar allu'r gofrestr i roi darlun cyflawn o barciau a gerddi hanesyddol hysbys o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru.

108. Ar hyn o bryd, nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer adolygu cofnod neu ddiwygio ffiniau cofnod ar y gofrestr. Oherwydd natur wirfoddol y gofrestr, gallai perchennog tir geisio tynnu safle oddi ar y gofrestr wrth brynu eiddo neu cyn gwneud cais cynllunio.
109. Cyhoeddwyd y gofrestr ar ffurf cyfrolau argraffedig rhanbarthol, ac y mae'r rhain yn gyffredinol ond ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus mawr neu lyfrgelloedd academiaidd. Nid oes un rhestr o bob safle sydd wedi'i gofrestru ar gael ar bapur nac ar-lein ac mae cael mynediad at wybodaeth yn anodd.
110. At hynny, gan nad yw'r safleoedd ar y gofrestr wedi eu dynodi, nid ydynt yn ymddangos fel pridiant tir ar y Gofrestrfa Tir. Ni ddeuir o hyd i safle, felly, yn ystod chwiliad cyfreithiol a wneir cyn gwerthu. O ganlyniad, nid oes mecanwaith dibynadwy i ddarpar brynwr allu pennu a yw safle wedi'i gynnwys ar y gofrestr, ac eithrio ffonio Cadw neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn uniongyrchol.
111. Datblygwyd y gofrestr i helpu perchnogion, Awdurdodau Cynllunio Lleol, datblygwyr, cyrff statudol a phawb arall sy'n gysylltiedig â pharciau a gerddi hanesyddol gyda'r gwaith cadwraeth. Rhoddir pwys ar safleoedd sydd ar y gofrestr gan *Bolisi Cynllunio Cymru*, sy'n nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i'r gofrestr wrth lunio cynlluniau datblygu ac y gallai effaith datblygiad arfaethedig ar safle sydd ar y gofrestr, neu'r lleoliad o'i gwmpas, fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.¹³
112. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* hefyd yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori â Cadw ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar safleoedd gradd I a II*. Mae Cadw yn ceisio sicrhau yr ymgynghorir ag ef ar bob cais sy'n effeithio ar safleoedd ar y gofrestr, nid yw hyn yn digwydd bob amser, fodd bynnag.
113. Hefyd, mae rôl i'r gofrestr y tu hwnt i'r system gynllunio. Gall fod o gymorth gyda ffurfiau eraill o reoli tir, er enghraifft, drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd a rheoli coetir. Gall cynnwys parc neu ardd ar y gofrestr hefyd fod yn ffactor pwysig o ran sicrhau cymorth grant ar gyfer prosiectau cadwraeth a gwaith adfer.

Diben y darpariaethau

114. Mae'r darpariaethau'n rhoi dyletswydd statudol newydd ar Weinidogion Cymru i gasglu a chynnal cofrestr o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gofrestr drwy ychwanegu neu ddiddymu safleoedd neu drwy ddiwygio cofnodion sydd yno eisoes. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud newid i'r gofrestr, rhaid

¹³ *Polisi Cynllunio Cymru* (Gorffennaf 2014), paragraffau 6.4.9 a 6.5.25.

i Weinidogion Cymru hysbysu'r perchennog, y meddiannwr a'r awdurdod lleol neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol.

115. Ni fydd cyfyngiadau cyfreithiol ychwanegol ar barciau a gerddi hanesyddol na threfn gydsynio newydd yn cyd-fynd â statws statudol newydd y gofrestr. Yn hytrach, bydd y safleoedd ar y gofrestr yn parhau i dderbyn y lefel bresennol o warchodaeth drwy'r drefn gynllunio. Fodd bynnag, y bwriad yw diwygio rheoliadau i gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i ymgynghori â Cadw ar bob cais cynllunio sy'n effeithio ar safleoedd gradd I a II* a chyda mudiad amwynder enwebedig ar bob cais cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi cofrestredig.
116. I gefnogi'r darpariaethau newydd, caiff gwybodaeth ddiweddar ar bob parc a gardd gofrestredig (gan gynnwys gwybodaeth am eu ffiniau) ei chynnwys ar gronfa ddata ar ffurf map fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth hygyrch ar bob safle sydd ar y gofrestr i bartïon â diddordeb, gan gynnwys darpar brynwyr.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

117. Bydd y darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rhestr gynhwysfawr o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru a sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, cyrff statudol ac unrhyw un arall sydd â buddiant yn y parciau a'r gerddi gyda'u gwaith cadwraeth.

Ehangu cwrmpas gwaith brys ar adeiladau rhestredig ac adennill costau drwy gyflwyno pridiant tir lleol (adran 30)

Cefndir

118. Mae cynnal adeiladau hanesyddol mewn cyflwr da a'i defnyddio yn cyfrannu at les amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru. Nid yw perchnogion adeiladau rhestredig o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol benodol i sicrhau bod eu heiddo mewn cyflwr da, ond mae'r rhan fwyaf o'r oddeutu 30,000 o adeiladau rhestredig sydd yng Nghymru yn cael eu cadw mewn cyflwr da.
119. Serch hynny, mae tua chwarter o'r adeiladau rhestredig yng Nghymru yn agored i risg neu'n fregus. Mae hyn yn aml gan nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer eu swyddogaethau gwreiddiol bellach a'u bod wedi cael eu hesgeuluso. Wrth i gymdeithas Cymru newid yn yr unfed ganrif ar hugain, mae adeiladau fferm hanesyddol, adeiladau diwydiannol hanesyddol a chapeli ac eglwysi yn arbennig o agored i risg. Mae unrhyw adeilad gwad sy'n cael ei esgeuluso yn ased sy'n cael ei wastraffu ac mae'n cael effaith andwyol ar yr hyn sydd o'i gwmpas, sy'n gallu niweidio llewyrch economaidd a chymdeithasol ardal.
120. Mewn sawl achos, gall awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda pherchnogion i'w hannog a'u cefnogi i weithredu i ddiogelu adeiladau bregus a dod o hyd i ddefnydd newydd, hir dymor iddynt. Mewn achosion eraill, efallai y bydd

awdurdodau cynllunio lleol yn gweld na all perchnogion fforddio gwneud y gwaith sydd ei angen, neu nad ydynt yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am adeiladau sydd wedi eu hesgeuluso.

Sefyllfa gyfredol

121. Pan fydd cynorthwyo perchennog (a gall hyn gynnwys grantiau) yn methu â darparu datrysiad i'r broblem o adeilad rhestredig sy'n dirywio, gall awdurdod cynllunio lleol ddefnyddio ystod o bwerau statudol i fynd i'r afael â'r mater. Ymhlith y rhain mae pŵer penodol o dan Ddeddf 1990 sy'n galluogi awdurdod cynllunio lleol i wneud unrhyw waith yr ymddengys bod ei angen ar unwaith ar gyfer diogelu adeilad rhestredig. Os bydd awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwneud gwaith o'r fath, rhaid rhoi manylion y gwaith mewn hysbysiad i'w gyflwyno i'r perchennog o leiaf saith niwrnod cyn dechrau'r gwaith.
122. Mae canllawiau cynllunio cyfredol Cymru'n cyfyngu gwaith brys i atgyweirio — megis gwaith y gellid bod ei angen i atal adeilad rhag cwmpo, gwaith i'w ddiogelu rhag y tywydd neu rag fandaliaeth a lladrad. Mae'r canllawiau cyfredol yn cyfarwyddo y dylai unrhyw gamau a gymerir fod y lleiaf sydd ei angen i ddelio â'r bygythiad i ddiogelwch yr adeilad.¹⁴ Gall y perchennog ddewis gwneud y gwaith a bennir yn yr hysbysiad, ond, os na fydd yn gwneud hynny, gall yr awdurdod gweithredu lleol weithredu.
123. Fel y mae ar hyn o bryd, dim ond ar adeiladau nad ydynt wedi'u meddiannu neu rannau o adeiladau sydd wedi eu meddiannu ond nad ydynt yn cael eu defnyddio y mae Deddf 1990 yn caniatáu gwaith bryd. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar gymhwyster gwaith brys a gallai wneud awdurdodau cynllunio lleol yn amharod i'w defnyddio. Gall defnyddio adeilad i storio pethau, er enghraifft, gyfrif fel meddiannu at ddibenion y ddeddf hon, gan atal gwneud gwaith brys. Yn wir, mae wedi ei awgrymu bod perchnogion yn symud nwyddau i adeiladau yn fwriadol i atal gwaith.
124. Os yw adeilad wedi ei feddiannu'n rhannol, efallai y bydd awdurdod cynllunio lleol yn amharod i fwrw ymlaen â gwaith bryd oherwydd ei bod yn anodd llunio rhaglen effeithiol sy'n effeithio ar y rhannau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn unig. Mae adeiladau a feddiannir yn rhannol yn cyfrif am 46 y cant o'r adeiladau sy'n agored i risg yng Nghymru,¹⁵ felly gall hyn fod yn ystyriaeth bwysig mewn llawer o achosion lle y gellir bod angen gwaith brys.
125. Ffactor arall a allai wneud awdurdodau cynllunio lleol yn amharod i wneud gwaith yw'r risg ariannol sydd ynghlwm wrth hynny. Gall y risg fod yn sylweddol wrth ddelio ag adeiladau hanesyddol sydd wedi mynd a'u pen iddynt. Mae Deddf 1990 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adennill treuliau ar gyfer gwaith brys. Gallai'r awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad i berchennog yn gofyn am dalu treuliau, gan gynnwys unrhyw gostau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu rhywbeth dros dro i gynnal neu gysgodi'r adeilad. O fewn 28 niwrnod o

¹⁴ Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, paragraff 132.

¹⁵ Mae cyfanswm o 1,657 o adeiladau wedi ei categorio fel adeiladau agored i risg a 769 wedi'u categorio fel wedi'u meddiannu'n rhannol. Daw'r ffigurau hyn o Gronfa Ddata Cyflwr Adeiladau Rhestredig Cadw (2011).

gyflwyno'r hysbysiad hwnnw, fodd bynnag, gall y perchennog apelio'r treuliau drwy ofyn am benderfyniad gan Weinidogion Cymru. Wrth roi hysbysiad am eu penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu rhesymau a nodi'r swm y gall yr awdurdod cynllunio lleol ei adennill.

126. Serch hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi mecanwaith penodol i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer adennill y treuliau hynny. Rhaid mynd â'r mater i'r llysoedd. Os yw perchenogaeth yr adeilad yn aneglur, yn gymhleth neu os yw'r adeilad yn berchen i gwmni sydd wedi ei gofrestru y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gall adennill dyled fod yn broses hir, cymhleth a drud. Dyma yw profiad awdurdodau cynllunio lleol Cymru mewn sawl achos dros y blynyddoedd diweddar ac, yn yr hinsawdd ariannol gyfyngedig sydd ohoni, mae unrhyw ansicrwydd ynghylch adennill treuliau yn gwneud pobl yn amharod iawn i gyflawni gwaith brys.
127. Mae Deddf 1990 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gwaith brys ar adeiladau rhestredig. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gwnaiff Gweinidogion Cymru arfer pwerau o'r fath. Er enghraifft, pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn amharod i wneud gwaith, neu os yw adeilad dan berchnogaeth awdurdod cynllunio lleol.¹⁶ Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio eu pwerau gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig sy'n bwysig i gynnal cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth.

Diben y darpariaethau

128. Mae'r darpariaethau'n ehangu cwmpas gwaith brys ar adeiladau a feddiannir ac adeiladau nad ydynt wedi'u meddiannu ac maent yn diddymu'r cyfyngiad y gellir ond gwneud gwaith brys ar ddarnau nas defnyddir o adeiladau a feddiannir. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i weithredu hyd yn oed pan fo adeiladau sy'n dirywio yn cael eu defnyddio i storio ac at ddibenion eraill nad ydynt yn ymwneud â phreswyllo ac yn ei gwneud yn haws iddynt ddatblygu cynlluniau ar gyfer adeiladau sy'n cael eu defnyddio'n rhannol.
129. Os yw adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyllo, gall gwaith bryd gael eu caniatáu o hyd, cyhyd â nad ydynt yn ymyrryd yn afresymol â'r defnydd hwnnw. Mae hyn yn gyfyngiad pwysig sydd â'r nod o ddiogelu hawliau dynol y preswylwyr, ond yn ymarferol prin iawn fydd yr achlysuron pan fydd hyn yn ymyrryd â gwaith brys. Efallai y bydd achosion, fodd bynnag, lle y byddai'n cael effaith ar waith brys ar adeiladau sydd wedi eu meddiannu'n rhannol.
130. Nid yw'r darpariaethau'n gwneud unrhyw newidiadau i natur y gwaith y gellir ei wneud, ond byddai gofyn cyflwyno hysbysiad am waith brys i'r perchennog a'r meddiannwr os yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl. Mae'r darpariaethau hefyd yn gwneud newidiadau pwysig i'r mesurau cyfredol o ran adennill costau gwaith brys.
131. Os yw Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar y costau sy'n adennilladwy am waith brys, ar hyn o bryd nid oes mecanwaith i apelio ymhellach. I gywiro hyn, bydd y

¹⁶ Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, paragraff 131.

darpariaethau yn caniatáu i naill ai perchennog yr adeilad neu'r awdurdod cynllunio lleol apelio i'r llys sirol o fewn 28 niwrnod o'r dyfarniad.

132. Mae achosion lle mae misoedd, os nad blynnyddoedd, wedi mynd heibio cyn i awdurdodau cynllunio lleol allu adennill costau sy'n codi o waith brys. Oherwydd hyn, bydd y Bil hefyd yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i godi tâl llog, ar gyfradd sydd i'w bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, o'r adeg y daw hysbysiad sy'n gwneud talu treuliau yn ofynnol yn weithredol (ar ôl dyfarnu ar unrhyw apeliadau) hyd nes iddynt adennill y treuliau ac unrhyw log sydd wedi cronni.
133. Y newid pwysicaf y mae'r Bil yn ei wneud i hwyluso adennill treuliau am waith brys yw eu sefydlu fel pridiant tir. Pridiant tir lleol yw'r tâl cyfreithiol hwn ac mae'n cael effaith cyn gynted ag y daw'r hysbysiad tâl yn weithredol ac yn aros yn effeithiol tan fod y ddyled ac unrhyw log sydd wedi cronni wedi'u talu.
134. I alluogi awdurdodau cynllunio lleol i orfodi'r taliadau hyn, mae'r Bil yn rhoi pwerau gwerthu a lesio iddynt, pŵer derbyn lesau a ildir a phenodi derbynnydd yn union fel pe baent yn forgais ar yr eiddo drwy weithred.
135. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys hefyd i Weinidogion Cymru, ond y disgwyl yw mai pur anaml y byddant yn defnyddio eu pwerau estynedig i wneud gwaith brys neu adennill costau, os o gwbl.
136. Dylai cyflwyno'r pridiant tir lleol a'r pwerau gorfodi a ddaw gyda hynny helpu i leihau'r risg ariannol i awdurdodau cynllunio sy'n gysylltiedig â gwaith brys. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog awdurdodau cynllunio lleol i wneud mwy o ddefnydd o'r ffordd bwysig hon o atal llawer o adeiladau rhestredig mwyaf agored i risg Cymru rhag dirywio ymhellach.
137. Er gwaethaf y newidiadau y bydd y Bil yn eu gwneud, dim ond rhan o'r datrysiad i'r broblem gymhleth o adeilad rhestredig sy'n cael ei esgeuluso yw gwaith brys, o'i hanfod. I achub adeilad sy'n agored i risg, rhaid sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd a fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy iddo — mae hyn yn rhywbeth na all deddfwriaeth a chanllawiau fyth ei gyflawni ar eu pen eu hun.
138. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio ar draws y sector amgylchedd hanesyddol i atal dirywiad adeiladau hanesyddol sy'n agored i risg. Mae adolygiad o gyflwr adeiladau wedi'i roi ar waith ar draws Cymru gyfan. Bydd yn darparu gwybodaeth am gyflwr adeiladau rhestredig ac yn pennu adeiladau bregus neu adeiladau sy'n agored i risg. Bydd hyn yn galluogi datblygu strategaethau sy'n targedu'r adeiladau hynny sydd fwyaf angen y cymorth.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

139. Nod y darpariaethau hyn yw gwneud gwaith brys yn ffordd fwy defnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol allu delio â'r broblem o adeiladau rhestredig sy'n cael eu hesgeuluso. Gan leihau'r cyfyngiadau ar gymhwysedd gwaith brys, dylai ei gwneud yn haws i awdurdodau cynllunio lleol gynllunio a gweithredu gwneud gwaith atgyweirio brys ar ystod ehangach o adeiladau rhestredig sy'n agored i

risg. Drwy wneud costau gwaith brys yn bridiant tir lleol a sefydlu pwerau gorfodi, dylai'r darpariaethau helpu awdurdodau lleol reoli'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gwaith brys. Dylai'r newidiadau deddfwriaethol hyn roi mwy o hyder i awdurdodau cynllunio lleol wrth wneud penderfyniadau i atal dirywiad pellach adeiladau rhestredig sydd o bwys i Gymru drwy wneud gwaith brys.

Cyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig (adran 29)

Cefndir

140. Mae Deddf 1990 yn cyfarwyddo bod angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith i ddymchwel adeilad rhestredig neu i ymestyn neu newid adeilad rhestredig mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n bennaf gyfrifol am weinyddu'r system cydsyniad adeilad rhestredig yn ei ardal, gan gynnwys derbyn a phenderfynu ar geisiadau, ac unrhyw gamau gorfodi sydd eu hangen hefyd.
141. O dan y Ddeddf, mae'n drosedd gwneud gwaith ar adeilad rhestredig, neu fethu â chydymffurfio ag amodau cydsyniad adeilad rhestredig. Fodd bynnag, yn hytrach na erlyn, efallai y byddai'n fwy cyfleu i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig. Yn yr hysbysiad, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol bennu'r gwaith sy'n mynd yn groes i, neu wedi mynd yn groes i, Ddeddf 1990 a gwneud y canlynol yn ofynnol:
- adfer yr adeilad i'w gyflwr blaenorol;
 - lleddfu effaith gwaith anawdurdodedig, os nad yw adfer yn bosibl neu'n ddymunol; neu
 - adfer yr adeilad i'r cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai'r amodau sy'n atodedig i gydsyniad adeilad rhestredig wedi cael eu cyflawni.
142. Ni all hysbysiad gorfodi gael effaith yn gynt na 28 niwrnod ar ôl ei gyflwyno neu hyd nes y dyfernir ar unrhyw apêl yn ei erbyn.

Sefyllfa gyfredol

143. Gall gwaith anawdurdodedig ddifrodi neu ddinistrio nodweddion arbennig adeilad rhestredig yn gyflym. Rhwng 2008 a 2013, cofnododd awdurdodau cynllunio lleol Cymru 501 o achosion o waith anawdurdodedig i adeiladau rhestredig — ffigur sy'n siŵr o fod yn llai na'r nifer gwirioneddol oherwydd cofnodi anghyson. Mewn sawl achos bydd ymyriad gan swyddog awdurdod cynllunio lleol — gyda nodyn atgoffa, efallai, fod gwaith anawdurdodedig yn drosedd — yn dod â gwaith anawdurdodedig i ben yn amserol.
144. Fodd bynnag, os bydd person yn gwrthod stopio gwneud gwaith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig, nid yw Deddf 1990 ar hyn o bryd yn rhoi pwerau penodol i wneud stopio ar unwaith yn ofynnol. Ni all hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig

gael effaith am o leiaf 28 niwrnod. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gallai adeilad gael ei ddifrodi neu ei ddymchwel yn gyfan gwbl yn hawdd iawn. Mae erlyn yn broses rhy araf i ddelio â sefyllfa o'r fath. Felly, heblaw bod awdurdod cynllunio lleol yn gallu defnyddio pwerau eraill o dan y system rheolaeth gynllunio, yr unig opsiwn yw gwneud cais i'r llysoedd am waharddeb yn erbyn parhau'r gwaith.

Diben y darpariaethau

145. Mae'r darpariaethau'n diwygio Deddf 1990 i roi'r pŵer i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad stop dros dro i atal gwaith yr ymddengys iddynt hwy eu bod yn effeithio'n andwyol ar ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol adeilad rhestredig. Y disgwyl yw, fodd bynnag, y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, fel mater o drefn, yn ceisio sicrhau bod gwaith sy'n peri niwed yn cael ei stopio dros dro o wirfodd ac mai dim ond os yw ased hanesyddol mewn perygl yn y dyfodol agos ac nad yw'r person sy'n gyfrifol yn cydweithio neu os na ellir cysylltu ag ef y defnyddir hysbysiad stop dros dro.
146. Mae'r hysbysiad stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig yn debyg iawn i'r hysbysiad stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig a gynigir mewn man arall o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (gweler t. 20) a'r hysbysiadau a ddefnyddir yn eang eisoes ym maes rheoli datblygu cyffredinol.
147. Caiff hysbysiad stop dros dro ei gyflwyno'n ysgrifenedig. Bydd yn nodi'r gwaith y mae'n rhaid ei stopio ar unwaith ac yn esbonio bod mynd yn groes i'r hysbysiad yn drosedd. Gellir rhoi'r hysbysiad i unrhyw berson yr ymddengys i'r awdurdod ei fod yn gwneud y gwaith neu ei fod â diddordeb yn yr adeilad dan sylw. Rhaid hefyd arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar yr adeilad. Bydd yn cael effaith o'r dyddiad y caiff ei arddangos am y tro cyntaf — rhaid nodi'r dyddiad hwnnw yn yr hysbysiad.
148. Ar ôl 28 niwrnod bydd yr hysbysiad yn peidio â bod yn effeithiol. Os na fydd yr awdurdod lleol wedi sicrhau datrysiaid ar gyfer y sefyllfa erbyn hynny, gall ddewis rhoi hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ar yr adeilad, neu gall geisio gwaharddeb o'r llysoedd.
149. O'i gael yn euog o fynd yn groes i Hysbysiad Stop Dros Dro, bydd person yn agored i dderbyn dirwy. I gydnabod y ffaith y gallai'r posibilrwydd o elw annog person i anwybyddu hysbysiad a pharhau i ddymchwel adeilad neu ei ddifrodi i'r fath raddau fel na fyddai bellach yn gymwys i'w restru, mae'r Bil yn cyfarwyddo'r llys i ystyried, wrth osod y ddirwy, unrhyw fuddion ariannol y mae'r unigolyn wedi ei dderbyn neu y gallai ei dderbyn o ganlyniad i'r drosedd.
150. Nid yw'r darpariaethau'n darparu ar gyfer apêl yn erbyn Hysbysiad Stop Dros Dro. Fodd bynnag, mewn achosion lle cyflwynir hysbysiad stop dros dro yn anghywir neu lle bo Awdurdod Cynllunio Lleol yn tynnu hysbysiad stop dros dro yn ôl cyn pryd heb roi cydsyniad heneb gofrestredig neu, caniateir hawliadau am iawndal gan unrhyw berson oedd â buddiant mewn adeilad ar y diwrnod y cafodd hysbysiad ei arddangos gyntaf ac a ddioddefodd golled neu ddifrod uniongyrchol, gan gynnwys cosbau am dorri contract, yn deillio o gyflwyno'r hysbysiad.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

151. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu llunio i alluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i gymryd camau amserol ac effeithiol i warchod adeiladau rhestredig yng Nghymru rhag gwaith anawdurdodedig sy'n bygwth yr hyn sy'n eu gwneud yn ddiddorol yn bensaernïol ac yn hanesyddol.

Creu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol (adran 33 a 34(2)(k))

Cefndir

152. Mae enwau lleoedd hanesyddol yn dystiolaeth werthfawr o ran hanes cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. Mae enwau aneddiadau, tai a ffermydd, caeau a nodweddion naturiol yn darparu gwybodaeth am arferion amaethyddol y presennol a'r gorffennol, diwydiannau lleol, sut mae'r dirwedd wedi newid a chymunedau'r presennol a'r gorffennol. Maent yn dystiolaeth o ddatblygiad treftadaeth ieithyddol gyfoethog — yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.
153. Daw gwerth enwau lleoedd i raddau helaeth o'r ffaith eu bod yn dueddol o newid wrth i amser fynd heibio. Gall academyddion ddefnyddio'r newidiadau hyn i olrhain datblygiad hanesyddol laith, symudiadau cymunedau a sut meant yn rhyngweithio, yn ogystal â newidiadau cymdeithasol. Gall newidiadau o'r fath hefyd ddarparu cliwiau am sut y mae defnydd y dirwedd wedi newid dros amser. Er enghraifft, gall archaeolegwyr a haneswyr ddefnyddio'r dystiolaeth i ganfod a nodi safleoedd manau a digwyddiadau hanesyddol.
154. Fodd bynnag, gall newidiadau o'r fath i enwau lleoedd hefyd fod yn ddadleuol. Gwêl rhai ddisodliad enwau hanesyddol gan ffurfiau newydd fel bygythiad i laith ac hanes. Mae pryderon penodol wedi'u mynegi am ddisodli enwau Cymraeg gan ffurfiau Saesneg. Mae sawl grŵp wedi galw am ddiogelu enwau lleoedd.

Y sefyllfa gyfredol

155. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae astudio enwau lleoedd wedi cael cryn sylw gan academyddion a grwpiau gwirfoddol. Mae setiau data cenedlaethol a lleol sylweddol wedi cael eu creu i gofnodi'r cyfoeth o dystiolaeth am enwau lleoedd ledled Cymru — enwau sydd bellach ond yn goroesi mewn dogfennau a mapiau hanesyddol, ac enwau y'u defnyddir hyd heddiw. both those that only survive in historical documents and maps, and those that are still in active use. Mae prosiectau torfol arloesol — Cynefin: Mapiau Degwm Cymru¹⁷ a Cymru 1900 Wales¹⁸ — yn dod â gwirfoddolwyr sydd â diddordeb yn y maes at ei gilydd drwy'r rhyngrwyd i nodi'r lluo o enwau lleoedd sydd ar y mapiau degwm ac ar fapiau cynnar yr arolwg ordnans.
156. Mae'r pedwar cofnod hanesyddol rhanbarthol yng Nghymru eisoes yn cynnwys gwybodaeth ar enwau lleoedd hanesyddol, ond mae wedi'i gasglu ar sail ad hoc yn ystod prosiectau ac iddynt ffocws penodol i raddau helaeth.

¹⁷ <http://cynefin.archiveswales.org.uk/>

¹⁸ <http://www.cymru1900wales.org/#/>

157. Yn ystod y Cyfnod 1 o'r broses graffu ar y Bil, derbyniodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol dystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn pwysleisio pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol ac ynj gofyn am eu diogelu. Yn ystod ei ail ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol, ond pwysleisodd yr anawsterau nid ansylweddol a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno deddfwriaeth i'w diogelu.
158. Yn sgil y dystiolaeth hon, rhoddodd y Pwyllgor argymhelliad yn ei Adroddiad Cyfnod 1 y dylid diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol yn yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yng nghofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru.
159. Derbyniodd y Dirprwy Weinidog yr argymhelliad a chafodd y gwelliannau a ddrafftiodd i roi effaith i hyn eu cynnwys yn llwyddiannus yn y Bil yn ystod Cyfnod 2.

Diben y darpariaethau

160. Bydd y ddarpariaeth hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.
161. Y disgwyl yw y bydd Gweinidogion Cymru'n cyflawni'r ddyletswydd hon drwy ddirprwyo cyfrifoldeb am y rhestr i gorff cenedlaethol cydnabyddedig, megis Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru.
162. Bydd y rhestr ganolog hon yn ffordd gost-effeithlon o gasglu a rhannu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol. Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod 2, bydd adran 34(2) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cofnod amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad at yr wybodaeth sydd ar y rhestr am enwau lleoedd hanesyddol yn ei ardal. Er mai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fydd y brif ffordd o gael mynediad at y rhestr, efallai y bydd hefyd ar gael yn uniongyrchol drwy ffynonellau eraill ar y we.
163. Drwy bennu mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fydd y brif ffordd o gael mynediad at y rhestr, bydd y darpariaethau'n sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth leol o ran yr wybodaeth ac yn sicrhau ei bod ar gael ar y cyd â data eraill a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ar yr amgylchedd hanesyddol.
164. Bydd ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad at y rhestr ganolog, yn hytrach na dal y wybodaeth eu hunain, yn eu diogelu rhag y risg y byddai nifer y cofnodion enwau lleoedd — a fydd yn gannoedd o filoedd ledled Cymru — yn ormod ac yn boddi'r 150,000 o gofnodion amgylchedd hanesyddol y maent eisoes yn eu dal.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

165. Bydd creu rhestr genedlaethol o enwau lleoedd hanesyddol, y bydd yn rhaid i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad ati, yn codi

ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o werth a phwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol. Bydd hefyd yn caniatáu i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol gynnwys gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol wrth roi cynor ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt ddyfarnu ar geisiadau datblygu.

Mesurau i wella mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy

Gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol greu cofnodion amgylchedd hanesyddol a'u cynnal (adrannau 34–37)

Cefndir

166. Mae'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn storio gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ac asedau hanesyddol penodol mewn ardal benodol, yn trefnu'r wybodaeth honno'n systematig, ac yn darparu mynediad ati. Mae'n ffynhonnell bwysig o wybodaeth i bobl sy'n gwneud penderfyniadau am reolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r wybodaeth sydd ynddo yn fan cychwyn pwysig ar gyfer prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, ac ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. Y cofnod yw'r sail ar gyfer rhoi cyngor ar faterion rheoli treftadaeth ac archaeoleg i awdurdodau cynllunio lleol. Heb yr wybodaeth hon, ni fyddai'r cyngor hanfodol sy'n sail, er enghraifft i'r gwaith o asesu effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol yn gallu bod yn hollol ddibynadwy.

Sefyllfa gyfredol

167. Ar hyn o bryd, pedwar cofnod amgylchedd hanesyddol sydd yng Nghymru. Maent yn deillio o'r Cofnodion Safleoedd a henebion a sefydlwyd gan y pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yn yr 1970au. Yr hyn a ysgogodd creu'r rhain, yn bennaf, oedd diffyg gwybodaeth archaeolegol a, yn sgil hyn, y gweddillion archaeolegol oedd yn cael eu colli ar ôl datblygiad. Rhyngddynt, mae'r pedwar set o gofnodion amgylcheddol hanesyddol yn gofnod cynhwysfawr ar gyfer Cymru gyfan.
168. Fe'u defnyddir i:
- gynorthwyo polisiâu strategol a lleol ar gyfer cadwraeth mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol;
 - darparu gwybodaeth am asedau hanesyddol a allai gael eu heffeithio gan geisiadau cynllunio a chynigion datblygu eraill;
 - darparu sail o wybodaeth ar gyfer adfywio ar sail treftadaeth;
 - cyfrannu at weithgareddau addysgol a dysgu gydol oes;
 - cynorthwyo ymchwil; a
 - cynorthwyo'r cyhoedd i gymryd rhan a mwynhau'r amgylchedd hanesyddol, a hyrwyddo hyn.

169. Mae'r cofnodion yn ategu'r archifau parhaol a ddelir gan awdurdodau lleol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru drwy dynnu gwybodaeth ynghyd am yr amgylchedd hanesyddol a chyfeirio pobl at adnoddau manwl a chynhwysfawr eraill.
170. Ar hyn o bryd, mae'r pedwar set o gofnodion yn berchen i ymddiriedolaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol, mae'r ymddiriedolaethau'n rhai elusennol ac nid oes iddynt statws statudol. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, sy'n elusennau cofrestredig, yn cynnal y cofnodion ar ran yr ymddiriedolaethau elusennol cysylltiedig ac yn darparu mynediad cyhoeddus atynt. Maent yn darparu cyngor rheoli datblygu ar effaith cynigion cynllunio ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol yn eu hardaloedd. Mae'r cyngor hwn yn seiliedig, i raddau helaeth, ar yr wybodaeth a ddelir yn y cofnodion. Gall yr wybodaeth hon fod ar ffurf dogfennau papur, ffotograffau neu ddata digidol. Gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad at y cofnodion yn uniongyrchol, yn swyddfeydd ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, neu drwy system fynediad ar-lein em (*Archwilio*) a'r ap ffôn cysylltiedig.
171. Daw'r cyllid pennaf ar gyfer rheoli a gwella'r cofnodion a darparu mynediad ato i'r cyhoedd fel cyllid grant i Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru gan Weinidogion Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Caiff cyfraniadau eraill eu derbyn gan awdurdodau lleol, drwy waith a ariennir yn fasnachol, neu o adnoddau elusennol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru eu hunain.
172. Mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf o HERs yn berchen i'r awdurdod lleol perthnasol, sydd hefyd yn eu rheoli'n uniongyrchol. Fodd bynnag, gan nad oes ganddynt statws na rôl statudol, maent yn agored i doriadau cyllidebol. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn cael eu cyngor archaeolegol gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru neu, mewn nifer fechan o achosion, gan eu swyddogion eu hunain. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth ffurfiol gan awdurdodau lleol mai'r cofnodion yw ffynhonnell y cyngor yn anghyson ar y gorau ac mae statws cytundebau lefel gwasanaeth presennol rhwng awdurdodau cynllunio lleol ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn amrywio'n fawr. Mae hyn wedi arwain at alwadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol berchen yn ffurfiol ar gofnod sy'n bodloni safon gydnabyddedig er mwyn darparu'r wybodaeth ar gyfer cyngor mewn perthynas â rheoli archaeolegol a rheoli treftadaethol eraill.

Diben y darpariaethau

173. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru greu cofnod, ei ddiweddarau'n rheolaidd a gwneud trefniadau i'r wybodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol gael ei chofnodi, ei storio a'i rhoi ar gael yn gyhoeddus. Mae'r darpariaethau'n pennu beth y mae'n rhaid i gofnod amgylchedd hanesyddol ei ddarparu ar gyfer ardal pob awdurdod, gan gynnwys: gwybodaeth ar asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig, asedau hanesyddol yr ystyrir eu bod o ddiddordeb lleol, manylion unrhyw archwiliadau perthnasol sydd wedi eu cynnal yn ardal yr awdurdod, a mynediad at fanylion o bob enw hanesyddol ar y rhestr a grëir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

174. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol roi ei gofnodion ar gael am ddim i'r cyhoedd gyda chynghor a chymorth proffesiynol er mwyn dehongli'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys. Fodd bynnag, gall yr awdurdod godi tâl rhesymol i adennill costau rhai gwasanaethau penodol sy'n gysylltiedig â'r cofnodion.
175. Mae'r darpariaethau'n caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ddirprwyo'r gwaith i greu a chynnal a chadw ei gofnodion i 'berson' neu ddarparwr arall. Y disgwyl yw y bydd awdurdodau'n debygol o fod eisiau parhau â'r trefniadau cyfredol, sef bod ymddiriedolaethau archaeolegol ac ymddiriedolaethau elusennol y cofnodion cysylltiedig yn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Bydd cymorth grant ar gyfer y trefniant hwn yn parhau i gael ei ddarparu gan Weinidogion Cymru, naill ai'n uniongyrchol nau'n anuniongyrchol. Bydd yr awdurdodau yn rhydd i wneud trefniadau amgen, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod unrhyw drefniadau o'r fath yn briodol ac yn bodloni'r safon sy'n ofynnol gan HER.
176. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau, ar ôl ymgynghori, ar greu cofnodion a'u cynnal a'u cadw, y trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, cyhoeddi HERs a phennu unrhyw ffioedd. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

177. Nod y darpariaethau yw sicrhau dyfodol HERs yng Nghymru, fel bod gwybodaeth awdurdodol am yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei chofnodi a'i storio mewn ffordd effeithiol a'i bod ar gael i'r cyhoedd ar lefel leol gyda chymorth proffesiynol priodol i'w dehongli at ddibenion ymchwil, addysg a chyfeirio yn y dyfodol. O hyn allan, gall awdurdodau cynllunio lleol a rheolwyr tir eraill seilio penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol eu hardal — penderfyniadau cynllunio strategol a rheoli datblygu, er enghraifft — ar gynghor, gwybodaeth a thystiolaeth awdurdodol o'r HERs.

Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth (adrannau 11 a 28)

Cefndir

178. Rheoleiddir gwaith awdurdodedig ar asedau hanesyddol dynodedig gan gydsyniadau a geir gan yr awdurdodau perthnasol. Rhoddir cydsyniadau adeiladau rhestredig gan awdurdodau cynllunio lleol fel arfer, ond mewn ambell achos penodol caiff y ceisiadau eu cyfeirio at Weinidogion Cymru. Gan Weinidogion Cymru y ceir pob cydsyniad heneb gofrestredig.
179. Mae trefn y ddau fath o gydsyniad yn weddol debyg. Mae'r cydsyniadau ysgrifenedig yn nodi'r gwaith a ganiateir ac efallai y bydd rhai amodau penodol. Mae gwneud gwaith heb y cydsyniad angenrheidiol, neu fethu cydymffurfio â chydsyniad neu amodau cydsyniad yn drosedd a all arwain at gyflwyno hysbysiad gorfodi (mae hyn eisoes ar waith ar gyfer adeiladau rhestredig a chaiff ei gynnig mewn man arall o'r Bil ar gyfer henebion cofrestredig) neu erlyniad.

180. Fel arfer, mae angen cynigion manwl ar geisiadau am gydsyniadau, gan gynnwys disgrifiadau trylwyr o'r gwaith y bwriedir ei wneud, wedi'u hategu â mapiau a phlantiau neu luniau.¹⁹ Mae gwybodaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r awdurdod dan sylw werthuso'r cais, ond gall paratoi ceisiadau o'r fath fod yn dasg gymhleth, hir a drud.

Sefyllfa gyfredol

181. Dim ond weithiau y bydd angen i berchennog un ased dynodedig gyflwyno cais am gydsyniad, ac efallai na fyth rhaid iddo wneud hynny o gwbl. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid i berchnogion preifat a sefydliadol ystadau mawr neu fwy nag un ased wneud cais yn rheolaidd am ystod o wahanol gydsyniadau am waith atgyweirio neu newidiadau; gallai hyn gynnwys cydsyniadau adeiladau rhestredig a chydsyniadau henebion cofrestredig. Os bydd llawer o'r asedau o fath neu oedran tebyg — adeiladau amaethyddol neu strwythurau'n ymwneud a chamlesi a dyfrffyrdd, er enghraifft — gallai perchennog wynebu gorfod gwneud ceisiadau ailadroddus ar gyfer gwaith tebyg, gan orfod newid bob un i siwtio'r ased unigol er mwyn bodloni'r gofynion ymgeisio.
182. Gall y system gyfredol fod yn un hir a llafurus i berchnogion a'r awdurdodau, boed hynny'n awdurdodau cynllunio lleol neu Lywodraeth Cymru. Hyd yn oed os bydd y ceisydd ac awdurdodau, ill dau, yn cefnogi rhaglen o waith y bwriedir ei gwneud ar sawl ased hanesyddol dynodedig, gall pawb ynghlwm fod yn sownd mewn proses a wneir yn fwy cymhleth, hir a drud gan yr holl wahanol gydsyniadau sydd eu hangen. Yn wir, gall cyfres o geisiadau bach gymylu amcanion cyffredinol rhaglen gadwraeth ac arwain at anghydfodau ynghylch manylion penodol.
183. Gall cynlluniau rheoli helpu i leihau peth o'r baich hwn. Gellir negodi cynlluniau ar gyfer safleoedd cymhleth sy'n cynnwys mwy nag un adeilad rhestredig ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio lleol a pherchnogion a rheolwyr. Nid oes gan gytundeb o'r fath statws statudol, fodd bynnag, felly gall ond fod yn femorandwm o ddealltwriaeth anffurfiol ac mae'n rhaid, yn dal i fod, ceisio am gydsyniadau adeiladau rhestredig ar wahân. Serch hynny, gall cynlluniau o'r fath symleiddio'r broses o baratoi a phrosesu ceisiadau.
184. Ar hyn o bryd, mae Deddf 1979 yn gwneud darpariaeth statudol ar gyfer cynlluniau rheoli ar gyfer henebion hynafol a thir gerllaw er mwyn caniatáu ystod o fân waith cynnal a chadw heb orfod cael cydsyniad heneb gofrestrredig. Fodd bynnag, byddai angen ceisiadau ar wahân am unrhyw waith sy'n fwy sylweddol. At hynny, dim ond gyda meddiannydd yr heneb a thir cysylltiedig y gellir dod i gytundeb o'r fath, er y gall partïon eraill â diddordeb fod yn rhan ohono.
185. Yn ddi-os, mae cynlluniau o'r fath yn help i reoli'r asedau hanesyddol dan sylw mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, ni allant, oherwydd eu nodweddion a'u cyfyngiadau, fod yn sail i ddatrysiad integredig i'r baich o gydsyniadau y mae perchnogion ystadau mawr neu fwy nag un ased yn eu hwynebu.

¹⁹ Cynigir proses wedi'i symleiddio o ran rhai cydsyniadau heneb gofrestrredig penodol mewn man arall yn y Bil (gweler tt. 41–3).

Diben y darpariaethau

186. Mae'r darpariaethau hyn yn cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth i Gymru. Bydd y cytundebau hyn, sy'n hollol wirfoddol, yn dod â'r awdurdodau perthnasol ynghyd â pherchnogion a phartïon eraill â diddordeb i roi cynllun ar waith ar gyfer rheoli ased hanesyddol dynodedig, neu fwy nag un ased, yn y tymor canolig i'r tymor hir. Fel cytundebau statudol, byddant yn gallu cynnwys cydsyniadau adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig i awdurdodi gwaith a fydd wedi ei bennu gan y partïon ac y bydd y partïon yn cytuno arno. Bydd cydsyniadau o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwaith gweddol fach sydd ei angen ar gyfer cadwraeth a rheolaeth asedau niferus y byddai, fel arall, angen ceisiadau olynol ac ailadroddus ar eu cyfer. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd fel a ganlyn:
- safleoedd cymhleth sy'n cynnwys sawl ased hanesyddol gwahanol. Er enghraifft, plasty yn ei leoliad hanesyddol, safle amaethyddol hanesyddol, neu gampws prifysgol;
 - safleoedd ar wasgar o un math o ased, neu ased tebyg, sydd oll o dan berchnogaeth yr un person neu gorff. Er enghraifft, pontydd sy'n berchen i awdurdod lleol; a
 - safleoedd sydd eisoes dan drefn reoli y gallai cytundeb partneriaeth dreftadaeth weithio ar y cyd â hi.
187. Mae ymchwil yn awgrymu y bydd sawl mantais yn sgil cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth, gan gynnwys:
- cyfathrebu rheolaidd rhwng perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol a chyrrff statudol eraill, a fyddai'n cyfrannu at leihau nifer yr achosion o waith nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau'n cael ei wneud ar asedau treftadaeth;
 - arbed amser ac adnoddau o gymharu â chydsyniadau unigol;
 - mwy o sicrwydd ac eglurder ymysg partneriaid ynghylch gwaith sydd wedi cael cydsyniad;
 - mwy o hyblygrwydd i berchnogion o ran rheoli eu hasedau treftadaeth — byddai hyn yn cyfrannu at symleiddio a gwella'r ffordd y rheolir gwaith a wneir fel mater o drefn; a
 - gwella cysondeb a pherfformiad o ran rheoli asedau hanesyddol o fewn ystâd gymhleth.²⁰
188. Mae'r darpariaethau'n addasu Deddf 1979 a Deddf 1990 er mwyn caniatáu sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer naill ai henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig. Mewn rhai achosion, gellir sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth 'cyfansawdd' gan gynnwys henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig ond, mewn gwirionedd, byddai'r rhain yn gyntundebau ar wahân, yn gyfreithiol, a fyddai'n cydreddeg.

²⁰ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78120/hrp_breport_eightpilotprojects.pdf

189. Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen i gytundebau partneriaeth dreftadaeth fod yn hyblyg er mwyn iddynt allu ymdrin â gwahanol fathau o safleoedd a gofynion cadwraeth yn ogystal â gwahanol drefniadau o ran perchnogaeth a sut y mae safleoedd yn cael eu rheoli a'u rôl yn y gymuned yn ehangach.
190. Bydd angen i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys perchennog neu berchnogion yr asedau a'r awdurdod cydsynio perthnasol. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhan o unrhyw gytundeb partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig. Gyda'r rhan fwyaf o gytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig, yr awdurdod cynllunio lleol fydd yr awdurdod cydsynio, ond mewn achosion lle mai awdurdod cynllunio lleol yw'r perchennog, byddai Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel awdurdod cydsynio.
191. Gellir cynnwys partïon eraill mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth hefyd, megis Gweinidogion Cymru (os nad hwy yw'r awdurdod cydsynio), awdurdod cynllunio lleol (os nad hwnnw yw'r awdurdod cydsynio), meddiannydd neu reolwr ased hanesyddol, unrhyw berson sydd â diddordeb mewn ased neu unrhyw berson sydd â gwybodaeth arbennig am neu ddiddordeb mean ased, neu asedau tebyg yn gyffredinol.
192. Bydd cyfranogiad eang o'r fath a ganiateir gan y Bil yn sicrhau y bydd y cytundebau hyn yn gallu cynnwys pawb a all gyfrannu at reoli'r asedau hanesyddol dan sylw mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, efallai y byddai Gweinidogion Cymru, yn dymuno bod yn rhan o gytundeb partneriaeth dreftadaeth sy'n effeithio ar ran o Safle Treftadaeth y Byd neu ystod o safleoedd mewn sawl rhan o Gymru. Yn yr un modd, gall grŵp cymuned neu amwynder sy'n gwerthfawrogi grŵp o asedau ac sy'n dymuno chwarae rôl fwy gweithredol yn y gwaith o'u rheoli ddewis ymuno mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth.
193. Yn ganolog i unrhyw gytundeb partneriaeth dreftadaeth fydd cynllun rheoli wedi'i negodi ar gyfer yr asedau dan sylw. Bydd y cynllun yn nodi'r gwaith y bydd angen ei wneud dros gyfnod y cytundeb. Unwaith y bydd y partïon yn cytuno ar y gwaith hynny, caiff y cydsyniadau sydd eu hangen, yn ogystal; ag unrhyw amodau atodedig, eu cynnwys yn y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Ond nid pecynnau o gydsyniadau yn unig fydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth; mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i gytundebau partneriaeth dreftadaeth ddelio ag ystod o faterion sy'n effeithio ar reolaeth asedau hanesyddol. Ymhlith y rhain mae:
- pennu gwaith a fyddai angen cydsyniadau pellach neu waith na fyddai angen cydsyniadau pellach;
 - materion yn ymwneud â chynnal a chadw a diogelu;
 - trefniadau'n ymwneud â darparu mynediad i'r cyhoedd a chyfleusterau cysylltiedig neu gyfyngu ar fynediad neu ddefnydd; a
 - darparu taliadau gan Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol tuag at gostau gwaith o dan y cytundeb neu waith sy'n deillio o'r cytundeb.
194. Ni wnaiff cytundebau partneriaeth dreftadaeth ddarparu cydsyniadau am bob gwaith y gellid ei angen ar yr asedau dynodedig. Ni ellir rhagweld pob gwaith na

chytuno arnynt ymlaen llaw. Bydd angen cysyniadau unigol o hyd ar gyfer ymyriadau sylweddol a fydd yn cael effaith sylweddol ar asedau, gan y byddai angen ystyried y cynlluniau'n fanwl ac yn llawn. Yn ogystal, bydd angen gwneud cais ar wahân am unrhyw ganiatâd cynllunio a allai fod ei angen i gyd-fynd â'r cydsyniadau a gynhwysir yn y cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

195. Y bwriad yw y terfynir cytundeb partneriaeth dreftadaeth ac unrhyw gydsyniadau yr oedd yn eu darparu yn awtomatig os bydd perchennog yn torri'r cytundeb. Wedi hynny, felly, byddai angen cydsyniadau unigol ar gyfer pob gwaith ar asedau dynodedig, hyd yn oed os yw'r gwaith dan sylw wedi ei gytuno a bod cydsyniad wedi ei gael ar ei gyfer o dan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Os caiff y cytundeb ei dorri, gellir cyflwyno hysbysiad gorfodi ar y perchennog neu ei erlyn, os oes trosedd wedi'i gyflawni a dan Ddeddfau 1979 neu 1990.
196. Os na chaiff amodau mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth, boed yn rhai sy'n atodedig i gydsyniad neu'n rhai sy'n atodedig i'r cytundeb yn gyffredinol, eu cyflawni, disgwylir, yn y lle cyntaf, mai mater i'w negodi fydd hynny rhwng yr awdurdod cydsynio a phartïon y cytundeb. Os na ellir datrys y sefyllfa, gall y cytundeb partneriaeth dreftadaeth, pan fetha popeth arall, gael ei derfynu a gall hysbysiad gorfodi gael ei gyflwyno.
197. Mae'n anochel y bydd angen i bob parti sy'n rhan o'r broses fuddsoddi cryn dipyn o amser ac arian i sefydlu cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Bydd angen cyflawni asesiadau manwl o'r asedau sydd i'w cynnwys yn y cytundeb a natur y gwaith y bwriedir ei wneud a bydd angen llunio cynllun rheoli cyn gallu setlo ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth. Er mwyn adennill y costau cychwynnol hyn drwy arbedion ar y cydsyniadau unigol a fyddai eu hangen fel arall, bydd angen i gytundeb partneriaeth dreftadaeth bara am gyfnod hir o amser. Bydd angen i'r partiïon benderfynu ar gyfnod cytundeb partneriaeth dreftadaeth, a nodi hynny yn y cytundeb.
198. Yn ogystal â chynnig arbedion dros y tymor canolig a'r tymor hir, bydd cytundeb partneriaeth dreftadaeth hefyd yn cyflwyno ffordd fwy cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth i reoli asedau hanesyddol dynodedig yn gynaliadwy. Bydd hyn yn arwain at fwy o sicrwydd o ran dyheadau a gofynion pawb sydd ynghlwm. Bydd hefyd yn darparu ffordd fwy cyson a chydlynol o ran cadwraeth a rheoli asedau, a hynny'n seiliedig ar:
 - gwell dealltwriaeth o arwyddocâd asedau a'r risgiau sy'n eu bygwth;
 - gwell dealltwriaeth o fuddiannau a allai wrthdaro o ran y gwaith o reoli'r asedau a phennu'r datrysiadau cadarnhaol priodol; a
 - ffordd ragweithiol yn hytrach nag adweithiol o reoli safleoedd drwy raglenni o waith wedi'u cynllunio.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

199. Mae darpariaethau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth wedi eu fframio i wella'r ffordd y caiff asedau hanesyddol dynodedig Cymru eu rheoli'n gynaliadwy drwy greu cynlluniau rheoli y cytunir arnynt gan awdurdodau cydsynio, perchnogion a phartïon eraill sydd â diddordeb gan weithio mewn partneriaeth wirfoddol. Bydd y

cytundebau'n cynorthwyo rhaglenni gwaith integredig a chydlynol dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd hyn yn fuddiol i'r asedau ac yn arwain t arbedion i'r partïon.

Diwygio'r broses cydsyniad heneb gofrestredig (adrannau 5–10)

Cefndir

200. Mae Deddf 1979 yn ei gwneud yn drosedd gwneud gwaith penodol ar heneb gofrestredig oni bai ei fod wedi'i awdurdodi naill ai gan gydsyniad heneb gofrestredig gan Weinidogion Cymru, neu fel gwaith a ganiateir o dan gydsyniadau penodol.

Sefyllfa gyfredol

201. Ar hyn o bryd, caiff ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar ffurflen sy'n rhagnodedig gan Reoliadau. Er nad oes rhaid ymgynghori ar geisiadau cydsyniad heneb gofrestredig, yn arferol ymgynghorir â chyrff allanol perthnasol ar yr achlysuron prin pan fydd ceisiadau'n ddadleuol neu'n gymhleth.
202. Ar ôl i gais gael ei ystyried, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon llythyr penderfyniad interim at y ceisydd. Bydd y llythyr yn nodi unrhyw amodau y maent yn bwriadu eu hatodi i'r cydsyniad heneb gofrestredig. Caiff y ceisydd dderbyn y penderfyniad arfaethedig neu wneud sylwadau pellach cyn y dyfarnir ar y cais a chyn i'r llythyr penderfyniad terfynol gael ei gyflwyno. Hefyd, mae gan y ceisydd hawl i ymchwiliad cyhoeddus lleol neu wrandawriad gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru cyn y dyfarniad terfynol.
203. Mae'r broses cydsyniad heneb gofrestredig, yn gyffredinol, wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae sawl agwedd arni y gellir ei gwella, ei diweddarau neu ei symleiddio.
204. Nid yw'r ffordd gyfredol o weithio — yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig — yn rhoi ystyriaeth i ffyrdd newydd o gyflawni gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi dod i'r fei ers 1979. Yn benodol, y gallu i gyflwyno a rhoi cydsyniadau yn electronig.
205. Mae cydsyniad heneb gofrestredig yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o waith ar heneb gofrestredig ac mae nifer sylweddol o geisiadau yn ymwneud â chynigion i wneud mân waith syml neu atgyweiriadau bach. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgresiwn o ran gweithrediad y broses cydsyniad heneb gofrestredig — gall hyn olygu nad yw perchnogion yn awyddus i wneud gwaith a fyddai o fudd i heneb gan fod y broses yn rhy drafferthus.
206. Nid oes mecanwaith cyfreithiol i alluogi i Weinidogion Cymru roi cydsyniad am waith anawdurdodedig sydd eisoes wedi'i gyflawni. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod o fudd i heneb i gadw'r gwaith anawdurdodedig sydd wedi ei wneud arni, yn enwedig pan fyddai gwneud gwaith i ddadwneud y gwaith gwreiddion yn arwain at fwy o ddifrod i heneb neu pan fyddai gwaith nad yw'n niweidiol yn gadael yr heneb yn fregus os na chaiff ei gyflawni. Hefyd, gallai fod yn briodol,

mewn rhai achosion, i ddiddymu'r bygythiad o erlyniad neu gosb arall yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai ffermwr wneud gwaith anawdurdodedig ond buddiol i atgyweirio rhywbeth, ac wedyn bod yn agored i gosbau ariannol o dan gynllun amaeth-amgylcheddol.

207. Gan nad oes ffi'n gysylltiedig â chais am gydsyniad heneb gofrestredig, mae'r broses yn agored i gael ei cham-drin, a hynny mewn ffordd ddrud wrth i gais ar ôl cais gael ei wneud am yr un gwaith, neu waith tebyg, hyd yn oed ar ôl cael ei wrthod o'r blaen. Yn yr un modd, mae'r system gyfredol yn caniatáu ceisiadau am wrandawiadau beth bynnag yw penderfyniad arfaethedig gweinidogion Cymru.
208. Yn gynyddol, nid yw'r hawl i gael gwrandawriad o'r fath yn dilyn penderfyniad interim yn cyd-fynd â phrosesau cydsyniadau eraill, cyfochrog. Mae cynigion i ddiddymu'r hawl hwn mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio a cheisiadau cydsyniad adeiladau rhestredig. Yn ymarferol, mae ceisiadau am wrandawiadau yn bethau prin iawn. Ffordd fwy effeithlon, amserol a chost-effeithiol o wneud hyn fyddai cael person penodedig i ystyried sylwadau ysgrifenedig.

Diben y darpariaethau

209. Mae'r darpariaethau'n diwygio Deddf 1979 i foderneiddio a symleiddio'r broses cydsyniad heneb gofrestredig gyfredol a chyflwyno gwelliannau penodol.
210. Maent yn llacio'r rheolau sy'n llywodraethu'r broses cydsyniad heneb gofrestredig i ganiatáu gwneud ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig, a rhoi'r cydsyniad, heb orfod eu gwneud yn ysgrifenedig.
211. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno gweithdrefn ymgeisio symlach er mwyn iddynt allu, gyda chytundeb y perchennog, awdurdodi set diffiniedig o waith mân heb fod angen ffurflen gais neu lythyr penderfyniad interim.
212. Mae'r darpariaethau'n caniatáu i gydsyniad heneb gofrestredig gael ei roi am waith anawdurdodedig sydd eisoes wedi'i wneud ac ar gyfer cadw gwaith anawdurdodedig.
213. Gall Gweinidogion Cymru wrthod ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig pan fo cais tebyg wedi'i wrthod yn y ddwy flynedd flaenorol ac nad oes unrhyw newid sylweddol o ran yr ystyriaethau perthnasol.
214. Ni fydd gan ymgeiswyr am gydsyniad heneb gofrestredig hawl awtomatig i wrandawriad cyn y dyfernir ar eu cais. Yn lle hynny, mae'r darpariaethau'n rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru i ddewis y ffordd fwyaf priodol o dair ar gyfer derbyn sylwadau ar geisiadau cydsyniad heneb gofrestredig:
 - ymchwiliad cyhoeddus lleol
 - gwradawriad gerbron person penodedig; neu
 - sylwaday ysgrifenedig a gyflwynir i berson penodedig.

Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr holl sylwadau a wneir mewn cysylltiad â chais ac unrhyw adroddiad a baratoir gan berson a benodir i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad neu i dderbyn sylwadau ysgrifenedig.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

215. Nod y darpariaethau yw symleiddio a diweddaru'r broses cydsyniad heneb gofrestredig a'i halinio â gweithdrefnau'r cydsyniad adeilad rhestredig a'r system gynllunio.

Llacio'r amodau o ran cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru (adran 27)

Cefndir

216. Mae adeiladau hanesyddol yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r stoc adeiladau yng Nghymru — cafod tua 35 y cant o adeiladau Cymru eu hadeiladu cyn 1919. Cyfran fechan o adeiladau hanesyddol Cymru sydd wedi'i diogelu drwy restru — tua 2 y cant, ac mae llawer iawn o'r gweddill yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Fodd bynnag, yn bron bob cymuned yng Nghymru, mae yna adeiladau hanesyddol sy'n wag ac yn dirywio'n raddol wrth aros am ddefnydd newydd i'w hadfywio.
217. Gallai perchennog neu ddatblygwr sy'n ystyried adfer adeilad o'r fath boeni y byddai unrhyw brosiect ar gyfer ailddefnyddio'r adeilad ddenu sylw at ei nodweddion pensaernïol a'i gymeriad hanesyddol, gan arwain at ei restru. Er nad yw rhestru yn atal ailddefnyddio adeiladau, mae llawer o ddatblygwyr yn ei ystyried yn faich drud ac yn boendod o ran datblygu. Gall y posibilrwydd o restru adeilad hanesyddol olygu nad yw perchennog neu ddatblygwr yn fodlon ystyried cynlluniau a allai roi dyfodol cynaliadwy i'r adeilad.

Sefyllfa gyfredol

218. O dan delerau Deddf 1990, gall unrhyw berson wneud cais i Weinidogion Cymru am dystysgrif yn nodi nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhestru adeilad penodol. Bydd derbyn cais am 'dystysgrif imiwnedd rhag rhestru' o'r fath yn golygu y bydd yr adeilad yn destun ystyriaeth lawn ar gyfer cael ei ddynodi. Os bydd yr adeilad yn bodloni'r meini prawf, bydd Gweinidogion Cymru yn rhestru'r adeilad a chaiff y ceisydd benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r prosiect gan wybod y bydd angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith.
219. Os na fydd yr adeilad yn bodoli'r meini prawf, bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno 'tystysgrif imiwnedd' yn nodi nad yw'n fwriad ganddynt restru'r adeilad am gyfnod o bum mlynedd. Bydd cyflwyno 'tystysgrif imiwnedd' hefyd yn atal awdurdod cynllunio lleol rhag rhoi hysbysiad cadwraeth ar yr adeilad am yr un cyfnod.²¹ Bydd 'tystysgrif imiwnedd', felly, yn rhoi'r hyder i berchennog neu

²¹ O dan Ddeddf 1990, gall awdurdod cynllunio lleol ddefnyddio hysbysiad diogelu adeilad i warchod adeilad nad yw wedi'i restru. Gall wneud hyn am gyfnod o 6 mis os yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol nu hanesyddol arbennig ac os yw mewn perygl o gael ei ddymchwel neu ei newid mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar y diddordeb hwnnw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, caiff yr adeilad ei ystyried ar gyfer ei ddynodi.

ddatblygwr fwrw ymlaen â datblygiad heb orfod poeni y bydd rhestru neu hysbysiad gwarchodaeth yn tarfu ar y gwaith.

220. Ar hyn o bryd, dim ond ar ôl cyflwyno cais cynllunio neu ar ôl cael caniatâd cynllunio y caiff cais am 'dystysgrif imiwnedd' gael ei wneud. Mae tystiolaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr yn dangos, fodd bynnag, fod dichonoldeb prosiect yn cael ei bennu cyn i gais gynllunio gael ei gyflwyno. Gall datblygwr fuddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau mewn cynlluniau ar gyfer adeilad hanesyddol cyn gallu gwneud cais am dystysgrif imiwnedd, a gallai rhestru adeilad yn ystod cam diweddar yn natblygiad prosiect arwain at oedi drud, neu hyd yn oed at orfod cefnu ar y gwaith yn gyfan gwbl.

Diben y darpariaethau

221. Mae'r darpariaethau'n llacio'r amodai ar gyfer gwneud cais am dystysgrif imiwnedd, fel y gellir ei wneud ar unrhyw adeg, heb orfod ystyried caniatâd cynllunio. Fel arall, ni wneir unrhyw newid i'r system gyfredol o ran gweinyddu dystysgrifau imiwnedd.
222. Bydd perchennog neu ddatblygwr yn gallu, felly, wneud cais am dystysgrif imiwnedd ymhell ocyn buddsoddi amser ac arian ar astudiaeth ddichonolden neu gais cynllunio. Ni chodir tâl am gais am dystysgrif imiwnedd, ond bydd gofyn i geisydd roi gwybodaeth am leoliad a chymeriad hanesyddol yr adeilad.

Yr effeithiau y bwriedir i'r darpariaethau eu cael

223. Drwy ganiatáu i gais am dystysgrif imiwnedd i gael ei wneud ar unrhyw adeg, bydd y darpariaethau'n caniatáu i berchnogion neu datblygwyr sy'n ystyried ailddefnyddio adeilad hanesyddol fwrw ymlaen gyda mwy o hyder. Os gellir cael dystysgrif imiwnedd i egluro statws adeilad ar ddechrau prosiecty, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd datblygwyr yn fwy tebygol o fuddsoddi amser ac arian i lunio cynlluniau ar gyfer adeiladau hanesyddol nad ydynt wedi ei dynodi, sicrhau caniatâd cynllunio a chwblhau eu prosiectau.

Adran 4: Ymgynghori

224. Wrth ddatblygu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), defnyddiwyd yr adborth a gafwyd drwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar draws y sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad cyhoeddus a chomisiynwyd ymchwil benodol. Gweler crynodeb o'r gweithgarwch hwn isod.

Ymgysylltu

225. Yn ystod 2012, trefnodd Cadw gyfres o ddigwyddiadau gyda phobl sy'n gweithio ym maes treftadaeth, y trydydd sector ac aelodau'r cyhoedd i gael eu barn ar y systemau cadwraeth a rheolaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd ym maes yr amgylchedd hanesyddol, ac i wrando ar eu syniadau ar gyfer gwella'r systemau hynny.
- Cynhaliwyd tri gweithdy sganio'r gorwel yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno ym mis Chwefror a mis Mawrth 2012. Daeth dros 90 o bobl i'r gweithdai hyn a oedd yn gyfle i nodi'r heriau y mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol, a thrafod sut y gellid ymateb iddynt. Cyhoeddwyd adroddiad ar y gweithdai hyn ar-lein: <http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/policy/towardsaheritagebillforwales/?skip=1&lang=cy>
 - Trefnwyd pedwar gweithdy arbenigol ym mis Mai a mis Mehefin 2012 i ymchwilio i faterion penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Daeth bron i 130 o bobl i sesiynau ar:
 - yr amgylchedd hanesyddol adeiledig (yn Aberystwyth);
 - tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol (yn Ystangbwl, Sir Benfro);
 - archaeoleg (yng Nghyffordd Llandudno); ac
 - asedau hanesyddol o safbwynt y perchennog (yng Nghastell Ffon-mon, Bro Morgannwg).
 - Daeth bron i 150 o bobl i'r bedwaredd gynhadledd Treftadaeth, 'Dyfodol ein Gorffennol', a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2012, lle bu'r rhanddeiliaid yn trafod yn frwd y materion a ddylai fod yn rhan o'r Bil.
 - Gyda chymorth CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, trefnwyd tri digwyddiad Dweud eich Dweud, digwyddiadau agored a chyhoeddus, yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2012. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn yng Nghaerfyrddin, Aberhonddu a Chonwy, ac roeddent yn gyfle i sefydliadau'r trydydd sector a chymunedau lleol gyfrannu eu sylwadau er mwyn helpu i ddatblygu'r Bil. Cymerodd dros 120 o bobl ran yn y digwyddiadau hyn.
226. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau hyn i helpu Llywodraeth Cymru i lunio *Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru* a'i 'Brif Gynllun Gweithredu', a hefyd y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Ymgynghori

Dyfodol ein gorffennol

227. Cafodd ymgynghoriad ffurfiol deuddeg wythnos o hyd, *Dyfodol ein gorffennol*, ei lansio ar 18 Gorffennol 2013 er mwyn cael ymatebion gan y sector amgylchedd hanesyddol a'r cyhoedd i'r cynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru oedd yn cael eu hystyried ar gyfer y Bil a'r mesurau cysylltiedig.
228. Cafwyd 177 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd llawer ohonynt yn cynnwys sylwadau manwl a deallus a oedd yn dangos pa mor bwysig yw'r amgylchedd hanesyddol i bobl Cymru.
229. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn dangos eu cefnogaeth glir i gynigion y Bil i ehangu'r gallu i warchod, lle bo angen hynny, a gwneud y systemau rheoli presennol yn fwy hyblyg, a hefyd wella atebolrwydd a thryloywder. Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos y bydd y canllawiau gwell a gynigir i helpu i reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy yr un mor bwysig i lawer o bobl â'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth.
230. Mae adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddo ar gael ar-lein: <http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/heritage-bill/?skip=1&lang=cy>
231. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori hefyd. Bu tîm Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gweithio gyda thîm Dysgu Gydol Oes Cadw i ddatblygu a chynnal digwyddiadau ymgynghori i fyfyrwyr chweched dosbarth Bagloriaeth Cymru yn Abertawe a Chonwy/Cyffordd Llandudno. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn gweithgaredd a oedd yn seiliedig ar gais go iawn am gydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig. Cawsant eu hannog i ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol ac i drafod rhai o'r materion craidd sy'n gysylltiedig â'r angen i'w reoli mewn modd cynaliadwy. Cymerodd cyfanswm o 187 o fyfyrwyr o wyth ysgol ran yn y digwyddiadau hyn a gafodd eu gwerthfawrogi gan y bobl ifanc a'u hathrawon. Mae adroddiad ar y sesiynau hyn yn yr adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad (gweler y ddolen uchod).
232. Cynhaliwyd dau weithdy hefyd. Roedd 21 o randdeiliaid allweddol yn bresennol yn y cyntaf a oedd yn edrych yn fanwl ar ddyfodol y trydydd sector yng Nghymru yng ngoleuni cynigion yr ymgynghoriad. Mae dadansoddiad o ganlyniadau'r gweithdy a'r ymatebion i'r cwestiynau am y cynigion, wedi ei gynnwys yn adroddiad Hyder Consulting, sef gwerthusiad o'r opsiynau ar gyfer dyfodol y cymorth a roddir gan y trydydd sector o ran gofalu am amgylchedd hanesyddol Cymru (gweler isod).
233. Daeth dros 40 o bobl i'r ail weithdy. Roedd yn gyfle i randdeiliaid allweddol wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r opsiynau oedd o dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw, er mwyn i'r rhanddeiliaid allu ymateb i'r ymgynghoriad mewn modd cynhwysfawr.

Diwygiadau arfaethedig i droseddau ac amddiffyniadau yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

234. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, *Dyfodol ein gorffennol*, eu pryder am brinder yr erlyniadau am ddifrodi henebion cofrestredig. Yng ngoleuni hyn a'r dystiolaeth ategol, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad atodol chwe wythnos o hyd ar y *Diwygiadau arfaethedig i droseddau ac amddiffyniadau yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979*, er mwyn cael barn am gynigion a fyddai'n cyfyngu ar y defnydd posibl o 'amddiffyniad anwybodaeth', hynny yw rhywun yn dadlau nad oedd yn ymwybodol o statws neu leoliad heneb gofrestredig.
235. Daeth cyfanswm o 60 o ymatebion i law, a bu cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Mae adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad a'r ymatebion iddo ar gael ar-lein: <http://wales.gov.uk/consultations/cultureandsport/proposed-amendments-to-the-criminal-offences-and-defences/?skip=1&lang=cy>

Ymchwil

236. Er mwyn cael tystiolaeth fanylach i helpu i lunio polisi ar gyfer y Bil a'r gyfres o fesurau a fydd yn ei ategu, comisiynwyd y pedair astudiaeth ymchwil canlynol.
- Ove Arup & Partners Ltd, Bil Treftadaeth i Gymru: prosiect ymchwil ar dri o'r pynciau sy'n dod i'r amlwg (cytundebau partneriaeth dreftadaeth, ardaloedd hanesyddol a rhestrau lleol) (Saesneg yn unig)
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, Bil Treftadaeth i Gymru: Opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau cadwraeth amgylchedd hanesyddol awdurdodau lleol (Saesneg yn unig)
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, Mireinio'r broses ar gyfer Cydsyniad Adeilad Rhestredig (Saesneg yn unig)
 - Hyder Consulting (UK) Ltd, Gwerthusiad o'r opsiynau ar gyfer dyfodol y cymorth a roddir gan y trydydd sector o ran gofalu am amgylchedd hanesyddol Cymru (Saesneg yn unig)
237. Mae pob un ohonynt ar gael ar-lein: <http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/policy/towardsaheritagebillforwales/?skip=1&lang=cy>

Adran 5: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

238. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyfarwyddydau a chyhoeddi canllawiau. Mae tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a thabl 5.2 (cyfarwyddydau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn:
- y person neu'r corff y mae'r pŵer wedi'i roi iddo;
 - ffurf y pŵer, hynny yw sut y mae'r pŵer i gael ei arfer;
 - priodoldeb y pŵer dirprwyedig; a
 - y weithdrefn i'w defnyddio — hynny yw, 'cadarnhaol', 'negyddol' neu 'dim gweithdrefn', ynghyd â' pham yr ystyrir hyn yn briodol.
239. I helpu pobl ddeall y defnydd y bwriedir i Weinidogion Cymru ei wneud o'r pwerau hyn, mae 'Datganiad o Fwriad y Polisi' ar wahân wedi ei gyhoeddi i gydfynd â'r Bil.
240. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynnwys is-ddeddfwriaeth lle yr ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Caiff union natur yr ymgynghoriad ei benderfynu pan gaiff y cynigion eu ffurfioli.

Tabl 5.1 — Crynodeb o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Rhan 2: Diwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979					
Adran	Pŵer wedi ei roi i...	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y Weithdrefn
Adran 3(1), sy'n mewnosod Adran 1AA(6) — Dyletswydd i ymgynghori ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at y categorïau o bobl y pennir yn y Bil y dylent gael hysbysiad wedi'i gyflwyno iddynt o fwriad i gynnwys neu hepgor heneb, neu o fwriad i ddiwygio'r Atodlen.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1979 er mwyn ehangu'r categorïau o bobl y dylid eu hysbysu yn ffurfiol.
Adran 3(1), sy'n mewnosod adran 1AD(2) — Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais am ddigollediad i Weinidogion Cymru ynddo, a sut i wneud hynny.	Negyddol	Rhagnodi materion o fanylder a allai newid o bryd i'w gilydd.
Adran 3(1), sy'n mewnosod Adran 1AE(6)–(7) — Adolygu penderfyniadau ynghylch diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi ar ba sail y gellir gwneud cais am adolygiad ac yn eu galluogi i wneud rheoliadau'n nodi materion gweithdrefnol eraill sy'n gysylltiedig â'r adolygiad. Mae'r rhain yn faterion technegol sy'n gofyn am hyblygrwydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.

Adran 5(1), sy'n mewnosod Adran 2(5B) newydd — Symleiddio'r broses	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi ffurf a chynnwys cydsyniad heneb gofrestredig. Mae hyn yn fater technegol sy'n gofyn am hyblygrwydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Adran 5(2), sy'n mewnosod paragraph 1(3) i Ran 1 o Atodlen 1 — Symleiddio'r broses	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau lle nad oes angen ffurflen gais am gydsyniad heneb gofrestredig. Efallai y bydd angen diweddarau hwn o bryd i'w gilydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Adran 10, sy'n mewnosod adran 7(4A) newydd i Ddeddf 1979 — Digollediad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau yn nodi y mathau o waith a fyddai'n dal i arwain at iawndal os gwrthodir rhoi cydsyniad heneb gofrestredig, hyd yn oed pan fyddai'r gwaith hwnnw wedi arwain at ddifrod i'r heneb.		

Adran 11, sy'n mewnosod Adran 9ZB(3)–(4) — Cytundebau partneriaeth dreftadaeth mewn perthynas â henebion cofrestredig	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth o ran cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Mae hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i alluogi Gweinidogion Cymru i derfynu, drwy orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth o gytundeb o'r fath, a gweithredu, dadweithredu neu atgynhyrchu darpariaethau Deddf 1979.	Negyddol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu neu ddadweithredu, gyda neu heb ddiwygiadau, unrhyw ddarpariaethau yn Neddf 1979 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.
Adran 13, sy'n mewnosod 9ZL(1) — Hysbysiad stop dros dro: digollediad	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais am ddigollediad i Weinidogion Cymru ynddo, a sut i wneud hynny.	Negyddol	Rhagnodi materion o fanylder a allai newid o bryd i'w gilydd.

Rhan 3: Diwygiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990					
Adran	Pŵer wedi ei roi i...	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y Weithdrefn
Adran 24, sy'n mewnosod 2A(5) — Dyletswydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i restrau.	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y categorïau o bobl a bennir yn y Bil y dylid rhoi hysbysiad iddynt ynghylch cynnig i gynnwys adeilad ar restr, neu hepgor adeilad o restr.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1990 er mwyn ehangu'r categorïau o bobl y dylid eu hysbysu yn ffurfiol.
Adran 24, sy'n mewnosod 2D(6) 6)–(7) — Adolygu penderfyniadau rhestru penodol.	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi ar ba sail y gellir gwneud cais am adolygiad ac yn eu galluogi i wneud rheoliadau'n nodi materion gweithdrefnol eraill sy'n ymwneud ag adolygiadau. Mae'r rhain yn faterion manwl y bydd angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Adran 24(3), sy'n mewnosod 28B(2) — Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais am ddigollediad i Weinidogion Cymru ynddo, a sut i wneud hynny.	Negyddol	Rhagnodi materion o fanylder a allai newid o bryd i'w gilydd.

Adran 28, sy'n mewnosod Adran 26M(3)–(4) — Cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth o ran cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Mae hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i alluogi Gweinidogion Cymru i derfynu, drwy orchymyn, gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth o gytundeb o'r fath a gweithredu, dadweithredu neu atgynhyrchu darpariaethau Deddf 1990	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru i weithredu neu ddadweithredu, gyda neu heb ddiwygiadau, darpariaethau penodol yn Neddf 1990 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.
Adran 29, sy'n mewnosod 44B(11) — Hysbysiadau stop dros dro	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau lle dylai hysbysiad stop dros dro fod yn gymwys. Mae'r amgylchiadau pennaf wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil, ond mae'r rheoliad yn darparu hyblygrwydd i addasu eu defnydd ar ôl cael profiad o wneud hynny.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Adran 29(1), sy'n mewnosod 44D(1) — Hysbysiadau stop dros dro: digollediad	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r cyfnod y mae'n rhaid gwneud cais am ddigollediad i Weinidogion Cymru ynddo, a sut i wneud hynny.	Negyddol	Rhagnodi materion o fanylder a allai newid o bryd i'w gilydd.

Adran 30(6) sy'n mewnosod 55(5B) — Cyfradd llog gwaith brys	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi i Weinidogion Cymru osod y gyfradd llog y ceir ei chodi ar gyfer treuliau yr eir iddynt wrth gyflawni gwaith brys.	I'w chadarnhau yng Nghyfnod 3	Rhagnodi materion o fanylder a allai newid o bryd i'w gilydd.
---	--------------------	------------	--	-------------------------------	---

Rhan 4 : Amrywiol					
Adran	Pŵer wedi ei roi i...	Ffur	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y Weithdrefn
Adran 34(9) — Cofnodion amgylchedd hanesyddol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio ystyr cofnodion amgylchedd hanesyddol yng ngoleuni cael profiad o'u defnyddio. Cyn gwneud y rheoliadau mae gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw berson sy'n briodol, yn eu barn nhw (adran 33(10)).	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion ddiwygio'r ystyr a roddir yn y Bil o ran pa gofnodion y dylai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol eu cynnwys.
Adran 39(7)(h) — Panel cyngori: cyfansoddiad ac ati	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu pwy fyddai'n anghymwys o fod yn aelod yn y dyfodol. Mae'r anghymwysiadau pennaf wedi eu nodi eisoes yn Adran 36(7).	Negyddol	Mae'r anghymwysiadau pennaf eisoes wedi eu cynnwys yn y Bil ac felly bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn delio â manion a manylion.
Adran 41(3) — dod i rym	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau	Dim gweithdrefn	Mae'r gorchmynion hyn yn ymwneud â chychwyn ac maent o natur dechnegol.

			penodol o'r Bil nad ydynt yn cychwyn yn awtomatig. Gellir gwneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed mewn cysylltiad â dod â'r darpariaethau i rym.		
--	--	--	--	--	--

Atodlenni					
Adran	Pŵer wedi ei roi i...	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y Weithdrefn
Atodlen 1 i'r Bil, sy'n mewnosod Atodlen A2 i Ddeddf 1979 — Paragraff 1(1): Categoriâu o adolygiadau y mae pobl benodedig i benderfynu arnynt	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa fath o adolygiadau y mae eu penderfyniadau i gael eu gwneud gan berson penodedig yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Efallai y bydd angen diweddarau hwn o bryd i'w gilydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.
Atodlen 2, sy'n mewnosod Atodlen 1B i Ddeddf 1990 — Paragraff 1(1): Categoriâu o adolygiadau y mae pobl benodedig i benderfynu arnynt	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Priodol ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa fath o adolygiadau y mae eu penderfyniadau i gael eu gwneud gan berson penodedig yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Efallai y bydd angen diweddarau hwn o bryd i'w gilydd.	Negyddol	Rhagnodi materion technegol manwl a allai newid o bryd i'w gilydd.

5.2 Crynodeb o bwerau i wneud cyfarwyddydau ac i gyhoeddi canllawiau yn narpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Adran	Pŵer wedi ei roi i...	Ffurf	Priodoldeb y Pwerau Dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y Weithdrefn
Adran 37 — Cofnodion amgylchedd hanesyddol	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ar eu dyletswyddau mewn perthynas â chofnodion amgylchedd hanesyddol.	Dim Gweithdrefn	Nod y gofyniad i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r gwaith o roi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith. Bydd y canllawiau'n ymdrin â phroses i raddau helaeth. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y canllawiau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Atodlen 1, sy'n mewnosod Atodlen A2 i Ddeddf 1979 — Paragraff 5: Tasgau gweinyddol mewn cysylltiad ag adolygiadau	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno cyfarwyddyd y caiff Gweinidogion Cymru eu hunai wneud unrhyw beth y dylai fod wedi cael ei wneud gan berson penodedig mewn perthynas ag adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i gofrestru heneb, ac eithrio gwneud y penderfyniad ei hun.	Dim Gweithdrefn	Galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y caiff rhai tasgau gweinyddol gael eu gwneud ganddynt hwy yn hytrach na'r person penodedig.
Atodlen 2, sy'n mewnosod Atodlen 1B i Ddeddf 1990 — Paragraff 5: Tasgau gweinyddol mewn cysylltiad ag adolygiadau	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno cyfarwyddyd y caiff Gweinidogion Cymru eu hunai wneud unrhyw beth y dylai fod wedi cael ei wneud gan berson penodedig mewn perthynas ag adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru i restru adeilad, ac eithrio gwneud y penderfyniad ei hun.	Dim Gweithdrefn	Galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y caiff rhai tasgau gweinyddol gael eu gwneud ganddynt hwy yn hytrach na'r person penodedig.

Rhan 2 — Asesiad effaith rheoleiddiol

Adran 6: Asesiad effaith rheoleiddiol

241. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn 2010 fod yna 19,000 o swyddi sy'n gyfwerth ag amser llawn yn y maes yn uniongyrchol, a thros 30,000 yn anuniongyrchol. Nodwyd bod y sector yn cyfrannu tua £1.8 biliwn o ran allbwn a rhyw £840 miliwn i Werth Ychwanegol Gros Cymru.²² Canfu'r un astudiaeth fod twristiaeth yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gwerth economaidd hwn, a'r amgylchedd hanesyddol oedd un o'r prif resymau dros ymweld â Chymru.
242. Fodd bynnag, nid dim ond oherwydd ei bwysigrwydd economaidd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi. Mae nifer o astudiaethau a gynhaliwyd yn y DU ac yn rhyngwladol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf wedi asesu'r gwerth y mae cymdeithas yn ei roi ar adeiladau a safleoedd hanesyddol, gan gynnwys treflun a safleoedd archaeolegol. Mae adroddiad Eftec ar gyfer English Heritage yn crynhoi'r astudiaethau hyn.²³ Fel yn achos yr amgylchedd naturiol, mae i'r amgylchedd hanesyddol werth o fewn cymdeithas, yn elfennau yr ydym yn eu defnyddio ac yn elfennau nad ydym yn eu defnyddio. Mae pobl yn gweld gwerth safleoedd hanesyddol, nid dim ond o'u defnyddio (hy ymweld â nhw), ond hefyd o wybod eu bod yn bodoli, eu bod ar gael i eraill, neu y byddant ar gael i genedlaethau i ddod. Yn gyffredinol, mae cymdeithas yn cytuno drwyddi draw bod cymryd camau i warchod a diogelu'r amgylchedd hanesyddol — a'r gwerthoedd cysylltiedig — yn angenrheidiol ac yn werth chweil. Serch hynny, er bod y gwerthoedd hyn yn bwysig i gymdeithas, nid oes modd eu mynegi mewn termau ariannol.
243. Wrth werthuso costau a manteision darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), rhaid cofio pwysigrwydd y gwerthoedd hyn, er mor anodd yw eu cyfrifo. Er bod manteision gwarchod, cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn amlwg efallai, mae'n anodd, yn aml, pennu gwerth ariannol clir i'r gwelliannau y bydd y Bil yn eu gwneud er mwyn rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn fwy effeithiol a thryloyw.
244. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn wedi'i gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.
245. Mae'r asesiad wedi'i strwythuro o amgylch elfennau unigol y Bil. Mae'n cyflwyno amrywiaeth o opsiynau posibl ar gyfer pob elfen, gan nodi'r costau, y manteision a'r opsiwn a ffeifrir. Cynhelir Asesiad Effaith Rheoleiddiol arall ar yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o'r Bil, fodd bynnag mae costau effeithiau'r is-ddeddfwriaeth wedi'u pennu yn y dadansoddiad sy'n dilyn.

²² ECOTEC Research and Consulting Ltd., *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru* (2010)

²³ Eftec, *Valuation of the Historic Environment* (Gorffennaf 2005)

246. Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar yr wybodaeth orau oedd ar gael wrth inni ysgrifennu, ac mae llawer yn seiliedig ar drafodaethau a gafwyd gyda rhanddeiliaid. Er bod y costau a'r arbedion wedi'u nodi, mae rhai darpariaethau yn dibynnu ar ffactorau amrywiol, sy'n golygu mai dim ond syniad o'r ystod costau y gellir ei roi.

Adran 7: Opsiynau, costau a manteision

Ymgynghori, gwarchod interim ac adolygu penderfyniad i ddynodi'n statudol (adrannau 3–4 a 24–26)

Yr opsiynau

247. Cafodd dau opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau ymgynghori anffurfiol presennol cyn dynodi a'r apeliadau anffurfiol i Cadw yn erbyn dynodi.
- Opsiwn 2 — Ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion cyn dynodi ased hanesyddol a chreu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau dynodi.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau ymgynghori anffurfiol presennol cyn dynodi a'r apeliadau anffurfiol i Cadw yn erbyn dynodi.

248. Nid oes rhwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â pherchennog cyn dynodi ei eiddo, naill ai yn adeilad rhestredig neu'n heneb gofrestredig, sydd â goblygiadau cyfreithiol o ran sut y ceir defnyddio neu newid yr eiddo hwnnw. Yn ymarferol, mae Cadw yn ymgynghori'n anffurfiol â pherchnogion ac yn rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a gyflwynir wrth ddod i benderfyniad dynodi. Nid yw'r weithdrefn anffurfiol hon yn bodloni'n llawn amcan Llywodraeth Cymru i weithredu'n dryloyw ac yn gynhwysol.

249. Hefyd nid oes proses adolygu ar hyn o bryd ar gyfer perchennog sy'n anghytuno â phenderfyniad i ddynodi ei eiddo ac eithrio drwy herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol. Gall hyn fod yn rhwystr i lawer o berchnogion. Mae Cadw yn tybio mai dim ond un penderfyniad dynodi yng Nghymru sydd erioed wedi cyrraedd y cam adolygu barnwrol, ac roedd hwnnw'n ymwneud â datblygiad masnachol mawr.

Opsiwn 2 — Ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion cyn dynodi ased hanesyddol a chreu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau dynodi.

250. Byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r perchennog a'r meddiannwr, ynghyd â'r awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw bartion eraill â diddordeb, pan fyddant yn bwriadu rhestru adeilad neu gofrestru safle.

251. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y safle neu'r adeilad yn cael ei warchod dros dro. Tra bydd wedi'i warchod, bydd y ddeddfwriaeth restru neu gofrestru, fel sy'n briodol, yn gymwys, gan gynnwys yr angen i wneud cais am gydsyniad, ac atebolrwydd am ddifrod neu waith nas awdurdodwyd.

252. Os, yn dilyn ymgynghoriad, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu dynodi eiddo, bydd gan y perchennog a'r meddiannwr hawl, o fewn cyfnod y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei ragnodi mewn rheoliadau, i ofyn am i'r

penderfyniad gael ei adolygu'n ffurfiol. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi unigolyn annibynnol i gynnal yr adolygiad a phenderfynu p'un a ddylai'r dynodiad statudol sefyll ai peidio.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau ymgynghori anffurfiol presennol cyn dynodi a'r apeliadau anffurfiol i Cadw yn erbyn dynodi.

253. Ni fydd parhau â'r trefniadau presennol yn arwain at gostau ychwanegol.

Opsiwn 2 — Ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion cyn dynodi ased hanesyddol a chreu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau dynodi.

254. Eisoed mae'n arfer gan Cadw i ymgynghori â pherchnogion, meddianwyr a phartïon â diddordeb cyn dynodi, felly yn y mwyafrif llethol o achosion ni fydd cyflwyno gofyniad statudol i ymgynghori yn arwain at gynnydd mewn costau. Dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae safle neu adeilad o dan fygythiad, pan fyddai'r cofrestru neu'r rhestru wedi digwydd yn y fan a'r lle, y gwelir cynnydd bychan. Bydd y trefniadau newydd ar gyfer ymgynghori a gwarchod dros dro yn golygu bod yn rhaid ysgrifennu llythyr hysbysu ychwanegol mewn achosion o'r fath, gan gynyddu'r costau gweinyddol ryw fymryn. Fodd bynnag, prin iawn y mae angen gwneud hyn — llai nag unwaith y flwyddyn — a byddai hyn yn gyfwerth â chost staff blynyddol ychwanegol o lai na £50.
255. Yn yr un modd, ni fydd gwarchod dros dro yn arwain at unrhyw gynnydd mewn costau o gofio y bydd ond yn cael ei weithredu lle bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl arolygu ac ymchwilio, yn bwriadu dynodi a chaiff dyddiad dechrau'r cyfnod gwarchod dros dro ei nodi yn y llythyr ymgynghori. Bydd y costau gweinyddol, felly, yr un fath ag ar gyfer yr arfer presennol o ymgynghori'n anffurfiol.
256. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol ddiwygio'r cyfyngiadau sydd wedi'u mapio a'r cofnodion i nodi'r safleoedd sydd wedi'u gwarchod dros dro, ac wedyn eu diweddarau i adlewyrchu'r penderfyniad dynodi terfynol. Caiff cam ychwanegol ei chyflwyno i'r broses, felly.

Llywodraeth Cymru

257. O fewn Llywodraeth Cymru, bernir bod y gwaith mapio yn cymryd llai na 0.5 awr ar gyfer pob achos ac, felly, bydd y cam ychwanegol i'w ddiwygio yn costio llai na £10 fesul achos.²⁴ Yn dilyn arolwg rhestru Cymru yn 2005, mae nifer blynyddol y dynodiadau yn gymharol isel ar hyn o bryd (gweler Tabl 1). O dybio y gwelir 67 achos y flwyddyn (cyfartaledd y cyfnod 2008–2013), byddai'r costau ychwanegol yn dod i lai na £1,000 y flwyddyn.

²⁴ Mae'r costau staff yn seiliedig ar Gostau Gros Blynyddol diwygiedig adroddiad Llywodraeth Cymru ym Mehefin 2014 ar gostau bandiau cyflog a safoni'r broses o ragweld costau rhedeg adrannau.

Tabl 1 — Niferoedd blynyddol yr achosion dynodi, 2008–2013²⁵

	2008/2009	2009/2010	2010/2011	2011/2012	2012/2013
Rhestrwyd	21	11	32	19	9
Cofrestrwyd	131	49	58	6	1
Cyfanswm	152	60	90	25	10

258. Mae'n anodd rhagweld y nifer tebygol o adolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Tan nawr, adolygiad barnwrol oedd yr unig ffordd o herio dynodiad, ac mae Cadw yn tybio mai dim ond unwaith erioed mae wedi digwydd. Gellir disgwyl i'r weithdrefn adolygu newydd, sy'n gymharol syml ac a fydd yn golygu cost fach i'r perchennog, arwain at nifer mwy o heriau ffurfiol.
259. Y prif ffactor wrth geisio cyfrifo nifer y ceisiadau tebygol am adolygiad yw nifer y dynodiadau a gynigir gan Cadw. Fel y mae Tabl 1 yn ei ddangos, mae hyn yn gallu amrywio'n fawr ac mae'n dibynnu ar yr adnoddau a'r flaenoriaeth a roddir i'r maes gwaith hwn. Mae Cadw o'r farn bod y rhan fwyaf o broblemau o ran cryfder y dystiolaeth i gefnogi dynodiad yn cael eu datrys yn ystod y cyfnod ymgynghori ac, o ganlyniad, prin yw'r heriau ar y sail nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru neu restru wedi'u cyflawni. Mae hefyd yn nodi ei bod yn gymharol anarferol i benderfyniad i gofrestru gael ei herio, gan mai ychydig iawn yw'r effeithiau ar y perchennog fel rheol ac mae'n gallu bod o fudd iddo hyd yn oed.
260. Mae Cadw yn amcangyfrif y gofynnir am adolygiadau yn achos tua 5 y cant, ar y mwyaf, o'r penderfyniadau dynodi a wneir bob blwyddyn, er y gallai'r niferoedd fod yn llawer is. Gan ddefnyddio 67 fel nifer cyfartalog y dynodiadau dros y 5 mlynedd a ddangosir yn Nhabl 1, byddai yna ryw 3 adolygiad bob blwyddyn. Os, fel rydym yn rhagweld, caiff yr adolygiadau eu rheoli gan yr Arolygiaeth Gynllunio, bydd yna gost flynyddol o £6,750 (ar sail y rhagdybiaeth y byddai angen 3 diwrnod ar yr Arolygydd Cynllunio sy'n derbyn y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer pob achos, ar gost ddyddiol o £750).
261. Hyn a hyn o opsiynau sydd yna i'r sawl sydd am herio penderfyniad, ond mae'r posibilrwydd o adolygiad barnwrol yn parhau. Yng ngoleuni'r ffaith bod adolygiad barnwrol o benderfyniadau dynodi yng Nghymru yn hynod brin, ni ragwelir heriau o'r fath dros y pum mlynedd nesaf ac, felly, gellir diystyru unrhyw gost.
262. Gallai gwarchod dros dro arwain at gostau iawndal lle mae'r perchennog/meddiannwr wedi dioddef colled ariannol yn sgil y gwarchod dros dro a lle bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r dynodiad. Fodd bynnag, dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu dynodi y caniateir gwarchod dros dro, gan leihau'r risg y bydd rhywrai yn hawlio iawndal. Bydd cyswllt gyda pherchnogion/meddianwyr ar yr adeg arolygu, cyn ymgynghori'n ffurfiol, hefyd yn tynnu sylw at wybodaeth ychwanegol ac unrhyw faterion a allai arwain at hawlio iawndal, fel caniatâd cynllunio sydd eisoes wedi'i roi.

²⁵ Ffynhonnell, Cadw

263. Er ei bod yn dal yn bosibl i rywrai hawlio iawndal, mae Cadw o'r farn y bydd modd osgoi hynny drwy drafod a negodi'n anffurfiol ymlaen llaw. Yn wir, nid oes gan Cadw gofnod o unrhyw geisiadau llwyddiannus yn sgil penderfyniadau i gofrestru neu restru o dan ddarpariaethau presennol Deddfau 1979 ac 1990. Yr amcangyfrif gorau o'r gost hon, felly, yw sero.

Perchnogion

264. Byddai yna gost newydd i berchennog tir neu adeilad a ddynodir wrth geisio adolygiad. Byddai'r adolygiad ei hun yn rhad ac am ddim, ond byddai angen i'r perchennog gyflwyno amlinelliad o'i sail a'i dystiolaeth dros gwestiynu'r penderfyniad dynodi, yn unol â rheoliadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyflwyno. Gallai hyn amrywio o luniau syml yn dangos i ba raddau yr oedd yr eiddo wedi'i adfer, i gomisiynu ymgynghorwyr i gynnig barn arbenigol. Amcangyfrifir cost o £50 i £2,000 i'r perchennog £2,000. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn llai costus nag adolygiad barnwrol — sef yr unig ffordd o herio ar hyn o bryd.

Awdurdodau cynllunio lleol

265. Bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol hefyd ddiweddarau'r cyfyngiadau sydd wedi'u mapio i ddangos y safleoedd sy'n destun gwarchod dros dro. Bydd hyn yn cynyddu'r costau drwy gyflwyno cam ychwanegol i'r prosesau presennol o fapio safleoedd a ddynodwyd yn adeiladau rhestredig neu'n henebion cofrestredig. Ar sail cost o £10 fesul achos a chyfartaledd blynyddol o 67 o ddynodiadau, byddai hyn yn golygu cost staff ychwanegol flynyddol o £670 ar draws awdurdodau cynllunio lleol Cymru.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau ymgynghori anffurfiol presennol cyn dynodi a'r apeliadau anffurfiol i Cadw yn erbyn dynodi.

266. Mae'r opsiwn hwn yn parhau â'r trefniadau presennol ac felly nid oes iddo unrhyw fanteision newydd. Fodd bynnag, mae'r system wedi hen ennill ei phlwyf ac, yn gyffredinol, mae'r arfer o ymgynghori'n anffurfiol ac adolygiad Cadw yn cael eu derbyn. Mantais arall y trefniadau hyn i Weinidogion Cymru yw eu bod yn syml, ac mai hyn a hyn o hawliau sydd gan berchnogion i herio penderfyniadau dynodi. Fodd bynnag, yn dilyn ail arolwg rhestru Cymru yn 2005, ni ragwelir niferoedd mawr o ddynodiadau, felly mae'r fantais hon yn llai o ffactor.

Opsiwn 2 — Ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion cyn dynodi ased hanesyddol a chreu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau dynodi.

267. Bydd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori yn sicrhau system ddynodi agored a thryloyw a fydd yn cynnwys yn ffurfiol berchnogion a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y broses benderfynu.

268. Gall safleoedd sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi fod yn agored i gael eu difrodi neu eu distrywio ar bwrpas, naill ai yn dilyn yr arolygiad cychwynnol neu yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r achosion hyn yn brin, ond bydd y system arfaethedig ar gyfer gwarchod dros dro yn sicrhau bod y safleoedd yn cael eu gwarchod am ychydig fel heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig, unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu dynodi.
269. Bydd yr adolygiad annibynnol arfaethedig o ddynodiadau yn system syml a fydd yn fwy hwylus ac yn llai costus i berchnogion na'r weithdrefn bresennol ar gyfer adolygiad barnwrol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

270. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylid parhau â'r trefniadau cyfredol, o dan opsiwn 1, o gofio'r cyfyngiadau y gall dynodi statudol eu creu o ran hawliau perchnogion i ddefnyddio eu heiddo.
271. Opsiwn 2, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori, a hynny yn ei sgil yn golygu bod angen gwarchod dros dro, a dyletswydd i gynnal adolygiad annibynnol o unrhyw benderfyniadau, yw'r opsiwn a ffefrir. Bydd yn sefydlu system ddynodi dryloyw a phroses adolygu syml.

Tabl 2 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffefrir, sef opsiwn 2

	Y costau presennol	Y costau yn y dyfodol	Sylwadau
Llywodraeth Cymru	Dim	£670 y flwyddyn	Cam mapio digidol ychwanegol
	Dim	£6,750 y flwyddyn	Adolygiad
Awdurdodau cynllunio lleol	Amherthnasol	£670 y flwyddyn	Cam mapio digidol ychwanegol
Perchnogion	Amherthnasol	£0 i £2,000 fesul achos	Cais i adolygu dynodiad (dewisol)

Diwygio'r broses cydsyniad heneb gofrestredig (adrannau 5–10)

Yr opsiynau

272. Cafodd dau opsiwn eu hystyried:
- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig.

- Opsiwn 2 — Symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig a'u cysoni â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a rheolaethau cynllunio.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig.

273. Ystyriwyd cadw'r prosesau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig fel y maent, sydd wedi parhau heb eu newid, i bob pwrpas, ers eu cyflwyno gyntaf ym 1979. Er mwyn gwneud unrhyw waith, bron, a fydd yn effeithio'n ffisegol ar ardal heneb gofrestredig, a hithau'n ardal sy'n cael ei gwarchod, gan gynnwys gwaith atgyweirio tebyg am debyg, mae'n rhaid cael cydsyniad heneb gofrestredig gan Weinidogion Cymru. Mae nifer y ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig wedi bod yn gymharol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef tua 110 y flwyddyn. Cadw sy'n delio â phob un ar ran Gweinidogion Cymru. Gwneir ceisiadau ar ffurflen a ragnodir mewn is-ddeddfwriaeth. Unwaith daw cais i law, bydd Cadw yn anfon llythyr penderfyniad dros dro gan nodi amodau. Gall yr ymgeisydd eu derbyn neu ymateb iddynt drwy gyflwyno sylwadau pellach cyn i'r llythyr penderfyniad terfynol gael ei anfon. Cyn cyhoeddi'r penderfyniad terfynol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd naill ai drefnu ymchwiliad lleol cyhoeddus neu roi'r hawl i'r ymgeisydd gael gwrandawriad gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru. Cynhaliwyd yr ymchwiliad cyhoeddus diwethaf yn 2003.

Opsiwn 2 — Symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig a'u cysoni â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a rheolaethau cynllunio.

274. O dan yr opsiwn hwn, byddai nifer o newidiadau i'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig, gyda'r nod o'u symleiddio neu eu cysoni â phrosesau cyfatebol mewn perthynas â chydsyniad adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio. Byddai'r pŵer presennol i wneud gwaith archwilio archaeolegol hefyd yn cael ei ymestyn, ond heb fod angen cael cydsyniad y perchennog pan fyddai heneb mewn perygl o gael ei ddifrodi neu ei ddistrywio yn y dyfodol agos. Dyma'r prif newidiadau:
- pŵer i Weinidogion Cymru roi cydsyniad heneb gofrestredig nad yw'n gydsyniad ysgrifenedig;
 - proses symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig lle, os yw pob ochr yn cytuno, gall Gweinidogion Cymru awdurdodi gwaith heb fod angen gwneud cais neu heb lythyr penderfyniad dros dro;
 - cael rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar ôl i'r gwaith gael ei wneud er mwyn cysoni'r trefniadau â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio;
 - disgresiwn i Weinidogion Cymru ddewis y modd mwyaf priodol o dderbyn sylwadau ar gais am gydsyniad heneb gofrestredig;
 - pŵer i wrthod derbyn ceisiadau niferus am gydsyniad heneb gofrestredig lle gwrthodwyd cais am waith tebyg o'r blaen.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig.

275. Mae'r opsiwn hwn yn cadw pethau fel y maent ac ni fyddai'n arwain at unrhyw arbedion na chostau ychwanegol.

Opsiwn 2 — Symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig a'u cysoni â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a rheolaethau cynllunio.

Llywodraeth Cymru

276. Bydd y pŵer i roi cydsyniad heneb gofrestredig nad yw'n gydsyniad ysgrifenedig yn golygu bod modd cyfathrebu'n electronig. Yn 2012, dim ond mewn tua 15 y cant o'r 110 o geisiadau y cyflwynwyd ac y cyhoeddwyd dogfennau papur. Bydd yr arbedion cost yn fach, ac yn gyfyngedig i gostau deunydd swyddfa a phostio, sy'n llai nag £20 y flwyddyn.
277. Mewn achosion syml, byddai'r pŵer hefyd yn golygu bod modd cyflwyno proses e-bost symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig. Fel rheol, ni fyddai angen i'r ymgeisydd lenwi ffurflen gais. Yn hytrach, lle byddai'r ymgeisydd a Cadw yn dod i gytundeb, ar ôl trafod, byddai'r cydsyniad yn cael ei roi i awdurdodi gwaith penodol. Y gost safonol i Cadw er mwyn prosesu a rhoi cydsyniad heneb gofrestredig yw tua £86.20 ynghyd ag unrhyw dreuliau teithio, a fyddai'n lleihau i £72.20 ynghyd â threuliau teithio o dan y system symlach — sy'n arbed £14 am bob achos. Amcangyfrifir y gellid delio â hyd at draean o'r ceisiadau (36 y flwyddyn) o dan y broses hon, gan arbed tua £504 y flwyddyn. Swm bach yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r brif fantais, o gael gwared â'r angen am geisiadau a llythyr penderfyniad dros dro ac o gael awdurdodi gwaith ar unwaith, yw y bydd rhai perchnogion yn cael eu hannog i wneud y mân-welliannau sydd eu hangen ar eu henebion.
278. Rhagwelir y caiff y weithdrefn fyrrach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig ei defnyddio yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n briodol, ac ni fydd angen diwygio canllawiau ar-lein na dogfennau a gyhoeddwyd.
279. Dim ond fel eithriad y câi Gweinidogion Cymru roi cydsyniad heneb gofrestredig mewn perthynas â gwaith a wnaed eisoes, a hynny er mwyn osgoi rhoi'r argraff nad yw cael cydsyniad yn amod hanfodol cyn y gwneud gwaith ar heneb gofrestredig. Mae Cadw yn amcangyfrif na fyddai hyn yn digwydd fwy na dwywaith y flwyddyn. Cost pob achos fyddai £86.20, a fyddai'n gost ychwanegol flynyddol i Weinidogion Cymru o £172.40. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cydsyniad ar gyfer gwaith a wnaed eisoes yn cyd-fynd, yn aml, â chydsyniad i barhau gwaith, felly mae'n debygol mai niwtral fydd y costau hyn mewn gwirionedd.

280. Gallai rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ddewis y modd mwyaf priodol o dderbyn sylwadau ar geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig hefyd arwain at arbedion bach mewn achosion pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod sylwadau ysgrifenedig, yn hytrach na gwrandawriad neu ymchwiliad lleol cyhoeddus, yn briodol. Yn ymarferol, dim ond yn achlysurol y mae ymgeiswyr yn galw am gael defnyddio'r hawl gyfredol am wrandawriad; y tro diwethaf i rywun ei defnyddio oedd 2003. Fel rheol, caiff anghytundeb ei ddatrys drwy ddeialog anffurfiol, felly rhagwelir mai dim ond unwaith yn ystod y 5 i 10 mlynedd nesaf y bydd angen i Weinidogion Cymru benderfynu ar y ffordd fwyaf addas o dderbyn sylwadau ymgeisydd.
281. Mae'n debygol mai yn bur anaml y defnyddir y pŵer i wrthod derbyn cais am gydsyniad heneb gofrestredig, lle gwrthodwyd cais tebyg yn ystod y 2 flynedd flaenorol. Byddai'n arbed hyd at £86.20 yn ogystal ag unrhyw dreuliau teithio ym mhob achos ac efallai y caiff ei ddefnyddio unwaith bob 5 i 10 mlynedd.
282. Bydd yna gost ychwanegol fach hefyd i Cadw am hyfforddiant ac am ddiwygio a diweddarau canllawiau ar-lein a dogfennau a gyhoeddwyd i adlewyrchu'r newidiadau yn y broses. Amcangyfrifir y bydd hyn yn llai na £200 ac yn cael ei gynnwys o fewn gwariant y llwythi gwaith a'r cyllidebau presennol.

Perchnogion

283. Bydd perchnogion yn arbed ychydig yn sgil y broses symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig gan na fyddant, o reidrwydd, yn gorfod llenwi ffurflen gais nac ymateb i lythyr penderfyniad dros dro. Fodd bynnag, gan y bydd y weithdrefn ond yn berthnasol i gynigion syml, ni fyddai'r costau wedi bod yn sylweddol i berchnogion unigol. Ar sail yr amser sydd ei angen i lenwi a chyflwyno cais ac ymateb drwy'r post i benderfyniad dros dro, byddai hyn yn arbed tua £10 fesul achos neu hyd at £360 y flwyddyn yn gyffredinol.

Awdurdodau cynllunio lleol

284. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol wybodaeth gyffredinol am henebion cofrestredig ar eu gwefannau, a gallai fod angen ei diwygio neu ei golygu fel rhan o waith rheolaidd i'w diweddarau, gan gostio llai na £15 i bob awdurdod.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig.

285. Mae'r broses bresennol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac mae gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth yn ei deall yn dda. Mae'r canllawiau a'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r broses bresennol ar gael ar ffurf copi caled ac electronig gan Cadw a thrwy ddolenni i'w wefan o sefydliadau eraill (ee. awdurdodau cynllunio lleol) ac ni fyddai angen eu diweddarau.

Opsiwn 2 — Symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig a'u cysoni â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a rheolaethau cynllunio.

286. Byddai'r opsiwn hwn yn cysoni'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig ychydig yn fwy â'r rheini ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru:
- roi cydsyniad ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar ôl i'r gwaith gael ei wneud;
 - gwrthod ystyried ceisiadau niferus am waith sydd wedi'u gwrthod o'r blaen;
 - dewis y ffordd fwyaf priodol i dderbyn sylwadau cyn penderfynu ynghylch cais am gydsyniad heneb gofrestredig.
287. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth awdurdodi gwaith, yn bennaf o ran mân-atgyweirio neu gynllun i wella proses reoli. Er y bydd yn dod â rhai arbedion, ei brif fantais yw ei fod yn ei gwneud yn bosibl awdurdodi gwaith buddiol mewn achosion lle na fyddai perchennog, fel arall, yn trafferthu i ymhél â biwrocratiaeth cais ffurfiol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

288. Mae opsiwn 1 yn parhau â'r trefniadau presennol sydd, ar y cyfan, yn cyflawni eu diben er nad yw'r gweithdrefnau, i bob pwrpas, wedi newid ers 35 mlynedd. Fodd bynnag, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir gan y bydd yn helpu i foderneiddio rhai elfennau o'r broses cydsyniad heneb gofrestredig ac yn eu cysoni'n fwy â'r trefniadau presennol ar gyfer prosesau cyfatebol cydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio.

Tabl 3 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffeirir, sef opsiwn 2

	Y costau presennol	Y dyfodol		Sylwadau
		Costau	Arbedion	
Llywodraeth Cymru	Amherthnasol		£504 y flwyddyn	Proses electronig, symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig
	Amherthnasol	£172 y flwyddyn		Rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar ôl i waith gael ei wneud
	Amherthnasol	£200 (cost untro)		Diwygio canllawiau
Perchnogion	Amherthnasol		£360 y flwyddyn	Gweithdrefn symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig

Cyflwyno hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â henebion cofrestredig (adrannau 12–13)

Yr opsiynau

289. Cafodd dau opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim.
- Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi yn erbyn gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig.

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

290. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau deddfwriaethol sydd wedi'u dilyn ers Deddf 1979 yn parhau. Mae'n drosedd difrodi heneb gofrestredig neu wneud gwaith nas awdurdodwyd arni. Mae'n drosedd hefyd methu â chydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad heneb gofrestredig a roddir gan Weinidogion Cymru, sy'n amlinellu manylion sut mae'n rhaid i waith gael ei wneud ar heneb.
291. Mae cofnodion Cadw yn dangos bod bron i bob un o'r 119 o achosion a gofnodwyd o ddifrod i henebion cofrestredig rhwng 2006 a 2012 wedi'u datrys yn anffurfiol. Mewn nifer fach o achosion, fodd bynnag, roedd y rheini a oedd yn gwneud y gwaith nas awdurdodwyd yn amharod i roi'r gorau'n llwyr iddi ac, mewn un achos yn 2007, a arweiniodd yn y pen draw at erlyniad llwyddiannus, bu'n rhaid galw'r heddlu cyn llwyddo i atal y gwaith. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 17 achos o fethu â chydymffurfio ag amodau cydsyniad heneb gofrestredig, sy'n cyfateb i 2 neu 3 achos y flwyddyn.
292. O dan yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn parhau heb bŵer i atal gwaith nas awdurdodwyd ac eithrio drwy ofyn am waharddeb neu am gymorth yr heddlu. Yn yr un modd, lle mae gwaith eisoes wedi'i wneud, ni fyddai ganddynt unrhyw bwerau i fynnu bod yr heneb yn cael ei hatgyweirio neu fod effeithiau'r difrod yn cael ei liniaru. Yr unig bosibilrwydd fyddai ceisio erlyn y troseddwyd, a phe bai hyn yn llwyddiannus, cael gorchymyn iawndal i dalu am y gost o adfer yr heneb.
293. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni amcanion polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol gan nad yw'n cynnig ffordd syml o fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan waith nas awdurdodwyd. Nid yw'r trefniadau ar gyfer henebion cofrestredig, felly, yn gydnaws â'r darpariaethau ar gyfer pwerau gorfodi yn neddfau cynllunio 1990, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi yn erbyn gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig.

294. Defnyddir hysbysiadau stop a phwerau gorfodi Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn helaeth wrth reoli gwaith datblygu. Mae pwerau gorfodi eisoes yn bod mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac mae'r Bil hwn hefyd yn cynnig ymestyn y rhain i ddarparu pwerau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau stop dros dro.
295. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi pwerau statudol i Weinidogion Cymru atal gwaith anghyfreithlon ar henebion cofrestredig gan eu galluogi i ddod â gwaith nas awdurdodwyd i ben er ei fod wedi dechrau, a mynnu bod yr henebion yn cael eu hatgyweirio neu eu hadfer yn dilyn gwaith o'r fath. Mae Cadw yn rhagweld mai dim ond mewn nifer fach o achosion y byddai pwerau o'r fath yn cael eu defnyddio, pan na ellir eu datrys yn wirfoddol, gyda'r posibilrwydd o orfodi statudol mewn achosion lle mae unigolyn neu grŵp yn amharod i gydymffurfio â threfniadau gwirfoddol o'r fath.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

296. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu costau nac arbedion ychwanegol. Fodd bynnag, pe bai'r perchennog yn gwrthod stopio'r gwaith nas awdurdodwyd yn wirfoddol, gallai henebion sydd o bwys cenedlaethol gael eu colli neu eu difrodi, a fyddai'n gost anfesuradwy. Mae hefyd yn golygu parhau â threfniadau a allai arwain at gostau ychwanegol, hy pe bai angen galw ar yr heddlu i ddod â'r gwaith i ben. Os na ddaw'r gwaith i ben, mae difrod difrifol yn fwy tebygol a'r angen i erlyn yn fwy tebygol, ynghyd â'r costau cysylltiedig. Mewn un achos o waith nas awdurdodwyd ar Glawdd Offa yn 2013, bu'n rhaid i Cadw dalu am ymchwiliadau archaeolegol a chynllun peirianeg ar gyfer gwaith atgyweirio ar gost o ryw £10,000. Gan fod yr heddlu wedi penderfynu peidio ag erlyn ac, yn absenoldeb pwerau gorfodi statudol o dan Ddeddf 1979, mae'n rhaid i Cadw chwilio am ffordd arall o adennill ei gostau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oddi wrth y perchennog.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi yn erbyn gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig.

297. Defnyddir hysbysiadau stop dros dro yn ôl disgresiwn. Fel rheol, mae'r rheini sy'n gwneud gwaith nas awdurdodwyd yn rhoi'r gorau iddi'n wirfoddol, bron bob tro, o gael gwybod ei fod yn anghyfreithlon. Mae tystiolaeth o'r Alban i ategu hyn. Er bod hysbysiadau stop dros dro wedi'u cyflwyno yno yn 2011, mae'n debyg nad oes un wedi'i gyhoeddi eto. Serch hynny, maent yn cael eu hystyried yn effeithiol fel sancsiwn cyfreithiol ac arf ataliol.
298. Bydd peidio â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro yn drosedd newydd. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r drosedd hon fod yn ddigon ynddi ei hun i

deilyngu erlyniad; dim ond fel trosedd ychwanegol mewn erlyniad am waith nas awdurdodwyd y mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol. Ni ragwelir, felly, y bydd y ddarpariaeth yn arwain at fwy o gostau i'r system gyfiawnder.

Llywodraeth Cymru

299. Ar sail y profiad o godi hysbysiad stop anstatudol yn ystod y gwaith nas awdurdodwyd ar Glawdd Offa yn 2013, mae Cadw yn amcangyfrif mai cost paratoi a chodi hysbysiad dwyieithog ar safle yw £350 ar y mwyaf £350. Ni ddisgwylir cyhoeddi mwy nag un hysbysiad y flwyddyn.
300. Bydd hysbysiadau gorfodi mewn perthynas â henebion rhestredig yn fwy cymhleth i'w drafftio ac mae Cadw yn amcangyfrif y bydd y costau staff, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos, yn amrywio o £350 i £1,400, heb gynnwys amser teithio. O gofio y bydd unigolion sy'n gwneud gwaith nas awdurdodwyd yn mynd ati'n wirfoddol i liniaru effeithiau'r difrod, disgwylir cyhoeddi un hysbysiad gorfodi bob blwyddyn. Fodd bynnag, ni ddylai fod yna gostau ychwanegol sylweddol oherwydd, yn dilyn gwaith nas awdurdodwyd, mae staff Cadw eisoes yn mynd ati i arolygu'r heneb, asesu unrhyw ddifrod ac ysgrifennu at y perchennog yn amlinellu'r gwaith y mae angen ei wneud i liniaru effeithiau'r difrod.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

301. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision newydd.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi yn erbyn gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig.

302. Rhagwelir mai yn anaml y defnyddir pwerau gorfodi statudol a hysbysiadau stop dros dro, ac mai yn nifyg dim arall y gwneir hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen y ddau bŵer er mwyn mynd i'r afael â'r hyn a ystyrir yn gyffredinol yn wendid yn y ddeddfwriaeth bresennol, ac er mwyn cysoni'r weithdrefn ar gyfer henebion cofrestredig â'r pwerau cyfatebol mwy diweddar ar gyfer adeiladau rhestredig ac a ddefnyddir i reoli gwaith datblygu yn gyffredinol. Bydd hefyd yn sefydlu mecanweithiau ffurfiol ar gyfer amlinellu unrhyw waith y mae angen ei wneud i atgyweirio henebion yn sgil gwaith nas awdurdodwyd neu i liniaru ei effeithiau, ac adennill unrhyw gostau lle gwneir y gwaith adfer gan Weinidogion Cymru.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

303. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod opsiwn 1 yn opsiwn anfoddhaol. Ni fydd yn newid y sefyllfa bresennol a bydd yn gadael Gweinidogion Cymru heb unrhyw bwerau statudol i ddod â gwaith anghyfreithlon i ben nac i fynnu bod gwaith yn cael ei wneud i liniaru effeithiau'r difrod wedi hynny. Byddai opsiwn 2, ar y llaw arall, yn darparu pwerau statudol priodol a chymesur, a fyddai'n

cysoni'n well y gweithdrefnau ar gyfer gwarchod henebion cofrestredig sydd o bwys cenedlaethol â'r rheini ar gyfer adeiladau rhestredig a rheoli gwaith datblygu yn gyffredinol.

Tabl 4 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffeirir, sef opsiwn 2

	Y costau presennol	Y costau yn y dyfodol	Sylwadau
Llywodraeth Cymru	Amherthnasol	£350 y flwyddyn	Cyflwyno hysbysiadau stop dros dro
	Amherthnasol	£350 hyd £1,400 y flwyddyn	Hysbysiadau gorfodi

Diwygiadau i droseddau ac amddiffyniadau yn adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf (adrannau 15–17)

Yr opsiynau

304. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a chadw'r troseddau a'r amddiffyniadau presennol.
- Opsiwn 2 — Ei gwneud yn drosedd atebolrwydd caeth gwneud difrod i henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt.
- Opsiwn 3 — Diwygio'r troseddau, ac eto heb eu gwneud yn droseddau atebolrwydd caeth, a diwygio'r amddiffyniadau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddatgan anwybodaeth fel amddiffyniad.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a chadw'r troseddau a'r amddiffyniadau presennol.

305. O dan yr opsiwn hwn, byddai darpariaethau perthnasol Deddf 1979 yn sefyll.

306. Rhwng 2006 a 2012, cofnododd Cadw tua 119 o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig 2012. Yn y rhan fwyaf ohonynt, mân-ddifrod oedd wedi'i wneud, a dim ond i un achos y cynhaliwyd ymchwiliad gan yr heddlu, a arweiniodd at erlyniad llwyddiannus am waith nas awdurdodwyd.

307. Ar ddaliadau amaethyddol y gwnaed y rhan fwyaf o ddifrod sylweddol, lle mae yna gosbau ariannol sylweddol eisoes am dorri rheolau cynlluniau amaeth-amgylcheddol mewn perthynas â thrawsgydymffurfio.

308. Nid oes gan Cadw unrhyw gofnod o ymchwiliad nac erlyniad gan yr heddlu o dan Ddeddf 1979 mewn perthynas â defnydd nas awdurdodwyd o synwryddion metel.

309. Fodd bynnag, mae Cadw a Gweinidogion Cymru wedi cael eu beirniadu ynghylch y diffyg erlyn am waith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig a

difrod iddynt, yn enwedig ar ôl y difrod difrifol i Glawdd Offa yn 2013 lle, er gwaethaf ymchwiliad 10 mis, ni aethpwyd ati i erlyn oherwydd diffyg tystiolaeth. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod opsiwn 1 yn opsiwn boddhaol gan nad yw'n darparu lefel warchod ddigonol ar gyfer henebion cofrestredig.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn drosedd atebolrwydd caeth gwneud difrod i henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt.

310. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn drosedd atebolrwydd caeth gwneud gwaith nas awdurdodwyd ar heneb gofrestredig neu wneud difrod iddi. Byddai hyn yn cysoni'r gwarchod a ddarperir ar gyfer henebion cofrestredig â'r gwarchod sydd ar adeiladau rhestredig, lle mae gwneud gwaith nas awdurdodwyd yn drosedd, oni bai bod y gwaith yn hynod fân ac yn angenrheidiol o ran iechyd a diogelwch neu ddibenion diogelu'r adeilad.
311. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried hwn yn opsiwn rhesymol nac ymarferol. Pan gaiff heneb ei chofrestru, rhoddir gwybod i'r perchennog a phennir pridiant tir. Wedi hynny, bydd staff Cadw yn ymweld â hi bob hyn a hyn i'w monitro. Fodd bynnag, yn wahanol i adeilad rhestredig, efallai na fydd lleoliad neu hyd a lled heneb gofrestredig yn amlwg, yn enwedig os yw'n cynnwys gweddillion sydd wedi'u claddu. Ym marn Gweinidogion Cymru, ni fyddai creu trosedd atebolrwydd caeth yn gymesur. Gallai perchnogion ac eraill grwydro'n ddarwybod neu ar ddamwain i ardal sydd wedi'i gwarchod, lle na fyddai unrhyw reswm iddynt amau bod yna heneb gofrestredig yno. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid caniatáu rhywfaint o ryddid er mwyn gwarchod unigolion, yn hytrach na gwneud troseddwyd ohonynt, a rhaid ystyried hefyd hawliau perchnogion i fwynhau eu heiddo.

Opsiwn 3 — Diwygio'r troseddau, ac eto heb eu gwneud yn droseddau atebolrwydd caeth, a diwygio'r amddiffyniadau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddatgan anwybodaeth fel amddiffyniad.

312. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y troseddau a'r amddiffyniadau yn fwy effeithiol o ran gwarchod henebion, gan roi mwy o gyfrifoldeb ar y rheini sydd am wneud gwaith i gymryd camau rhesymol i gael gwybod a fyddai'n effeithio ar safle cofrestredig. Nid yw'r opsiwn yn creu trosedd atebolrwydd caeth ond, drwy leihau'r posibilrwydd o ddatgan anwybodaeth, byddai'n ei gwneud yn bosibl erlyn unigolyn a ddylai fod wedi gwybod y gallai safle fod wedi'i warchod ac a fethodd gymryd camau rhesymol i ymchwilio.
313. Rhwng 2000 a 2013, mae cofnodion Cadw yn dangos bod ymchwiliadau wedi'u cynnal i bedwar achos o ddifrod sylweddol. Penderfynodd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron beidio â chymryd camau yn yr achosion eraill, ar sail diffyg tystiolaeth. Mae Cadw o'r farn y byddai o leiaf un o'r achosion hyn wedi arwain at erlyniad o dan yr opsiwn hwn.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a chadw'r troseddau a'r amddiffyniadau presennol.

314. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau nac arbedion ychwanegol. Ond ni fyddai'n mynd i'r afael â'r costau sy'n deillio o ymchwiliadau aflwyddiannus i droseddau, y gellid bod wedi'u hadennill pe baent wedi bod yn llwyddiannus.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn drosedd atebolrwydd caeth gwneud difrod i henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt.

315. Mae cofnodion Cadw yn dangos bod yna 119 o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig wedi'u cofnodi rhwng 2006 a 2012 — rhai mân neu anfwriadol yn bennaf. Byddai trosedd atebolrwydd caeth yn golygu y gellid erlyn ym mhob un o'r achosion, er y byddai profion lles y cyhoedd a gynhelir gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn golygu mai dim ond nifer bach ohonynt a fyddai wir yn cael eu hystyried yn destun erlyniad. Byddai trosedd atebolrwydd caeth yn rhoi llai o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru, yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ymchwilio ac erlyn yn yr achosion mwyaf difrifol yn unig, gan gynyddu'r costau yn sgil ymchwiliadau i dor-cyfraith llai difrifol.
316. Mae'n anodd rhagweld sawl achos o ddifrod a fyddai'n arwain at erlyniad pe câi atebolrwydd caeth ei gyflwyno. Fel y nodwyd uchod, rhwng 2000 a 2013 ystyriwyd bod pedwar achos o ddifrod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad gan yr heddlu, a gallwn gymryd mai dyma'r nifer lleiaf o achosion a fyddai wedi bod yn destun erlyniad.
317. Ni wnaed ymchwil benodol i gostau difrod i henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt nac i unrhyw gostau dilynol yn sgil gweinyddu cyfiawnder. Mae ymchwil gan y Swyddfa Gartref²⁶ wedi ystyried costau economaidd a chymdeithasol troseddu. Amcangyfrifir mai cyfartaledd cost y drosedd agosaf, sef difrod troseddol, yw £866 (ar sail prisiau 2003). Mae'r rhan fwyaf o'r gost hon yn ymwneud â'r effaith gorfforol ac emosiynol ar y dioddefwr. Ar wahân i'r ffaith y byddai'n anodd, mewn llawer o achosion o ddifrod i henebion cofrestredig, cael gwybod pwy sydd wedi dioddef, nid yw'r amcangyfrif hwn o gymorth gan ei fod yn llawer is na'r hyn sy'n debygol o fod yn ofynnol er mwyn gwneud gwaith atgyweirio neu adfer yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.
318. Caiff ystod bosibl y costau realistig, ar sail erlyniadau blaenorol, ei hystyried yn fanylach o dan opsiwn 3.

²⁶ Adroddiad Ar-lein 30/05 y Swyddfa Gartref (HOOR 30/05) ac Astudiaeth Ymchwil 217 y Swyddfa Gartref (HORS 217)

Opsiwn 3 — Diwygio'r troseddau, ac eto heb eu gwneud yn droseddau atebolrwydd caeth, a diwygio'r amddiffyniadau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddatgan anwybodaeth fel amddiffyniad.

319. Dim ond mewn un o'r pedwar achos o ddifrod i heneb gofrestredig a oedd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu rhwng 2000 a 2013 y cafwyd erlyniad llwyddiannus. Mae gwaith dadansoddi gan Cadw wedi dangos bod dau achos arall wedi'u gollwng gan yr heddlu ar sail diffyg tystiolaeth bod y sawl a gyhuddwyd yn gwybod am statws cofrestredig yr heneb, ac yn achos y trydydd ni lwyddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i erlyn am yr un rheswm. Mae Cadw o'r farn ei bod yn debygol y byddai o leiaf un o'r achosion hynny wedi bod yn llwyddiannus o dan y newidiadau arfaethedig. Ar y sail hon, mae Cadw yn ystyried y byddai nifer yr erlyniadau am ddifrod i heneb gofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arni yn cynyddu hyd at un achos ychwanegol, ar gyfartaledd, dros gyfnod o bum mlynedd.
320. Mae'n anodd asesu cost ariannol debygol erlyniadau ychwanegol, o gofio nifer bach yr erlyniadau tebyg ar draws y DU a'r potensial am ymchwiliadau amrywiol iawn o ran graddfa a'r amser y maent, felly, yn ei gymryd. Gellir clywed achosion naill ai mewn llys ynadon neu yn llys y Goron, er mai mewn llys ynadon y caiff y rhan fwyaf eu clywed, fel yn achos yr erlyniad diwethaf yng Nghymru yn 2007. Ar gyfartaledd, ar sail prisiau 2013/14, tua £1,522 y diwrnod yw costau staff a barnwrol llys y Goron ac £1,111 y diwrnod mewn llys ynadon.²⁷ Fodd bynnag, bydd yr amser y bydd ei angen yn y llys yn amrywio yn ôl difrifoldeb a chymhlethdod yr achos. Gellir cael syniad mwy ystyrlon o ystod y costau posibl o'r hyn a ddyfarnwyd mewn achosion blaenorol am gostau erlyn. Mae hyn yn amrywio o'r £60 am gostau erlyn a ddyfarnwyd gan y llys ynadon yn yr achos yn 2007 yng Nghymru, i'r £7,500 (yn ogystal â dirwy o £2,500 a hyd at £40,000 ar gyfer gwaith gwirfoddol i liniaru effeithiau'r difrod) a ddyfarnwyd gan Lys y Goron yn 2012 mewn perthynas â difrod mwy difrifol i heneb gofrestredig yng Ngwlad yr Haf.
321. Nid yw'n anghyffredin gweld pobl yn defnyddio synwryddion metel heb awdurdod ar safleoedd henebion cofrestredig, a chaiff mân-ddifrod ei nodi'n rheolaidd yn ystod arolygiadau o safleoedd, ond nid oes gan Cadw unrhyw gofnod o erlyniad o dan Ddeddf 1979. Bydd y potensial i erlyn yn parhau, ond nid ydym yn rhagweld erlyniadau.
322. Er mwyn i'r opsiwn hwn fod yn effeithiol, rhaid i'r wybodaeth am leoliad ardaloedd cofrestredig a'u hyd a'u lled fod ar gael yn hwylus i'r rheini sy'n bwriadu cyflawni gwaith neu ddefnyddio synhwrydd metel. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu porthol mapiau a fydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd modd ei chwilio, a bydd yn dangos lleoliad a ffiniau henebion cofrestredig ac asedau hanesyddol dynodedig eraill. Bydd y wefan ar gael yn llawn yn 2016. Mae'r gwaith o ddatblygu'r porthol hwn yn annibynnol ar y Bil, felly nid yw'r costau datblygu wedi'u cynnwys yma.

²⁷ Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon 2013–14

323. Bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau deddfwriaethol hyn drwy lunio datganiadau i'r wasg ar gyfer cylchgronau, gwefannau, awdurdodau lleol perthnasol a chyrrff sy'n cynrychioli berchnogion megis yr undebau ffermio. Câi mwy o wybodaeth fanwl ei rhoi ar wefan Cadw ac amcangyfrifir cyfanswm cost sy'n llai na £500.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a chadw'r troseddau a'r amddiffyniadau presennol.

324. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol i'r opsiwn hwn ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r anawsterau amlwg sydd wedi bod yn rhwystr wrth geisio erlyn am ddifrod i henebion cofrestredig a gwaith nas awdurdodwyd arnynt. Ac eithrio dirwyon o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol, byddai'r atalfa ar droseddu yn parhau i fod yn gyfyngedig. Mae'r diffyg erlyniadau llwyddiannus o dan y ddeddfwriaeth bresennol wedi arwain at feirniadu helaeth ar Lywodraeth Cymru.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn drosedd atebolrwydd caeth gwneud difrod i henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt.

325. Byddai i'r opsiwn hwn y fantais o wneud unrhyw ddifrod i heneb gofrestrredig neu waith nas awdurdodwyd arni yn drosedd glir, gan wneud y broses erlyn yn symlach mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'n golygu bod unrhyw gamau a gymerir nad ydynt wedi'u hawdurdodi yn droseddau, gan roi baich anghymesur ar berchnogion.

Opsiwn 3 — Diwygio'r troseddau, ac eto heb eu gwneud yn droseddau atebolrwydd caeth, a diwygio'r amddiffyniadau er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddatgan anwybodaeth fel amddiffyniad.

326. Yn ystod yr ymgynghoriad, bron yn ddieithriad, croesawyd y syniad o ddiwygio'r troseddau a'r amddiffyniadau. Byddai'r opsiwn yn gwneud erlyniad llwyddiannus yn fwy tebygol mewn perthynas â difrod difrifol a phwrpasol drwy leihau'r gofyniad ar i'r erlyniad ddarparu tystiolaeth glir — ddogfennol fel rheol — fod y sawl a gyhuddir wedi cael gwybod am statws y safle. Mae'r cynnig hefyd yn dal yn ôl rhag cyflwyno trosedd atebolrwydd caeth, ac felly mae'n gymesur yn yr ystyr ei fod yn lleihau'r risgiau i berchnogion ac eraill rhag cael eu herlyn am dor-cyfraith damweiniol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

327. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru bod y troseddau a'r amddiffyniadau presennol o dan Ddeddf 1979 yn cyfyngu ar y potensial i erlyn yn llwyddiannus am ddifrod i henebion cofrestredig a gwaith nas awdurdodwyd arnynt. Ystyrir felly nad yw parhau â'r trefniadau presennol o dan opsiwn 1 yn gynaliadwy.
328. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyflwyno trosedd atebolrwydd caeth o dan opsiwn 2 yn anghymesur gan y byddai'n golygu bod unrhyw ddifrod i

henebion cofrestredig neu waith nas awdurdodwyd arnynt yn drosedd, hyd yn oed pan na fyddai lleoliad neu hyd a lled yr heneb yn glir i'w weld.

329. Byddai opsiwn 3 yn rhoi pwysau mwy ar y rheini sy'n cyflawni gwaith neu'n defnyddio synhwyrdd metel i gymryd camau rhesymol i gael gwybod a fyddai hynny'n effeithio ar safle a warchodir. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y newid hwn yn gymesur ac, er na fyddai'n effeithio mewn ffordd afresymol ar fuddiannau perchnogion tir, bydd yn gwneud erlyniadau llwyddiannus yn fwy tebygol mewn achosion o ddifrod difrifol a phwrpasol, ac felly y bydd pobl yn fwy gofalus.

Creu Cofrestr statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol (adran 18)

Yr opsiynau

330. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r arfer o gynnwys y parciau a'r gerddi hynny yn unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad i'w cynnwys ar yr '*Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol*'.²⁸
- Opsiwn 2 — Dynodi parciau a gerddi gan ddefnyddio'r pwerau cofrestru a rhestru presennol.
- Opsiwn 3 — Gwneud y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yn statudol.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r arfer o gynnwys y parciau a'r gerddi hynny yn unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad i'w cynnwys ar y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol*.

331. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* yn parhau i gael ei chyhoeddi, gan nodi'r safleoedd hynny'n unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad i'w cynnwys ar y Gofrestr. Ar hyn o bryd, mae'r Gofrestr yn cynnwys 386 o barciau a gerddi hanesyddol, ond mae 14 o safleoedd cyflawn wedi'u hepgor yn llwyr gan nad yw'r perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad, ac mae rhannau o 7 parc a gardd arall wedi'u hepgor am yr un rheswm. Er nad yw'r achosion hyn yn niferus, maent yn golygu nad yw'r Gofrestr wedi gallu rhoi darlun cwbl gynhwysfawr o'r parciau a'r gerddi hynny sydd o ddiddordeb cenedlaethol.
332. Nid yw bod ar y Gofrestr yn golygu bod y parciau a'r gerddi hanesyddol sydd arni wedi'u gwarchod yn statudol, ond mae *Polisi Cynllunio Cymru*²⁹ yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol eu gwarchod a'r ardaloedd o'u hamgylch wrth ystyried ceisiadau cynllunio. O ganlyniad, ymgynghorir â Llywodraeth Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau fel adeiladau newydd, meysydd parcio a gwaith tirlunio strwythurol yn ogystal ag

²⁸ Y ffurf gryno hon o'r teitl a gaiff ei defnyddio drwy'r ddogfen. Y teitl llawn yw'r *Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi*, Cadw/ICOMOS UK (1994 i 2007).

²⁹ *Polisi Cynllunio Cymru*, Llywodraeth Cymru

ynghylch unrhyw newidiadau i strwythurau rhestredig. Cyflwynir rheolaethau ychwanegol hefyd drwy orchmynion diogelu coed, gwarchod coed mewn ardaloedd cadwraeth a thrwyddedau torri coed. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i barc neu ardd cyhyd â bod y gwaith yn ddatblygiad a ganiateir, ee newid yr hyn y maent am ei blannu neu dorri coed nad ydynt wedi'u gwarchod. Serch hynny, nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn nad yw'r system reolaethau bresennol yn effeithiol. Ni thynnwyd un parc na gardd o'r Gofrestr ers i gyfrolau'r siroedd gael eu cyhoeddi rhwng 1994 a 2007. Yn wir, yn gyffredinol nid yw'r rhan fwyaf o barciau a gerddi hanesyddol yn dod o dan bwysau i newid; lle mae newid sylweddol yn debygol, gan effeithio ar eu cymeriad, mae rheolaethau yn eu lle fel rheol, drwy ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio.

333. Mae'r ffaith mai Cofrestr wirfoddol yw hon yn golygu y gallai perchnogion parciau a gerddi hanesyddol, yn rhai presennol a rhai newydd, dynnu eu cydsyniad i gael eu cynnwys yn ôl. Byddai hynny'n golygu tynnu safleoedd o arwyddocâd oddi ar y Gofrestr ac felly na fyddent yn cael eu gwarchod i'r un graddau rhag newidiadau amhriodol.
334. Yn ystod yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu ynghylch y Bil, mynegodd nifer o bobl bryder am gynaliadwyedd natur wirfoddol y Gofrestr parciau a gerddi yn y dyfodol pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu tynnu ei chefnogaeth yn ôl.

Opsiwn 2 — Dynodi parciau a gerddi gan ddefnyddio'r pwerau cofrestru a rhestru presennol.

335. Byddai'r opsiwn hwn yn defnyddio'r dynodiadau rhestru a chofrestru sydd eisoes yn bod i warchod parciau a gerddi hanesyddol. Mae llawer o adeiladau a strwythurau parciau a gerddi hanesyddol eisoes wedi'u rhestru, gan gynnwys adeiladau, cerfluniau a strwythurau gerddi, ond ni ellir cymhwyso'r categori dynodi hwn i blanhigion, gwelyau blodau na choed.
336. Eisoes mae cofrestru hefyd yn cael ei ddefnyddio i warchod rhannau o barciau a gerddi hanesyddol Cofrestredig — safleoedd a nodweddion archaeolegol cynharach yn bennaf sydd wedi goroesi o fewn y tir, ond hefyd rhai nodweddion sydd wedi dadfeilio. Mae rhai gerddi wedi'u cofrestru'n llwyr oherwydd eu harwyddocâd hanesyddol, ond gerddi creiriol yw'r rhain nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach.
337. Gan mai ei nod yw gwarchod integriti archaeolegol safleoedd sydd o arwyddocâd archaeolegol neu hanesyddol ond nad ydynt yn cael eu defnyddio'n economaidd bellach, mae cofrestru yn gosod rheolaethau tynn drwy ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad cyn y ceir gwneud unrhyw waith, bron, o fewn ardal a ddynodwyd. Gallai cyflwyno newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth ddarparu cydsyniad cyffredinol ar gyfer gwaith domestig a gwaith garddio arall, ond byddai angen cydsyniad heneb gofrestredig llawn er mwyn gosod strwythurau newydd, er enghraifft gosod llwybrau, ailblannu neu ddiwreiddio coed, neu atgyweirio ffosydd. Byddai hyn yn rhoi pwysau annerbyniol ar berchnogion ac yn rhwystr o ran rheoli a defnyddio parciau a gerddi hanesyddol yn effeithiol. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn felly.

Opsiwn 3 — Gwneud y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yn statudol.

338. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gynnal a gwella'r Gofrestr. Câi pob parc a gardd hanesyddol sy'n bodloni'r meini prawf a gyhoeddir eu cynnwys ar y Gofrestr a byddent yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau. Byddai hefyd yn sicrhau bod y *Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol* yn cael ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. A byddai'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwybod i berchnogion a/neu feddianwyr parc neu ardd hanesyddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Cofrestru a'i oblygiadau.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r arfer o gynnwys y parciau a'r gerddi hynny yn unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad i'w cynnwys ar y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol.

339. Ni fyddai parhau â'r trefniadau presennol yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen diweddarau'r canllawiau ar reoli parciau a gerddi hanesyddol.

Opsiwn 2 — Dynodi parciau a gerddi gan ddefnyddio'r pwerau cofrestru a rhestru presennol.

340. Ni pharatowyd dadansoddiad manwl o'r costau gan nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'r rheolaethau manwl a gâi eu gosod ar berchnogion drwy gofrestru yn dderbyniol.

Llywodraeth Cymru

341. Fodd bynnag, i roi amcan, mae'n costio tua £630 i Lywodraeth Cymru gofrestru heneb.³⁰ Byddai'r gwaith o ddynodi'r 386 o barciau a gerddi sydd ar y Gofrestr, felly, yn costio tua £250,000 a byddai'n digwydd dros gyfnod o ddwy flynedd. Fel rhan o'r broses ddynodi, câi perchnogion gyfle i ofyn am adolygiad o benderfyniad dynodi Gweinidogion Cymru. Amcangyfrifir y câi 5 y cant o ddynodiadau eu hadolygu, gan gostio tua £90,000 dros gyfnod y ddwy flynedd.
342. Os oes proses ddynodi ffurfiol i gael ei mabwysiadu, bydd angen cyflwyno hefyd system gydsyniad. Caiff y rhan fwyaf o waith garddwriaethol sy'n parhau ei awdurdodi'n awtomatig drwy gydsyniad dosbarth,³¹ ond byddai angen cydsyniad heneb gofrestredig er mwyn gwneud unrhyw waith newydd fel ehangu gwelyau blodau neu blannu coed newydd. Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at o leiaf 30 o geisiadau am gydsyniad bob blwyddyn ac, ar sail costau gweinyddol Cadw o £86.20 ynghyd â threuliau teithio am bob cydsyniad heneb gofrestredig, byddai hyn yn costio tua £2,600 y flwyddyn.

³⁰ Amcangyfrif Cadw yn seiliedig ar adroddiad Llywodraeth Cymru ar gostau bandiau cyflog a safoni'r broses o ragweld costau rhedeg adrannau

³¹ The Ancient Monuments (Class Consents) Order 1994

Perchnogion

343. Byddai'r costau yn cynyddu i berchnogion o dan yr opsiwn hwn. Ar hyn o bryd, dim ond os gwnânt gais am ganiatâd cynllunio y mae'r Gofrestr yn golygu cost i berchnogion. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen i berchnogion wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, yn ogystal â thrafod eu cynlluniau gyda Cadw er mwyn sicrhau eu bod yn foddhaol. Mae'n debygol y bydd y costau i berchnogion yn lled debyg i'r costau i Weinidogion Cymru, sef cyfanswm o ryw £2,600 y flwyddyn.

Opsiwn 3 — Rhoi'r Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol ar sail statudol.

Llywodraeth Cymru

344. Gweinidogion Cymru fyddai'n ysgwyddo prif gostau'r opsiwn hwn, yn sgil y ddyletswydd i roi gwybod i bob perchennog a meddiannwr eu bod wedi'u cynnwys ar y Gofrestr. Ar hyn o bryd, mae 382 o safleoedd wedi'u cynnwys ar y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol*, ac mae'r patrwm perchnogaeth yn amrywio fel y mae Tabl 5 yn ei grynhoi, ar sail yr wybodaeth sydd gan Cadw.

Tabl 5 — Perchnogion parciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru

	Math o berchnogaeth									
Sir	Unigol						Wedi'i rhannu	Rhwng sawl unigolyn neu gorff	Cyfansymiau	
	LIC	ALI	CE	PE	PS	PP				
Gwent	1	12	4	11	5	22	8	1	64	
Clwyd ac eithrio rhan o Gonwy/Powys	2	5	6	24	3	24	2	3	69	
Conwy, Ynys Môn a Gwynedd	1	5	6	12	7	25	6	3	65	
Powys	1	4	4	14	6	20	2	1	52	
Morgannwg	4	36	4	5	4	8	5	4	70	
Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro	4	5	10	12	5	17	10	3	66	
Cyfansymiau	13	67	34	78	30	116	33	15	386	

Allwedd:

LIC: Llywodraeth Cymru neu gyrff eraill y Llywodraeth, ee. y GIG

ALI: Awdurdod lleol — parciau trefi a pharciau gwledig yn bennaf

CE: Corff elusennol — y nifer mwyaf gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

PE: Perchennog etifeddol y mae'r ystâd wedi bod yn ei feddiant ers 100 mlynedd neu fwy

PS: Perchennog sefydliadol — gwestai, ysgolion a chyrsgolff yn bennaf

PP: Perchennog preifat y mae'r safle wedi bod yn ei feddiant ers llai na 100 mlynedd

Wedi'i rhannu: Lle mae gan barc a/neu ardd ddau berchennog

Rhwng sawl unigolyn neu gorff: Safle sy'n perthyn i fwy na dau berchennog

345. Mae Cadw yn amcangyfrif y bydd y weithdrefn hysbysu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd dilynol sydd eu hangen, yn golygu cost staff flynyddol o ryw 0.5 o gost swydd gyfwerth ag amser cyflawn ar Fand Rheoli 2, yn ogystal â lefel debyg o gymorth gweinyddol ar Fand Rheoli 1. Cynigir cynnal y broses dros gyfnod o ddwy flynedd, gan dalu costau staff a theithio o ryw £21,200 yn 2016–2017, a fydd yn codi i ryw £22,200 y flwyddyn wedyn. Unwaith y bydd y cyfnod gwaith hwn wedi'i gwblhau, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol wedyn.
346. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen rhoi canllawiau penodol i berchnogion ac awdurdodau cynllunio lleol ar warchod a rheoli parciau a gerddi hanesyddol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio hyd at £5,000 ac y caiff y canllawiau hyn eu llunio yn 2016–2017.
347. Mae Llywodraeth Cymru wrthi hefyd yn datblygu porthol mapiau ar-lein a fydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd modd ei chwilio, a bydd yn dangos lleoliad a ffiniau parciau a gerddi hanesyddol Cofrestredig. Bydd hyn yn helpu i dynnu sylw perchnogion y dyfodol at y ffaith bod parc neu ardd hanesyddol wedi'u cofrestru. Mae'r gwaith o ddatblygu'r adnodd hwn yn annibynnol ar y Bil, felly nid yw'r costau datblygu wedi'u cynnwys yma.

Awdurdodau cynllunio lleol a pherchnogion

348. O ychwanegu 14 o safleoedd cyflawn a 7 rhan ychwanegol at y rheini sydd ar y Gofrestr eisoes, bydd polisiâu cynllunio cenedlaethol ar gyfer gwarchod parciau a gerddi hanesyddol yn berthnasol iddyn nhw. Bydd angen rhoi ystyriaeth ychwanegol, felly, wrth wneud a phenderfynu ar gais cynllunio. Os gwneir cais cynllunio ar gyfer unrhyw un o'r safleoedd ychwanegol a gaiff eu cynnwys ar y Gofrestr, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol gynnwys Cadw ac unrhyw gorff cyngori a enwebir yn ei restr o ymgylgoreion.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r arfer o gynnwys y parciau a'r gerddi hynny yn unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu cydsyniad i'w cynnwys ar y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol*.

349. Ni fydd parhau â'r trefniadau presennol yn arwain at unrhyw fanteision newydd, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau sy'n codi pan fydd rhai perchnogion — nifer fach ydynt — yn penderfynu nad ydynt am gael eu cynnwys ar y Gofrestr.

Opsiwn 2 — Dynodi parciau a gerddi gan ddefnyddio'r pwerau cofrestru a rhestru presennol.

350. Eisoes mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i ddynodi adeiladau a strwythurau sy'n bodloni'r meini prawf rhestru. Byddai rhestru parc/gardd gyfan neu ran ohono/i yn golygu bod modd rheoleiddio newidiadau neu waith a wneir arno/i yn ofalus.

Opsiwn 3 — Gwneud y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yn statudol.

351. Bydd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* yn sicrhau bod y trefniadau sydd wedi'u sefydlu o dan y drefn wirfoddol bresennol yn cael eu cynnal ar gyfer y dyfodol. Bydd cynnwys pob parc a gardd hanesyddol, gan gynnwys y nifer bach nad oedd eu perchnogion am eu cynnwys ar y Gofrestr pan gyhoeddwyd cyfrolau'r siroedd rhwng 1994 a 2007, yn sicrhau bod pob un yn cael eu trin yn gyfartal o dan y system rheoli datblygu. Bydd rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwybod i berchnogion a meddianwyr bod eu safleoedd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr, ynghyd â llunio canllawiau diwygiedig a mapiau ar-lein, yn sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau posibl ar eu tir o dan y system rheoli datblygu.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

352. Nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y trefniadau gwirfoddol presennol y mae opsiwn 1 yn darparu ar eu cyfer yn gynaliadwy bellach, nawr bod y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* wedi hen ennill ei phlwyf mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol dros y ddau ddegawd ers i gyfrolau cyntaf y siroedd gael eu cyhoeddi.
353. O dderbyn opsiwn 2, yr unig fantais o ran polisi fyddai bod yna broses reoleiddio dynnach ar berchnogion drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gael cydsyniad cyn gwneud unrhyw newid i barc neu ardd. Byddai'r gofyniad hwnnw'n ychwanegol at y cyfyngiadau sydd eisoes yn eu lle drwy'r gweithdrefnau cynllunio, rhestru a chofrestru. Nid oes gan Weinidogion Cymru dystiolaeth bod angen rheolaethau mor fanwl ar y 386 o barciau a gerddi sydd eisoes wedi'u cofrestru. Byddai rheoleiddio ychwanegol mor gynhwysfawr yn gosod cyfyngiad amhriodol ar hawliau perchnogion i fwynhau eu heiddo ac yn golygu cael system gymhleth, ddiangen er mwyn ei weinyddu. Nid yw'r opsiwn hwn wedi'i ystyried ymhellach felly.
354. Byddai opsiwn 3 yn sicrhau bod y *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* yn adnodd cynhwysfawr a chynaliadwy ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd briodol yn y dyfodol. Byddai hefyd yn creu system gyfyngiadau dryloyw a theg ar gyfer perchnogion a meddianwyr. Byddai'r broses hysbysu yn golygu costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, ond gellir talu'r rhain o'r cyllidebau presennol.

Tabl 6 — Costau ychwanegol yr opsiwn a ffefrir, sef opsiwn 3, i Lywodraeth Cymru 3

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Costau staff	£18,700	£19,700	-	-	-
Teithio	£2,500	£2,500	-	-	-
Canllawiau	£5,000	-	-	-	-
Cyfanswm	£26,200	£22,200	-	-	-

Pwerau mynediad ar gyfer gwaith archwilio archaeolegol ar safleoedd henebion sydd mewn perygl o gael eu difrodi neu eu distrywio yn y dyfodol agos (adran 19)

Yr opsiynau

355. Cafodd dau opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r meddiannwr roi ei gydsyniad cyn y gellir gwneud gwaith archwilio archaeolegol.
- Opsiwn 2 — Rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru wneud archwiliad archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr pan fyddant o'r farn bod heneb hynafol mewn perygl o gael ei difrodi neu ei distrywio yn y dyfodol agos.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r meddiannwr roi ei gydsyniad cyn y gellir gwneud gwaith archwilio archaeolegol.

356. Eisoed mae gan Weinidogion Cymru bwerau mynediad statudol amrywiol i arolygu henebion cofrestredig neu hynafol a gallant wneud cofnodion arnynt. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cael cydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr y cânt wneud gwaith archwilio archaeolegol. O ganlyniad, os nad yw'n hysbys pwy yw'r perchennog neu os nad oes modd cysylltu ag ef, mae yna risg y gellid difrodi neu ddistrywio heneb yn y cyfamser, gan olygu bod gwybodaeth archaeolegol yn cael ei cholli.

Opsiwn 2 — Rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru wneud gwaith archwilio archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr pan fyddant o'r farn bod heneb hynafol mewn perygl agos o gael ei difrodi neu ei distrywio.

357. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gwaith archwilio archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr, ond dim ond os ydynt o'r farn bod yr heneb mewn perygl o gael ei difrodi neu ei distrywio yn y dyfodol agos. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae'r pŵer hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio. Mae Cadw yn nodi bod perchnogion neu feddianwyr, mewn amgylchiadau o'r fath, yn rhoi eu cydsyniad yn hawdd fel rheol ac mae'n cadw manylion cynhwysfawr ar berchnogion a meddianwyr. Fodd bynnag, mae yna nifer bach o safleoedd lle nad yw'n hysbys pwy yw'r perchnogion neu lle nad oes unrhyw un wedi hawlio perchnogaeth arnynt. Gall sefyllfaoedd godi hefyd lle mae gwaith nas awdurdodwyd wedi'i wneud neu ar y gweill, gan adael heneb yn agored i ddifrod, a lle mae'n anodd cysylltu â'r perchennog. Er enghraifft, pan ddifrodwyd Clawdd Offa yn 2013, roedd y safle wedi'i werthu'n ddiweddar ac nid oedd Cadw yn gallu dod o hyd i'r perchennog newydd drwy holi'r cymdogion.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r meddiannwr roi ei gydsyniad cyn y gellir gwneud gwaith archwilio archaeolegol.

358. Ni fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol, ond gallai olygu cost anfesuradwy yn sgil colli heneb hynafol sydd o arwyddocâd archaeolegol neu hanesyddol a cholli gwybodaeth archaeolegol.

Opsiwn 2 — Rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru wneud gwaith archwilio archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr pan fyddant o'r farn bod heneb hanesyddol mewn perygl agos o gael ei difrodi neu ei distrywio.

Llywodraeth Cymru

359. O dan yr opsiwn hwn, Gweinidogion Cymru fyddai'n gorfod talu am unrhyw waith archwilio archaeolegol a wneir heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr. Mae'n amhosibl rhagweld costau gwaith o'r fath gan y byddant yn amrywio yn ôl anghenion y safle, o fân dwrio dan yr wyneb a chofnodi a fyddai'n costio dim mwy na £70, i waith archwilio archaeolegol mawr, o bosib. Yn achos y difrod a wnaed yn 2013 ar ran gofrestrdig o Glawdd Offa, costiodd y gwaith archwilio archaeolegol ryw £6,000, ond byddai hyn yn cynrychioli lefel uchaf y raddfa waith archaeolegol bosibl.
360. Fodd bynnag, mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu pryd i ddefnyddio'r pŵer ac, fel y nodir uchod, caiff unrhyw waith archwilio angenrheidiol ei wneud, fel rheol, drwy gytundeb, gan osgoi'r angen i ddefnyddio'r pŵer. Mewn achosion o waith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig, lle mae'r perchennog yn gwrthod talu costau unrhyw waith archwilio angenrheidiol, mae'n bosibl y caiff hysbysiadau gorfodi eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
361. Rhagwelir mai rhywbeth eithriadol fyddai defnyddio'r pŵer ac mewn achosion, gan amlaf, lle gadawyd heneb mewn sefyllfa fregus ar ôl gwaith nas awdurdodwyd. Mewn achosion o'r fath, bydd y gwaith a wneir gan ddefnyddio'r pŵer statudol yn gyfyngedig i'r hyn y mae angen ei wneud ar unwaith, ac mae'n debygol o fod ar lefel isaf y raddfa gostau, felly. Lle mae'r perygl i heneb gofrestrdig yn codi yn sgil gwaith nas awdurdodwyd, y perchennog fyddai'n talu am ran gyntaf y gwaith archwilio rhagarweiniol sylfaenol yn sgil hysbysiad gorfodi neu, os oes angen, erlyniad llwyddiannus.

Perchnogion

362. Llywodraeth Cymru fyddai'n talu am unrhyw waith archwilio brys a wneir o dan y darpariaethau hyn a châi'r tir ei adfer.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r meddiannwr roi ei gydsyniad cyn y gellir gwneud gwaith archwilio archaeolegol.

363. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae heneb mewn perygl o gael ei difrodi neu ei distrywio yn y dyfodol agos, bydd y perchennog neu'r meddiannwr yn rhoi ei gydsyniad i'r gwaith gael ei wneud.

Opsiwn 2 — Rhoi pŵer mynediad i Weinidogion Cymru wneud gwaith archwilio archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr pan fyddant o'r farn bod heneb hynafol mewn perygl agos o gael ei difrodi neu ei distrywio

364. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gwaith archwilio archaeolegol heb gydsyniad y perchennog neu'r meddiannwr. Dim ond mewn sefyllfa eithriadol y câi'r pŵer hwn ei ymarfer, pan fyddai heneb gofrestredig mewn perygl o gael ei difrodi neu ei distrywio yn y dyfodol agos, a hynny er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth archaeolegol yn cael ei cholli o safle sydd o bwys cenedlaethol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

365. Mae opsiwn 1 yn parhau â'r trefniadau presennol ac mae'n debygol o fod yn foddhaol yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Fodd bynnag, lle bydd yna fygythiad sydyn o ddifrod, nid yw'n hysbys pwy yw'r perchennog ac nid oes modd cysylltu ag ef, nid yw'n mynd i'r afael â phroblem difrod i heneb gofrestredig sydd o bwys cenedlaethol a'i gwybodaeth archaeolegol, neu ei cholli oherwydd, er enghraifft, dymchwel, erydu neu waith nas awdurdodwyd.

366. Mae opsiwn 2 yn mynd i'r afael â'r gwendid hwn a dyma'r opsiwn a ffeirir. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond fel eithriad y câi'r pŵer ei ddefnyddio, a fyddai'n effeithio ar hawliau tirberchnogion. Byddai'r gwaith archaeolegol yn gyfyngedig i'r gwaith brys y mae angen ei wneud a Llywodraeth Cymru fyddai'n talu amdano.

Ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig (adran 22)

Yr opsiynau

367. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim.
- Opsiwn 2 — Diwygio'r diffiniad statudol o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys unrhyw heneb y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod o bwys cenedlaethol — am resymau hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol.

- Opsiwn 3 — Ehangu'r diffiniad o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys pob safle lle mae yna dystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol.

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

368. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r henebion hynafol a gofrestrir yn parhau i gyd-fynd â'r diffiniad sydd yn Neddf 1979, sy'n cyfyngu dynodi statudol i safleoedd sy'n strwythurau neu'n weithfeydd.
369. Nid yw'r diffiniad wedi'i ddiwygio ers i'r Ddeddf gael ei phasio ac mae wedi bod yn gyfrwng i gofrestru mwy na 4,000 o safleoedd yng Nghymru. Mae'r broses yn hawdd ei deall ac nid yw'n ddadleuol, ar y cyfan, gan mai safleoedd archaeolegol, adfeilion neu adeiladau yw bron i bob un o'r safleoedd hynny, ac nad oes llawer o argoelion o'u defnyddio'n economaidd.
370. Er bod y diffiniad presennol yn golygu bod modd cofrestru'r mwyafrif helaeth o safleoedd pwysig, mae arteffactau a gweddillion archaeolegol eraill nad ydynt yn rhan o strwythurau neu weithfeydd yn cwympo y tu allan i'r diffiniad presennol a, hyd yn oed os ydynt o bwys cenedlaethol, ni ellir felly eu cofrestru. Safleoedd cynnar, hynod brin yw'r rhain yn bennaf, o'r cyfnodau Palaeolithig a Mesolithig, lle mai dim ond arteffactau neu offrymau adduned sydd yna i arwyddo gweithgarwch dynol, eu gwaith a'u diwydiannau.

Opsiwn 2 — Diwygio'r diffiniad statudol o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys unrhyw heneb y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod o bwys cenedlaethol — am resymau hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol.

371. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud unrhyw safle, nodwedd, strwythur neu ardal sydd o arwyddocâd hanesyddol neu archaeolegol yn gymwys i'w cofrestru, ac yn gymwys felly i gael eu gwarchod o dan y drefn statudol ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig.
372. Byddai'r opsiwn yn ei gwneud yn bosibl dynodi amrywiaeth aruthrol o safleoedd — mewn egwyddor, gellid ystyried cyfran sylweddol o'r mwy na 150,000 o nodweddion a nodwyd yn y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Gallai hefyd wrthdaro â mathau eraill, mwy priodol o ddynodi neu gofrestru statudol neu anstatudol. Gallai arwain at bwysau i gofrestru rhannau helaeth o dir, gan gynnwys elfennau o dirweddau sydd ar y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru*.³² Byddai cofrestru adeiladau sy'n cael eu defnyddio yn torri ar draws y drefn restru ac yn gosod rheolaethau amhriodol o gyfyng ar berchnogion a meddianwyr.
373. Byddai angen meini prawf llym ar gyfer diffiniad mor fras, naill ai drwy is-ddeddfwriaeth neu ddogfennau polisi. Byddai perchnogion yn gwrthwynebu

³² *Y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 2: Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru*, Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Cadw/ICOMOS UK (1998 i 2001)

diffiniad mor eang o heneb, a byddai'r rheolaethau cyfyng ar berchnogion a meddianwyr yn cael eu hystyried yn gymhleth, yn fiwrocrataidd, yn aneffeithiol ac yn rhwystr i arferion gwaith cyffredin.

Opsiwn 3 — Ehangu'r diffiniad o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys pob safle lle mae yna dystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol.

374. Byddai'r opsiwn yn ei gwneud yn bosibl cofrestru, gwarchod a rheoli'n briodol nifer cymharol fach o safleoedd — llai na 30 yn ôl pob tebyg — nad ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniad presennol o gofrestru, ond y gwyddom eu bod o bwys archaeolegol cenedlaethol. Ar hyn o bryd, maent yn agored i ddifrod a cholli eu harwyddocâd archaeolegol, yn benodol drwy gael eu rheoli neu eu defnyddio mewn ffordd amhriodol.
375. Byddai ehangu'r diffiniad o'r hyn y gellir ei gofrestru yn golygu y byddai tir nifer bach o berchnogion yn cael ei gofrestru. Byddai hyn yn cyflwyno cyfyngiadau gan ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o waith newydd a fyddai'n effeithio ar y tir neu'r heneb gael ei awdurdodi'n gyntaf gan Weinidogion Cymru drwy gydsyniad heneb gofrestredig. Fodd bynnag, mae yna amryw fathau o 'gydsyniad dosbarth' yn golygu bod modd parhau i ddefnyddio safle cofrestredig, er enghraifft ar gyfer pori.
376. Gallai'r diffiniad ei gwneud yn bosibl cofrestru ardaloedd helaeth lle bu gweithgarwch dynol. Ym Mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro, er enghraifft, mae tystiolaeth o weithgarwch cynhanesyddol i'w weld dros ardal eang. Byddai angen i Weinidogion Cymru gyhoeddi meini prawf penodol i ddiffinio'r arteffactau a'r gweddillion a ystyrir o bwys cenedlaethol y mae'r opsiwn hwn yn dymuno'u gwarchod; bydd hyn yn sicrhau na chaiff y diffiniad ei ddefnyddio'n rhy eang ac yn amhriodol.

Costau

377. Mae'r arfer o gofrestru henebion hynafol yn statudol wedi bod yn digwydd ers 1913, ac wedi bod ar ei ffurf bresennol ers 1979, ond ni wnaed ymchwil ffurfiol i effaith cofrestru ar werth tir. Fodd bynnag, mewn canllawiau a gyhoeddwyd yn 2014 gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, aethpwyd ati i ddadansoddi manylion gwerthu henebion — safleoedd llai yn bennaf lle roedd yna weddillion archaeolegol neu adfeilion — a daethpwyd i'r casgliad eu bod wedi'u gwerthu am ychydig yn uwch na gwerth y tir, gyda'r premiwm ychwanegol yn amrywio o 10 i 20 y cant.³³ 227. Prin yw'r effeithiau andwyol sylweddol sy'n codi yn sgil cofrestru ac mae gan Cadw dystiolaeth anecdotaidd i ategu hynny. Mae'n dangos nad yw'n fater dadleuol yn aml iawn, nac ychwaith yn destun gwrthwynebiad gan berchnogion, oni bai ei fod yn effeithio ar ddatblygiad llawer mwy, fel fferm wynt neu fwynglawdd agored. Gall heneb gofrestredig ar dir fferm fod o fudd i'r perchennog drwy ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith o'i rheoli'n briodol o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir.

³³ 'Valuation of historic buildings', papur gwybodaeth Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, rhifyn 1, Mai 2014

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

378. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mater i Weinidogion Cymru yw penderfyniadau cofrestru, a chaiff rhaglen gofrestru Cadw o safleoedd posibl a ddaw i'w sylw drwy'r arolygon y mae'n eu comisiynu ei chynnal yn ôl yr adnoddau staff sydd ar gael, arwyddocâd y safle a lefel y perygl sydd iddo.

Opsiwn 2 — Diwygio'r diffiniad statudol o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys unrhyw heneb y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod o bwys cenedlaethol — am resymau hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol.

379. Mae'n amhosibl amcangyfrif beth yn union fyddai pen draw ehangu ystod y safleoedd a gâi eu cofrestru, o gyflwyno maen prawf digyfngiad i bob pwrpas. Gellid creu diffiniadau polisi ar yr hyn y gellir ei gofrestru a fyddai'n lleihau nifer y safleoedd a gofrestrir. Yn ymarferol, byddai Llywodraeth Cymru yn ehangu corff y safleoedd a gaiff eu hystyried, fel rhan o'r rhaglen i gynnwys y safleoedd sy'n bodloni'r diffiniad newydd. Ar hyn o bryd, mae Cadw wedi cwblhau, fwy neu lai, ei asesiad o'r safleoedd cynhanesyddol a Rhufeinig hynny sy'n hysbys yng Nghymru, ac mae'r asesiad o'r safleoedd canoloesol ac ôl-ganoloesol a safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif yn mynd yn eu blaen yn dda. Oni bai bod yna ddiffiniadau polisi yn cyfyngu arni, byddai'r rhaglen ehangu cofrestru, i bob pwrpas, yn gwbl benagored o dan yr opsiwn hwn.

Llywodraeth Cymru

380. Yn nhermau amser staff Cadw, mae proses gofrestru safonol yn costio tua £630, ynghyd â chostau teithio. Gallwn gymryd y byddai'r safleoedd sy'n bodloni'r diffiniad cofrestru yn cynnwys y 30 o safleoedd y soniwyd amdanynt o dan opsiwn 3. Mae'n anodd amcangyfrif faint yn rhagor o safleoedd y gallai fod angen eu cofrestru, ond byddai'n llawer llai na'r 150,000 o nodweddion a nodwyd yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol. A chymryd amcan ceidwadol, byddai hyd at ryw 25 y cant yn fwy o henebion yn cael eu cofrestru neu ryw 1,000 o safleoedd ychwanegol. Byddai hyn yn golygu cost ychwanegol bosibl, dros oes y rhaglen ehangu cofrestru, rhwng £19,000 (30 x £630) a thua £630,000 (£1,000 x £630) yn ogystal â chostau teithio. Byddai'r gost hon yn ychwanegol at gost y rhaglen ehangu cofrestru presennol a byddai'n cronni dros oes y rhaglen.
381. Yn ogystal, gan y byddai'r diffiniad a gynigir ar gyfer yr opsiwn hwn yn llawer mwy agored i gael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd, mae'n debygol y byddai cynnydd yn nifer y ceisiadau am adolygiadau gan berchnogion. Ar sail nifer yr adolygiadau dynodi a ragwelir, sef tua 5 y cant o'r achosion ar gost o £2,250 yr un,³⁴ 227. Byddai'r costau ychwanegol yn amrywio o £3,375 i £112,500.

³⁴ Ar sail y rhagdybiaeth y byddai angen 3 diwrnod, ar gyfartaledd, ar yr Arolygydd Cynllunio sy'n derbyn y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer pob achos, ar gost ddyddiol o £750 y diwrnod; gweler paragraff 260).

382. Yn 2012, rheolodd Cadw 110 o geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig. Mae'r nifer hwn, sydd wedi parhau'n gymharol gyson dros y 5 mlynedd diwethaf, yn cynrychioli gwaith i gyfran fach yn unig (tua 2.4 y cant) o'r mwy na 4,000 o henebion sydd ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Pe bai nifer yr henebion i'w cofrestru yn cynyddu'n ddramatig, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru weinyddu nifer mwy o geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig. Ar sail 1,000 o henebion ychwanegol, a phob cais syml am gydsyniad heneb gofrestredig yn costio tua £86.20 i Lywodraeth Cymru ei weinyddu, byddai hyn yn golygu cost ychwanegol o £86.20 x 24 neu ryw £2,070 y flwyddyn.

Opsiwn 3 — Ehangu'r diffiniad o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys pob safle lle mae yna dystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol.

Llywodraeth Cymru

383. Pe bai nifer y safleoedd a ychwanegir at y corff o safleoedd i'w hystyried yn llai na 30, ni fyddai'n golygu costau ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Cymru, gan mai canran fach yw hyn o gyfanswm y safleoedd a allai fod yn gymwys o dan y meini prawf presennol. Dros gyfnod y rhaglen ehangu cofrestru, byddai'r gost ychwanegol yn dod i 30 x £630 (cost proses cofrestru safonol) neu ryw £18,900 yn ogystal â chostau teithio. Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ryw 10 safle y gwyddom am eu harwyddocâd. Caent eu dynodi rhwng 2016 a 2021, ar gost flynyddol o £1,260.
384. Bydd gan berchnogion a phartion eraill sydd â diddordeb yr hawl i wneud cais am adolygiad annibynnol o benderfyniad dynodi, o dan ddarpariaethau eraill y Bil hwn. Amcangyfrifir y gwneir cais o'r fath yn achos 5 y cant o gynigion i gofrestru, a fyddai, ar sail y 30 o safleoedd a ragwelir, yn golygu 1 i 2 adolygiad, ar gyfanswm cost o ryw £3,375 ar sail y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Os cofrestrir 10 safle dros y 5 mlynedd nesaf, byddai hyn yn gost dros y cyfnod hwn o hyd at £1,125. Fodd bynnag, o gofio bod y safleoedd hyn wedi goroesi heb ddioddef gormod o ddifrod a'u bod yn adnabyddus am eu harwyddocâd archaeolegol, mae'n annhebygol y gwneir cais am adolygiadau.

Perchnogion

385. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'n anodd amcangyfrif costau cofrestru eiddo i berchennog, o gofio y gallai'r safleoedd amrywio o dir pori heb ei wella i adeiladau diwydiannol sydd wedi dadfeilio neu chwarel lechi nad yw'n cael ei defnyddio bellach. Daeth astudiaeth Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig i'r casgliad bod cofrestru yn cael effaith gadarnhaol ar werthoedd tir, ac y gall gwaith amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth barhau heb newid i raddau helaeth. Ni ellir cofrestru anheddau ac ni chaiff adeiladau sy'n cael eu defnyddio at ddiben economaidd eu cofrestru, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir fel amgueddfa neu i bwrpas tebyg. Bob blwyddyn, o'r holl henebion sydd wedi'u cofrestru, daw ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig i law mewn perthynas â thua 2.4 y cant ohonynt, er bod cyfran fawr o'r nifer blyneddol hwn yn ymwneud â nifer bach o henebion sy'n newid ac yn datblygu, megis

Castell Caerdydd. Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o berchnogion, felly, byth wneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig mewn perthynas â'u henebion nhw.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

386. Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn ar wahân i osgoi'r angen i wneud newidiadau deddfwriaethol. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r diffyg gwarchod ar nifer bach o safleoedd archaeolegol sydd o bwys cenedlaethol.

Opsiwn 2 — Diwygio'r diffiniad statudol o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys unrhyw heneb y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod o bwys cenedlaethol — am resymau hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol.

387. Yn ogystal â'r safleoedd a nodir yn opsiwn 3, gallai'r opsiwn hwn gwmpasu amrywiaeth eang o safleoedd hanesyddol, gan gynnwys adeiladau sy'n cael eu defnyddio, cloddiau ac ardaloedd eang sydd o ddiddordeb hanesyddol. Byddai angen canllawiau polisi neu is-ddeddfwriaeth er mwyn cyfyngu ar y safleoedd posibl i'r rheini a fyddai fwyaf addas i'r rheolaethau cyfyng a ddaw yn sgil cofrestru.

Opsiwn 3 — Ehangu'r diffiniad o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys pob safle lle mae yna dystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol.

388. Byddai'r opsiwn hwn yn ehangu ychydig ar ystod y safleoedd a fyddai'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn Neddf 1979. O ganlyniad, gellid ychwanegu nifer cymharol fach o safleoedd archaeolegol sydd o arwyddocâd mawr at y gofrestr o henebion, gan eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeifrir

389. Ni fyddai unrhyw fanteision i opsiwn 1, a byddai opsiwn 2 yn ehangu ystod y safleoedd y gellir eu cofrestru i raddau annerbyniol, gan olygu bod y safleoedd hyn yn destun rheolaethau llym, o hynny ymlaen, mewn perthynas â gwaith a wneir arnynt. Byddai angen cyfyngiadau polisi, felly, ynghylch yr hyn y ceir ei gofrestru.
390. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai opsiwn 3 sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen, sef ehangu'r diffiniad o'r hyn y ceir ei gofrestru i gynnwys safleoedd lle mae yna dystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol. Bydd yn sicrhau bod y rhaglen gofrestru yn gallu gwarchod y safleoedd archaeolegol pwysicaf yng Nghymru yn y ffordd fwyaf agored a thryloyw. Ym marn Cadw, dim ond nifer bach o safleoedd y byddai hyn yn eu gwneud yn gymwys i'w cofrestru, ond mae'r rheini'n cynrychioli grŵp o safleoedd archaeolegol sydd o arwyddocâd mawr, y dylid eu gwarchod rhag eu difrodi a'u colli.

Tabl 7 — Crynodeb o gostau ychwanegol yr opsiwn a ffefrir, sef opsiwn 3

	Y costau presennol	Costau ychwanegol	Sylwadau
Llywodraeth Cymru	Amherthnasol	£18,900	Cost untro ar gyfer cofrestru
	Amherthnasol	£3,375	Cost untro ar gyfer adolygu
Cyfanswm		£22,275	

Llacio'r amodau ar gyfer gwneud cais am dystysgrif imiwnedd rhag rhestru (adran 27)

Yr opsiynau

391. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio neu wneud cais amdano cyn gellir gwneud cais am dystysgrif imiwnedd.
- Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan annog y perchennog/datblygwr i drafod gyda Cadw cyn gwneud cais.
- Opsiwn 3 — Llacio'r rheolau fel y gellir gwneud ceisiadau am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio neu wneud cais amdano cyn gellir gwneud cais am dystysgrif imiwnedd.

392. O dan yr opsiwn hwn, dim ond pan fydd cais am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol neu ar ôl cael caniatâd cynllunio y gellir gofyn i Weinidogion Cymru am dystysgrif imiwnedd.

393. Yr anfantais yw bod yn rhaid i berchennog neu ddatblygwr eiddo ofyn am ganiatâd cynllunio cyn y gellir cael sicrwydd na fydd adeilad yn cael ei restru am gyfnod o bum mlynedd. Yr unig fantais i gadw'r cysylltiad â'r broses gynllunio yw ei fod yn debygol o gyfyngu ar nifer y ceisiadau am dystysgrif imiwnedd. O gofio bod niferoedd y ceisiadau am dystysgrif imiwnedd yn debygol o aros yn isel, ystyrir bod yr opsiwn hwn yn rhoi baich diangen ar ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol.

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan annog y perchennog/datblygwr i drafod gyda Cadw cyn gwneud cais.

394. O dan yr opsiwn hwn, byddai gan berchennog neu ddatblygwr yr hawl i ofyn am gael trafod ei sefyllfa gyda Cadw fel rhan o'r gwasanaeth cyn cais statudol

a gynigir yn y Bil Cynllunio (Cymru), er mwyn cael sicrwydd na fyddai adeilad yn cael ei restru. Fodd bynnag, ni fyddai sail statudol i'r drafodaeth a gallai Gweinidogion Cymru ddod i farn wahanol. Gan fod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i ddynodi unrhyw adeilad sydd, yn eu barn nhw, yn bodloni'r meini prawf rhestru, ni fyddai'r opsiwn hwn yn llwyddo i roi gwarant awdurdodol na chaiff adeilad ei restru. Ar y sail honno, ni ystyrir yr opsiwn hwn yn ymarferol.

Opsiwn 3 — Llacio'r rheolau fel y gellir gwneud ceisiadau am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg.

395. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i berchennog eiddo neu ddatblygwr wneud cais am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg, gan ei gwneud yn bosibl cael gwarant gyfreithiol na fyddai adeilad yn cael ei restru cyn i amser ac adnoddau gael eu buddsoddi yn y broses o lunio cynigion ar gyfer ei ddatblygu neu ei brynu. Ni chodir ffi ar yr ymgeisydd am gyflwyno cais.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio neu wneud cais amdano cyn gellir gwneud cais am dystysgrif imiwnedd.

396. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, gallai'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio cyn gwneud cais am dystysgrif imiwnedd olygu costau diangen i'r ymgeisydd. Mae cais cynllunio i wneud newid bach i breswylfa, hyd yn oed, yn debygol o gostio tua £172.³⁵ Yn ôl ymchwil a wnaed yn 2009, amcangyfrifir mai cyfartaledd cost cais cynllunio ar gyfer datblygiad arferol i dŷ yw £1,300 (o'i uwchraddio i brisiau heddiw).³⁶
397. Efallai y bydd yna gostau diangen hefyd i'r awdurdod cynllunio lleol gan mai dim ond tua 66 y cant, ar gyfartaledd, o gostau'r broses y mae'r ffi gynllunio bresennol yn eu talu.³⁷

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl drwy annog trafodaethau cyn gwneud cais gyda Cadw.

398. Nid oes dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni o'r opsiwn hwn gan na fyddai mantais iddo dros y trefniadau cyfredol. Mae datblygwyr sy'n pryderu bod eu heiddo yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru eisoes yn gallu cyflwyno cais am farn anffurfiol gan Cadw, felly ni fyddai newid i gostau yn hyn o beth.
399. Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) yn ceisio annog y ddarpariaeth o 'wasanaeth cyn gwneud cais' gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Byddai costau ychwanegol i

³⁵ Cyfrifiannell Ffioedd y Porthol Cynllunio

³⁶ *Benchmarking the costs to applicants of submitting a planning application*, Arup ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Gorffennaf 2009

³⁷ Ffynhonnell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Lywodraeth Cymru pe bai datblygwyr yn ceisio cynnwys Cadw mewn trafodaethau ar y safle cyn gwneud cais, hyd yn oed pan nad yw'n realistig bod yr adeilad dan sylw o safon ddigonol i'w rhestru. Yn seiliedig ar fod yn bresennol mewn cyfarfod awr o hyd, y gost i Lywodraeth fyddai tua £20 yr achos, gydag amser a chostau teithio ar ben hynny. Byddai ymchwil cychwynnol cyn y cyfarfod ac unrhyw ohebiaeth wedi hynny gyfwerth â dwy awr arall o amser staff, neu £40. Byddai cyfanswm y gost, felly, yn oddeutu £100 yr achos, ar gyfartaledd. Heb ymchwilio ymhellach, mae'n amhosibl amcangyfrif faint o alw fyddai am drafodaethau cyn gwneud cais o'r fath. Fodd bynnag, mae Cadw yn amcangyfrif bod tua 35 y cant o adeiladau yng Nghymru wedi cael eu hadeiladu cyn 1919, a fyddai'n darparu cryn dipyn o adeiladau sydd o ryw werth hanesyddol.

Opsiwn 3 — Llacio'r rheolau fel y gellir gwneud ceisiadau am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg.

400. Mae nifer y ceisiadau am dystysgrif imiwnedd yng Nghymru yn isel ar hyn o bryd (gweler Tabl 8), gan adlewyrchu'r ffaith bod yr ailarolwg rhestru yng Nghymru wedi'i gwblhau yn 2005.

Tabl 8 — Nifer blynyddol o geisiadau am dystysgrif imiwnedd, 2008–2014

Ceisiadau am dystysgrif imiwnedd	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
Derbyniwyd	1	0	0	0	1	1
Caniatawyd	1	0	0	0	1	1

Llywodraeth Cymru

401. Cyflwynwyd trefniadau tebyg ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd yn yr Alban yn 2011 ac yn Lloegr yn 2013. Dim ond cynnydd pitw yn niferoedd y ceisiadau am dystysgrifau a gofnodir gan Historic Scotland ac English Heritage. Ar y sail hon, nid yw Cadw yn rhagweld y bydd yn derbyn mwy nag un cais ychwanegol y flwyddyn, a gellir ymdopi â hynny o fewn llwyth gwaith arferol y staff. Mae Cadw yn amcangyfrif mai'r costau staff ar gyfer prosesu pob cais yw £832 ynghyd â chostau teithio.

Perchnogion/datblygwyr

402. Bydd perchnogion/datblygwyr sydd am wneud cais am dystysgrif imiwnedd yn dal i allu gwneud hynny yn rhad ac am ddim. Nid oes ffurflen gais, ond gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu manylion lleoliad yr adeilad, lluniau ac unrhyw wybodaeth gefndirol arall. Ni amcangyfrifir y bydd hynny'n costio mwy na £50. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol bellach cyflwyno tystiolaeth o gais/caniatâd cynllunio. Gweler opsiwn 1 am gost y rheini. Mewn achosion lle nad oes angen cais cynllunio pellach, gellir arbed swm, felly, o £172 i £1,300 am bob cais am dystysgrif imiwnedd.

Awdurdodau cynllunio lleol

403. Bydd awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn arbed ychydig gan na fydd angen iddynt, bellach, benderfynu ar geisiadau cynllunio a gyflwynir er mwyn cael tystysgrif imiwnedd yn unig. Mewn achosion lle nad oes angen cais cynllunio pellach, ar sail yr ystod costau uchod, byddent yn arbed £58 i £403 am bob cais am dystysgrif imiwnedd.

Canllawiau

404. Amlinellir gwybodaeth am dystysgrifau imiwnedd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a pherchnogion/datblygwyr yn Nodyn Cyngor Technegol drafft 24: yr Amgylchedd Hanesyddol — sy'n rhan o'r gyfres o ddogfennau a baratowyd neu a ddiweddarwyd i gyd-fynd â'r Bil. Caiff gwefan Cadw ei diweddarau hefyd fel rhan o'i waith arferol.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio neu wneud cais amdano cyn gellir gwneud cais am dystysgrif imiwnedd.

405. Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn, ac mae iddo'r anfantais i berchnogion/datblygwyr eiddo ac i awdurdodau cynllunio lleol o orfod gwneud cais cynllunio a allai fod yn ddiangen cyn cael gwneud cais am dystysgrif.

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl drwy annog trafodaethau cyn gwneud cais gyda Cadw.

406. Nid yw'r opsiwn hwn yn darparu unrhyw fanteision dros y trefniadau cyfredol gan na fyddai gan unrhyw farn ynghylch a yw'r adeilad yn bodloni'r meini prawf rhestru statws cyfreithiol o unrhyw fath, a gallai'r adeilad gael ei restru yn nes ymlaen beth bynnag.

Opsiwn 3 — Llacio'r rheolau fel y gellir gwneud ceisiadau am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg.

407. Byddai'r opsiwn hwn yn torri'r cysylltiad rhwng cais am dystysgrif imiwnedd a'r angen i wneud cais yn gyntaf am ganiatâd cynllunio, gan arbed arian i berchnogion/datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol. A chostau a baich biwrocraidd ceisiadau cynllunio cychwynnol wedi mynd, bydd yn haws i berchnogion a datblygwyr gael tystysgrifau imiwnedd, gan eu galluogi i ddod o hyd i ddibenion newydd i adeiladau hanesyddol nad ydynt wedi'u restru â hyder mwy.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

408. Nid yw opsiwn 1 yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol, ac mae'n golygu bod ymgeisydd yn parhau i orfod talu cost cyflwyno cais cynllunio yn gyntaf, cost sydd weithiau yn ddiangen.

409. Byddai opsiwn 3 yn cael gwared â'r baich diangen ar berchnogion o orfod cyflwyno cais cynllunio cyn gwneud cais am dystysgrif imiwnedd. Disgwylir i'r newid olygu un cais ychwanegol y flwyddyn a gellir ymdopi â hynny o fewn llwyth gwaith arferol Cadw.

Tabl 9 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffeirir, sef opsiwn 3

	Y costau presennol	Y costau/arbedion yn y dyfodol		Sylwadau
		Costau	Arbedion	
Llywodraeth Cymru	£832	£1,664		Un cais ychwanegol am dystysgrif imiwnedd bob blwyddyn
Perchnogion/Dat blygwyr	£222 i £1,350	£100	£172 i £1,300	Arbedion yn sgil cael gwared â'r angen i wneud cais cynllunio yn gyntaf
Awdurdodau cynllunio lleol	£50 i £400		£50 i £400	Posiblwydd o arbed arian os nad oes angen gwneud cais cynllunio yn gyntaf

Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth (adrannau 11 a 28)

Yr opsiynau

410. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r systemau cydsyniad presennol.
- Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan hybu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli o fewn y systemau cydsyniad presennol a gwneud defnydd ehangach ar gytundebau adran.
- Opsiwn 3 — Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer rhaglen o waith a ganiateir yn ystod cyfnod penodol.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r systemau cydsyniad presennol.

411. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau presennol ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad heneb gofrestrredig yn parhau'r un fath, gan ei gwneud yn ofynnol i berchnogion sydd am gyflawni prosiect atgyweirio neu wneud newidiadau i nifer o asedau hanesyddol wneud cais am fwy nag un cydsyniad. Yn achos henebion cofrestredig, rhaid cael cydsyniad heneb

gofrestredig pryd bynnag y mae angen gwneud gwaith atgyweirio. Gall y broses lafurus hon gymryd llawer o amser a gall fod yn ddud i berchnogion a'r awdurdodau sy'n rhoi eu cydsyniad, a chan na ellir cymryd yn ganiataol y caiff cydsyniad ei roi, mae'n creu ansicrwydd i berchnogion wrth iddynt wneud eu cynlluniau. At hyn, wrth orfod delio â cheisiadau unigol, gall fod yn anoddach gweld amcanion ehangach rhaglen gadwraeth a gall arwain at anghydweld ynghylch rhai manylion.

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan hybu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli o fewn y systemau cydsyniad presennol a gwneud defnydd ehangach ar gytundebau adran.

412. O dan yr opsiwn hwn, gall perchnogion ac awdurdodau sy'n rhoi eu cydsyniad ddod i gytundeb ynghylch cynlluniau rheoli sy'n cynnwys cytundebau anffurfiol am waith arfaethedig. Lle mae hyn yn golygu negodi cytundebau manwl, ond nad ydynt yn rhwymol, ar gyfer gwaith arfaethedig, gall fod yn broses hir i bawb. Fodd bynnag, byddai'n dal i fod angen cydsyniad ffurfiol ac, er gwaethaf cynlluniau rheoli o'r fath, byddai'n dal i fod elfen o ansicrwydd i berchnogion; mae hyn yn tynnu oddi wrth ddefnyddioldeb y drefn hon.
413. Cyn gwneud unrhyw waith, bron, i henebion cofrestredig, hyd yn oed gwaith atgyweirio mân, blynyddol, mae'n rhaid cael cydsyniad heneb gofrestredig. Mae adran 17 o Ddeddf 1979 yn darparu ar gyfer sefydlu cytundebau rheoli rhwng meddiannwr heneb gofrestredig a Gweinidogion Cymru. Gellir defnyddio'r rhain er mwyn rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith a gyflawnir dros gyfnod penodol y cytunir arno ac yn unol â methodoleg y cytunir arni. Mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud cais unigol am bob cyfres o waith, ond dim ond ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio y gall ddarparu. Ni all roi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer newid neu addasu heneb. Hefyd nid yw cytundebau adran 17 yn berthnasol i adeiladau rhestredig.

Opsiwn 3 — Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer rhaglen o waith a ganiateir yn ystod cyfnod penodol.

414. Bydd cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn ffordd o roi cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad heneb gofrestredig, ond nid caniatâd cynllunio, ar gyfer rhaglen waith y cytunir arni dros gyfnod penodedig, sy'n debygol o fod rhwng 5 ac 20 mlynedd. Bydd cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn gallu amlinellu: y gwaith y cytunir arno ac y rhoddir cydsyniad iddo, gwaith penodol nad yw'n galw am gydsyniad, mecanweithiau ar gyfer amrywio ac addasu'r cytundeb a threfniadau cyllid a mynediad i'r cyhoedd. Er na fyddant o ddefnydd i bawb, gallai cytundebau partneriaeth dreftadaeth fod yn fanteisiol o ran:
- safleoedd mawr neu gymhleth sydd ag adeiladau neu safleoedd dynodedig amrywiol;
 - grwpiau o asedau treftadaeth tebyg mewn lleoliadau gwasgaredig, fel pontydd ffordd neu strwythurau camlesi;

- safleoedd sydd eisoes yn ddarostyngedig i systemau rheoli lle gallai cytundeb partneriaeth dreftadaeth weithio ar y cyd â nhw, er enghraifft Glastir neu gytundeb sy'n eu heithrio rhag treth etifeddiant.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r systemau cydsyniad presennol.

415. Ni fydd parhau â'r systemau cydsyniad presennol yn ychwanegu unrhyw gostau nac arbedion.

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan hybu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli o fewn y systemau cydsyniad presennol a gwneud defnydd ehangach ar gytundebau adran.

Perchnogion

416. Eisoes caiff cynlluniau rheoli treftadaeth eu defnyddio'n helaeth gan berchnogion ystadau mawr neu gymhleth sy'n cynnwys asedau hanesyddol dynodedig. Gall cynlluniau o'r fath amrywio o gynllun syml y cytunir arno gyda Cadw (er enghraifft, ar un fferm yn Nyffryn Conwy mae yna 19 o nodweddion archaeolegol mewn dau gae cofrestredig) i gynllun cymhleth a ddatblygir ar gyfer perchennog ystâd gan ymgynghorwyr arbenigol ar gost o sawl mil o bunnoedd. Byddai cynlluniau o'r fath yn parhau i gael eu datblygu yn ôl disgrisiwn, a dim ond lle byddai'r perchennog yn eu hystyried yn fanteisiol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r trefniadau presennol o'i gwneud yn ofynnol gwneud cais am gydsyniad ar gyfer pob cynllun, ac efallai gael trafodaethau yn gyntaf oll.
417. Ers i Ddeddf 1979 ddod i rym, mae Cadw wedi defnyddio cytundebau adran 17 ar gyfer cyllido'r gwaith o reoli henebion cofrestredig mewn ffordd gadarnhaol dros gyfnod penodedig, pum mlynedd fel rheol. Ar hyn o bryd, mae yna ryw 50 o gytundebau yn eu lle, ac mae nifer bach ohonynt wedi'u defnyddio i roi cydsyniad heneb gofrestrredig am waith cyson. Mae 25 arall o gytundebau adran 17 wedi'u hymgorffori yng nghytundebau Glastir fel ffordd o roi cydsyniad heneb gofrestrredig ar gyfer gwaith syml, fel gwaith atgyweirio parhaus mewn achos o erydu er enghraifft. O gofio mai dim ond ar gyfer gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw y gellir defnyddio cytundebau adran 17, byddai cytuno ar fethodolegau priodol ar gyfer gwaith atgyweirio tebyg am debyg yn gymharol syml a gellid eu hymgorffori yn rhaglen waith bresennol Cadw ar gyfer rheoli henebion cofrestredig heb gost ychwanegol.

Opsiwn 3 — Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer rhaglen o waith a ganiateir yn ystod cyfnod penodol.

418. Gan mai yn ôl disgrisiwn y caiff cytundebau partneriaeth dreftadaeth eu llunio, dim ond lle bydd y perchennog, y corff neu'r cyrff sy'n rhoi ei/eu g/cydsyniad ac unrhyw barti arall perthnasol yn ei ystyried yn fanteisiol i bawb y caiff cytundeb fel hyn ei drefnu. Yn ôl pob tebyg, dim ond hyn a hyn o gytundebau partneriaeth dreftadaeth fydd ar gael yn y tymor byr. Mae'n anodd

rhagweld costau tebygol eu gweithredu gan y gallent amrywio'n fawr, o berchnogion unigol sydd am wneud gwaith syml ar eu heiddo dros gyfnod o amser i ystadau mawr y sector cyhoeddus sy'n cynllunio rhaglen waith heriol i nifer o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Bydd angen rhoi hyfforddiant a chyfarwyddyd hefyd i staff Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol.

419. Yn 2006, cynhaliwyd asesiad manwl o wyth prosiect pilot mewn perthynas â'r Bil Diogelu Treftadaeth arfaethedig ar gyfer Cymru a Lloegr.³⁸ £4,464 oedd cost prosiect mwyaf llwyddiannus yr astudiaeth, a oedd yn ymwneud â phontydd, cerrig milltir a chroesau ochr ffordd a oedd yn perthyn i awdurdodau lleol, a chostiodd un arall £70,000 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth o adeiladau rhestredig ac asedau hanesyddol eraill ym Mhrifysgol East Anglia, ond ystyriwyd hwnnw'n llwyddiannus hefyd. Roedd yr adroddiad yn ystyried effeithiau'r cynlluniau pilot, pob un yn Lloegr, ar y perchnogion, yr awdurdodau lleol a oedd yn gyfrifol am adeiladau rhestredig a'r corff cenedlaethol a oedd yn gyfrifol am henebion cofrestredig. Daeth i'r casgliad bod yr elfennau amrywiol niferus yn golygu na allent nodi'r union gostau na'r arbedion mewn perthynas â'r systemau cydsyniad presennol mewn termau ariannol, ond fel y mae Tabl 10 yn ei ddangos, roedd effaith pob un o'r prosiectau un ai yn niwtral neu'n gadarnhaol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod pob achos yn awgrymu, o sefydlu system a gaiff ei rhedeg yn iawn, na fyddai'n costio'n fwy ac, mewn llawer o achosion, fod yna arbedion sylweddol posibl wrth wneud yr hyn a wnaed (neu y dylid bod wedi'i wneud). Er bod costau cychwynnol sefydlu cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn gallu bod yn uchel, felly, rhagwelir y bydd yr arbedion i bob parti, dros gyfnod y cynllun, yn golygu ei fod yn werth chweil yn y rhan fwyaf o achosion.

Tabl 10 — Effeithiau wyth cytundeb partneriaeth dreftadaeth

Peilot	Amser a Chostau				Y Broses				Cyffredinol			
	Perch-ennog	ALI	EH	Pawb	Perch-ennog	ALI	EH	Pawb	Perch-ennog	ALI	EH	Pawb
Cernyw	1	0	2	1	2	-1	2	1	1.5	-0.5	2	1
Prifysgol East Anglia	1	0	0	0.33	2	2	1	1.67	1.5	1	0.5	1
Kenilworth	1	-1	2	0.67	1	0	1	0.67	1	-0.5	1.5	0.67
Darnall	1	-1	1	0.33	1	1	1	1	1	0	1	0.33
Rhwydwaith Tanddaearol Llundain	0	-1	0	-0.33	1	1	1	1	0.5	0	0.5	0.33
Weld	1	-1	0	0	1	0	0	0.33	1	-0.5	0	0.17
RAF Scampton	0	-1	1	0	1	-1	0	0	0.5	-1	0.5	0
Langdale	0	-1	0	-0.33	0	1	0	0.33	0	0	0	0
Cyfartaledd	0.625	0.75	0.75	0.209	1.125	0.375	0.75	0.75	0.875	0.188	0.75	0.44

ALI = Awdurdod Lleol EH = English Heritage

Amser a Chostau:

Arbedion: 2 = llawer; 1 = rhai; 0 = niwtral

Costau: -2 = rhai ychwanegol; -1 = llawer ychwanegol

Y Broses:

Manteision: 2 = llawer; 1 = rhai; 0 = niwtral

Anfanteision: -1 = rhai; -2 = llawer

³⁸ Heritage Protection Review, Historic Environment Conservation, Ebrill 2006

420. Caiff y posibiliadau o ran defnyddio cytundebau partneriaeth dreftadaeth eu codi fel rhan o'r busnes arferol gyda chynrychiolwyr y sector, gan gynnwys perchnogion drwy'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig, Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol a chyrrff eraill. Bydd Cadw'n gweithio'n agos hefyd gyda phartneriaid sy'n datblygu'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth cyntaf.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r systemau cydsyniad presennol.

421. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad heneb gofrestredig wedi hen ennill eu plwyf ac yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o berchnogion asedau dynodedig cymhleth neu luosog. Bydd y prosesau hyn hefyd yn briodol i'r mwyafrif helaeth o berchnogion, a fydd ond eisiau gwneud gwaith sy'n galw am gydsyniad yn achlysurol, neu mewn perthynas ag un cam o waith sylweddol i adfer neu ddatblygu adeilad. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r rheini sy'n berchen ar sawl ased dynodedig, sy'n cynnal rhaglenni gwaith estynedig, barhau i gael cydsyniad ar wahân ar gyfer pob un o'r asedau, sy'n creu ansicrwydd. Gall yr angen hwn i sicrhau cydsyniad bob tro ar gyfer pob elfen gymhlethu'r gwaith o gynllunio ar gyfer rhaglenni cadwraeth a datblygu hirdymor a'i wneud yn dameidiog.

Opsiwn 2 — Gwneud cyn lleied â phosibl gan hybu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli o fewn y systemau cydsyniad presennol a gwneud defnydd ehangach ar gytundebau adran.

422. Mae'n arfer da i berchennog ystâd lle mae sawl ased hanesyddol dynodedig, boed yn ystâd gyhoeddus neu breifat, fabwysiadu cynllun rheoli treftadaeth. Caiff hwn ei lunio mewn ymgynghoriad â swyddogion cadwraeth awdurdod cynllunio lleol, Cadw a chyrrff eraill sydd â diddordeb. Mae'n helpu wrth wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion ar gyfer gofalu am yr ystâd ac mae'n sicrhau bod y gwaith a'r newidiadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, ni fydd cynllun rheoli treftadaeth yn darparu cydsyniad y gallai fod ei angen er mwyn cael grant at gamau gwaith pellach, ac ni fydd yn rhwymol mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad yn y dyfodol.
423. Gellir defnyddio cytundebau adran 17 er mwyn rhoi cydsyniad ar gyfer gwaith penodol i henebion cofrestredig, ac maent eisoes yn cael eu defnyddio gan Cadw fel ffordd o roi cydsyniad ar gyfer gwaith cyson, ac mewn cynlluniau rheoli Glastir i gymeradwyo gwaith atgyweirio syml a wneir yn unol â methodoleg benodol. Serch hynny, dim ond ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw y gallant roi cydsyniad heneb gofrestredig, ac ni ellir eu defnyddio o gwbl ar gyfer adeiladau rhestredig.

Opsiwn 3 — Cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer rhaglen o waith a ganiateir yn ystod cyfnod penodol.

424. Drwy gytundebau partneriaeth dreftadaeth, bydd perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb yn

gallu cydweithio i greu cynlluniau holistig ar gyfer gwaith datblygu a chadwraeth cynaliadwy ar sawl ased hanesyddol dynodedig. Bydd y cytundebau yn cynnwys pob cydsyniad, y cytunwyd arnynt ac a roddwyd ymlaen llaw, gan roi mwy o sicrwydd i berchnogion a chyrrff sy'n dyfarnu grantiau.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

425. Byddai opsiwn 1 yn parhau â'r system bresennol, sy'n dal yn briodol i'r mwyafrif helaeth o asedau hanesyddol a ddynodwyd a'u perchnogion. Yn achos ystadau mawr a chymhleth, fodd bynnag, byddai'n golygu bod yn dal i fod angen cael mwy nag un cydsyniad, sy'n gallu rhwystro gwaith cynllunio cadwraeth tymor hir. Nid yw Gweinidogion Cymru, felly, o'r farn mai'r opsiwn hwn yw'r un gorau.
426. I raddau helaeth, mae opsiwn 2 hefyd yn parhau â'r arferion presennol, ond ei fod yn ceisio hybu arferion da wrth gynllunio gwaith rheoli ac ehangu'r defnydd o gytundebau adran 17, mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag arferion presennol Cadw. Unwaith eto, nid yw'n llwyddo i ddelio â'r angen i gael cydsyniad am bob rhaglen waith.
427. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan Weinidogion Cymru. Er mai dim ond i nifer cymharol fach o ystadau'r sector preifat a chyhoeddus mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn berthnasol, bydd y rhain yn hyrwyddo dull o reoli ystadau sy'n cynnwys sawl ased hanesyddol dynodedig mewn modd cynaliadwy, drwy bartneriaeth. Er bod cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cymryd amser ac yn ddud i'w sefydlu, mae yna dystiolaeth bod y gostyngiad yn nifer y ceisiadau am gydsyniad dros oes y cytundeb, a welir yn ei sgil, yn arwain at arbedion i'r perchennog a'r corff sy'n rhoi cydsyniad.

Cyflwyno hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â henebion cofrestredig (adran 29)

Yr opsiynau

428. Cafodd dau opsiwn eu hystyried:
- Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau cyfreithiol presennol.
 - Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar adeiladau rhestredig.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau cyfreithiol presennol.

429. Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â threfniadau presennol Deddf 1990 sy'n ei gwneud yn drosedd gwneud gwaith nas awdurdodwyd ar adeilad rhestredig, ond nid yw'n rhoi unrhyw bwerau i awdurdodau cynllunio lleol atal gwaith o'r fath, ac eithrio ceisio gwaharddeb neu ddefnyddio pwerau gorfodi eraill sydd ar gael iddynt.

430. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion drafft y Bil yn dangos yn glir bod y pwerau presennol yn cael eu hystyried yn annigonol ac yn anghydnaws â'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol ym maes rheoli cynllunio cyffredinol i atal gwaith a wneir heb ganiatâd cynllunio, er nad yw hynny'n drosedd. Yn yr Alban, cyflwynwyd hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig yn 2011.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar adeiladau rhestredig.

431. Mae'r arfer o ddefnyddio hysbysiadau stop a hysbysiadau stop dros dro fel rhan o'r broses o orfodi rheolaethau mewn perthynas â gwaith datblygu cyffredinol wedi hen ennill ei blwyf ac yn gyfarwydd i staff awdurdodau cynllunio lleol. Er mai yn anaml y defnyddir yr hysbysiadau hyn, cânt eu hystyried yn adnodd effeithiol pan fo'u hangen.³⁹ 227. Bydd cyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig yn seiliedig ar y gweithdrefnau sefydledig hyn a'r hysbysiadau sydd gennym. Gan eu bod yn cael eu llunio ar sail templed safonol, gellir eu cyhoeddi yn gyflym, gan ddefnyddio pwerau a ddirprwyir fel rheol i brif swyddog cynllunio.
432. Byddai hysbysiad stop dros dro yn golygu bod yn rhaid rhoi'r gorau ar unwaith i waith nas awdurdodwyd. Yn wahanol i dorri rheolaethau cynllunio, mae gwneud gwaith nas awdurdodwyd ar adeilad rhestredig yn drosedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, felly, bydd perchnogion yn rhoi'r gorau i'r gwaith o'u gwirfodd. Fodd bynnag, drwy gyflwyno hysbysiad stop dros dro, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn datgan yn glir nad yw'r gwaith wedi'i awdurdodi a bydd yn sancsiwn pendant os na ddaw'r gwaith i ben.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau cyfreithiol presennol.

433. Ni fyddai unrhyw gostau nac arbedion ychwanegol o ganlyniad i'r opsiwn hwn. Fodd bynnag mae yna risg o golli mwy o adeiladau sydd o bwys cenedlaethol yn sgil gwaith nas awdurdodwyd, gan ei bod yn anodd ar hyn o bryd stopio gwaith ar unwaith heb waharddeb.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar adeiladau rhestredig.

434. Yn 2011, cyflwynwyd hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig yn yr Alban. Ym marn Historic Scotland, mae'r hysbysiadau yn rhoi adnodd ychwanegol i swyddogion gorfodi y gellir eu defnyddio ochr yn ochr â hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig a phwerau eraill. Fodd bynnag, mae'n debyg mai eu prif fantais yw rhoi grym ychwanegol i'r cais i ofyn i berchnogion/meddianwyr roi'r gorau i'r gwaith o'u gwirfodd.

³⁹ Arup gyda Fortismore Associates, Research into the Review of the Planning Enforcement System in Wales, Mai 2013

Awdurdodau cynllunio lleol

435. Ar sail tystiolaeth yr Alban, ni ragwelir y bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gyflwyno mwy nag un hysbysiad stop dros dro bob blwyddyn. Cyhoeddir hysbysiad ar sail disgresiwn ac yn niffyg dim arall, ond bydd yn costio tua £350 i £1,270, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos a'r trefniadau gweithdrefnol o fewn y cyngor. Mae'r hysbysiadau stop dros dro sydd eisoes yn gyffredin wrth reoli gwaith datblygu cyffredinol yn seiliedig ar fodel safonol. Bydd Cadw yn llunio hysbysiad model ar gyfer adeiladau rhestredig ac yn trafod eu defnydd gyda swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol yn y Fforwm Treftadaeth Adeiledig. Fodd bynnag, o gofio pa mor gyfarwydd y maent mewn prosesau gorfodi mewn perthynas â gwaith cynllunio cyffredinol, nid yw Cadw o'r farn bod angen unrhyw hyfforddiant penodol, er y caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd.
436. Y brif gost bosibl yw risg iawndal am golledion pan gyflwynir hysbysiad drwy gamgymeriad pan fydd y gwaith yn gyfreithlon. Mewn amgylchiad o'r fath, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn talu iawndal i'r perchennog/datblygwr. Yn amlwg, lle bydd sail gywir i'r hysbysiad stop dros dro, ni fydd y perchennog/datblygwr yn gallu ceisio iawndal am nad yw'r gwaith wedi'i awdurdodi nac yn gyfreithlon. Mae'r gyfraith ynghylch pa waith nas awdurdodir yn gymharol glir ac mae nifer yr hysbysiadau stop dros dro a gyflwynir yn debygol o fod yn isel iawn. Cyn belled â bod awdurdodau cynllunio lleol yn rhoi sylw dyledus priodol, ni ragwelir y bydd ceisiadau dilys am iawndal yn codi.
437. Nid oes pwrpas ceisio nodi cost debygol neu gyfartalog ar gyfer cais llwyddiannus am iawndal. Gallai'r gwaith y daethpwyd ag ef i ben amrywio o fân-addasiadau i eiddo preswyl, fel gosod ffenest newydd (a allai arwain at gais am iawndal £100 ar y mwyaf), i gais am gryn dipyn mwy o iawndal os bydd yr hysbysiad yn oedi cynllun ailddatblygu mawr, er enghraifft, ac yn arwain at golli cymorth grant (gallai hyn arwain at iawndal o £100,000 neu fwy).

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau cyfreithiol presennol.

438. Nid yw'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol, o gofio'i fod yn parhau â'r trefniadau presennol.

Opsiwn 2 — Cyflwyno pwerau i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer gwaith nas awdurdodwyd ar adeiladau rhestredig.

439. Byddai ychwanegu hysbysiadau stop dros dro at yr adnoddau gorfodi sydd eisoes ar gael i awdurdodau cynllunio lleol yn helpu i atal difrod i asedau hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol drwy waith anghyfreithlon a nas awdurdodwyd. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu mai prin y câi'r hysbysiadau eu cyhoeddi, mae profiad yr Alban hefyd yn awgrymu y gall y posibilrwydd, a'r

sancsiynau cysylltiedig, fod yn ffactor i berswadio unigolion i gytuno i ddod â gwaith nas awdurdodwyd i ben. Gall hysbysiad hefyd arbed amser staff wrth gymryd camau gorfodi neu geisio gwaharddebau o'r llysoedd.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

440. Mae opsiwn 1 yn cynnal y status quo, sy'n effeithiol gan mwyaf. Mae'r mwyafrif helaeth o berchnogion yn barod i roi'r gorau i waith nas awdurdodwyd yn wirfoddol, o gael gwybod eu bod yn cyflawni trosedd.
441. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn ffafrio opsiwn 2. Bydd hyn yn gwneud rheolaethau adeiladau rhestredig yn gydnaws â phwerau gorfodi ym maes rheoli gwaith datblygu cyffredinol drwy sefydlu pwerau hawdd eu defnyddio er mwyn stopio gwaith nas awdurdodwyd.

Ehangu cwrmpas gwaith brys a'i gwneud yn bosibl adennill costau drwy bridiant tir (adran 30)

Yr opsiynau

442. Cafodd pedwar opsiwn eu hystyried:
- Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau statudol presennol.
 - Opsiwn 2 — Ehangu cwrmpas gwaith brys i gynnwys unrhyw adeilad rhestredig.
 - Opsiwn 3 — Ehangu cwrmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, ond heb bwerau i osod pridiant tir.
 - Opsiwn 4 — Ehangu cwrmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, a chyflwyno pwerau i osod pridiant tir.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau statudol presennol.

443. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r trefniadau deddfwriaethol presennol sy'n golygu y ceir gwneud gwaith brys lle na fydd yr adeilad wedi'i feddiannu neu lle na fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae'r amod hon wedi'i beirniadu am gyfyngu'n sylweddol ar yr achosion pan ellir defnyddio'r pŵer statudol. Gall perchnogion hefyd ddefnyddio'r amod i ddirymu gwaith brys drwy ailddechrau defnyddio eiddo fel stordy neu weithdy.
444. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol Cymru amrywiaeth o bwerau gorfodi statudol eisoes y gallant eu defnyddio, mewn rhai achosion, i fynd i'r afael ag adeiladau rhestredig sydd wedi'u hesgeuluso; er enghraifft gallant gyflwyno hysbysiadau o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn ofynnol gwneud gwaith i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol ar

amwynder. Fodd bynnag, mewn llawer o amgylchiadau, ni fydd hysbysiadau adran 215 yn briodol.

445. Ni fyddai'r opsiwn hwn ychwaith yn mynd i'r afael â phryder allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil, sef bod awdurdodau cynllunio lleol yn gyndyn i ddewis opsiwn gwaith brys oherwydd y diffyg darpariaeth ar gyfer adennill costau gwaith os na fydd y perchennog yn eu talu.

Opsiwn 2 — Ehangu cwrpas gwaith brys i gynnwys unrhyw adeilad rhestredig.

446. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad eang ar gynigion y Bil, roedd cefnogaeth gref i wneud pob adeilad rhestredig yn gymwys ar gyfer gwaith brys. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol wrth fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi yn sgil adeiladau rhestredig sy'n cael eu hesgeuluso yng Nghymru, yn benodol y 9 y cant sydd yn y categori 'mewn perygl'.
447. Mae Tabl 11 yn nodi data arolwg o gyflwr adeiladau yn 2011.⁴⁰ 227. Mae'n dangos mai'r adeiladau lle'r oedd pobl yn byw oedd leiaf tebygol o fod yn destun pryder, o'r tri chategori mwyaf (o ran nifer) o adeiladau rhestredig a oedd mewn perygl.

Tabl 11 — Data ar y tri chategori mwyaf o adeiladau rhestredig a oedd mewn perygl yn arolwg 2011 o gyflwr adeiladau rhestredig

Math o adeilad	Cyfanswm nifer yr adeiladau	Nifer mewn perygl	% mewn perygl
Amaethyddol	1,473	449	30%
Domestig	12,036	448	4%
Tai allan	1,280	306	24%

448. Hyd yn oed yn y categori domestig, yn yr adeiladau a oedd yn wag neu'n cael eu meddiannu'n rhannol yr oedd y problemau mwyaf.
449. Byddai ehangu cwrpas yr adeiladau y gwneir gwaith brys arnynt i gynnwys pob adeilad rhestredig, gan gynnwys eiddo preswyl, yn golygu ymyrraeth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'n debygol o gael ei ystyried yn gyfyngiad anghymesur ar hawliau eiddo perchnogion ac, felly, yn mynd yn groes i'r Confensiwn.
450. Mae gwaith brys yn gyfyngedig i waith atgyweirio y mae'n rhaid ei wneud ar unwaith er mwyn gwarchod adeilad rhag y tywydd neu ei ddiogelu rhag dymchwel, cael ei fandaleiddio neu rhag iddo fod yn agored i ladron. Prin y dylai fod yn berthnasol, felly, i adeilad lle mae pobl yn byw. O gofio'r potensial i'r opsiwn hwn amharu ar hawliau perchnogion cartrefi a'r dystiolaeth gyfyngedig o'r angen i wneud hynny, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn mai hwn yw'r opsiwn gorau er mwyn mynd i'r afael â phroblem adeiladau a esgeulusir.

⁴⁰ Cronfa Ddata Cyflwr Adeiladau Rhestredig, Cadw, 2011

Opsiwn 3 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, ond heb bwerau i osod pridiant tir.

451. O dan yr opsiwn hwn, gellid gwneud gwaith brys ar unrhyw adeilad rhestredig, ac eithrio lle byddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeilad. Byddai modd gwneud gwaith brys, felly, ar y rhan fwyaf o adeiladau sydd mewn cyflwr mor wael nes bod angen ymyrraeth ar unwaith, ond ni fyddai'n ymyrryd yn afresymol â hawliau perchnogion y cartref.
452. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r anawsterau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn eu hwynebu o ran adennill costau gwaith brys oddi wrth berchnogion — a nodwyd gan lawer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad fel elfen allweddol sy'n dal awdurdodau yn ôl rhag dewis opsiwn gwaith brys yn amlach.

Opsiwn 4 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, a chyflwyno pwerau i osod pridiant tir.

453. O dan yr opsiwn hwn, fel o dan opsiwn 3, byddai modd gwneud gwaith brys ar unrhyw adeilad rhestredig, ac eithrio lle byddai'n ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeilad. Byddai hyn yn golygu bod modd ehangu cwmpas gwaith brys, heb gyfyngu'n anghymesur ar hawliau perchnogion cartrefi.
454. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol adennill unrhyw dreuliau a ysgwyddodd wrth wneud gwaith brys drwy osod pridiant ar y tir lle mae'r adeilad yn sefyll a chodi llog ar y swm hwnnw ar gyfradd a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.
455. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn mynd beth o'r ffordd i fynd i'r afael â phroblem esgeuluso adeiladau rhestredig pwysig a'r difrod cysylltiedig i stoc adeiladau hanesyddol Cymru ac ansawdd amwynderau lleol.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau statudol presennol.

456. Ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â phroblem yr awdurdodau cynllunio lleol o ran adennill costau gwaith brys. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer adennill costau, felly mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol fynd ati i adennill dyledion drwy achos llys. Gall hyn fod yn fusnes costus a chymhleth, yn enwedig pan fydd y perchennog yn byw dramor, pan fydd mwy nag un perchennog, pan fydd yr eiddo wedi'i drosglwyddo o un cwmni i un arall, neu pan fydd y perchennog yn cyflwyno sawl apêl a chais am adolygiad barnwrol.

457. Mae'r costau a ysgwyddir gan awdurdod cynllunio lleol wrth wneud gwaith brys yn gallu bod yn amrywiol iawn. Mae'r gwaith yn gyfyngedig i'r hyn y mae angen ei wneud ar unwaith er mwyn diogelu adeilad rhestredig, a gall amrywio o rai camau cymharol syml i roi lloches, cynhaliaeth i strwythur neu ddiogelwch dros dro i waith atgyweirio strwythurol cymhleth ar adeilad neu adeiladau sylweddol. Ar ben uchaf y raddfa, cost y gwaith atgyweirio a wnaed gan Gyngor Sir Dinbych i hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych oedd tua £930,000. O ystyried y goblygiadau tymor hir i awdurdodau cynllunio lleol o ran adnoddau cost ac amser, nid yw defnyddio'r pwerau hyn yn opsiwn deniadol.

Opsiwn 2 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys unrhyw adeilad rhestredig.

458. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol yn yr ystyr mai'r awdurdod cynllunio lleol ei hun fyddai'n dal i gael penderfynu p'un a yw am ddewis opsiwn gwaith brys ai peidio. Fodd bynnag, gallai ehangu cwmpas yr adeiladau y gellir gwneud gwaith brys arnynt arwain awdurdodau cynllunio i ddefnyddio'r pwerau yn amlach yn ôl amgylchiadau lleol. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'n anodd asesu'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith brys, gan y gall amrywio o gamau cymharol fân i gynnal strwythur neu osod ffens ddiogelwch i becyn atgyweirio drud iawn. O gymryd yr enghreifftiau uchod, gallai'r costau amrywio o lai na £10,000 i £1 miliwn. Os bydd perchennog yn dewis gwneud y gwaith brys, dim ond y costau gweinyddol y bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol eu talu. Eto, bydd y rhain yn amrywio, o lai na £1,000 i £100,000 o bosib, lle bo'r perchennog yn gwneud heriau cyfreithiol i hysbysiad dro ar ôl tro.

Opsiwn 3 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, ond heb bwerau i osod pridiant tir.

459. Byddai'r un problemau o ran costau yn codi gyda'r opsiwn hwn â phroblemau opsiynau 2 a 4, ond fel opsiwn 2 ni fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem sydd gan awdurdodau cynllunio lleol o adennill costau.

Opsiwn 4 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, a chyflwyno pwerau i osod pridiant tir.

460. Fel yn achos opsiynau 2 a 3, ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar awdurdodau cynllunio lleol gan mai ar sail disgrisiwn y byddai'r pwerau i wneud gwaith brys yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, byddai'n ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys y rhan fwyaf o adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr digon gwael nes bod angen defnyddio pwerau statudol i'w stopio rhag dirywio ymhellach. Fel y trafodwyd uchod, bydd cost gwaith brys yn dibynnu ar raddfa'r gwaith sy'n ofynnol a pha mor hir y bydd yn cymryd, ond gallai amrywio o lai na £10,000 i £1 miliwn. Un o brif fanteision eraill yr opsiwn hwn yw y byddai'n rhoi'r grym i awdurdod cynllunio lleol osod

pridiant tir, gan sicrhau bod y gost ac unrhyw log yn cael ei adennill oddi wrth berchennog yr eiddo yn y pen draw. Gallai ehangu cwmpas y pwerau ynghyd â'r sicrwydd mwy o adennill costau annog awdurdodau cynllunio lleol i ddewis opsiwn gwaith brys yn amlach.

461. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol, ystyrir bod angen darparu hawl i apelio ymhellach i lys sirol ar gyfer opsiynau 2, 3 a 4 yn dilyn penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl gychwynnol i beidio â thalu costau gwaith brys. Yn anaml y gwneir apeliadau i Weinidogion Cymru ac mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn amcangyfrif mai un a ddaw i law, ar gyfartaledd, bob tair i bedair blynedd. Mae'n debygol y byddai defnyddio'r apêl uwch i'r llys sirol yn llai cyffredin byth ac yn digwydd ryw unwaith bob pum mlynedd ar y mwyafrif. Ar sail y costau llys cyfartalog a nodwyd ym mharagraff 305 uchod, byddai hyn yn golygu cost ychwanegol o £1,522 dros gyfnod o bum mlynedd i'r system gyfiawnder.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a dibynnu ar y pwerau statudol presennol.

462. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol. Mae'r darpariaethau presennol yn cyfyngu'n sylweddol ar y defnydd o waith brys ac nid ydynt yn darparu unrhyw ffyrdd statudol o adennill costau a ysgwyddwyd gan awdurdod cynllunio lleol wrth gyflawni gwaith brys. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hwn yn opsiwn cynaliadwy ar gyfer gwarchod adeiladau rhestredig pwysig Cymru rhag cael eu hesgeuluso.

Opsiwn 2 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys unrhyw adeilad rhestredig.

463. Yr opsiwn hwn fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i awdurdodau cynllunio lleol gan ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith brys ar unrhyw adeilad rhestredig lle mae gwarant dros wneud. Fodd bynnag, gallai defnyddio'r pwerau statudol ar gyfer eiddo preswyl fod yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan adael y ddeddfwriaeth yn agored i gael ei herio'n gyfreithiol. Yn ymarferol hefyd, ni fyddai cwmpas y gwaith brys y gellid ei gyflawni yn llawer ehangach nag o dan opsiynau 3 neu 4, gan fod y rhan fwyaf o adeiladau sydd wedi dadfeilio cymaint fel eu bod yn gymwys ar gyfer gwaith brys yn annhebygol o fod mewn cyflwr i gael eu defnyddio'n llawn gan y sawl sy'n byw yno.

Opsiwn 3 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, ond heb bwerau i osod pridiant tir.

464. Byddai'r opsiwn hwn yn ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys y rhan fwyaf o amgylchiadau lle byddai awdurdod cynllunio lleol yn ystyried bod ei angen i ddelio ag esgeulustod difrifol. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth statudol ar gyfer adennill costau sy'n gwneud gwaith brys yn anneniadol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly, yn ystyried hwn yn opsiwn digonol.

Opsiwn 4 — Ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys adeiladau rhestredig lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, a chyflwyno pwerau i osod pridiant tir.

465. Byddai ehangu cwmpas gwaith brys i gynnwys pob adeilad rhestredig, lle na fyddai'r gwaith yn ymyrryd yn afresymol â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeiladau, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol i arfer y pwerau statudol. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn sefydlu mecanwaith statudol fel bod yr awdurdodau yn gallu adennill eu costau. Byddai'r pwerau newydd i osod pridiant tir yn rhoi sicrwydd ariannol effeithiol i awdurdodau cynllunio lleol sydd am fynd i'r afael ag adeiladau rhestredig yn eu hardaloedd sydd dan fygythiad.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

466. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cynnal y status quo, sef opsiwn 1, yn cyflawni ei hamcan polisi o warchod adeiladau rhestredig Cymru rhag cael eu hesgeuluso. Yn ogystal â chyfyngu'n sylweddol ar waith brys i adeiladau rhestredig nad ydynt wedi'u meddiannu neu nad ydynt yn cael eu defnyddio, nid yw ychwaith yn darparu unrhyw ffordd ddiogel i awdurdodau cynllunio lleol adennill costau a ysgwyddir wrth gyflawni gwaith hanfodol. Mae'r pwynt diwethaf yna hefyd yn golygu y dylid diystyru opsiynau 2 a 3, gan fod opsiwn 2 yn debygol o fynd yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

467. Opsiwn 4 yw'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio. Byddai'n ehangu'n sylweddol ystod yr adeiladau rhestredig sydd wedi'u hesgeuluso sy'n gymwys ar gyfer gwaith brys a byddai'n mynd i'r afael â'r pryderon y gall perchnogion danseilio ymdrechion awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio'r pŵer hwn drwy ddechrau ailddefnyddio rhan o'u hadeilad. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y Bil hefyd yn mynegi'n glir y farn gyffredinol, sef mai'r brif elfen sy'n atal mwy o ddefnydd o waith brys yw'r risg i awdurdodau cynllunio lleol na fyddant yn gallu adennill costau'r gwaith oddi wrth berchnogion, a all fod yn uchel, neu y bydd y broses o adennill y costau'n ddrud ac yn hir. Bydd y pwerau i osod pridiant ar y tir a chodi llog, ar gyfradd a bennir gan Weinidogion Cymru, yn gwneud y broses gwaith brys yn gydnaws â phwerau gorfodi tebyg ym maes rheoli gwaith datblygu, ac yn rhoi sicrwydd hirdymor mwy i'r awdurdodau na fyddant yn gorfod talu costau na fydd modd iddynt eu hadennill.

Gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol greu cofnodion amgylchedd hanesyddol a'u cynnal (adrannau 34–37)

Yr opsiynau

468. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol.

- Opsiwn 2 — Cyhoeddi canllawiau anstatudol ar fabwysiadu a rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.
- Opsiwn 3 — Gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol.

469. Y cofnodion amgylchedd hanesyddol yw sail y cyngor ar reoli treftadaeth a rheoli gwaith datblygu a ddarperir ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion eraill.
470. Sefydlwyd y cofnodion gan bedwar ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru yn y 1970au. Ar nifer o achlysuron, mae un neu fwy o'r ymddiriedolaethau wedi mynd i ddyfroedd ariannol dyfnion sydd wedi bygwth eu bodolaeth, ac felly eu cofnod. Mewn ymgais i warchod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol, fe'u rhoddwyd yng ngofal ymddiriedolaethau elusennol yn 2008, ond maent yn parhau i gael eu rheoli a'u cynnal gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.
471. Serch hynny, mae'n dal yn bryder y byddai cofnodion amgylchedd hanesyddol yn agored i niwed pe bai eu hymddiriedolaeth archaeolegol yn methu, yn enwedig yn wyneb heriau ariannol y dyfodol. Heb y cofnodion hyn i roi'r wybodaeth a'r cyngor sy'n hanfodol er mwyn asesu'n iawn effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol, ni fyddai awdurdodau cynllunio lleol yn gallu cyflawni'n effeithiol eu cyfrifoldebau cynllunio a'u cyfrifoldebau eraill o ran yr amgylchedd hanesyddol.

Opsiwn 2 — Cyhoeddi canllawiau anstatudol ar fabwysiadu a rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

472. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ar reoli cofnodion amgylchedd hanesyddol. Byddai'r canllawiau yn annog awdurdodau i fabwysiadu cofnodion o'r fath at ddibenion cyngor cynllunio sy'n ymwneud ag archaeoleg a dibenion rheoli eraill. Byddai hefyd yn annog yr ymddiriedolaethau archaeolegol i gynnal y cofnodion amgylchedd hanesyddol i feincnodau a safonau penodol.

Opsiwn 3 — Gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol.

473. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am gofnodion amgylchedd hanesyddol a'u swyddogaethau, gan gynnwys storio a chadw gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol lleol a rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r wybodaeth honno. Byddai awdurdod cynllunio lleol yn gallu gwneud trefniadau i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy gorff arall. Byddai'r awdurdodau yn debygol o gyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy'r trefniadau presennol gydag ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Byddai'n ofynnol i'r ymddiriedolaethau gyrraedd meincnodau penodol er mwyn darparu'r gwasanaeth.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol.

474. Mae'r gwaith o lunio a chasglu'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wedi'i wneud dros gyfnod hir o amser a thrwy bob math o ffyrdd. Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r prif gyllid ar gyfer y cofnodion drwy roi grant blynyddol o £120,000 i'r ymddiriedolaethau archaeolegol er mwyn eu cynnal a'u rheoli. Mae Cadw yn rhoi swm ychwanegol o ryw £30,000 y flwyddyn i'r ymddiriedolaethau tuag at wasanaeth ymholiadau ar gyfer y cyhoedd. Yn achlysurol, mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn comisiynu prosiectau bach neu'n darparu grantiau bach er mwyn gwella cofnodion amgylchedd hanesyddol eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae'r cyllid grant presennol yn syrthio'n fyr o'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cynnal swyddog amser llawn ym mhob ymddiriedolaeth archaeolegol i gynnal a rheoli'r cofnod.
475. Gall yr ymddiriedolaethau godi peth refeniw ychwanegol drwy godi ffioedd am fynediad masnachol i'r cofnodion. Nod y costau hyn yw talu am swyddogion, deunyddiau a gwasanaethau fel llungopïo. Y ffi am ymholiadau masnachol ar hyn o bryd yw £25 yr awr.
476. Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn cydnabod yn ddigonol, bob amser, bwysigrwydd cofnodion amgylchedd hanesyddol. Heb y ffynhonnell hon o wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gyda'r wybodaeth, mae yna risg y gellid asesu cynigion datblygu mewn ffordd annigonol, a chael effaith negyddol ar yr amgylchedd hanesyddol.
477. Yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol yn berchen ar eu cofnodion amgylchedd hanesyddol eu hunain ac yn eu rheoli. Fodd bynnag, yn absenoldeb statws neu rôl statudol ar gyfer y cofnodion hyn, mae llawer yn agored i doriadau awdurdodau lleol. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cofnod wedi mynd yn adnodd sefydlog nad yw'n darparu cymorth digonol yn y broses gynllunio o ran dehongli nac archaeoleg.

Opsiwn 2 — Cyhoeddi canllawiau anstatudol ar fabwysiadu a rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

478. Byddai'r costau a nodwyd ar gyfer opsiwn 1 yn codi gyda'r opsiwn hwn hefyd. Byddai Llywodraeth Cymru yn paratoi'r canllawiau ac yn cynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol arnynt. Byddai hyn yn cymryd mis o amser aelod staff ar lefel HEO ar gost o lai na £4,000.
479. Byddai'r canllawiau yn annog pob awdurdod cynllunio lleol i fabwysiadu cofnod amgylchedd hanesyddol fel ffynhonnell cyngor ar yr amgylchedd hanesyddol — ar hyn o bryd, mae'r gydnabyddiaeth ffurfiol a roddir iddynt yn amrywio. Byddai'n ofynnol, felly, i'r awdurdodau ddod i gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r ymddiriedolaethau archaeolegol perthnasol ynghylch darparu cyngor archaeolegol a rheoli treftadaeth. Eisoed, mae gan rai awdurdodau cynllunio lleol gytundebau fel hyn yn eu lle, a gellid eu defnyddio fel templedi ar gyfer meysydd eraill.

480. Amcangyfrifir y byddai'n costio tua £1,000 i sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth (ar sail 2 ddiwrnod o amser swyddogion ymddiriedolaeth archaeolegol ac awdurdod cynllunio lleol i ddatblygu a negodi'r cytundeb) a £500 y flwyddyn i'w gynnal (ar sail 2 gyfarfod adolygu hanner diwrnod bob blwyddyn). Er mwyn cyflwyno cytundebau o'r fath ar draws 25 awdurdod cynllunio lleol Cymru, felly, byddai yna gost o £25,000 yn 2016–2017 a chost flynyddol o £12,500.
481. Gallai'r opsiwn hwn hyrwyddo statws y cofnodion amgylchedd hanesyddol o fewn awdurdodau cynllunio lleol, ond ni fyddai'n ofynnol i awdurdodau fabwysiadu a dilyn y canllawiau.

Opsiwn 3 — Gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Llywodraeth Cymru

482. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol cyflogi un swyddog amser llawn ar gyfer pob cofnod amgylchedd hanesyddol, a hynny ar y radd briodol (ar gyflog o £50,000 yn ogystal â chostau). Yn gyffredinol, ystyrir bod angen un o leiaf er mwyn cael cofnod effeithiol.⁴¹ Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru eisoes yn cyflogi staff i gynnal a rheoli'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, ac amcangyfrifir y byddai hyn yn costio £80,000 yn ychwanegol y flwyddyn ar draws y pedair ymddiriedolaeth. Byddai angen i Lywodraeth Cymru, felly, gynyddu ei grant cofnodion amgylchedd hanesyddol i'r ymddiriedolaethau archaeolegol gymaint â hynny.
483. Byddai angen canllawiau statudol i gyd-fynd â'r ddyletswydd newydd hon a fyddai'n gost untro i Lywodraeth Cymru o lai na £4,000 (a amcangyfrifir ar yr un sail ag opsiwn 2).

Awdurdodau cynllunio lleol

484. O dan yr opsiwn hwn, gallai'r awdurdodau cynllunio lleol (neu unrhyw un fyddai'n gweithredu ar eu rhan) godi ffi am ddarparu copïau, cyngor neu gymorth mewn cysylltiad ag ymholiadau'n ymwneud â'r cofnodion amgylchedd hanesyddol. Byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn talu am ymholiadau cyhoeddus, ac felly dim ond ymholiadau masnachol fyddai angen codi ffi amdanynt. Ni ellir gwneud elw yn hyn o beth, ac felly byddai'r gyfradd gyfredol o £25 yn parhau i fod yn gymwys.
485. Rhagwelir y byddai'r awdurdodau cynllunio lleol yn cwrdd ag ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn rheolaidd i fonitro perfformiad. Ar sail y rhagdybiaeth y byddai cynrychiolydd o bob awdurdod yn cwrdd â'r swyddog cofnod perthnasol am hanner diwrnod ddwywaith y flwyddyn — sy'n 8 awr y flwyddyn i 29 o bobl (o gyfrif y 25 awdurdod cynllunio a'r 4 ymddiriedolaeth archaeolegol) — amcangyfrifir cost flynyddol i'r awdurdodau cynllunio o £6,000 y flwyddyn.

⁴¹ Gweler yr argymhellion ar lefelau staff yng nghanllawiau Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol ar Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol.

486. Mae pobl yn deall y strwythur presennol ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol ac mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fel strwythur llwyddiannus a chost-effeithiol iawn. Mae'r pedwar cofnod amgylchedd hanesyddol yn darparu system ar gyfer Cymru gyfan.

Opsiwn 2 — Cyhoeddi canllawiau anstatudol ar fabwysiadu a rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

487. Gallai cysylltiadau mwy ffurfiol rhwng cynghorwyr archaeolegol arbenigol ar gofnodion amgylchedd hanesyddol a gwasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol gynnig darpariaeth fwy integredig ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol adeiledig ac archaeoleg.

Opsiwn 3 — Gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu cofnodion amgylchedd hanesyddol, a'u cynnal.

488. Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynhonnell hollbwysig o wybodaeth er mwyn rheoli'r amgylchedd hanesyddol, gofalu amdano a'i ddeall. Mae cael yr wybodaeth ddiweddaraf, sy'n gyson ac o ansawdd uchel am yr amgylchedd hanesyddol drwy'r cofnodion yn bwysig er mwyn rheoli gwaith cynllunio a datblygu yn ogystal ag er budd y cyhoedd a defnydd addysgol. O'u cyfuno, mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn gronfa unigryw, sy'n cynrychioli dros ddau gan mil o flynyddoedd o weithgarwch dynol, ac sy'n darparu adnodd hanes lleol ac at ddibenion cadwraeth ac adfywio.
489. Mae cyngor cynllunio proffesiynol a chofnod amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei gynnal yn iawn yn hanfodol i dwf a datblygiad economaidd lleol. Maent yn caniatáu i gwmnïau masnachol gyflawni gofynion statudol yn fwy prydlon ac i arbenigwyr gynnig cyngor cynnar ar yr effaith ar asedau treftadaeth. Maent hefyd yn helpu i atal ceisiadau ofer ac i leihau costau nad oeddent wedi'u cynllunio ac oedi yn y gwaith datblygu.
490. Bydd rhoi sail statudol i gofnodion amgylchedd hanesyddol yn sicrhau gwell adnoddau ar eu cyfer, eu bod yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol ac yn fwy abl i roi cyngor a thystiolaeth gadarn mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Ynghyd â chanllawiau statudol ategol, bydd hyn yn arwain at reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cydlynol a chyson gan sicrhau'r manteision cysylltiedig i'r cyhoedd yn y tymor hir.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

491. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru 3. Dim ond drwy roi sail statudol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol y caiff eu dyfodol ei sicrhau.

Heb y ddyletswydd hon, gallai'r cofnodion ddarparu amdanynt, gan effeithio'n andwyol ar ein dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol, ac arwain yn ei dro at ddirywiad yn y cyngor proffesiynol a fydd ar gael gan arbenigwyr. Gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru ar hyn o bryd i gynnal y cofnodion amgylchedd hanesyddol, bydd yna gost ychwanegol fechan i roi sail statudol i'r cofnodion.

Tabl 12 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffeifir, sef opsiwn 3

Llywodraeth Cymru

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Grant ychwanegol	£80,000	£80,800	£80,800	£80,800	£80,800
Canllawiau	£4,000	-	-	-	-
Cyfanswm	£84,000	£80,800	£80,800	£80,800	£80,800

Awdurdodau Cynllunio Lleol

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Monitro perfformiad	£6,000	£6,000	£6,000	£6,000	£6,000

Creu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol (adrannau 33 a 34(2)(k))

Yr opsiynau

492. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol yn adran 33(2), sy'n pennu'r hyn y mae'n rhaid i gofnodion amgylchedd hanesyddol eu cynnwys. Wrth ystyried sut i roi effaith i'r argymhelliad, archwiliwyd tri opsiwn.
- Opsiwn 1 — Gwneud dim
 - Opsiwn 2 — Ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol
 - Opsiwn 3 — Darparu mynediad trwy gofnodion amgylchedd hanesyddol at restr o enwau lleoedd hanesyddol a lunnir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

493. O dan yr opsiwn hwn, byddai gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru yn parhau i gael ei chasglu'n anffurfiol, gan ddibynnu i raddau helaeth ar ymchwil academiaidd a gwaith grwpiau gwirfoddol ar lefel leol a chenedlaethol.
494. Ni fyddai hyn yn cyflawni argymhelliad y Pwyllgor y dylid cyfeirio'n benodol at enwau lleoedd hanesyddol yn y rhestr o wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y

cofnodion amgylcheddol hanesyddol statudol. Roedd y Pwyllgor yn haeru y byddai cyfeirio at enwau lleoedd mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol yn dangos i awdurdodau cynllunio lleol ac eraill 'y dylai enwau lleoedd gael eu cofnodi ac y dylent gael eu hystyried yn benodol yng nghyd-destun diogelu treftadaeth'.⁴²

495. Mae cynaliadwyedd casglu data yn agored i risg o dan yr opsiwn hwn gan y byddai'r gwaith yn ddibynnol i raddau helaeth ar wirfoddolwyr a grantiau gan gyrff megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol

496. Mae holl gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru eisoes yn cynnwys gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol, er bod yr wybodaeth honno wedi'i chasglu ar sail ad hoc. Drwy ychwanegu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'n rhaid i bob cyfnod amgylchedd hanesyddol fabwysiadu ffordd systemig o gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol.
497. Gyda'i gilydd, byddai hyn yn cynhyrchu set ddata fwy cynhwysfawr o enwau lleoedd hanesyddol ledled Cymru. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i bob cofnod amgylchedd hanesyddol gyflogi swyddog enwau lleoedd arbenigol, gan olygu dyblygu adnoddau mewn ffordd gostus.
498. Hefyd, mae risg y gallai nifer y cofnodion enwau lleoedd fod yn ormod i gofnod amgylchedd hanesyddol ymdopi ag ef. Byddai hynny, yn ei dro, yn gwyrddroi ei ddiben sylfaenol, sef cofnodi gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol, a hynny'n enwedig ar gyfer bod yn sail i'r broses rheoli datblygu. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys mwy na 150,000 o gofnodion sylfaenol, ond mae casgliad Melville Richards⁴³ yn cynnwys dros 300,000 o gofnodion o enwau lleoedd yng Nghymru, ac mae hynny'n gyfran fechan o'r cyfanswm tebygol sy'n bodoli ledled Cymru.

Opsiwn 3 — Darparu mynediad trwy gofnodion amgylchedd hanesyddol at restr o enwau lleoedd hanesyddol a lunir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

499. O dan yr opsiwn hwn, byddai gofyn i Weinidogion Cymru sefydlu set ddata genedlaethol o enwau lleoedd hanesyddol.
500. Byddai dyletswydd Gweinidogion Cymru i greu a chynnal set ddata genedlaethol ar enwau lleoedd hanesyddol yn cael ei ddirprwyo i gorff cenedlaethol cydnabyddedig ag arbenigedd yn y maes, megis Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru. Gellid defnyddio setiau data annibynnol cyfredol

⁴² Cynulliad Cenedlaethol Cymru — Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 'Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 (Hydref 2015), para. 53.

⁴³ <http://e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/history.html>

— Cymru 1900 Wales⁴⁴ a Cynefin: Mapiau Degwm Cymru⁴⁵ er enghraifft — fel sail i'r set ddata genedlaethol.

501. Trwy'r cofnodion amgylcheddol hanesyddol fyddai'r mynediad i'r set ddata genedlaethol yn bennaf, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr wybodaeth ar enwau lleoedd hanesyddol ar gael gyda gwybodaeth arall am yr amgylchedd hanesyddol a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ac i reoli datblygu. Fodd bynnag, gan na fyddai'r wybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol wedi'u cynnwys mewn cofnodion ar wahân o fewn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, ni fyddai risg o foddï'r data amgylchedd hanesyddol cyfredol.
502. Gellid hefyd rhoi'r wybodaeth ar enwau lleoedd ar gael drwy blatfformau eraill, megis porthol Cymru Hanesyddol sy'n darparu mynediad i wybodaeth a gesglir ynghyd gan Cadw, Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.⁴⁶

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim

503. Ni fyddai parhau â'r trefniadau cyfredol yn golygu unrhyw gostau ychwanegol gan fod cyllido'n ddewisol. Fodd bynnag, mae risg nad yw'r gwaith o gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd yn gynaliadwy heb drefniadau cyllido cadarn.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol

504. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o bedwar cofnod amgylchedd hanesyddol ychwanegu manylion am enwau llefydd hanesyddol yn ei ardal. Byddai hyn yn golygu penodi swyddog arbenigol ym maes enwau lleoedd i dynnu'r rhan honno o'r cofnod amgylchedd hanesyddol ynghyd. Amcangyfrifir y byddai'r curadur hwn, a'r cymorth technegol ar ei gyfer, yn costio £60,000 y flwyddyn i bob cofnod amgylchedd hanesyddol. Yn unol â hynny, byddai angen i Lywodraeth Cymru gynyddu ei grant cofnod amgylchedd hanesyddol o tua £240,000 y flwyddyn.

Opsiwn 3 — Darparu mynediad trwy gofnodion amgylchedd hanesyddol at restr o enwau lleoedd hanesyddol a lunir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru.

505. Dyletswydd Gweinidogion Cymru fyddai llunio a chynnal y rhestr, ond byddai'r cyfrifoldeb o greu a chynnal y set ddata genedlaethol yn cael ei ddirprwyo i gorff cenedlaethol cydnabyddedig megis Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru. Yna, byddai'r setiau data sydd ar gael eisoes, megis Cymru 1900 Wales, yn cael eu defnyddio i helpu i lenwi'r set ddata genedlaethol.

⁴⁴ <http://www.cymru1900wales.org/>

⁴⁵ <http://cynefin.archiveswales.org.uk/>

⁴⁶ <http://historicwales.gov.uk>

506. Byddai angen i'r corff benodi swyddog arbenigol ym maes enwau lleoedd i guradu'r rhestr a darparu cymorth technegol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio £60,000 y flwyddyn yn seiliedig ar gyflogi un swyddog arbenigol yn llawn amser a chymorth technegol ategol.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim

507. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn. Ni fyddai dyfodol cynaliadwy cadarn i'r prosiectau cyfredol ar gyfer casglu enwau lleoedd a byddai diffyg cymorth proffesiynol hirdymor ar eu cyfer. Byddent yn gorfod parhau i fod yn ddibynnol ar grantiau ymchwil, cymorth gan bartneriaid neu gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a hwnnw'n gyllid â chyfyngiad amser arno. Hefyd, byddai'r wybodaeth a gesglir yn gorfod cael ei rhannu i wefannau ar wahân ar gyfer pob prosiect, er bod Fy Lle yng Nghymru, a gynhelir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, yn adnodd all ddarparu cysylltiadau i'r gwahanol gasgliadau.⁴⁷ 478.

Opsiwn 2 — Ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol gasglu gwybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol

508. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ffynhonnell o wybodaeth am enwau lleoedd hanesyddol a fyddai'n hygyrch ac ar gael yn lleol. Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol eisoes yn cynnwys gwybodaeth am enwau lleoedd, er bod yr wybodaeth honno yn anghyflawn ac wedi'i chasglu, yn bennaf, fel rhan o wahanol brosiectau penodol a chyfyng. Mantais arall yn gysylltiedig â'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yw eu bod yn ffynonellau cydnabyddedig o wybodaeth a chynghor ynghylch rheoli'r amgylchedd hanesyddol.
509. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai nifer y cofnodion enwau lleoedd hanesyddol y byddai'n rhaid eu cynnwys yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ormod i'r cofnodion cyfredol ymdopi ag ef. Gallai hyn danseilio gwerth y cofnodion amgylchedd hanesyddol at ddibenion awdurdodau cynllunio lleol, gan beryglu'r pwrpas gwreiddiol hwn o fod yn sail i'r broses rheoli datblygu.
510. Hefyd, mae'n bosibl y byddai gosod y cyfrifoldeb am gasglu enwau lleoedd hanesyddol ar y cofnodion amgylchedd hanesyddol unigol yn arwain at fwy a mwy o anghysondebau rhwng y gwahanol gofnodion.

Opsiwn 3 — Darparu mynediad trwy gofnodion amgylchedd hanesyddol at restr o enwau lleoedd hanesyddol a lunir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru

511. Mae i'r opsiwn hwn y fantais o roi un gronfa ddata genedlaethol ar waith. Cronfa ddata awdurdodol a fyddai'n cael ei churadu gan gorff arbenigol cydnabyddedig. Y cofnodion amgylchedd hanesyddol fyddai'r prif le am

⁴⁷ <http://lle.llgc.org.uk/>

fynediad at y rhestr i aelodau'r cyhoedd a chyrrff sy'n rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

512. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r opsiwn sy'n cynnig y ffordd fwyaf cost-effeithlon o sefydlu rhestr awdurdodol o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Drwy bennu mai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol fyd y brif ffordd o gael mynediad at y rhestr, rhoddir ymdeimlad o berchnogaeth leol a sicrhair bod yr wybodaeth ar gael gyda data arall a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r rhestr, yn enwedig wrth ystyried ceisiadau am newidiadau i enwau tai neu strydoedd.

Sefydlu panel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru (adrannau 38–39)

Yr opsiynau

513. Cafodd tri opsiwn eu hystyried:

- Opsiwn 1 — Gwneud dim.
- Opsiwn 2 — Sefydlu panel cynghori ar sail anstatudol.
- Opsiwn 3 — Sefydlu panel cynghori ar sail statudol.

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

514. Yn 2010, daethpwyd â'r Bwrdd Cyngorol Henebion a'r Cyngor Cyngorol Adeiladau Hanesyddol i ben. Roedd y cyrrff hyn wedi rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru a'i rhagflaenwyr ar faterion yn ymwneud â henebion hynafol statudol ac wedi dyrannu grantiau i adeiladau hanesyddol. Nid oedd yn amcan gan y naill gorff na'r llall rhoi cyngor strategol ar bolisi ehangach mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol. Ers y cyfnod hwnnw, ni fu gennym unrhyw gorff ag aelodau penodedig i roi cyngor arbenigol annibynnol i Weinidogion Cymru ar bolisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol ac ar ddarparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cyhoeddus ar lefel genedlaethol yng Nghymru.
515. Yn 2004, sefydlwyd y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol anstatudol, sef cynrychiolwyr a enwebwyd o sefydliadau o bob rhan o sector yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n gweithredu fel fforwm ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid a chydgyssylltu gwaith.

Opsiwn 2 — Sefydlu panel cynghori ar sail anstatudol.

516. O dan yr opsiwn hwn, câi panel cynghori newydd ei sefydlu er mwyn rhoi cyngor annibynnol ar amrywiaeth eang o weithgareddau datblygu polisi, yn

ogystal â chynghor arbenigol penodol am yr amgylchedd hanesyddol ehangach a rheoli eiddo sydd yng ngofal Llywodraeth Cymru. Byddai corff o'r fath yn hyblyg a byddai Llywodraeth Cymru yn gallu diwygio ei swyddogaethau a'i gyfansoddiad yn hawdd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r cynghor sydd ei angen yn effeithiol.

517. Fodd bynnag, byddai statws panel anstatudol yn gyfyngedig yn llygaid sector yr amgylchedd hanesyddol. Byddai'r risg fawr yno hefyd y gellid ei ddiddymu, neu newid ei bwrpas, heb fod angen ymgynghori â'r sector ehangach.

Opsiwn 3 — Sefydlu panel cynghori ar sail statudol.

518. Byddai i'r opsiwn hwn yr un manteision ag opsiwn 2 o ran creu panel i ddarparu cynghor annibynnol. Byddai ei natur statudol yn adlewyrchu'r gwerth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ei rôl ac yn cydnabod yr angen am system hirdymor integredig ar gyfer gwaith datblygu a chynllunio polisi. Byddai sefydlu'r panel yn statudol hefyd yn datgan ei annibyniaeth ac yn gwarchod ei ddyfodol. Dim ond ar ôl trafodaeth ac ymgynghori tryloyw, priodol y byddai modd ei ddiddymu.

Costau

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

519. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, sy'n costio tua £5,000 y flwyddyn — costau teithio, cynhaliaeth a llogi ystafelloedd/arlwyo. Yn gyffredinol, mae'r sefydliadau a gynrychiolir ar y Grŵp yn cymryd eu tro i gynnal y cyfarfodydd, ac felly, dim ond y costau arlwyo y bydd Llywodraeth Cymru yn eu talu fel rheol. Mae'r cynrychiolwyr yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i fynd i'r cyfarfodydd. Mae gwaith ysgrifenyddol y Grŵp yn cymryd hyd at 25 y cant o amser swyddog ar lefel HEO, ar gost o £13,000 y flwyddyn.

Opsiwn 2 — Sefydlu panel cynghori ar sail anstatudol.

520. Llywodraeth Cymru fyddai'n talu cost sefydlu panel cynghori anstatudol. Disgwylir mai uchafswm y gost recriwtio o dan yr opsiwn hwn fyddai £11,000, a fyddai'n talu am hysbysebu'r swyddi, sefydlu panel dethol, darparu cymorth gweinyddol drwy gydol y broses a threuliau'r ymgeiswyr. Byddai yna gostau recriwtio yn 2016–2017. Byddai cost flynyddol cyflog a threuliau eraill yn rhyw £50,000. Câi un deg pedwar o aelodau'r panel eu talu £145 y dydd am hyd at 10 diwrnod, a byddai'r cadeirydd yn cael ychydig yn fwy (£190 y dydd) am hyd at 15 diwrnod. Disgwylir y byddai angen hyd at 50 y cant o amser unigolyn ar lefel HEO neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny ar gyfer y gwaith ysgrifenyddol, ar gost o £26,000 y flwyddyn. Ni fyddai'r panel yn gyfrifol am y gyllideb na'r staff.

Opsiwn 3 — Sefydlu panel cynghori ar sail statudol.

521. Llywodraeth Cymru fyddai'n talu costau sefydlu panel cynghori ar sail statudol a byddent yr un fath ag ar gyfer opsiwn 2.

Manteision

Opsiwn 1 — Gwneud dim.

522. Mae sector yr amgylchedd hanesyddol yn deall y trefniadau presennol ar gyfer rhannu arferion da. Bob blwyddyn, mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn cyfarfod pedair gwaith ac mae'r Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol yn cadeirio dau o'r cyfarfodydd hynny. Cadw sy'n cadeirio'r cyfarfodydd yn absenoldeb y Gweinidog a nhw hefyd sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth. Mae'r fforwm yn galluogi aelodau'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol i glywed am flaenoriaethau a syniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac yn rhoi cyfleoedd iddynt wneud sylwadau a chynnig mewnbwn ar faterion fel Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (a'i chynllun gweithredu) a chyllido trydydd sector yr amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol. Mae'r fforwm yn darparu cyfleoedd i'r Gweinidog siarad yn uniongyrchol â'r sector sy'n help i sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfathrebu'n glir.
523. Mae'r canlyniadau sydd wedi'u sicrhau, yn enwedig drwy'r is-grwpiau, yn bwysig i'r sefydliadau a gynrychiolir ar y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol; er enghraifft, yr adroddiad ar ddull strategol o asesu effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012. Mae is-grŵp yr Archifau Archaeolegol wedi cynnal adolygiad o sut caiff archifau archaeolegol eu storio a'u defnyddio yng Nghymru yn sgil problemau mawr o ran mynediad a gofod. Fodd bynnag, mae aelodau'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yno i gynrychioli eu sefydliadau eu hunain, ac felly ni all gyflawni'r amcan polisi o ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar bolisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol.

Opsiwn 2 — Sefydlu panel cyngori ar sail anstatudol.

524. Gallai'r panel roi cyngor i Weinidogion Cymru a gwasanaethau eraill ym maes yr amgylchedd hanesyddol ar ddatblygu strategaeth a pholisi. Byddai'n rhoi'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru benderfynu ar sut i fynd ati i recriwtio'r panel, ei faint, manylion ei drefniadau a'i agenda.

Opsiwn 3 — Sefydlu panel cyngori ar sail statudol.

525. Ymhlith y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, roedd cefnogaeth gyffredinol i banel statudol. Dadleuodd llawer dros gael panel a allai roi cyngor arbenigol annibynnol er mwyn datblygu polisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Byddai'r panel hefyd yn gallu rhoi cyngor o'r fath i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau strategol arfaethedig ar gyfer y sector ac adrodd ar sut caiff y cynlluniau hynny eu cyflawni. At hynny, gallai'r panel gynnig cyngor arbenigol annibynnol, canllawiau a, lle bo'n briodol, her i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cyhoeddus ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Drwy wneud y panel yn rhan o'r Bil, câi ei warchod i'r dyfodol, a

fyddai'n golygu bod yn rhaid cael trafodaeth ac ymgynghoriad priodol cyn y gellir diddymu'r panel neu ei newid yn sylweddol.

526. Roedd corff tebyg yn yr Alban tan 2009 — yr Historic Environment Advisory Council for Scotland. Yn ei adroddiad terfynol,⁴⁸ 478. Amlinellodd y cyngor yr hyn a gyflawnodd a thynnodd sylw at ei allu i ddylanwadu ar nifer o faterion pwysig yn y dyfodol. Er nad oedd Gweinidogion yr Alban yn derbyn ei argymhellion bob amser, roedd y cyngor yn ffordd o ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y sector wrth iddo wneud ei benderfyniadau. Yn y ddogfen, gwnaeth cadeirydd y cyngor gyfrifiad bras o werth y cyngor a ddarparwyd gan y corff. Roedd y cyfrifiad yn seiliedig ar amcan o'r amser cyfartalog a dreuliwyd gan aelodau ar waith y cyngor dros chwe blynedd, wedi'i luosi ag amcan ceidwadol o'r gyfradd ddyddiol y gallai unrhyw un o'r aelodau ofyn amdani fel ymgynghorwyr; roedd y cyfanswm yn dod i dros £1 miliwn.

Crynodeb a'r opsiwn a ffeirir

527. Mae opsiwn 1 yn parhau â'r status quo ac ni ystyrir mai hwn yw'r opsiwn gorau. Ers diddymu'r Bwrdd Cynghorol Henebion a'r Cyngor Cynghorol Adeiladau Hanesyddol yn 2009, nid oes gan Lywodraeth Cymru gynghorwyr annibynnol. Dim ond cyngor arbenigol ar bynciau a oedd o fewn eu cylchoedd gwaith cymharol gul y byddai'r ddau gorff yn ei ddarparu. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn darparu persbectif polisi ehangach, ond nid yw'r grŵp anstatudol hwn yn annibynnol nac yn dryloyw, ac mae'r aelodau yn cynrychioli sefydliadau a wahoddwyd o fewn y sector.
528. Byddai opsiynau 2 a 3 yn darparu paneli a recriwtir mewn ffordd dryloyw, ac a fyddai'n cynrychioli amrywiaeth eang o arbenigedd ar draws sector yr amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, opsiwn 3 yw'r un a ffeirir gan Weinidogion Cymru gan y byddai statws statudol yn gwarchod y panel i'r dyfodol, gan sicrhau bod trafodaeth ac ymgynghoriad yn digwydd mewn perthynas ag unrhyw gynnig i ddiddymu'r panel neu ei newid yn sylweddol.

Tabl 13 — Crynodeb o gostau'r opsiwn a ffeirir, sef opsiwn 3

	Y costau presennol	Y costau yn y dyfodol	Sylwadau
Llywodraeth Cymru	£18,000 y flwyddyn	£18,000 y flwyddyn	Cost flynyddol ysgrifenyddiaeth y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol
	Amherthnasol	£50,000 y flwyddyn	Cost flynyddol y panel
	Amherthnasol	£11,000	Cost untro i benodi i'r panel

⁴⁸ Adroddiad Blynyddol Historic Environment Advisory Council for Scotland 2008/2009

Costau ac arbedion blynyddol

529. Ar y cyfan, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod costau darpariaethau'r Bil yn isel, mai Llywodraeth Cymru fydd yn eu hysgwyddo'n bennaf, a bod modd eu talu o'r adnoddau presennol.
530. Ond i gymhlethu'r sefyllfa, yn achos rhai o'r darpariaethau, dim ond yn nhermau ystod posibl y gellir mynegi'r costau cysylltiedig (er enghraifft, gwaith brys), neu ni ellir rhagweld pryd maent yn debygol o godi (er enghraifft, costau iawndal a allai godi ar unwaith neu ddim o gwbl).

Llywodraeth Cymru

531. Mae'r rhan fwyaf o'r costau yn deillio o'r tair darpariaeth sy'n ymwneud â rhoi sail statudol i'r *Gofrestr* Parciau a *Gerddi Hanesyddol* a'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ac o sefydlu panel cynghori. Dangosir y costau a ragwelir, gan gynnwys costau untro, yn Nhabl 14.

Awdurdodau cynllunio lleol

532. Mae'r costau newydd a gaiff eu gosod ar awdurdodau cynllunio lleol yn sgil y Bil yn isel iawn. Y brif gost newydd fydd costau ychwanegol yn ymwneud â monitro'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn ffurfiol, sef tua £6,000 y flwyddyn. I bob pwrpas, mae'r costau eraill yn ymwneud â gweinyddu'n lleol y broses o fapio cyfyngiadau i nodi'r safleoedd sydd wedi'u gwarchod dros dro, y disgwylir iddynt fod yn llai na £1,000 y flwyddyn ar draws awdurdodau cynllunio lleol Cymru, ynghyd â'r costau sy'n deillio o'r pwerau newydd i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig. Ni ellir rhagweld mewn ffordd ystyrlon, o ran symiau ariannol nac amseru, y costau sy'n ymwneud â'r pwerau estynedig i wneud gwaith brys a gosod pridiant tir.

Perchnogion/Datblygwyr

533. Ni fydd yna lawer o gostau i berchnogion na datblygwyr yn sgil y Bil. Gallai'r tystysgrifau imiwnedd olygu arbedion blynyddol o hyd at £1,237, ar gyfartaledd, lle bydd modd osgoi cais cynllunio diangen. Bydd y darpariaethau i adolygu dynodiadau yn cynnig mecanwaith cost-ffeithiol newydd i herio penderfyniadau dynodi, ond bydd herio yn arwain, serch hynny, at gostau o rhwng £50 a £2,000 yr achos, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos.

Tabl 14 — Crynodeb o'r costau blynyddol a ragwelir

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Mapio safleoedd sydd wedi'u gwarchod dros dro	£1,000	£1,000	£1,000	£1,000	£1,000
Adolygu dynodiadau	£6,750	£6,750	£6,750	£6,750	£6,750
Gweithdrefn symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig	-£524	-£524	-£524	-£524	-£524
Rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar ôl i waith gael ei wneud	£172	£172	£172	£172	£172
Canllawiau ar gydsyniad heneb gofrestredig	£200	-	-	-	-
Hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig	£350	£350	£350	£350	£350
Hysbysiadau gorfodi ar gyfer henebion cofrestredig	£875*	£875*	£875*	£875*	£875*
Diwygio troseddau ac amddiffyniadau — canllawiau	£500	-	-	-	-
Cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol	£26,200	£22,200	-	-	-
Parciau a gerddi hanesyddol — canllawiau	£5,000	-	-	-	-
Ehangu'r diffiniad o gofrestru	£2,070	£2,070	£2,070	£2,070	£2,070
Tystysgrifau imiwnedd	£832	£832	£832	£832	£832
Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol statudol	£80,000	£80,000	£80,000	£80,000	£80,000
Canllawiau ar y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol	£4,000	-	-	-	-
Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol	£60,000	£60,000	£60,000	£60,000	£60,000
Panel cynghori statudol — costau cymorth	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000	£50,000
Panel cynghori statudol — recriwtio	£11,000	-	-	-	-
CYFANSWM	£248,425	£223,725	£201,525	£201,525	£201,525

*Y gost hon yw canolrif ystod o gostau.

Adran 8: Asesu'r gystadleuaeth ac asesiadau effaith eraill

Asesu'r gystadleuaeth

534. Cwblhawyd prawf er mwyn asesu effaith y ddeddfwriaeth ar gwmnïau ac mae i'w weld isod.

Y prawf effaith ar gwmnïau	
Cwestiwn	Atebion
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arni/ arnynt, ydy'r tri chwmni mwyaf yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Nac ydyn
C4: A fyddai costau'r rheoliadau yn effeithio ar rai cwmnïau yn llawer iawn mwy nag eraill?	Na fydden
C5: A yw'r rheoliadau'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydyn
C6: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fydden
C7: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fydden
C8: A oes newidiadau technolegol ar raddfa fawr yn digwydd o fewn y sector?	Nac oes
C9: A fyddai'r rheoliadau'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu nwyddau?	Na fydden

535. Mae ystyriaeth fanwl isod o effaith gyfyngedig iawn darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar y gystadleuaeth.

Ymgynghori ac adolygu penderfyniadau i ddynodi adeiladau hanesyddol a henebion hynafol

536. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gystadleuaeth. Bydd y darpariaethau yn gwneud y prosesau dynodi presennol yn fwy tryloyw ac agored, gan sicrhau yr ymgynghorir â pherchnogion ac eraill cyn dynodi a sefydlu gweithdrefn i berchnogion wneud cais am adolygiad o unrhyw benderfyniad dynodi.

Diwygio'r broses cydsyniad heneb gofrestredig

537. Newidiadau technegol a wneir i'r broses cydsyniad heneb gofrestredig yn bennaf, sy'n awdurdodi gwaith i henebion cofrestredig, a'u nod yw

symleiddio'r gweithdrefnau a ddilynir. Byddant, felly, yn effeithio ar bob ymgeisydd yn yr un ffordd ac ni fyddant yn effeithio ar y gystadleuaeth.

Camau gorfodi yn erbyn gwaith nas awdurdodwyd sy'n effeithio ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a newidiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau yn Neddf 1979

538. Nod y darpariaethau gorfodi yw sicrhau bod modd cymryd camau prydlon ac effeithiol yn erbyn y rheini sydd wedi gwneud gwaith nas awdurdodwyd — ac sydd felly yn anghyfreithlon — ar asedau hanesyddol dynodedig, neu sydd yn y broses o wneud gwaith o'r fath. Ni fyddai'r darpariaethau yn effeithio ar y gystadleuaeth rhwng busnesau sy'n gwneud gwaith cyfreithlon ar asedau hanesyddol.
539. Nod y newidiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau yn Neddf 1979 yw sicrhau mwy o lwyddiant wrth erlyn y rheini sydd wedi difrodi henebion cofrestredig neu sydd wedi gwneud gwaith nas awdurdodwyd arnynt, ac ni fyddant yn effeithio ar unrhyw un sy'n gweithredu'n gyfreithlon.

Dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol

540. Bydd y darpariaethau yn rhoi sail statudol i'r gofrestr anstatudol bresennol, sy'n cofnodi'r parciau a'r gerddi hynny'n unig y mae eu perchnogion wedi rhoi eu caniatâd i'w cynnwys. O gofio bod cofnod o barc neu ardd ar y gofrestr yn ystyriaeth berthnasol yn y polisi cynllunio cenedlaethol, gallai'r darpariaethau effeithio ar berchnogion safleoedd nad ydynt ar y gofrestr ar hyn o bryd, os dymunant newid neu ddatblygu eu heiddo mewn ffordd sy'n galw am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar fwy na nifer cymharol fach o berchnogion — dim ond 14 o safleoedd cyflawn a rhannau o 7 safle arall sydd wedi'u hepgor o'r gofrestr bresennol o 386 o barciau a gerddi hanesyddol — ac mae'n bosibl na fydd llawer o'r rheini yn dymuno datblygu eu heiddo neu y byddant yn gwneud hynny mewn ffordd nad yw'n amharu ar ei gymeriad. Ni ystyrir, felly, y bydd y darpariaethau yn effeithio'n sylweddol ar y gystadleuaeth.

Ehangu'r diffiniad o'r safleoedd y ceir eu cofrestru

541. Bydd ehangu'r diffiniad o'r math o safle hanesyddol y gellir ei ddynodi'n heneb gofrestredig yn effeithio ar berchnogion y tir neu'r safleoedd dan sylw. Fodd bynnag, amcangyfrifir y caiff llai na 30 o safleoedd o'r fath eu hychwanegu at y Gofrestr, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys dros 4,000 o safleoedd. Fel rheol, ni ddefnyddir y broses gofrestru i ddynodi adeiladau a ddefnyddir at ddibenion economaidd ac nid yw'n atal unrhyw un rhag parhau i ddefnyddio'u tir fel y maent yn gwneud ar hyn o bryd. Fel y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei amlinellu, mae'r ymchwiliad wedi dangos bod cofrestru, yn gyffredinol, yn effeithio'n gadarnhaol ar werthoedd tir, a'i fod yn gallu denu cyllid ychwanegol o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol, gan roi mantais ariannol, o bosibl, i

fusnes fferm dros gystadleuwyr eraill.⁴⁹ 478. Fodd bynnag, dim ond un elfen yw heneb gofrestredig o blith nifer a ystyrir wrth gyfrifo cyllid grant. O gofio hyn a'r ffaith y bydd nifer y safleoedd sy'n debygol o gael eu hychwanegu at y Gofrestr ond yn gynydd bychan yng nghyfanswm nifer yr henebion, y mae llawer ohonynt ar ffermydd, ni ystyrir bod yr effaith ar gystadleuaeth yn sylweddol.

Tystysgrifau imiwnedd rhag rhestru

542. Byddai'r darpariaethau yn ei gwneud yn bosibl gwneud cais am dystysgrif imiwnedd ar unrhyw adeg, nid dim ond pan fydd cais am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno neu pan fydd caniatâd eisoes wedi'i roi. Bydd y newid o fudd i berchnogion a datblygwyr, ond bydd yn gyffredin i bawb ac felly ni fydd yn effeithio ar y gystadleuaeth.

Cytundebau partneriaeth dreftadaeth

543. Bydd cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn ei gwneud yn bosibl rhoi cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer rhaglenni gwaith hirdymor ar safleoedd dynodedig, gan gael gwared ar yr angen i gael cydsyniad am bob cam gwaith penodedig. Cyn belled â bod y cyrff perthnasol sy'n cydsynio yn cytuno ar y dull hwn, bydd y cytundebau ar gael i bob perchennog heb effeithio ar y gystadleuaeth.

Gwaith brys

544. O ehangu gwaith brys i gynnwys pob adeilad rhestredig, cyn belled nad yw'r gwaith hwnnw yn ymyrryd â defnydd y sawl sy'n byw yno o'r adeilad, gallai effeithio ar bob perchennog sy'n esgeuluso'r gwaith o gynnal a chadw neu atgyweirio'u heiddo, ac felly ni fydd yn effeithio ar y gystadleuaeth.

Y ddyletswydd i lunio a chynnal rhestr o enwu lleoedd hanesyddol

545. Bydd y rhestr o enwu lleoedd hanesyddol ar gael yn rhad ac am ddim drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol a bydd yn sail i'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch enwau lleoedd. Ni chaiff effaith ar gystadleugarwch.

Cofnodion amgylchedd hanesyddol

546. Bydd gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i greu a chadw cofnodion amgylchedd hanesyddol yn sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cofnodion yn parhau i fod ar gael i bawb ac ni fydd yn effeithio ar y gystadleuaeth.

Sefydlu panel cyngori ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru

547. Rôl y panel fydd rhoi cyngor annibynnol i Weinidogion Cymru ar ystod eang o waith datblygu polisi a meysydd sy'n galw am gyngor arbenigol. Ni fydd yn effeithio ar gystadleuaeth.

⁴⁹Gweler tt. 86–88.

Asesiadau o effeithiau penodol

548. Cwblhawyd asesiadau penodol o effaith Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar amrywiaeth o feysydd polisi mewn cydweithrediad â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

549. O dan ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi 'sylw dyledus' i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt. Yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yw mecanwaith ffurfiol a systematig Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth bod y sylw dyledus hwnnw wedi'i roi i'r materion hyn.
550. Drwy wella'r broses o warchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn sicrhau ei bod yn parhau i ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i holl bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol. Bydd unrhyw effeithiau ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn sgil y Bil, yn rhai pitw.
551. Bydd y Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn ffordd o gyfrannu at y cyngor strategol a pholisi a roddir i Weinidogion Cymru. Cymerir camau pendant i recriwtio pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i'r panel yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
552. Mae darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) wedi'u llunio i gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac maent wedi'u dadansoddi'n drwyadl i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio.
553. Yng ngoleuni effaith bitw Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, mae'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cadarnhau nad oes angen symud ymlaen i Gam 2 yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

554. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu pob deddfwriaeth a pholisi.
555. Wrth ddatblygu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), trefnwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer myfyrwyr Bagloriaeth Cymru chweched dosbarth yn y Gogledd a'r De. Cymerodd 187 o ddisgyblion o wyth ysgol ran yn y sesiynau. Aethpwyd ati i roi cyflwyniad i'r bobl ifanc ar rai o'r materion sy'n ganolog i fater gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy, a

chofnodwyd eu barn ar ei bwysigrwydd a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'w warchod.

556. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn ystyried bod yr amgylchedd hanesyddol yn rhan bwysig o gymunedau Cymru ac o blaid ei reoli'n gynaliadwy, er mwyn iddo allu parhau i gynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl. Bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) o fudd i holl bobl Cymru, ond daw hefyd â rhai elfennau manteisiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled y wlad.
557. Drwy roi sail fwy sefydlog i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, er enghraifft, bydd y Bil yn helpu i gefnogi a hyrwyddo eu gweithgareddau addysgol a phontio. Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau addysgol i helpu ysgolion i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol a hanes lleol eu hardaloedd. Bydd yr adnodd map ar-lein sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Bil i roi gwybodaeth am bob ased hanesyddol a ddynodir ac a gofrestrir hefyd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ar gael yn fwy hwylus i bawb, gan gynnwys pobl ifanc.
558. Roedd canlyniadau'r sesiynau ymgynghori o fudd nid dim ond wrth ddatblygu'r Bil, ond hefyd i Lywodraeth Cymru wrth iddi ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc gyda'r nod o wella eu dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'u gwybodaeth amdani. Dyma sydd y tu ôl i'r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi Bagloriaeth newydd Cymru a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn fwy cyffredinol. Mae'n amlwg hefyd yn y prosiect y mae Cadw yn ei ddatblygu o dan y fframwaith archaeoleg gymunedol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill ac â chymorth ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd pobl ifanc 18 i 25 oed yn ymchwilio i wahanol themâu yng ngorffennol unigryw Cymru, gan ddatblygu ar yr un pryd sgiliau arbenigol mewn archaeoleg.

Yr effaith ar y Gymraeg

559. Mae'r Bil yn dechnegol ei natur ac ni fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg. Wrth baratoi asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, nodwyd nifer o effeithiau cadarnhaol a negyddol anuniongyrchol, yn ogystal â chyfle coll i hyrwyddo'r iaith ymhellach.
560. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at wneud ardal yn unigryw ac mae'n ysgogi ymwybyddiaeth o hyder a balchder cymunedol ac yn rhoi ymwybyddiaeth o berthyn a hapusrwydd i bobl. Mae amgylchedd hanesyddol ardal yn hollbwysig i gynnal traddodiadau, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg.
561. Gallai'r Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Bydd y panel yn cyngori Gweinidogion Cymru ar bolisi'r amgylchedd hanesyddol ac ar ddatblygu a gweithredu rhaglenni gwaith strategol. Gallai hyn gynnwys cyngor ar bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol i'r Gymraeg.

562. Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo drwy'r dulliau cyfathrebu a'r hysbysiadau niferus a fydd yn ofynnol o dan ddarpariaethau'r Bil. Bydd pob hysbysiad yn ddwyieithog, a gall y perchnogion a'r meddianwyr ddewis ym mha iaith y maent am ohebu a derbyn eu gohebiaeth.
563. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol i greu a chadw cofnod amgylchedd hanesyddol, ond bydd yn caniatáu i awdurdod gyflawni'r ddyletswydd honno drwy berson neu gorff arall, er enghraifft un o'r ymddiriedolaethau archaeolegol sy'n gyfrifol am y cofnodion amgylchedd ar hyn o bryd. Nid yw'r cofnodion yn adnoddau dwyieithog ac, oherwydd nifer y manylion a nodwyd ynddynt (dros 150,000 o fanylion sylfaenol), byddai'n gostus eu cyfieithu. Mae'r Ymddiriedolaethau yn cynnig gwasanaethau atodol, fel dehongli'r cofnodion a chyngor cynllunio, yn ddwyieithog, ac mae gan bob un bolisi iaith.
564. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Bydd mynediad at y rhestr yn rhad ac am ddim drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol a bydd y wybodaeth yn sail i benderfyniadau awdurdodau lleol a chyrrff eraill o ran enwau lleoedd. Bydd mantais gadarnhaol amlwg i enwau Cymraeg cynhenid o'u cofnodi a'u cadw.

Datblygu cynaliadwy

565. Datblygu cynaliadwy yw egwyddor ganolog Llywodraeth Cymru.
- 'Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau.'⁵⁰
566. Bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gwneud llawer i hyrwyddo'r egwyddor hon drwy wella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy.
567. Bydd darpariaethau'r Bil ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth a chofnodion amgylchedd hanesyddol yn cael effaith gadarnhaol ar y gwaith o reoli asedau hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Mae darpariaethau cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'u llunio gyda'r nod o wella'r gwaith o reoli asedau hanesyddol dynodedig Cymru yn gynaliadwy drwy gytundebau gwirfoddol rhwng awdurdodau sy'n cydsynio, perchnogion a phartïon eraill sydd â diddordeb. Bydd angen datblygu cynlluniau rheoli a fydd yn cefnogi rhaglenni gwaith integredig a chydlynol dros gyfnodau o flynyddoedd. Bydd hyn o fantais i'r asedau, ond hefyd yn creu arbedion i'r partïon dan sylw.

⁵⁰ *Cymru Gynaliadwy: Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell — Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy* (Llywodraeth Cymru, 2012), t. 2

568. Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru yn storio gwybodaeth sydd wedi'i threfnu'n systematig am yr amgylchedd hanesyddol ehangach ac asedau hanesyddol penodol mewn ardal benodol. Maent hefyd ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol i greu a chadw cofnodion o'r fath, bydd y Bil yn sicrhau bod yr wybodaeth awdurdodol hon yn cael ei chofnodi a'i storio mewn ffordd effeithiol ac ar gael i'r cyhoedd ar lefel leol, gan gynnig gwasanaeth dehongli proffesiynol a chymorth cyfeirio, ymchwilio ac addysgol. Bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol hefyd yn ffynonellau cyngor a thystiolaeth hollbwysig y gall awdurdodau cynllunio a rheolwyr tir eraill eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar amgylchedd hanesyddol eu hardal.
569. Mewn cydweithrediad â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), mae dogfennau polisi, cyngor a chanllaw yn cael eu paratoi i wella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Wrth wraidd rheoli newid yn gynaliadwy mae systemau cydsyniad sy'n sicrhau bod gwerthoedd arbennig asedau hanesyddol yn cael eu hystyried a'u gwarchod yn ofalus neu'n cael eu datblygu fel y gall yr asedau hynny barhau i ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd. Mae i'r system gynllunio rôl ganolog i'w chwarae o ran cadwraeth amgylchedd hanesyddol unigryw Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Mae'r bennod ddiwygiedig yn *Polisi Cynllunio Cymru* ar yr amgylchedd economaidd a'r nodyn cyngor technegol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol — mae'r ddau wedi'u drafftio i gyd-fynd â'r Bil a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus arnynt 2016 — yn sefydlu egwyddorion rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy o fewn y system gynllunio.

Prawfesur polisiâu o safbwynt anghenion cefn gwlad

570. Bydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn effeithio ar ardaloedd trefol a gwledig.
571. Mae yna adeiladau traddodiadol a nodweddion hanesyddol di-ri mewn ardaloedd gwledig ac yno y mae'r rhan fwyaf o safleoedd archaeolegol Cymru. Caiff pwysigrwydd cadwraeth ein hamgylchedd hanesyddol ei gydnabod fwyfwy fel rhan annatod o'r ymgyrch tuag at ddiwydiant ffermio mwy cynaliadwy.
572. Nod y Bil a'i bolisi, ei gyngor a'i ganllawiau cysylltiedig yw gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy a gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig mewn ffordd fwy effeithiol. Dylai'r darpariaethau hyn gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig.
573. Bydd cael mynediad at wybodaeth yn bwysig er mwyn gweithredu'r Bil yn effeithiol. Mae cronfa ddata newydd o fapiau ar-lein yn cael ei datblygu a fydd yn rhoi gwybodaeth ar bob adeilad rhestredig, heneb gofrestrredig a pharc a gardd hanesyddol cofrestredig yng Nghymru. Bydd hyn yn ffordd glir a hwylus i berchnogion tir a'r cyhoedd o gael disgrifiadau a mapiau awdurdodol, a hynny'n rhad ac am ddim.

574. Gyda'r wybodaeth gywir, gall perchnogion tir chwarae rôl hollbwysig yn y broses o drosglwyddo ein safleoedd hanesyddol i'r cenedlaethau i ddod. Bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau gwybodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol ac yn fannau cychwyn pwysig ar gyfer prosesau rheoli, gwaith cadwraeth a gwaith maes ac ymchwil, ac ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chreu cysylltiadau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.
575. O ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig, bydd nifer yr henebion sy'n gymwys i'w cofrestru yn cynyddu. Mae'n bosibl y cyfyngir ar weithgareddau rheoli tir pan gaiff heneb ei chofrestru. Fodd bynnag, mae yna ddarpariaethau ar gyfer cydsyniad awtomatig er mwyn parhau ag unrhyw waith amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth sydd yr un fath â gwaith a wnaed yn gyfreithlon ar yr heneb yn ystod y chwe blynedd flaenorol.

Iechyd a lles

576. Ni fydd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles, ond bydd yna effeithiau anuniongyrchol yn sgil gwelliannau i'r ffordd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei warchod a'i reoli'n gynaliadwy ac yn sgil gwneud y prosesau penderfynu yn fwy tryloyw a sicrhau mwy o atebolrwydd.
577. Yn 2014 cynhaliwyd gwaith ymchwil penodol yn Lloegr i effaith treftadaeth ar les a hapusrwydd pobl.⁵¹ Canfu'r ymchwil fod perthynas gadarnhaol glir rhwng ymweld â safleoedd treftadaeth fel trefi, adeiladau, safleoedd diwydiannol a safleoedd archaeolegol hanesyddol, a lefelau boddhad pobl. Ar y cyfan, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod effaith ymweliadau o'r fath ar lefelau boddhad pobl ychydig yn uwch nag effaith cymryd rhan mewn chwaraeon neu yn y celfyddydau ac, o gyfrifo'r peth yn ariannol, fod eu gwerth blyneddol yn cyfateb i £1,646 y person.
578. Mae arolygon wedi dangos bod tua 73% o oedolion wedi ymweld â safle treftadaeth yn ystod y 12 mis blaenorol sydd, yn ogystal â dod â lefel o foddhad, hefyd yn gallu annog pobl i wneud ymarfer corff, drwy ddarparu amgylchedd i'w ddarganfod neu i gerdded a chynnal gweithgareddau eraill ynddo.
579. Bydd rhoi sail statudol i'r *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* yn sicrhau ei bod yn gynhwysfawr ac yn gyfoes. Parciau a gerddi cyhoeddus yw llawer o'r safleoedd sydd ar y gofrestr a bydd y ddarpariaeth yn gofalu eu bod yn parhau i gael eu gwarchod drwy'r broses gynllunio fel amwynderau cymunedol.
580. Bydd rhoi sail statudol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn sicrhau eu dyfodol cynaliadwy fel darparwyr gwybodaeth canolog ar asedau hanesyddol a gwybodaeth hanesyddol am ardal, fel eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymwybyddiaeth o gymuned a chynnal hunaniaeth y lle.

⁵¹ Daniel Fujiwara, Thomas Cornwall a Paul Dolan, 'Heritage and Wellbeing' (English Heritage, 2014).

Yr effaith ar breifatrwydd

581. Er mwyn asesu unrhyw effaith ar breifatrwydd a fyddai'n galw am asesiad llawn, defnyddiwyd yr adnodd sgrinio, a hynny mewn perthynas â phob un o ddarpariaethau'r Bil. Cadarnhaodd yr ymarfer sgrinio na fyddai unrhyw effeithiau newydd sylweddol ar breifatrwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r Bil. Cytunwyd, felly, mewn ymgynghoriad ag Uned Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru, nad oedd y Bil yn galw am asesiad llawn o'r effaith ar breifatrwydd.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

582. Mae i fwy na 700 o gyrff gwirfoddol yng Nghymru fuddiant mewn hanes neu yn yr amgylchedd hanesyddol. Mae llawer yn derbyn cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal rolau arbenigol pwysig, o ofalu am agweddau ar yr amgylchedd hanesyddol a'u hyrwyddo i ddarparu cyngor arbenigol.
583. Ar nifer bach o gyrff y trydydd sector y caiff Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yr effaith fwyaf, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a rhai ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, sydd â rhannau sylweddol o dir lle mae yna asedau hanesyddol dynodedig. Fel perchnogion asedau dynodedig lu, gallai sefydliadau o'r fath fanteisio'n fawr yn sgil cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl negodi cynlluniau rheoli gydag awdurdodau sy'n cydsynio ac a fyddai'n cael gwared â'r angen i wneud cais am gydsyniad ar gyfer pob cynllun unigol. Gallai moderneiddio'r broses gydsyniad ar gyfer henebion cofrestredig hefyd ddod ag arbedion i'r sefydliadau hynny.
584. O ehangu'r diffiniad o heneb gofrestredig, efallai y byddai modd cofrestru safleoedd trydydd sector na ellir eu dynodi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ychydig fydd y rhain, a chan fod y rhan fwyaf o sefydliadau y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt eisoes yn gweithio ym maes cadwraeth i ryw raddau, ni ragwelir y byddai eu dynodi yn creu anhawster nac yn destun gwrthwynebiad. Yn yr un modd, bydd rhoi sail statudol i'r *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol* yn cynyddu nifer y safleoedd a gofrestrir. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod holl gyrff y trydydd sector sy'n berchen ar barciau a gerddi cofrestredig eisoes wedi rhoi eu caniatâd i gynnwys eu safleoedd ar y gofrestr.
585. Bydd y Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn aelodau a benodir am eu harbenigedd mewn agweddau allweddol ar amgylchedd hanesyddol Cymru yn hytrach nag fel cynrychiolwyr sefydliadau penodol. O gofio pwysigrwydd y trydydd sector i'r amgylchedd hanesyddol, caiff aelodau sydd â phrofiad o waith y sector gyfle i roi cyngor arbenigol ar anghenion y sector a llywio'r gwaith o ddatblygu polisiau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

Effeithiau cyfiawnder

586. Fel y gwelwyd yn y dadansoddiad manwl ym mhennod 7 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd y Bil yn cyflwyno tair trosedd newydd ac yn diwygio tair trosedd/amddiffyniad sy'n bodoli ar hyn o bryd:
- trosedd newydd yn Neddf 1979 o fethu â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro mewn perthynas â gwneud gwaith heb awdurdod ar heneb gofrestredig;
 - trosedd newydd yn Neddf 1979 o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi o ran atgyweirio neu wneud yn iawn am waith anawdurdodedig neu ddifrod i heneb gofrestredig;
 - trosedd newydd yn Neddf 1990 o fethu â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro mewn perthynas â gwaith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig; a
 - diwygiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau o dan adrannau 2, 28 a 42 o Ddeddf 1979 — yn ymwneud â gwneud gwaith heb awdurdod, gwneud difrod, a defnyddio synwryddion metel yn y drefn honno — a fydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y rheini a gyhuddir o droseddau o dan yr adrannau hynny i ddangos nad oedd ganddynt unrhyw reswm i gredu bod safle wedi ei warchod, a'u bod wedi cymryd camau rhesymol i gael yr wybodaeth berthnasol.
587. Anaml iawn y bydd y tair trosedd newydd yn codi, yn ôl pob tebyg, ac ni fyddent yn destun erlyniad ar eu pen eu hunain; yn hytrach, byddent yn gyhuddiadau ychwanegol mewn erlyniadau am y troseddau mwy difrifol o wneud gwaith heb awdurdod neu wneud difrod i heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig.
588. Bwriad y diwygiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau yn Neddf 1979 yw ei gwneud yn haws erlyn yn llwyddiannus pan wneir gwaith heb awdurdod neu pan wneir difrod i heneb gofrestredig. Ar hyn o bryd, mae nifer yr erlyniadau ar gyfer troseddau o'r fath yn isel, ac er y bydd y darpariaethau newydd yn cynyddu'r nifer hwnnw, dim ond un neu ddau o achosion ychwanegol sy'n debygol o godi dros gyfnod o bum mlynedd.
589. Mae'r amcangyfrif hwn o nifer yr erlyniadau ar gyfer gwneud gwaith heb awdurdod ar heneb gofrestredig yn seiliedig ar adolygiad o'r achosion sy'n ymwneud â difrod a ddigwyddodd rhwng 2006 a 2012. Bu'r heddlu'n ymchwilio i bedwar achos, ond dim ond un achos oedd yn destun erlyniad. Cafodd dau achos eu gollwng gan yr heddlu a'r llall gan Wasanaeth Erlyn y Goron, y tair ar sail diffyg tystiolaeth. Mae Cadw o'r farn y byddai wedi bod yn bosibl erlyn mewn perthynas ag o leiaf un o'r tri o dan y ddarpariaeth ddiwygiedig.
590. Mae'n anodd mesur y costau sy'n gysylltiedig ag erlyniadau o'r fath. Ni wnaed unrhyw ymchwil academiaidd i gost erlyniadau fel hyn. Gwnaeth y Swyddfa Gartref ymchwil i gostau economaidd a chymdeithasol troseddau sy'n dangos mai £866 yw cost difrod troseddol ar gyfartaledd yn ôl prisiau 2003. Fodd bynnag, mae llawer o'r gost honno'n gysylltiedig â'r effaith ar y dioddefwr yn

hytrach na'r broses farnwrol. Roedd *Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol, 2013–14*, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cynnwys gwybodaeth am y costau dyddiol cyfartalog i lysoedd ynadon a llysoedd y Goron, o ran staffio a materion barnwrol. Serch hynny, oherwydd prinder yr erlyniadau yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd amcangyfrif cyfartaledd ar gyfer pa mor hir y mae'r achosion sy'n cael eu herlyn yn para, gan fod yr achosion hyn hefyd yn amrywio'n fawr o ran pa mor gymhleth ydynt.

591. Mae'r tabl crynhoi isod (Tabl 15) yn dangos amrediad tebygol o gostau'n seiliedig ar gostau'r erlyniad, a gafodd eu dyfarnu gan lys ynadon yn y Gogledd yn 2007, a chan lys y Goron mewn achos yn Lloegr yn 2012. Roedd yr ail yn ymwneud â difrod difrifol a gafodd ei wneud i heneb gofrestredig adnabyddus iawn, a'r tebygolrwydd yw ei fod ar begwn uchaf y raddfa gostau. Er bod amrediad o gostau posibl yn cael ei gynnig yma, y peth gorau yw ystyried mai'r nesaf peth i ddim fyddai'r costau mewn gwirionedd.
592. Dylid nodi y gellid adennill yn rhannol y costau erlyn ychwanegol a fyddai'n codi yn sgil y darpariaethau newydd drwy'r costau a ddyfernir yn sgil erlyn yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd, byddai'r costau hyn yn gostau ofer y mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu colli pan fydd erlyniadau'n cael eu gollwng oherwydd diffyg tystiolaeth.
593. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer hawl newydd i wneud apêl bellach i'r llys sirol o ran costau gwaith brys i adeilad rhestredig. Byddai hynny'n dilyn penderfyniad a wneir o ganlyniad i adolygiad cychwynnol gan Weinidogion Cymru, a ystyrir ar eu rhan gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Nifer isel o geisiadau am adolygiad a wneir i Weinidogion Cymru ar hyn o bryd, sef ar gyfartaledd un achos bob tair neu bedair blynedd.
594. Oherwydd y risgiau ariannol, ni fydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn gwneud gwaith brys yn aml. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau mwy o ddefnydd o hysbysiadau gwaith brys drwy ehangu cwrdd y sefyllfaoedd lle gellid eu defnyddio, a hefyd gyflwyno pridiant tir er mwyn adennill costau. Pe bai hysbysiadau gwaith brys yn cael eu cyflwyno'n amlach, gallai nifer y ceisiadau adolygu a gyflwynir i Weinidogion Cymru hefyd gynyddu, sef i un y flwyddyn ar y mwyaf. Wrth wneud yr amcangyfrif hwn, defnyddiwyd gwybodaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n dweud mai dim ond un apêl yn erbyn pridiant tir sy'n dod ger ei bron bob tair i bedair blynedd.
595. Mae'n annhebygol y byddai llawer o bobl yn dymuno parhau ag apêl ar ôl cael penderfyniad gan Weinidogion Cymru, felly amcangyfrifir na fyddai mwy nag un apêl i'r llys sirol ym mhob cyfnod o bum mlynedd. Y tebygolrwydd yw na fyddai achos yn parhau fwy na diwrnod, ac, yn ôl Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, byddai'r costau dyddiol cyfartalog ar gyfer staffio a materion barnwrol yn y llysoedd sifil yn dod i £1,522.

Tabl 15 — Tabl sy'n crynhoi'r effeithiau cyfiawnder.

Y rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt (manylion o'r wybodaeth a roddir uchod)	Nifer yr achosion	Y math o achosion (ee lleoliad carchar, gwrandawriad tribiwnlys, cosb benodedig, etc.)	Amcangyfrif o'r costau (£)
Troseddau ynghyd â Chosbau Sifil a Sanctsiynau	1 neu 2 achos dros gyfnod o 5 mlynedd mewn perthynas â gwaith anawdurdodedig a difrod i henebion cofrestredig	Gellid gwrandawrio ar achos y naill ffordd neu llall, ond y tebygolrwydd yw cael gwrandawriad mewn llys ynadon a chael cosb o ddirwy.	£60 – £7,500 y flwyddyn
Heb eu datganoli — Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	1 achos dros gyfnod o 5 mlynedd mewn perthynas ag apêl bellach i'r llys sirol yn erbyn costau gwaith brys	Llys sirol	£1,522 yr achos
Tribiwnlysoedd sydd wedi eu datganoli	Dim		
Cymorth cyfreithiol	Dim		

Gwasanaethau rheoli carchardai a throseddswyr

Trosedd	Cosb uchaf	Nifer yr erlyniadau bob blwyddyn	Y raddfa debygol ar gyfer colffarnau	Y ddedfryd debygol
Adran 28 o Ddeddf 1979 — dinistrio neu ddifrodi heneb gofrestredig yn fwriadol	Dirwy anghyfyngedig neu 2 flynedd o garchar	1 neu 2 dros gyfnod o 5 mlynedd	1 neu 2 dros gyfnod o 5 mlynedd	Mae carchar yn sanctsiwn posibl, ond nid yw erioed wedi ei ddefnyddio, a dim ond dirwyon sydd wedi eu gosod fel dedfryd.

Adran 9: Adolygu ôl-weithredol

596. Bydd amryw o ddulliau'n cael eu defnyddio i fesur effaith Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), ond yn bennaf, gwneir hynny drwy addasu'r dulliau o gasglu a chofnodi data sy'n bodoli eisoes, a hefyd drwy werthuso darpariaethau penodol.
597. Un o amcanion y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru fydd rhoi cyngor arbenigol annibynnol i Weinidogion Cymru ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisiau a strategaeth. Mae'r Bil hwn, fel y newid sylweddol cyntaf i ddeddfwriaeth dreftadaeth mewn 25 mlynedd, yn adlewyrchu elfen ganolog ym mholisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Er y bydd union gynnwys ei raglen waith yn fater i'r panel benderfynu arno ei hunan, yn ddiamau bydd y rhaglen yn rhoi sylw manwl i effeithiau'r Bil. Bydd y panel yn gallu tynnu ar ddata a gesglir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ond bydd hefyd yn rhydd i geisio gwybodaeth bellach neu gynnal ymchwil fel y mae'n gweld yn briodol.

Gwella mecanweithiau er mwyn rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy

- Cytundebau partneriaeth dreftadaeth
 - Diwygio'r broses ar gyfer rhoi cydsyniad heneb gofrestredig
 - Tystysgrifau imiwnedd rhag rhestru
 - Cofnodion amgylchedd hanesyddol
 - Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
598. Gwnaed ymchwil i'r prosiectau treialu ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth a gafodd eu cyflwyno yn Lloegr. Er eu bod o naws ychydig yn wahanol i'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth y bydd y Bil yn eu cyflwyno yng Nghymru, gall yr ymchwil honno ddarparu data defnyddiol o ran cyd-destun. P'un a yw Llywodraeth Cymru yn awdurdod rhoi cydsyniad mewn perthynas â'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth cyntaf i'w negodi yng Nghymru, bydd ei swyddogion am fod yn rhan o lunio'r cytundebau hynny.
599. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cofnodi data am gydsyniadau heneb gofrestredig, dynodiadau cofrestru a thystysgrifau imiwnedd, eisoes yn cael eu cofnodi ar gyfer y tymor hir. Caiff adroddiad ar effeithiau'r newidiadau i ddeddfwriaeth ei baratoi bob blwyddyn.
600. Drwy roi'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ar sail statudol, bydd yn bosibl sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir er na ddylai eu statws statudol effeithio ar sut y maent yn gweithredu o ddydd i ddydd. Bydd swyddogion yn adolygu unrhyw effeithiau yn gyson yn ystod trafodaethau blynyddol a gynhelir gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru i drafod cymorth grant.

601. Caiff y rhestr genedlaethol o enwau lleoedd hanesyddol ei llunio gan gorff cenedlaethol a chaif mynediad ati ei darparu gan y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Fel menter newydd, caiff ei datblygiad a'r defnydd ohoni ei adolygu'n rheolaidd gan swyddogion fel rhan o adroddiadau blynyddol y corff dan sylw ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

Sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd

- Ymgynghori, ac adolygu penderfyniadau i ddynodi adeilad hanesyddol a heneb hynafol
 - Cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol
 - Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru
602. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data am ymgynghori statudol a niferoedd adolygu fel rhan o'r gwaith rheolaidd o gasglu data am faterion sy'n ymwneud â dynodi. Bydd swyddogion yn cynnal gwerthusiad blynyddol o nifer y dynodiadau ac effeithiau'r darpariaethau adolygu newydd.
603. Mae hynt y gwaith a wneir ar y broses ail-hysbysu mewn perthynas â pharciau a gerddi hanesyddol, yn ogystal ag ychwanegu unrhyw gofnodion newydd neu rannol i'r gofrestr, yn cael ei gofnodi gan swyddogion a fydd yn paratoi adroddiadau arno.

Dulliau mwy effeithiol o warchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig

- Ehangu'r diffiniad o ran pa safleoedd y gellir eu cofrestru
 - Hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â henebion cofrestredig
 - Diwygiadau i'r troseddau a'r amddiffyniadau yn Neddf 1979
 - Hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas ag adeiladau rhestredig
 - Ehangu cwmpas yr hysbysiadau gwaith brys ar gyfer adeiladau rhestredig
604. Bydd y defnydd o hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas â henebion cofrestredig yn cael ei gofnodi gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a chynhelir adolygiad blynyddol i asesu effaith y pwerau newydd. Gan y bydd y defnydd ohonynt yn brin, ac na fydd yn digwydd yn rheolaidd, bydd prosiect gwerthuso mwy manwl yn cael ei gynnal ar ôl pum mlynedd.
605. Gofynnir i adrannau cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol Cymru roi gwybodaeth i'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig ynghylch y defnydd o hysbysiadau stop dros dro mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a'r gwaith brys sydd wedi ei wneud, ynghyd ag unrhyw bridiant tir cysylltiedig. Unwaith eto, gan y byddant yn brin ac nad fyddant yn digwydd yn rheolaidd, bydd gwerthusiad mwy manwl yn cael ei gynnal ar ôl pum mlynedd i asesu effeithiau'r pwerau newydd a'r angen am unrhyw ganllawiau, cymorth neu hyfforddiant ychwanegol.

Atodiad 1 — Nodiadau esboniadol

BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2015. Fe'u lluniwyd gan Cadw, is-adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

CRYNODEB

2. Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau i ehangu'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Yn fras, mae'r Bil: yn creu mesurau newydd ar gyfer gwarchod adeiladau rhestredig a henebion hynafol cofrestredig; yn gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran y penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.
3. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n:
 - caniatáu i Weinidogion Cymru roi terfyn ar unwaith ar waith anawdurdodedig i henebion hynafol cofrestredig a'i gwneud yn haws i gamau gael eu cymryd yn erbyn y rhai hynny sydd wedi difrodi neu ddinistrio henebion;
 - galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os yw adeilad rhestredig o dan fygythiad o waith anawdurdodedig ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran delio ag adeiladau rhestredig y mae angen gwneud gwaith ar frys arnynt er mwyn eu gwarchod rhag dirywio ymhellach;
 - ei gwneud yn haws i berchenogion neu ddatblygwyr greu defnydd newydd cynaliadwy o adeiladau hanesyddol sydd heb eu rhestru drwy lacio'r amodau i geisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestru;
 - caniatáu i berchenogion asedau hanesyddol drafod cytundebau partneriaeth ag awdurdodau cydsynio am gyfnod o flynyddoedd, gan gael gwared ar yr angen i ymgeisio am gydsyniad i wneud gwaith tebyg dro ar ôl tro ac annog rheolaeth fwy cyson a chydlynol o'r adeiladau neu'r henebion;
 - gwneud trefniadau newydd ar gyfer rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor manwl i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd ar yr amgylchedd hanesyddol;
 - gwneud strwythurau presennol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno gofyniad i ymgynghori â pherchenogion a sefydlu mecanwaith i adolygu penderfyniadau;
 - ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol;

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru; a
- sefydlu panel annibynnol i gynghori ar bolisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol yn genedlaethol yng Nghymru.

Y CEFNDIR CYFREITHIOL

4. Mae Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn diwygio dau brif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, sef Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno darpariaethau annibynnol newydd sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol, rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a phanel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru.
5. Mae Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 yn darparu ar gyfer dynodi a gwarchod henebion cofrestredig o bwys cenedlaethol gan Weinidogion Cymru ac yn ei gwneud yn drosedd i wneud gwaith sy'n effeithio ar heneb gofrestredig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ddynodi ardaloedd o bwys archaeolegol ac yn darparu gwarchodaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny.
6. Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddynodi adeiladau rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae hefyd yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cael cydsyniad i wneud gwaith sy'n effeithio ar gymeriad adeiladau rhestredig, sy'n sefydlu troseddau ar gyfer gwaith anawdurdodedig ac sy'n rhoi'r mecanweithiau ar gyfer cymryd camau gorfodi. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn "ardaloedd cadwraeth" a'u hadolygu o dro i dro.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

RHAN 1: TROSOLWG

Adran 1 - Trosolwg

7. Mae adran 1 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn darparu trosolwg o'r darpariaethau yn y Bil. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno darpariaethau annibynnol newydd sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol, rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a phanel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru.

RHAN 2: HENEBION HYNAFOL ETC.

Adran 2 – Trosolwg o'r Rhan hon

8. Mae adran 2 yn darparu trosolwg o'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil, sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979").

Adran 3 – Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr

9. Mae adran 3(1) yn mewnosod adrannau newydd 1AA i 1AE yn Neddf 1979 gan roi gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar ddiwygiadau penodol i'r gofrestr o henebion ("y Gofrestr"); cyflwyno gwarchodaeth interim wrth aros am

benderfyniadau ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr; a darparu ar gyfer adolygu penderfyniadau ynghylch diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.

10. Mae adran 1(1) o Ddeddf 1979 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal y Gofrestr. Mae adran 1(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl cynnwys, diwygio neu eithrio cofnod yn y Gofrestr, hysbysu'r perchennog, y meddiannydd ac unrhyw awdurdod lleol y mae'r heneb yn ei ardal. Nid oes gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â pherchenogion ar unrhyw waith cofrestru arfaethedig ac, o ganlyniad, nid oes gofyniad i gynnwys perchennogion yn y broses o wneud penderfyniadau.
11. **1AA Dyletswydd i ymgynghori ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr**
Mae adran newydd 1AA yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar gynigion i gynnwys neu i eithrio heneb o'r Gofrestr, neu i wneud diwygiad perthnasol sy'n ymwneud â chofnod yn y Gofrestr.
12. Dim ond enw'r heneb sydd mewn cofnod ar y Gofrestr, ond mae map sy'n dangos union hyd a lled yr heneb sy'n cael ei gwarchod yn dod gyda'r cofnod. Mae adran 1AA(5) yn diffinio diwygiad perthnasol ("material amendment") fel un sy'n ychwanegu at yr ardal a ddangosir, neu yn lleihau'r ardal a ddangosir, ar gyfer yr heneb ar fap o'r fath. Os bwriedir cynyddu neu leihau'r ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar y map, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y newid.
13. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal yr ymgynghoriad drwy gyflwyno hysbysiad o'r cynnig i'r personau priodol, fel y'u diffinnir yn adran 1AA(3). Mae adran 1AA(6) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu personau priodol pellach at y rhestr yn is-adran (3) a gwneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf a all fod yn angenrheidiol o ganlyniad i hynny.
14. Mae adran 1AA(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys:
 - y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r personau priodol gyflwyno eu sylwadau ysgrifenedig ynghylch y cofrestru arfaethedig (rhaid i'r dyddiad fod o leiaf 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad);
 - esboniad sy'n nodi y bydd gwarchodaeth interim yn gymwys pan fo'r cynnig i gynnwys heneb yn y Gofrestr, neu i wneud diwygiad perthnasol mewn perthynas â chofnod yn y Gofrestr a fyddai'n cynyddu'r ardal o dir sydd wedi ei chofrestru. Caiff yr heneb ei gwarchod felly fel pe bai wedi ei chofrestru yn unol â'r cynnig hyd nes y cyflwynir hysbysiad pellach i'r perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol. Yn y cyfamser, bydd unrhyw waith anawdurdodedig i'r heneb yn drosedd; ac
 - y dyddiad y mae'r warchodaeth interim yn cymryd effaith, y caniateir iddo fod yr un dyddiad â dyddiad cyflwyno'r hysbysiad ymgynghori i'r personau priodol (o dan adran 1AA(2)).
15. Mae adran 56 o Ddeddf 1979 yn nodi sut y mae'r dogfennau i'w cyflwyno o dan y Ddeddf, ac mae ei darpariaethau yn gymwys i ddosbarthu hysbysiadau i'r personau priodol o dan adran newydd 1AA.

16. **1AB Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniadau ynghylch diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr**
Mae adran newydd 1AB yn gwneud darpariaeth i henebion ac ardaloedd o dir gael gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch gwneud diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.
17. Tra bo heneb yn cael ei hystyried a thra bo'r ymgynghoriad ynghylch ei chofrestru yn mynd yn ei flaen, mae angen iddi gael ei gwarchod rhag cael ei dinistrio, ei newid neu ei difrodi mewn modd a fydd yn peryglu ei harwyddocâd o bosibl. Yn yr un modd, mae angen gwarchod ardal o dir y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei hychwanegu at yr ardal a ddangosir ar fap fel rhan o heneb gofrestredig er mwyn sicrhau nad yw arwyddocâd y tir hwnnw yn gallu cael ei beryglu cyn i Weinidogion Cymru benderfynu.
18. Mae adran 1AB(1) yn pennu y bydd gwarchodaeth interim yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad o gynnig naill ai i gynnwys heneb yn y Gofrestr, neu i wneud diwygiad perthnasol sy'n cynyddu'r ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yr heneb yn y Gofrestr.
19. Mae adran 1AB(2) yn nodi o ba ddyddiad y bydd y warchodaeth interim yn gymwys. Mae darpariaethau Deddf 1979 yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw fel pe bai'r heneb yn y Gofrestr, neu fel pe bai'r diwygiad i'r map wedi ei wneud.
20. Mae adran 1AB(4)-(5) yn gwneud darpariaeth y bydd gwarchodaeth interim yn peidio â bod pan fydd Gweinidogion Cymru:
- yn cynnwys yr heneb yn y Gofrestr;
 - yn cyflwyno hysbysiad i'r perchennog/meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol i'w hysbysu na fydd yr heneb yn cael ei chynnwys ar y Gofrestr;
 - yn gwneud diwygiad perthnasol sy'n cynyddu'r ardal a ddangosir ar gyfer yr heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yr heneb yn y Gofrestr; neu
 - yn cyflwyno hysbysiad i'r perchennog/meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol i'w hysbysu na fydd diwygiad perthnasol o'r math hwnnw yn cael ei wneud.
21. Mae adran 1AB(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'n electronig restr o'r holl henebion y mae gwarchodaeth interim yn cael effaith mewn perthynas â hwy, a darparu copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 1AA ar gais.
22. **1AC Darpariaethau sy'n gymwys ar ddarfodiad gwarchodaeth interim**
Mae adran newydd 1AC yn cyflwyno Atodlen A1 i Ddeddf 1979. Mae'r Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys pan fo gwarchodaeth interim yn peidio â chael effaith o ganlyniad i benderfyniad Gweinidogion Cymru i beidio â chynnwys heneb yn y Gofrestr neu i beidio â gwneud diwygiad perthnasol sy'n cynyddu'r ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yr heneb yn y Gofrestr.
23. **1AD Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim**
Mae adran newydd 1AD yn gwneud darpariaeth i ddigollediad gael ei dalu am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim os yw Gweinidogion Cymru

yn penderfynu peidio â chynnwys heneb yn y Gofrestr neu beidio â gwneud diwygiad perthnasol sy'n cynyddu'r ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yr heneb yn y Gofrestr.

24. **1AE Adolygu penderfyniadau ynghylch diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr**
Mae adran newydd 1AE yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygu penderfyniadau Gweinidogion Cymru i wneud diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.
25. Ar hyn o bryd, nid oes hawl statudol i gael adolygiad o benderfyniadau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r Gofrestr, er y caniateir i'r penderfyniadau hynny gael eu herio drwy adolygiad barnwrol. Bydd y darpariaethau hyn yn creu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau gan Weinidogion Cymru i wneud diwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr.
26. O dan adran 1AE bydd hawl i gael adolygiad pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnwys heneb yn y Gofrestr, neu'n gwneud diwygiad perthnasol sy'n ychwanegu at yr ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yr heneb yn y Gofrestr.
27. Mae adran 1AE(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i'r perchennog a'r meddiannydd (os nad y perchennog yw'r meddiannydd) sy'n eu hysbysu bod yr heneb wedi ei chynnwys yn y Gofrestr, neu fod diwygiad wedi ei wneud sy'n ychwanegu at yr ardal a ddangosir ar gyfer yr heneb, ac y caniateir i gais gael ei wneud i Weinidogion Cymru i ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu.
28. Mae adran 1AE(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â'r adolygiad y gofynnwyd amdano a rhoi effaith i'w penderfyniad ynghylch yr adolygiad drwy ddiwygio'r Gofrestr neu'r map yn briodol.
29. Mae adran 1AE(4) yn pennu mai dim ond drwy adran 55 o Ddeddf 1979 y caniateir i benderfyniad ynghylch adolygiad gael ei herio yn yr Uchel Lys. Yr unig seiliau a ganiateir ar gyfer herio'r penderfyniad o dan adran 55 yw nad oedd y penderfyniad o fewn pwerau Deddf 1979 neu na chydymffurfiwyd â'r gofynion perthnasol ac yr effeithiwyd yn andwyol ar fuddiannau'r person a dramgwyddwyd o ganlyniad i hynny.
30. Mae adran 1AE(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal yr adolygiad drwy ymchwiliad lleol, gwrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol.
31. Mae adran 1AE(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi: y seiliau y caniateir gwneud cais am adolygiad arnynt, yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu mewn cysylltiad â chais am adolygiad, ffurf a dull cais am adolygiad, a'r cyfnod y mae rhaid gwneud cais ynddo.
32. Mae adran 1AE (7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach mewn rheoliadau mewn cysylltiad ag adolygiadau, gan gynnwys darpariaeth ynghylch costau.

33. Mae adran 1AE(9) yn cyflwyno Atodlen A2 i Ddeddf 1979 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benodi person i wneud penderfyniadau ynghylch adolygiadau.
34. Mae adran 3(2) yn mewnosod adran newydd 2(6A) yn Neddf 1979 sy'n darparu amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o wneud gwaith anawdurdodedig i heneb y rhoddwyd gwarchodaeth interim iddi. Mae'r amddiffyniad yn gymwys pan fo'r cyhuddedig yn gallu profi nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod gwarchodaeth interim wedi ei rhoi i'r heneb. Os codir amddiffyniad o'r fath, bydd rhaid i'r erlyniad brofi, pe dylai hysbysiad gwarchod interim fod wedi ei gyflwyno i'r cyhuddedig o dan adran 1AA(2), ei fod wedi ei gyflwyno.

Adran 4 - Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr: darpariaeth ganlyniadol

35. Mae adran 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1979 o ganlyniad i gyflwyno'r darpariaethau o ran ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu.
36. Mae adran 4(1) yn mewnosod adran newydd 1(5A) yn Neddf 1979, sy'n cyfeirio at y darpariaethau newydd ynghylch ymgynghori gan Weinidogion Cymru ar gynigion i gynnwys heneb ar y Gofrestr neu ei heithrio o'r Gofrestr neu i wneud diwygiad perthnasol mewn perthynas â'r Gofrestr.
37. Mae adran 4(2) yn mewnosod is-adrannau newydd (6B) a (6C) yn adran 1 o Ddeddf 1979. Mae adran 1(6B) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu perchennog a meddiannydd heneb, a'r awdurdod lleol y mae'r heneb yn ei ardal, pan fo diwygiad wedi ei wneud i'r ardal a ddangosir ar gyfer yr heneb ar y map cofrestru, ac anfon copi o'r map diwygiedig atynt. Mae adran 1(6C) yn cyfeirio at ddarpariaethau ynghylch yr wybodaeth ychwanegol y mae angen ei darparu i berchenogion a/neu feddianwyr pan wneir diwygiadau penodol mewn perthynas â'r Gofrestr.
38. Mae adran 4(3) yn cymhwyso adran 27 o Ddeddf 1979, sy'n trin y dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir, i'r darpariaethau digollediad am warchodaeth interim i henebion cofrestredig yn adran 1AD.
39. Mae adran 4(4) yn egluro bod adran 55 o Ddeddf 1979 yn gymwys i benderfyniad ar adolygiad o dan adran 1AE, fel mai dim ond ar seiliau penodol y caniateir i benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch adolygiad gael ei gyfeirio at yr Uchel Lys.

Adran 5 - Symleiddio'r broses

40. Mae adran 5(1) yn mewnosod is-adrannau newydd (5A) a (5B) yn adran 2 o Ddeddf 1979 ac mae adran 5(2) yn mewnosod paragraff 1(3) yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Mae'r darpariaethau newydd yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud i symleiddio'r broses ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig a'i roi.
41. Mae adran 2(1) o Ddeddf 1979 yn nodi ei bod yn ofynnol cael cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer:
 - unrhyw waith sy'n arwain at ddifrodi heneb hynafol gofrestredig neu ei dymchwel,

- unrhyw waith i symud neu i atgyweirio heneb o'r fath neu ran ohoni neu unrhyw newidiadau iddi neu ychwanegiadau ati, ac
 - unrhyw lifogydd neu weithrediadau tipio ar y tir, yn y tir neu o dan y tir lle y mae heneb gofrestredig.
42. Mae cyfran helaeth o geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig yn cynnwys cynigion syml, er enghraifft gosod camfa newydd sy'n cyfateb yn union i'r gamfa wreiddiol, neu wneud gwaith atgyweirio syml i greithiau erydu. Ni waeth pa mor gymhleth yw'r gwaith i'w wneud, ar hyn o bryd rhaid gwneud cais llawn am gydsyniad heneb gofrestredig yn unol â'r gofynion a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 1 o Ddeddf 1979.
43. Mae paragraff newydd 1(3) o Ran 1 o Atodlen 1 yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru er mwyn caniatáu i geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig gael eu gwneud mewn ffyrdd eraill. Caniateir i'r rheoliadau hynny roi'r disgrisiwn i Weinidogion Cymru i benderfynu ar y weithdrefn a all fod yn briodol ar gyfer gwneud cais.
44. Mae adran newydd 2(5A)–(5B) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar y ffurf a'r cynnwys o ran rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ac yn dileu'r gofyniad bod rhaid rhoi cydsyniad heneb gofrestredig yn ysgrifenedig.
45. Bydd y pwerau hyn ar gyfer gwneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gweithdrefnau symlach ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig a rhoi'r cydsyniad hwnnw. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, drwy ddileu elfennau o'r broses – er enghraifft, y gofyniad i lenwi ffurflen gais neu'r angen i'r ymgeisydd dderbyn telerau llythyr penderfyniad interim – pan fo'r cais yn ymwneud â chynigion syml ar gyfer mân waith nad yw'n amlwg a bod Gweinidogion Cymru a'r ymgeisydd yn fodlon bwrw ymlaen drwy weithdrefn symlach.

Adran 6 - Rhoi cydsyniad i waith anawdurdodedig

46. Mae adran 6 yn mewnosod is-adrannau newydd (3A) a (3B) yn adran 2 o Ddeddf 1979. Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gydsyniad heneb gofrestredig gael ei roi ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi ei wneud.
47. Mae adran 2 o Ddeddf 1979 yn ei gwneud yn drosedd i wneud gwaith penodedig i heneb gofrestredig oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ysgrifenedig i'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, nid oes mecanwaith cyfreithiol i ganiatáu i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i waith sydd eisoes wedi ei gwblhau.
48. O dan amgylchiadau penodol, gall fod yn well cadw gwaith anawdurdodedig a wnaed i heneb yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r gwaith hwnnw gael ei wrthdroi yn enwedig pan allai gwrthdroi'r gwaith arwain at wneud rhagor o ddifrod i'r heneb. Er enghraifft, gallai gwaith i ddileu'r sylfeini a godir ar gyfer adeilad neu waith i ailosod trac arwain at aflonyddu'r tir ymhellach. Byddai rhoi cydsyniad heneb gofrestredig i awdurdodi gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ac i reoli, drwy amodau, fod y gwaith hwnnw yn cael ei gwblhau yn ateb ansicrwydd

ynghylch pa mor gyfreithlon yw cadw'r gwaith ac yn dileu'r posibilrwydd o erlyniad neu sancsiynau eraill yn y dyfodol.

Adran 7 - Y drosedd o roi gwybodaeth anwir ar gais

49. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1979 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wrthod ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig oni bai bod tystysgrif benodedig yn dod gyda'r cais. Mae paragraff 2(2) o Atodlen 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ffurf tystysgrifau o'r fath a'r manylion pellach y mae rhaid eu cynnwys arnynt. Mae paragraff 2(4) o Atodlen 1 yn ei gwneud yn drosedd dyroddi tystysgrif sy'n honni cydymffurfio â gofynion paragraff 2, ond sy'n cynnwys datganiad anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.
50. Mae adran 7 yn diwygio paragraff 2(4) o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1979 i egluro ei bod hefyd yn drosedd dyroddi tystysgrif sy'n honni cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 1, ond sy'n cynnwys datganiad anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.

Adran 8 - Gwrthod ceisiadau a ailadroddir etc.

51. Mae adran 8 yn mewnosod paragraff newydd 2B yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1979, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wrthod ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig mewn sefyllfaoedd penodol.
52. Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig y gellid eu cyflwyno ar gyfer yr un gwaith neu waith tebyg, hyd yn oed pan fo'r ceisiadau hynny wedi eu gwrthod yn y gorffennol.
53. Mae paragraff newydd 2B yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wrthod ystyried cais am gydsyniad:
- pan fo'r cais yn debyg i gais a wnaed o fewn y ddwy flynedd flaenorol a bod Gweinidogion Cymru o'r farn na fu unrhyw newid sylweddol mewn unrhyw ystyriaeth berthnasol ers i'r cais tebyg gael ei wrthod; neu
 - pan wneir y cais tra bo cais tebyg yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru.

Adran 9 - Pŵer i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad

54. Mae adran 9 yn cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig.
55. Mae paragraff 3(2) o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1979 yn darparu, cyn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad heneb gofrestredig ai peidio, fod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus neu roi cyfle i'r ymgeisydd i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo.
56. Anaml iawn y gwneir cais am wrandawriadau neu ymchwiliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, gellir gofyn amdanynt hyd yn oed pan fydd y materion sy'n cael eu hystyried yn syml a gellid penderfynu arnynt drwy ddull arall, megis ystyried sylwadau ysgrifenedig.

57. Mae adran 9(1) yn cyfyngu ar gymhwysiad paragraff 3 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Loegr.
58. Mae adran 9(2) yn mewnosod paragraff 3A yn Rhan 1 o Atodlen 1.
59. Mae paragraff 3A yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, cyn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad heneb gofrestredig ai peidio, gynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus neu roi cyfle i bersonau i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo neu i gyflwyno sylwadau i berson o'r fath.
60. Mae paragraff 3A(4) yn gorfodi Gweinidogion Cymru i roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a gyflwynir mewn cysylltiad â chais ac i ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan berson a benodir i gynnal ymchwiliad neu wrandawriad neu i gael sylwadau.
61. Mae paragraff 3A(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd ac i bob person sydd wedi cyflwyno sylwadau ynghylch y cais am gydsyniad heneb gofrestredig.

Adran 10 - Digollediad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig

62. Mae adran 10 yn diwygio adran 7 o Ddeddf 1979 sy'n rheoleiddio digollediad os yw ymgeisydd am gydsyniad heneb gofrestredig yn dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad i wrthod y cydsyniad hwnnw neu ei roi yn ddarostyngedig i amodau.
63. Mae'r adran yn cyfyngu cymhwysiad adran 7(4) o Ddeddf 1979 i Loegr ac yn mewnosod is-adran newydd (4A). Mae'r is-adran newydd yn nodi na fydd unrhyw ddigollediad yn daladwy yng Nghymru pe bai'r gwaith y ceisiwyd cydsyniad heneb gofrestredig ar ei gyfer wedi arwain at ddymchwel heneb yn gyfan gwbl neu'n rhannol, oni bai mai dim ond gweithrediadau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol, neu a oedd yn gysylltiedig, â'r defnydd o safle'r heneb at ddibenion a bennir mewn rheoliadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru y byddai'r gwaith wedi eu cynnwys.

Adran 11 - Cytundebau partneriaeth dreftadaeth

64. Mae adran 11 yn mewnosod adrannau newydd 9ZA a 9ZB yn Neddf 1979 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth ("CPDau") yng Nghymru. Yn fras, cytundebau rhwng Gweinidogion Cymru a pherchenogion henebion cofrestredig yw cytundebau partneriaeth dreftadaeth a fydd yn rhoi cydsyniad heneb gofrestredig i raglen o waith penodedig i'w gwblhau o fewn cyfnod penodol, gan gael gwared ar yr angen i wneud cais am gydsyniad ar wahân ar gyfer pob cyfres o waith.
65. **9ZA Cytundeb partneriaeth dreftadaeth**
Mae adran 9ZA(1) yn nodi y bydd cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a pherchennog heneb gofrestredig neu dir sy'n gyfagos i heneb gofrestredig neu dir sydd yng nghyffiniau heneb gofrestredig. Mae adran 9ZA(2) yn caniatáu ar gyfer cael partïon ychwanegol yn rhan o gytundeb, gan gynnwys unrhyw berson sydd â buddiant yn yr ased, megis grŵp cymunedol, neu unrhyw berson sy'n ymwneud â rheoli'r ased, megis rheolwr safle.

66. Caiff y cytundeb partneriaeth dreftadaeth roi cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith penodedig at ddiben:
- symud yr heneb gofrestredig ymaith neu ei hatgyweirio, neu
 - gwneud unrhyw newidiadau i'r heneb neu ychwanegiadau ati.
67. Caiff y cytundeb hefyd bennu unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cydsyniad hwnnw.
68. Ni chaiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth roi cydsyniad heneb gofrestredig am waith sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio heneb gofrestredig neu wneud unrhyw ddifrod iddi (adran 2(2)(a) o Ddeddf 1979) nac ychwaith am unrhyw lifogydd neu weithrediadau tipio ar y tir, yn y tir neu o dan y tir lle y mae heneb gofrestredig (adran 2(2)(b) o Ddeddf 1979).
69. Mae adran 9ZA(4) yn nodi'r ystod o faterion ychwanegol y caniateir iddynt gael eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth, gan gynnwys gwaith y mae'r partïon yn gytûn na fyddai cydsyniad heneb gofrestredig yn ofynnol amdano.
70. Mae adran 9ZA(6)-(7) yn diffinio perchennog ("owner") at ddiben cytundebau partneriaeth dreftadaeth ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymrwmo i gytundeb ag unrhyw un neu ragor o berchenogion heneb gofrestredig sydd o dan amlberchenogaeth, heb orfod ymrwmo i gytundeb â phob un o'r perchnogion hynny.
71. **9ZB Cytundeb partneriaeth dreftadaeth: atodol**
Mae adran newydd 9ZB yn gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â chytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae adran 9ZB(1) yn pennu bod rhaid i gytundebau o'r fath fod yn ysgrifenedig a rhaid iddynt wneud darpariaeth ar gyfer adolygu, terfynu ac amrywio'r cytundebau gan y partïon.
72. Mae adran 9ZB(2) yn ei gwneud yn glir y gall mwy nag un heneb gofrestredig fod yn destun cytundeb, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru a'r perchennog yn bartïon i'r cytundeb ym mhob achos.
73. Mae adran 9ZB(3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch yr ymgynghori a'r cyhoeddusrwydd y mae eu hangen ar gyfer creu neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth.
74. Mae adran 9ZB(4) yn nodi ystod o faterion y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn eu cylch, gan gynnwys telerau penodol y mae rhaid eu cynnwys mewn cytundeb a darpariaeth ar gyfer terfynu cytundeb. Caiff rheoliadau hefyd ddatgymhwyso, cymhwyso neu atgynhyrchu, gydag addasiadau neu hebddynt, ddarpariaethau Deddf 1979 at ddiben cytundebau partneriaeth dreftadaeth.
75. Mae adran 9ZB(5) yn darparu na fydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth ond yn rhwymo'r partïon i'r cytundebau hynny. Ni fydd perchnogion yr heneb gofrestredig yn y dyfodol yn cael eu rhwymo gan gytundeb partneriaeth dreftadaeth, nac ychwaith yn gallu manteisio ar y cydsyniad heneb gofrestredig sy'n gysylltiedig â'r cytundeb.

Adran 12 - Hysbysiadau gorfodi

76. Mae adran 12 yn mewnosod adrannau newydd 9ZC i 9ZH yn Neddf 1979 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiadau gorfodi heneb gofrestredig.
77. Ar hyn o bryd, os oes gwaith wedi ei wneud i heneb gofrestredig heb awdurdodiad Gweinidogion Cymru, nid yw Deddf 1979 yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gorfodi ac eithrio erlyn. Yn yr un modd, os yw gwaith anawdurdodedig ar y gweill i heneb gofrestredig, neu fod y gwaith sy'n cael ei wneud yn torri amodau cydsyniad heneb gofrestredig, nid oes unrhyw bŵer yn y Ddeddf i orfodi'r gwaith i ddod i ben ar unwaith. Yr unig hawl sydd gan Weinidogion Cymru yw ceisio cael gwaharddeb i atal rhagor o waith.
78. **9ZC - Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig**
Mae adran 9ZC(1)-(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau gorfodi ar gyfer gwaith anawdurdodedig a wnaed, neu sy'n cael ei wneud, i heneb gofrestredig neu ar dir y mae heneb gofrestredig ynddo, arno neu odano. Wrth ystyried pa un ai i ddyroddi hysbysiad gorfodi rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i effeithiau'r gwaith ar yr heneb sydd o bwys cenedlaethol.
79. Mae adran 9ZC(3) yn nodi bod rhaid i'r hysbysiad gorfodi bennu'r toriad honedig, y gwaith sydd i ddod i ben a/neu'r camau sy'n ofynnol er mwyn adfer yr heneb i'w chyflwr blaenorol neu'r tir i'w gyflwr blaenorol. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw adfer i gyflwr blaenorol yn ymarferol neu'n ddymunol, caiff yr hysbysiad gorfodi bennu'r camau sy'n ofynnol i leddfu effaith y gwaith anawdurdodedig. Caiff gorchymyn gorfodi hefyd bennu'r camau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau yr adferir yr heneb, neu'r tir, i'r cyflwr y byddai'r heneb neu'r tir wedi bod ynddo pe bai'r gwaith wedi cydymffurfio ag amodau'r cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd ar gyfer y gwaith.
80. Rhaid i'r hysbysiad gorfodi hefyd nodi'r cyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith ddod i ben ynddo a'r cyfnod ar gyfer cymryd y camau sy'n ofynnol er mwyn adfer yr heneb neu leddfu effeithiau'r gwaith anawdurdodedig. O ystyried y gall fod angen gwneud ystod o waith sy'n amrywio o ran pa mor frys ydyw, mae adran 9ZC(6) yn caniatáu i'r hysbysiad bennu cyfnodau cydymffurfio gwahanol ar gyfer gwaith neu gamau gwahanol. Er enghraifft, caiff yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i ymchwiliad archaeolegol gael ei gynnal ar unwaith gydag adroddiad ar ganfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw yn dilyn.
81. **9ZD Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig: darpariaeth atodol**
Mae adran 9ZD(1) yn pennu i bwy y mae rhaid cyflwyno copi o'r hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig. Wrth gyflwyno'r dogfennau, mae adran 56 o Ddeddf 1979 yn gymwys.
82. Mae adran 9ZD(2) yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru dynnu hysbysiad gorfodi yn ôl a dyroddi un arall, os bydd angen. Mae adran 9ZD(3) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r gofynion a osodir gan hysbysiad gorfodi, er enghraifft drwy estyn y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio. Fodd bynnag, ni all Gweinidogion Cymru ddiwygio hysbysiad gorfodi er mwyn gosod gofynion mwy beichus; os ydynt yn dymuno gosod gofynion o'r fath, bydd angen iddynt dynnu'r hysbysiad yn ôl a dyroddi hysbysiad newydd.

83. Mae adran 9ZD(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o hysbysiadau gorfodi sydd wedi eu dyroddi ac sydd yn parhau mewn effaith, ynghyd â darparu copi o hysbysiad ar gais.
84. **9ZE – Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig: apêl**
Mae'r adran hon yn nodi'r broses a'r seiliau ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi. Caiff person y mae hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno iddo o dan adran 9ZD(1) herio'r hysbysiad drwy apelio i lys ynadon. Mae'r seiliau dros apelio wedi eu nodi yn adran 9ZE(3).
85. Rhaid gwneud yr apêl cyn y dyddiad y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith (o dan adran 9ZC(3)(a)). Unwaith y bydd apêl wedi ei chyflwyno, nid oes gan yr hysbysiad gorfodi unrhyw effaith hyd nes y tynnir yr apêl yn ôl neu hyd nes y penderfynir arni'n derfynol.
86. Mae adran 9ZE(6) yn caniatáu i hysbysiad gorfodi gael ei gadarnhau hyd yn oed os nad yw wedi ei gyflwyno yn unol ag adran 9ZD, ar yr amod nad yw'r methiant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw un sydd â buddiant yn yr heneb neu'r tir.
87. **9ZF Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig: pŵer mynediad**
Mae adran 9ZF(1) yn rhoi pŵer i berson a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru: i gael mynediad i dir ar adeg resymol i ganfod a ddylid cyflwyno hysbysiad gorfodi; i osod hysbysiad gorfodi ar yr heneb neu ryw wrthrych ar safle'r heneb neu ar y tir (os na ellir dod o hyd i fan preswyllo hysbys diwethaf y perchennog neu'r meddiannydd); ac i ganfod a gydymffurfiwyd â hysbysiad gorfodi.
88. Mae adran 9ZF(2) yn caniatáu i berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru gael mynediad i'r tir ar adeg resymol i ymgymryd ag unrhyw waith na wnaed o fewn y cyfnod cydymffurfio a nodir yn yr hysbysiad. Mae hefyd yn darparu ar gyfer adennill treuliau yr aed iddynt wrth wneud gwaith o'r fath oddi wrth berchennog neu lesddeiliad yr heneb neu'r tir.
89. Mae adran 9ZF(3) yn cyfyngu ar adennill costau oddi wrth berchenogion sy'n cael rhent fel ymddiriedolwr i berson arall i'r swm o arian sydd gan yr ymddiriedolwr neu'r asiant neu y mae wedi ei gael yn ei ddwylo ar ran y buddiolwr neu'r pennaeth.
90. Os yw meddiannydd heneb yn atal perchennog rhag ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol, mae adran 9ZF(4) yn caniatáu i'r perchennog wneud cais i ynad am warant sy'n ei awdurdodi i gael mynediad i'r tir a chyflawni'r gwaith.
91. **9ZG Methiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig**
Mae adran 9ZG yn nodi pan na chydymffurfiwyd â hysbysiad gorfodi o fewn y cyfnod cydymffurfio a bennir, fod perchennog yr heneb neu'r tir wedi torri'r hysbysiad ac yn euog o drosedd. Caniateir i'r person gael ei gollfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gorfodi.
92. Mae adran 9ZG(5)–(6) yn nodi'r amddiffyniadau ar gyfer y drosedd, ac mae adran 9ZG(7) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosbau ariannol ar gollfarn ddiannod neu ar gollfarn ar dditiad.

93. **9ZH Effaith cydsyniad heneb gofrestredig ar hysbysiad**
Mae adran 9ZH yn gymwys pan fo hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig wedi ei ddyroddi, ac yna rhoddir cydsyniad heneb gofrestredig o dan adran 2(3A) o'r Ddeddf ar gyfer cadw'r gwaith (gweler adran 6 uchod). O dan yr amgylchiadau hynny, ni fydd yr hysbysiad gorfodi bellach yn cael effaith i'r graddau y mae'n ei gwneud yn ofynnol i waith o'r fath ddod i ben, i gamau gael eu cymryd sy'n ymwneud â'r gwaith neu i'r gwaith gydymffurfio ag amodau cydsyniad heneb gofrestredig blaenorol.
94. Mae adran 12(2) yn diwygio adran 46(3) o Ddeddf 1979 fel bod y ddyletswydd i dalu digollediad am ddifrod a achosir i dir wrth arfer pŵer mynediad yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer mynediad newydd a roddir gan adran 9ZF (Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig; pŵer mynediad).

Adran 13 - Hysbysiadau stop dros dro

95. Mae adran 13 yn mewnosod adrannau newydd 9ZI i 9ZL yn Neddf 1979 sy'n darparu ar gyfer dyroddi hysbysiad stop dros dro ar gyfer gwaith anawdurdodedig i henebion cofrestredig.
96. Bydd hysbysiad stop dros dro yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i waith anawdurdodedig ddod i ben ar unwaith cyn i heneb gofrestredig gael ei dinistrio neu ei difrodi ymhellach. Bydd hefyd yn darparu cyfnod o amser er mwyn caniatáu i'r sefyllfa gael ei hasesu ac er mwyn rhoi unrhyw drefniadau yn eu lle ar gyfer gorfodi, erlyn neu ddatrys y mater yn anffurfiol.
97. **9ZI - Hysbysiad stop dros dro**
Mae adran 9ZI(1)-(2) yn darparu'r pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop dros dro. Caniateir i hysbysiad stop dros dro gael ei ddyroddi pan fydd gwaith wedi ei wneud, neu'n cael ei wneud, i heneb gofrestredig neu ar dir y mae heneb arno, ynddo neu odano, os ymddengys i Weinidogion Cymru nad yw'r gwaith wedi ei awdurdodi neu fod y gwaith yn methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad heneb gofrestredig a bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod rhoi terfyn ar y gwaith ar unwaith yn hwylus, gan roi sylw i effaith y gwaith ar yr heneb sydd o bwys cenedlaethol.
98. Mae adran 9ZI(3) yn datgan bod rhaid i hysbysiad stop dros dro fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo bennu'r gwaith sydd i ddod i ben, esbonio pam y dyroddwyd yr hysbysiad stop dros dro, a datgan y byddai torri'r hysbysiad stop dros dro yn drosedd.
99. Mae adran 9ZI(4)-(5) yn rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad stop dros dro. Rhaid i'r hysbysiad stop dros dro gael ei arddangos ar yr heneb, neu gerllaw'r heneb pe gallai arddangos yr hysbysiad ar yr heneb achosi difrod i'r heneb. Rhaid i'r hysbysiad stop dros dro hefyd bennu'r dyddiad y caiff yr hysbysiad ei arddangos am y tro cyntaf. Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad stop dros dro i'r person sy'n gwneud y gwaith neu sy'n peri i'r gwaith gael ei wneud, neu berson sydd â buddiant yn yr heneb neu'r tir. Mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan gaiff y copi ei arddangos am y tro cyntaf ar yr heneb neu gerllaw iddi. Mae adran 56 o Ddeddf 1979 yn gymwys i gyflwyno'r hysbysiad stop dros dro.

100. Mae adran 9ZI(7) yn datgan bod yr hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod o 28 o ddiwrnodau, neu gyfnod byrrach y caniateir iddo gael ei bennu yn yr hysbysiad stop dros dro. Mae adran 9ZI(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru dynnu'r hysbysiad stop dros dro yn ôl cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (neu unrhyw gyfnod byrrach a bennir). Mae adran 9ZI(9) yn gwahardd dyroddi hysbysiad stop dros dro arall mewn perthynas â'r un gwaith oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd rhyw gamau gorfodi eraill mewn perthynas â thorri'r hysbysiad, megis cyflwyno hysbysiad gorfodi neu gael gwaharddeb o dan adran 9ZM.
101. **9ZJ Hysbysiad stop dros dro: pŵer mynediad**
Mae adran 9ZJ yn caniatáu i Weinidogion Cymru awdurdodi person yn ysgrifenedig i gael mynediad i dir i ganfod a ddylid cyflwyno hysbysiad stop dros dro, i osod hysbysiad stop dros dro, i benderfynu a gydymffurfiwyd â hysbysiad stop dros dro, ac i ystyried hawliad am ddigollediad. Dim ond ar adeg resymol y caiff person awdurdodedig gael mynediad i'r tir ac nid oes angen awdurdod penodol y perchennog arno.
102. **9ZK Hysbysiad stop dros dro: trosedd**
Mae adran 9ZK(1)-(2) yn nodi'r amgylchiadau pan fydd person yn euog o drosedd am dorri hysbysiad stop dros dro ac yn caniatáu i berson gael ei gollfarnu o droseddau gwahanol drwy gyfeirio ar ddiwrnodau neu gyfnodau gwahanol. Felly, bydd yn bosibl i berson gael ei gollfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â hysbysiad stop dros dro os ceir sawl achos o dorri'r hysbysiad stop dros dro.
103. Mae adran 9ZK(3)-(4) yn nodi'r amddiffyniadau i drosedd o dan yr adran hon.
104. Mae adran 9ZK(5) yn nodi'r gosb am y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro. Gan fod difrodi heneb yn fwriadol yn gallu cael ei ysgogi gan y posibilrwydd o gael mantais ariannol, mae'r llysoedd i roi sylw i unrhyw fudd ariannol y gall y person a gollfarnir fod wedi ei gael neu'n debygol o'i gael o ganlyniad i'r drosedd.
105. **9ZL Hysbysiad stop dros dro: digollediad**
Mae adran 9ZL(1)-(2) yn nodi'r hawl i ddigollediad mewn cysylltiad ag unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol effaith yr hysbysiad stop dros dro. Mae digollediad wedi ei gyfyngu i amgylchiadau pan na fo'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro yn mynd yn groes i adrannau 2(1) neu 2(6) o Ddeddf 1979 (naill ai am fod cydsyniad heneb gofrestredig wedi ei roi ar y dyddiad, neu cyn y dyddiad, y caiff hysbysiad stop dros dro ei arddangos am y tro cyntaf neu am nad yw cydsyniad heneb gofrestredig yn ofynnol) neu pan fo Gweinidogion Cymru yn tynnu'r hysbysiad stop dros dro yn ôl ac eithrio ar ôl rhoi cydsyniad heneb gofrestredig sy'n awdurdodi'r gwaith (er enghraifft, oherwydd y darganfyddir nad oedd y gwaith wedi ei awdurdodi ac na ddylai'r hysbysiad stop dros dro fod wedi ei arddangos).
106. Mae adran 9ZL(4) yn pennu na fydd unrhyw ddigollediad yn daladwy am golled neu ddifrod y gellid bod wedi ei osgoi pe bai'r hawlydd wedi darparu'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan adran 57 o Ddeddf 1979 neu pe bai wedi cydweithredu fel arall â Gweinidogion Cymru wrth ymateb i'r hysbysiad stop dros dro.

107. Mae adran 13(2) yn cymhwyso adran 27 o Ddeddf 1979, sy'n trin y dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir, i'r darpariaethau digollediad ar gyfer hysbysiadau stop dros dro am henebion cofrestredig yn adran 9ZL.
108. Mae adran 13(3) yn diwygio adran 44 o Ddeddf 1979 er mwyn dileu'r gofyniad i roi rhybudd o 24 awr cyn defnyddio pwerau mynediad i ganfod a ddylid cyflwyno hysbysiad stop dros dro, i arddangos hysbysiad neu i ganfod a gydymffurfiwyd â hysbysiad.
109. Mae adran 13(4) yn diwygio adran 46(3) o Ddeddf 1979 fel bo'r ddyletswydd i dalu digollediad am ddifrod a achosir i dir wrth arfer pŵer mynediad yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer mynediad newydd a roddir gan adran 9ZJ.

Adran 14 - Gwaharddebau

110. Mae adran 14 yn mewnosod adran newydd 9ZM yn Neddf 1979, sy'n rhoi caniatâd penodol i Weinidogion Cymru i wneud cais i'r Uchel Lys neu i'r llys sirol am waharddeb os ydynt o'r farn ei bod yn briodol neu'n hwylus atal toriad gwirioneddol neu doriad dealliedig o adran 2(1) neu (6) o Ddeddf 1979.

Adran 15 - Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig

111. Mae adran 15 yn mewnosod adran newydd 2(8A) yn Neddf 1979 i addasu un o'r amddiffyniadau presennol i'r drosedd o wneud gwaith anawdurdodedig i heneb gofrestredig.
112. Mae adran 2 o Ddeddf 1979 yn darparu ar gyfer rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig drwy ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad heneb gofrestredig a chefnogir hynny, yn is-adrannau (1) a (6), gan droseddau. Ar hyn o bryd, o dan adran 2(8), mae'n amddiffyniad i rai o'r troseddau hynny i'r cyhuddedig brofi, yn ôl pwysau tebygolrwydd, nad oedd yn gwybod ac nad oedd ganddo reswm dros gredu bod yr heneb yn yr ardal yr oedd y gwaith yn effeithio arni, neu fod yr heneb wedi ei chofrestru.
113. Mae adran 15 yn datgymhwyso amddiffyniad adran 2(8) o ran Cymru ac yn rhoi yn ei le yr amddiffyniad newydd yn adran 2(8A). Mae'r amddiffyniad newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi ei gyhuddo o wneud gwaith anawdurdodedig, neu achosi neu ganiatáu gwaith o'r fath, mewn perthynas â heneb gofrestredig yng Nghymru brofi, hefyd, iddo gymryd pob cam rhesymol i ddarganfod a oedd heneb gofrestredig yn yr ardal yr oedd y gwaith yn effeithio arni. Gallai camau o'r fath gynnwys, er enghraifft, edrych ar wybodaeth sydd ar gael ar-lein ar gyfer y cyhoedd gan Cadw ynghylch lleoliad a rhychwant heneb gofrestredig.

Adran 16 - Difrodi henebion hynafol penodol

114. Mae adran 16 yn diwygio adran 28 o Ddeddf 1979 drwy fewnosod is-adran newydd (1A), sy'n addasu'r drosedd o ddinistrio neu ddifrodi heneb warchodedig. Mae heneb warchodedig ("protected monument"):
- yn heneb hynafol (fel y diffinnir "ancient monument" yn adran 61(12) o Ddeddf 1979), neu
 - yn heneb o dan berchenogaeth neu warchodaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn rhinwedd Deddf 1979.

115. O dan adran 28(1), mae person sy'n dinistrio neu'n difrodi unrhyw heneb warchodedig heb esgus cyfreithlon, gan wybod ei bod yn heneb warchodedig ac sy'n bwriadu dinistrio neu ddifrodi'r heneb, neu sy'n ddi-hid o ran a fyddai'r heneb yn cael ei dinistrio neu ei difrodi, yn euog o drosedd. Ni fydd person yn troseddu os nad oedd yn gwybod bod yr heneb yn heneb warchodedig.
116. Mae adran 16 yn datgymhwyso trosedd adran 28(1) o ran Cymru ac yn rhoi yn ei lle y drosedd newydd yn adran 28(1A), sy'n datgan bod person sy'n dinistrio neu'n difrodi heneb warchodedig yn euog o drosedd os oedd y person yn gwybod neu os yw'n rhesymol y dylai'r person fod wedi gwybod bod yr heneb yn heneb warchodedig.

Adran 17 - Cyfyngiadau ar y defnydd o ddatgelyddion metel

117. Mae adran 17 yn diwygio adran 42 o Ddeddf 1979 drwy fewnosod is-adran newydd (8), sy'n addasu'r amddiffyniad presennol i'r drosedd o ddefnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig. Mae man gwarchodedig ("protected place") yn fan:
- i. sy'n safle heneb gofrestredig neu heneb sydd o dan berchenogaeth neu warchodaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn rhinwedd Deddf 1979, neu
 - ii. sydd mewn ardal o bwys archaeolegol.
118. Mae adran 42 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig yng Nghymru heb gydsyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, o dan is-adran (7), mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi ei fod wedi cymryd yr holl ragofalon rhesymol i ddarganfod a oedd y man lle y defnyddiwyd y datgelydd metel yn fan gwarchodedig a'i fod yn credu nad oedd y man hwnnw yn fan gwarchodedig. Mae'r amddiffyniad hwn yn gosod cyfrifoldeb ar y cyhuddedig i ddangos ei fod wedi cymryd y rhagofalon priodol, ond nid yw'n profi a oedd cred y cyhuddedig, sef nad oedd y safle yn safle gwarchodedig, yn gred resymol.
119. Mae adran 17 yn datgymhwyso amddiffyniad adran 42(7) o ran Cymru ac yn rhoi yn ei le yr amddiffyniad newydd yn adran 42(8), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyhuddedig brofi bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i ddarganfod a oedd y man lle y defnyddiwyd y datgelydd metel yn fan gwarchodedig, ac nad oedd yn gwybod bod y man yn fan gwarchodedig, ac nad oedd reswm ganddo dros gredu hynny.

Adran 18 - Cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol

120. Mae adran 18(1) yn mewnosod adran newydd 41A yn Rhan 3 o Ddeddf 1979 Act, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol arbennig.
121. Mae cofrestr anstatudol o barciau a gerddi eisoes wedi ei llunio gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi safleoedd o ddiddordeb hanesyddol arbennig ac i helpu perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwr, cyrff statudol a phob un arall sy'n ymwneud â hwy i sicrhau eu cadwraeth ar sail yr wybodaeth sydd ganddynt. Oherwydd bod y gofrestr yn gofrestr anstatudol, nid yw rhai safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf a gyhoeddwyd wedi eu cynnwys oherwydd nad oedd y tirfeddianwyr yn fodlon caniatáu iddynt gael eu cynnwys. Mae hyn wedi amharu ar

allu'r gofrestr i gyflwyno darlun cynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol y mae'n hysbys eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig.

122. 41A Cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru

Mae'r diffiniad o barciau a gerddi hanesyddol wedi ei gynnwys yn adran 41A(1)–(2). Mae'n cynnwys parciau, gerddi, tirweddau addurnol sydd wedi eu dylunio, manau hamdden a thiroedd eraill sydd wedi eu dylunio, a allai gynnwys, er enghraifft, mynwentydd. Wrth nodi parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu pa un ai i gynnwys tir sy'n gyfagos i'r tiroedd sy'n cael eu cofrestru, neu unrhyw adeilad neu ddŵr ar y tir. Bydd hyn yn caniatáu i farn broffesiynol gael ei harfer wrth ddiffinio'r ffin sydd fwyaf rhesymegol. Er enghraifft, gellid cynnwys mewn cofnod ar y gofrestr fynedfa eang a chrand i dramwyfa, sydd y tu allan i furiau ystad ond sy'n amlwg yn rhan o'r dyluniad. Fel arall, gellid eithrio o gofnod dŷ gwydr modern neu floc o stablau.

123. Mae adran 41A(3)–(4) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ychwanegu, dileu neu ddiwygio cofnodion ar y gofrestr, ond wrth wneud hynny rhaid iddynt hysbysu'r perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod lleol neu'r awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol. Wrth hysbysu'r bobl berthnasol o dan is-adran (4) caiff Gweinidogion Cymru ddibynnu ar adran 56 o Ddeddf 1979 (cyflwyno dogfennau).

124. Mae adran 41A(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr gyfredol. Cefnogir y gofrestr gan gofnod ar-lein ar gyfer y cyhoedd sy'n seiliedig ar fapiau, lle y caiff yr holl asedau hanesyddol sydd wedi eu cofrestru a'u dynodi'n genedlaethol eu dangos.

125. Mae adran 18(2) yn diwygio adran 50 o Ddeddf 1979 er mwyn caniatáu i barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig ar dir y Goron gael eu cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru.

Adran 19 - Tir y credir bod heneb hynafol arno: pŵer mynediad

126. Mae adran 19 yn mewnosod adran newydd 26(4) yn Neddf 1979 er mwyn pennu ymhellach bwerau mynediad person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru.

127. Mae adran 26(1) o Ddeddf 1979 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i awdurdodi mynediad i unrhyw dir lle y maent yn gwybod, neu y mae ganddynt reswm dros gredu, fod heneb hynafol (a gall fod, ond nid oes rhaid iddi fod, yn heneb gofrestredig) at ddiben arolygu'r tir i gofnodi materion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol. Mae'r pŵer wedi ei gyfyngu yn 26(3) gan y gofyniad i gael cydsyniad y perchennog cyn unrhyw gloddiad, hyd yn oed pan fo heneb hynafol mewn perygl o ddifrod neu ddinistr sydd ar fin digwydd a allai arwain at golli gwybodaeth unigryw.

128. Mae adran newydd 26(4) yn galluogi person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru i gael mynediad i dir i ymgymryd â chloddiau archaeolegol heb gydsyniad y tirfeddiannwr, os gwyddys, neu os credir, bod heneb hynafol mewn perygl o ddifrod neu ddinistr sydd ar fin digwydd. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys gwaith anawdurdodedig, ddifrod neu ddirywiad naturiol yng nghyflwr yr heneb sy'n

deillio, er enghraifft, o erydiad arfordirol pan fo cwymp clogwyni yn gallu datguddio olion archaeolegol neu eu gwneud yn fregus.

Adran 20 - Henebion mewn dyfroedd tiriogaethol

129. Mae adran 20 yn diwygio adran 53 o Ddeddf 1979, gan roi eglurder o ran yr amgylchiadau pan fydd heneb mewn dyfroedd tiriogaethol i'w thrin fel pe bai yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf. Mae is-adran newydd (2B) yn datgan nad yw heneb mewn dyfroedd tiriogaethol i'w thrin fel pe bai yng Nghymru oni bai ei bod yng Nghymru fel y'i diffinnir yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r diffiniad hwn o Gymru yn cynnwys y môr sy'n gyfagos i Gymru mor bell â ffin tua'r môr y môr tiriogaethol.

Adran 21 - Cyflwyno dogfennau drwy gyfathrebiad electronig

130. Mae adran 21 yn diwygio adran 56 o Ddeddf 1979 drwy wneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig.

131. Mae adran 56 o Ddeddf 1979 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno dogfen drwy:

- ei dosbarthu i'r person y mae i'w chyflwyno iddo;
- ei gadael ym mhreswylfa arferol y person hwnnw neu yn ei breswylfa hysbys ddiwethaf;
- ei hanfon mewn llythyr cofrestredig rhagdaledig neu drwy ddosbarthiad cofnodedig; neu
- ei rhoi ar yr heneb neu ryw wrthrych ar safle'r heneb, pan na ellir dod o hyd i gyfeiriad arferol neu gyfeiriad hysbys diwethaf y person.

Nid yw'n caniatáu i ddogfennau gael eu cyflwyno'n electronig ar hyn o bryd.

132. Mae adran 21(1) yn mewnosod adran newydd 56(1)(ca) yn Neddf 1979, sy'n caniatáu i unrhyw ddogfennau neu hysbysiadau o dan y Ddeddf gael eu cyflwyno drwy ddulliau electronig o dan amgylchiadau penodedig. Mae'n annhebygol y byddai Gweinidogion Cymru yn dewis anfon hysbysiad stop dros dro drwy ddulliau electronig yn unig a rhaid, beth bynnag, arddangos copi o'r hysbysiad ar yr heneb neu ar y tir o dan sylw.

133. Mae adran 21(2) yn mewnosod adran newydd 56(1A) yn Neddf 1979, sy'n nodi gofynion penodol y mae rhaid i ddogfennau a gyflwynir yn electronig gydymffurfio â hwy.

Adran 22 - Ystyr "monument" yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

134. Mae adran 22 yn diwygio'r diffiniad o heneb yn adran 61(7) o Ddeddf 1979 er mwyn cynnwys safleoedd sy'n darparu tystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol ond lle nad oes adeileddau neu waith yno.

135. Nid yw llawer o'r safleoedd archaeolegol pwysig yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny o gyfnodau Palaeolithig a Mesolithig pell, yn cynnwys dim byd mwy na gwasgariad arteffactau neu olion disylwedd eraill o weithgarwch dynol. Ar hyn o bryd nid yw safleoedd o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o heneb ("monument") ac felly ni ellir eu cofrestru.

136. Mae adran newydd 61(7)(d) yn ehangu'r diffiniad o heneb ("monument"). Bydd hyn yn caniatáu i safleoedd o bwys cenedlaethol sy'n darparu tystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol gael eu dynodi'n henebion cofrestredig gan Weinidogion Cymru.
137. Mae adran 22(3) yn cymhwyso diffiniad Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o Gymru ("Wales") i ganiatáu ar gyfer cofrestru safleoedd lle nad oes adeileddau sydd mor bell â ffin tua'r môr y môr tiriogaethol.

RHAN 3: ADEILADAU RHESTREDIG

Adran 23 – Trosolwg o'r Rhan hon

138. Mae adran 23 yn darparu trosolwg o'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990").

Adran 24 - Diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru adeiladau

139. Mae adran 24 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 1990 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar newidiadau penodol i restrau, i wneud trefniadau ar gyfer gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniadau o ran pa un ai i restru adeiladau, ac i ddarparu ar gyfer yr adolygiad o benderfyniadau rhestru penodol.
140. Ar hyn o bryd, mae adran 1 o Ddeddf 1990 yn rhoi Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i lunio rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae adran 1(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â "such other persons or bodies of persons as appear to him appropriate as having special knowledge of, or interest in, buildings of architectural or historic interest" cyn llunio, cymeradwyo neu addasu unrhyw restr. Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â pherchenogion neu feddianwyr adeiladau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhestru.
141. Mae adran 24(1) yn mewnosod adrannau newydd 2A i 2D yn Neddf 1990 er mwyn creu mecanweithiau ar gyfer ymgynghori ar benderfyniadau rhestru ac adolygu'r penderfyniadau hynny.
142. **2A Dyletswydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i restrau**
Os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu cynnwys adeilad ar y rhestr neu ddileu adeilad o'r rhestr, mae adran newydd 2A yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r personau priodol, gan gynnwys perchennog a meddiannydd yr adeilad, fel y'u rhestrir yn is-adran (3). Mae adran 2A(5) yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu personau priodol pellach at y rhestr yn is-adran (3) a gwneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf a all fod yn angenrheidiol o ganlyniad i hynny.
143. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau priodol drwy gyflwyno hysbysiad iddynt. Rhaid i'r hysbysiad roi o leiaf 28 o ddiwrnodau i'r personau priodol ymateb. Os cynnwys adeilad yn y rhestr yw'r cynnig, rhaid i'r hysbysiad esbonio bod gwarchodaeth interim yn gymwys i'r adeilad hyd nes yr hysbysir fel arall ac y bydd unrhyw waith anawdurdodedig a wneir i'r adeilad yn y cyfamser yn drosedd.

144. Mae adran 329 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys (yn rhinwedd adran 89 o Ddeddf 1990) i gyflwyno hysbysiadau o dan adran newydd 2A.
145. **2B Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniadau rhestru penodol**
Mae adran newydd 2B yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi gwarchodaeth interim i adeiladau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cynnwys yn y rhestr o dan adran 1 o Ddeddf 1990.
146. Ar hyn o bryd, ni roddir unrhyw warchodaeth ychwanegol i adeilad yn ystod y broses restru. Ar adegau prin, mae perchenogion sydd wedi darganfod bod eu hadeiladau yn debygol o gael eu rhestru wedi mynd ati'n fwriadol i newid, i ddifrodi neu i ddinistrio'r adeiladau hynny er mwyn osgoi'r canlyniad hwnnw.
147. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, mae darpariaethau newydd yn ofynnol i ddarparu gwarchodaeth interim ar gyfer adeiladau yn ystod y broses ymgynghori.
148. Mae adran newydd 2B(1) yn nodi'r amgylchiadau hynny pan fydd gwarchodaeth interim yn gymwys.
149. Mae adran 2B(2) yn nodi bod gwarchodaeth interim yn gymwys o ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad a gyflwynir o dan adran 2A, a bod holl ddarpariaethau Deddf 1990 (ac eithrio adrannau 47 i 51 a 59 – darpariaethau sy'n ymwneud â chaffael adeiladau rhestredig yn orfodol a gweithredoedd sy'n achosi difrod i adeiladau rhestredig neu sy'n debygol o arwain at ddifrod i adeiladau rhestredig) yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw fel pe bai'r adeilad yn adeilad rhestredig.
150. Mae adran 2B(4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer dod â'r warchodaeth interim i ben yn dilyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i restru'r adeilad neu i beidio â rhestru'r adeilad.
151. Mae adran 2B(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'n electronig restr o'r holl adeiladau y rhoddwyd gwarchodaeth interim iddynt, a darparu copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 2A ar gais.
152. **2C Darpariaethau sy'n gymwys ar ddarfodiad gwarchodaeth interim**
Mae adran newydd 2C yn cyflwyno Atodlen 1A i Ddeddf 1990. Mae'r Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys pan fo gwarchodaeth interim yn peidio â chael effaith o ganlyniad i benderfyniad Gweinidogion Cymru i beidio â rhestru adeilad.
153. **2D Adolygu penderfyniadau rhestru penodol**
Mae adran newydd 2D yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu penderfyniadau rhestru penodol.
154. Ar hyn o bryd, nid oes hawl statudol i gael adolygiad o benderfyniad gan Weinidogion Cymru i restru adeilad, er y caniateir i benderfyniad o'r fath gael ei herio drwy adolygiad barnwrol. Bydd y darpariaethau hyn yn creu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniadau i restru adeiladau.
155. Mae adran 2D yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnwys adeilad ar y rhestr. Mae adran 2D(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno

hysbysiad i berchennog a meddiannydd yr adeilad sy'n eu hysbysu bod yr adeilad wedi ei gynnwys yn y rhestr ac y caniateir iddynt wneud cais i Weinidogion Cymru gan ofyn iddynt adolygu eu penderfyniad.

156. Mae adran 2D(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad os gofynnir iddynt wneud hynny, a gwneud penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddiwygio'r rhestr os yw'n angenrheidiol iddynt wneud hynny er mwyn rhoi effaith i'r penderfyniad terfynol.
157. Mae adran 2D(4) yn gwahardd unrhyw her gyfreithiol i ddilysrwydd penderfyniad a wneir ynghylch adolygiad, oni bai bod yr her wedi ei dwyn drwy achos yn yr Uchel Lys o dan adrannau 62 a 63 o Ddeddf 1990. Ni chaiff y penderfyniad ond gael ei herio o dan adrannau 62 a 63 ar y sail nad oedd y penderfyniad o fewn pwerau'r Ddeddf, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol mewn perthynas â'r penderfyniad ac y cafodd effaith andwyol ar fuddiannau'r person a dramgwyddwyd o ganlyniad i hynny.
158. Mae adran 2D(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal yr adolygiad drwy ymchwiliad lleol, gwrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol.
159. Mae adran 2D(6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch: y seiliau y caniateir gwneud cais am adolygiad arnynt, ffurf a dull cais o'r fath, yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu mewn cysylltiad â chais, a'r cyfnod y mae rhaid gwneud cais ynddo.
160. Mae adran 2D(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar faterion gweithdrefnol eraill sy'n ymwneud ag adolygiadau.
161. Mae adran 2D(8) yn cyflwyno Atodlen 1B i Ddeddf 1990 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benodi person i wneud penderfyniadau ynghylch adolygiadau.
162. Mae adran 24(2) yn mewnosod is-adran newydd (3A) yn adran 9 o Ddeddf 1990. Mae'r is-adran newydd hon yn darparu amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o wneud gwaith anawdurdodedig i adeilad y rhoddwyd gwarchodaeth interim iddo. Mae'r amddiffyniad yn gymwys pan fo'r person yn gallu profi nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod gwarchodaeth interim wedi ei rhoi i'r adeilad. Os codir amddiffyniad o'r fath, bydd rhaid i'r erlyniad brofi, pe dylai hysbysiad gwarchod interim fod wedi ei gyflwyno i'r person o dan adran 2A(2), ei fod wedi ei gyflwyno.
163. Mae adran 24(3) yn mewnosod adran newydd 28B yn Neddf 1990 sy'n gwneud darpariaeth am ddigollediad ar gyfer colled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chynnwys adeilad ar y rhestr.

Adran 25 – Diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru dros dro

164. Os yw awdurdod cynllunio lleol yn credu bod adeilad a all haeddu gael ei restru oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig mewn perygl sydd ar fin digwydd o gael ei ddinistrio neu ei newid mewn modd sy'n bygwth ei

gymeriad fel adeilad o ddiddordeb, caiff gyflwyno hysbysiad gwarchod adeilad o dan adran 3 o Ddeddf 1990. Bydd hysbysiad gwarchod adeilad yn cymryd effaith cyn gynted ag y caiff ei gyflwyno i'r perchennog a'r meddiannydd a bydd yn parhau mewn grym am hyd at chwe mis. Mae adran 3(5) yn pennu, tra bo'r hysbysiad gwarchod adeilad mewn grym, y bydd darpariaethau Deddf 1990 (ac eithrio adran 59) yn gymwys i'r adeilad fel pe bai wedi ei restru. Cyn cyflwyno'r hysbysiad gwarchod adeilad, rhaid bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi gofyn i Weinidogion Cymru ystyried rhestru'r adeilad.

165. Mae adran 25 yn cyfyngu adran 3 o Ddeddf 1990 i Loegr ac yn cyflwyno adran newydd 3A sy'n cymhwyso strwythur sylfaenol deddfwriaeth hysbysiadau gwarchod adeiladau yn Neddf 1990 i Gymru, gan ystyried y darpariaethau newydd ar gyfer gwarchodaeth interim o dan adran 24 o'r Bil.
166. Mae adran 3A(4) yn sefydlu y bydd hysbysiad gwarchod adeilad yn peidio â chael effaith os yw Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad ymgynghori sy'n sbarduno gwarchodaeth interim o dan adran newydd 2A(2) neu os yw Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig nad ydynt yn bwriadu ymgynghori o dan adran newydd 2A ar gynnig i gynnwys yr adeilad mewn rhestr.
167. Mae adran 3A(5) yn pennu, tra bo'r hysbysiad gwarchod adeilad mewn grym, fod y darpariaethau yn Neddf 1990 ac eithrio adrannau 27-51 ac adran 59 (caffael yn orfodol adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio a gweithredoedd sy'n achosi difrod i adeiladau rhestredig neu sy'n debygol o arwain at ddifrod i adeiladau rhestredig) yn gymwys.
168. Mae adran 3A(6) yn gwneud darpariaeth, pan fo gwarchodaeth interim yn cymryd lle hysbysiad gwarchod adeilad, fod rhaid trin unrhyw beth a wneir o dan adran 3A(5) o Ddeddf 1990 tra bo'r hysbysiad gwarchod adeilad mewn grym, megis rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu gyflwyno hysbysiad stop dros dro ar adeilad rhestredig, fel pe bai wedi ei wneud o dan warchodaeth interim yn rhinwedd adran 2B(2) newydd.
169. Mae adran 3A(7)-(8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu perchennog a meddiannydd yr adeilad ar unwaith os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod nad ydynt yn bwriadu ymgynghori o dan adran newydd 2A ar gynnig i gynnwys yr adeilad mewn rhestr. Ni chaiff yr awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad gwarchod adeilad arall ar yr adeilad am gyfnod o 12 mis.
170. Mae adran 25(4) yn egluro agweddau ar drefniadau digolledu mewn achosion pan oedd hysbysiad gwarchod adeilad mewn grym yn union cyn i warchodaeth interim ddechrau. Mae'n ychwanegu is-adrannau (4) a (5) i adran newydd 28(B) o Ddeddf 1990 (digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan warchodaeth interim). At ddibenion digollediad, mae gwarchodaeth interim i'w thrin fel pe bai'n dechrau ar yr adeg y daeth yr hysbysiad gwarchod adeilad i rym.
171. Mae adran 25(5) yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 29 o Ddeddf 1990. Mae'n pennu y bydd hawl gan unrhyw un a oedd â buddiant mewn adeilad ar yr adeg y cyflwynwyd hysbysiad gwarchod adeilad i gael digollediad oddi wrth yr

awdurdod cynllunio lleol am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad os yw'r hysbysiad gwarchod adeilad yn peidio â bod yn rhinwedd y ffaith ei fod yn dod i ben ar ddiwedd chwe mis (adran 3A(3)(b)) neu os yw Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol nad ydynt yn bwriadu ymgynghori o dan adran newydd 2A ar gynnig i gynnwys yr adeilad mewn rhestr (adran 3A(4)(b)).

Adran 26 - Diwygiadau sy'n ymwneud â rhestru adeiladau: darpariaeth ganlyniadol

172. Mae adran 26 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1990 o ganlyniad i gyflwyno gofynion newydd ar gyfer ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu penderfyniadau rhestru.
173. Mae adran 26(3) yn mewnosod is-adrannau newydd (3A) a (3B) yn adran 2 o Ddeddf 1990. Mae adran newydd 2(3A) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am eu penderfyniad i gynnwys adeilad ar y rhestr neu i dynnu adeilad oddi arni. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r perchennog a'r meddiannydd os yw'r adeilad wedi ei dynnu oddi ar y rhestr. Mae'r camau pellach y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd pan fyddant yn cynnwys adeilad ar restr wedi eu cynnwys yn adran newydd 2D, ac mae adran newydd 2(3B) yn cyfeirio at y ddarpariaeth hon.
174. Mae adran 21(4) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ymgeisydd sy'n gwneud apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn y ffordd y mae awdurdod cynllunio lleol wedi trin cais am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer adeilad o dan hysbysiad gwarchod adeilad gynnwys honiad na ddylai'r adeilad gael ei gynnwys ar y rhestr statudol. Mae adran 26(7) o'r Bil yn diwygio'r adran honno o'r Ddeddf fel y bydd hefyd yn gymwys i adeilad o dan warchodaeth interim.
175. Mae adran 26(8) yn cymhwyso adran 31 o Ddeddf 1990, sy'n trin y dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir, i'r darpariaethau digollediad ar gyfer gwarchodaeth interim i adeiladau rhestredig yn adran newydd 28B o Ddeddf 1990, a gaiff ei mewnosod gan adran 24(3) o'r Bil.
176. Mae adran 26(12) yn diwygio adran 82 o Ddeddf 1990 fel bod y darpariaethau newydd a gyflwynir gan y Bil hwn sy'n ymwneud ag ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu mewn cysylltiad â dynodi adeiladau rhestredig yn gymwys i dir awdurdodau cynllunio lleol.
177. Mae adran 26(13) yn rhoi hawl i'r Swyddfa Brisiog gael mynediad i dir i arolygu neu amcangyfrif ei werth mewn cysylltiad â hawliad am ddigollediad am golled neu ddifrod sy'n deillio o warchodaeth interim.

Adran 27 - Dyroddi tystysgrif na fwriedir rhestru adeilad

178. Mae adran 27 yn mewnosod adran newydd 6A yn Neddf 1990.
179. Mae Deddf 1990 yn darparu ar gyfer dyroddi tystysgrif imiwnedd rhag rhestru, sy'n gwarantu na fydd adeilad yn cael ei restru am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad dyroddi'r dystysgrif ac sy'n atal awdurdod cynllunio lleol rhag cyflwyno hysbysiad diogelu adeilad mewn perthynas â'r adeilad yn ystod yr un cyfnod. Ar hyn o bryd

dim ond pan fo cais am ganiatâd cynllunio wedi ei wneud neu pan fo caniatâd cynllunio wedi ei roi y gall cais am dystysgrif imiwnedd i adeilad gael ei wneud. Mae hyn yn peri risg i ddatblygwyr a pherchenogion, am ei bod yn bosibl eu bod eisoes wedi buddsoddi amser ac adnoddau yn y gwaith o gynllunio prosiect cyn iddynt allu gwneud cais am dystysgrif imiwnedd mewn cysylltiad â chais cynllunio. Mae rhestru adeilad yn hwyr yn y broses o lunio cynnig cynllunio yn gallu achosi oedi a chaledi arall i berchennog neu ddatblygwr.

180. Bydd adran newydd 6A yn llacio'r rheolau sy'n llywodraethu ceisiadau am dystysgrif imiwnedd, er mwyn i geisiadau gael eu gwneud ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn galluogi perchenogion a datblygwyr i geisio cael gwarantau y bydd gan eu hadeiladau imiwnedd rhag cael eu rhestru heb orfod mynd i'r gost sy'n gysylltiedig â chais am ganiatâd cynllunio.

Adran 28 - Cytundebau partneriaeth dreftadaeth

181. Mae adran 28 yn mewnosod adrannau newydd 26L a 26M yn Neddf 1990 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig. Ar hyn o bryd, gall fod rhaid i berchenogion asedau hanesyddol cymhleth neu sy'n berchen ar fwy nag un ased hanesyddol wneud cais am ystod o gydsyniadau ar wahân os ydynt yn dymuno cyflawni rhaglenni rheoli ar gyfer eu heiddo. Mewn achosion o'r fath, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn darparu dull mwy cadarnhaol o weithredu ar gyfer rheoli adeiladau rhestredig yn gynaliadwy gan leihau nifer y ceisiadau am gydsyniad.

182. 26L Cytundebau partneriaeth dreftadaeth

Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol perthnasol wneud cytundeb partneriaeth dreftadaeth gyda pherchennog adeilad rhestredig neu ran o adeilad rhestredig, a chaiff unrhyw bersonau a grybwyllir yn adran 26L(2) neu (4) fod yn barti ychwanegol i'r cytundeb.

183. Mae adran 26L(6)–(7) yn nodi y caiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith penodedig o dan adran 8(1) o Ddeddf 1990 ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cydsyniad hwnnw. Ni chaiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth, fodd bynnag, roi cydsyniad i ddymchwel adeilad rhestredig neu unrhyw ganiatâd arall, megis caniatâd cynllunio.

184. Mae adran 26L(8) yn nodi'r ystod o faterion ychwanegol y caniateir eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth, gan gynnwys gwaith y mae'r partïon yn gytûn nad oes angen cydsyniad adeilad rhestredig arno oherwydd na fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad rhestredig.

185. Mae adran 26L(10) yn diffinio perchennog ("owner") ac awdurdod cynllunio lleol perthnasol ("relevant local planning authority") at ddibenion cytundebau partneriaeth treftadaeth.

186. 26M Cytundebau partneriaeth dreftadaeth: atodol

Mae adran newydd 26M yn gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â chytundebau partneriaeth treftadaeth. Mae adran 26M(1) yn darparu bod rhaid i gytundebau o'r fath fod yn ysgrifenedig a rhaid iddynt wneud darpariaeth ar gyfer adolygu, terfynu ac amrywio'r cytundebau gan y partïon.

187. Mae adran 26M(2) yn caniatáu i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gwmpasu mwy nag un adeilad rhestredig, ar yr amod bod awdurdod cynllunio lleol perthnasol (neu Weinidogion Cymru) a pherchennog yn bartïon i'r cytundeb ym mhob achos. Er enghraifft, gallai cytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys yr holl bontydd rhestredig y mae awdurdod lleol yn berchen arnynt.
188. Mae adran 26M(3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch yr ymgynghori a'r cyhoeddusrwydd y mae eu hangen mewn cysylltiad â chreu neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth.
189. Mae adran 26M(4) yn nodi ystod o faterion eraill y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn eu cylch, gan gynnwys unrhyw delerau penodol y mae rhaid eu cynnwys mewn cytundeb a darpariaethau ar gyfer terfynu cytundeb. Caiff rheoliadau hefyd ddatgymhwyso, cymhwyso neu atgynhyrchu, gydag addasiadau neu hebddynt, ddarpariaethau penodol o Ddeddf 1990 at ddiben y cytundebau partneriaeth dreftadaeth.
190. Mae adran 26M(5) yn darparu na fydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth ond yn rhwymo'r partïon i'r cytundebau hynny. Ni fydd perchenogion a meddianwyr yr adeiladau hynny yn y dyfodol yn cael eu rhwymo gan y cytundebau hynny, ac ni fyddant ychwaith yn gallu manteisio ar unrhyw gydsyniad adeilad rhestredig a ddarperir gan y cytundeb.

Adran 29 - Hysbysiadau stop dros dro

191. Mae adran 29 yn mewnosod adrannau newydd 44B i 44D yn Neddf 1990 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig.
192. **44B Hysbysiadau stop dros dro**
Yn aml mae gwaith anawdurdodedig yn dinistrio adeiladwaith hanesyddol adeiladau rhestredig, ynghyd â difrodi eu diddordeb arbennig. Mae Deddf 1990 yn ei gwneud yn drosedd i wneud gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestredig neu i fethu â chydymffurfio ag amodau cydsyniad adeilad rhestredig. Mae'r un Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig i'w gwneud yn ofynnol i adeilad rhestredig gael ei adfer ar ôl i waith anawdurdodedig gael ei wneud arno, neu i gamau gael eu cymryd i leddfu effeithiau gwaith o'r fath. Ni chaiff hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ddod yn effeithiol yn gynharach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl ei gyflwyno. Os gwneir apêl yn ei erbyn, ni fydd hysbysiad gorfodi yn cymryd effaith hyd nes y penderfynir ar yr apêl neu hyd nes y tynnir yr apêl yn ôl, oni bai bod llys yn dyfarnu fel arall.
193. Bydd adrannau 44B i 44D yn darparu pŵer i awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno hysbysiad stop dros dro i'w gwneud yn ofynnol i'r gwaith anawdurdodedig ddod i ben ar unwaith am gyfnod o 28 o ddiwrnodau er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
194. Caiff awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad stop dros dro os ymddengys i'r awdurdod cynllunio lleol fod gwaith yn cael ei wneud neu wedi ei wneud i adeilad rhestredig heb gydsyniad neu sy'n torri amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad ac y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried ei bod yn hwylus bod y gwaith hwnnw

yn dod i ben ar unwaith, o ganlyniad i'w effaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig (adran 44B(1)–(2)).

195. Mae adran 44B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig a'i fod yn pennu'r gwaith sydd i ddod i ben, esbonio pam y dyroddwyd yr hysbysiad a datgan y byddai torri'r hysbysiad yn drosedd. Nid oes angen i'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro gynnwys yr holl waith sydd ar y gweill. Er enghraifft, caiff awdurdod cynllunio lleol ddymuno bod y gwaith o newid neu o ddileu un nodwedd yn arbennig yn dod i ben, megis ffenestr, sy'n rhan o raglen ehangach o waith, ond gall fod yn fodlon bod gweddill y rhaglen waith wedi ei awdurdodi gan gydsyniad adeilad rhestredig neu'n atgyweirio waith syml na fydd yn effeithio ar gymeriad yr adeilad.
196. Mae adran 44B(5)–(6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar yr adeilad a phennu, ar y copi, y dyddiad y mae'n gwneud hynny am y tro cyntaf. Mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith cyn gynted ag y bo'r copi yn cael ei arddangos am y tro cyntaf ar yr adeilad.
197. Mae adran 44B(7) yn datgan bod hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith ar ôl cyfnod o 28 o ddiwrnodau, neu gyfnod byrrach y caniateir iddo gael ei bennu yn yr hysbysiad. Mae adran 44B(8)–(10) yn datgan y caiff awdurdod cynllunio lleol dynnu'r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (neu unrhyw gyfnod byrrach a bennir), ond ni ellir dyroddi hysbysiad stop dros dro arall ar gyfer yr un gwaith oni bai y cymerwyd camau gorfodi eraill mewn perthynas â'r achos o dorri'r hysbysiad, er enghraifft, cyflwyno hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu gael gwaharddeb (o dan adran 44A o Ddeddf 1990). Nid oes unrhyw ofyniad i hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu unrhyw gam gorfodi arall ddod gyda'r hysbysiad stop dros dro neu ddilyn yr hysbysiad stop dros dro.
198. Mae adran 44B(11) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio gwaith penodol, neu waith o dan amgylchiadau penodol, o effeithiau hysbysiad stop dros dro. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i addasu'r defnydd o hysbysiadau stop dros dro yng ngoleuni'r profiad o'u defnyddio.
199. **44C Hysbysiadau stop dros dro: trosedd**
Mae gwneud gwaith i adeilad rhestredig heb gydsyniad adeilad rhestredig yn drosedd o dan adran 9 o Ddeddf 1990, a gall hefyd fod yn drosedd o dan adran 59 o'r Ddeddf honno.
200. Mae adran newydd 44C yn nodi'r amgylchiadau pan fydd person yn euog o drosedd am dorri hysbysiad stop dros dro ac yn caniatáu i berson gael ei gollfarnu o droseddau gwahanol drwy gyfeirio at ddiwrnodau neu gyfnodau gwahanol. Felly, bydd yn bosibl i berson gael ei gollfarnu o fwy nag un drosedd os ceir sawl achos o dorri hysbysiad stop dros dro.
201. Mae adran 44C(3)–(4) yn nodi'r amddiffyniadau i drosedd o dan yr adran hon.
202. **44D Hysbysiadau stop dros dro: digollediad**
Mae adran 44D(1)–(3) yn nodi'r hawl i ddigollediad mewn cysylltiad ag unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros

- dro. Mae digollediad wedi ei gyfyngu i'r amgylchiadau hynny pan na fo'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad yn mynd yn groes i adrannau 9(1) neu 9(2) o Ddeddf 1990 (naill ai am fod cydsyniad adeilad rhestredig wedi ei roi ar y dyddiad neu cyn y dyddiad y caiff yr hysbysiad stop dros dro ei arddangos am y tro cyntaf neu am nad yw cydsyniad adeilad rhestredig yn ofynnol), neu pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn tynnu'r hysbysiad yn ôl ac eithrio ar ôl rhoi cydsyniad adeilad rhestredig sy'n awdurdodi'r gwaith (er enghraifft, oherwydd y darganfyddir nad oedd y gwaith wedi ei awdurdodi ac na ddylai'r hysbysiad stop dros dro fod wedi ei arddangos).
203. Mae adran 44D(4) yn pennu na fydd unrhyw ddigollediad yn daladwy am golled neu ddifrod y gellid bod wedi ei osgoi pe bai'r hawlydd wedi darparu'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y darpariaethau a grybwyllir yn adran 44D(6) neu pe bai wedi cydweithredu fel arall â'r awdurdod cynllunio lleol wrth ymateb i'r hysbysiad stop dros dro.
204. Y darpariaethau a grybwyllir yn adran 44D(5) yw adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol i gael manylion personau sydd â buddiant mewn tir, ac adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gael gwybodaeth o ran buddiannau mewn tir.
205. Mae adran 29(2) yn cymhwyso adran 31 o Ddeddf 1990, sy'n trin y dibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir, i'r darpariaethau digollediad ar gyfer hysbysiadau stop dros dro am adeiladau rhestredig yn adran 44D.
206. Mae adran 29(3) yn diwygio adran 82A(2) o Ddeddf 1990 (cymhwyso i'r Goron) fel bod y darpariaethau sy'n delio â hysbysiadau stop dros dro yn rhwymo'r Goron, ac eithrio'r rhai hynny yn adran 44C sy'n ei gwneud yn drosedd i dorri hysbysiad stop dros dro.
207. Mae adran 29(4) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1990 (hawliau mynediad) er mwyn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol awdurdodi person yn ysgrifenedig i gael mynediad i dir at ddiben arddangos hysbysiad stop dros dro, canfod a gydymffurfioyd â hysbysiad stop dros dro ac ystyried cais am ddigollediad.
208. Mae adran 29(5) yn rhoi hawl i'r Swyddfa Brisiol i gael mynediad i dir i arolygu neu amcangyfrif ei werth mewn cysylltiad â chais am ddigollediad sy'n deillio o gyflwyno hysbysiad stop dros dro.
209. Mae adran 29(6) yn diwygio adran 88B o Ddeddf 1990 drwy dileu'r gofyniad i roi rhybudd o 24 awr cyn defnyddio pwerau mynediad i ganfod a ddylid cyflwyno hysbysiad stop dros dro, i arddangos hysbysiad neu i ganfod a gydymffurfioyd â hysbysiad.
210. Mae adran 29(7) yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf 1990 fel bod unrhyw hysbysiad stop dros dro a gyflwynir ar adeilad yn peidio â chael effaith unwaith y bydd hysbysiad diogelu'r adeilad yn darfod.
211. Mae adran 29(8) yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf 1990 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, o bryd i'w gilydd, i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno i'w cymeradwyo y trefniadau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu

gwneud i gael cyngor arbenigol mewn cysylltiad â thalu digollediad sy'n deillio o gyflwyno hysbysiad stop dros dro.

Adran 30 - Gwaith brys: estyn y cwmpas ac adennill costau

212. Mae adran 30 yn mewnosod adrannau newydd 54(4A), 54(5A) a 55(5A)–(5G) yn Neddf 1990. Mae'r darpariaethau hyn yn estyn cwmpas y gwaith brys y caiff awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru ei wneud i ddiogelu adeilad rhestredig, yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran y treuliau y caniateir eu hadennill mewn cysylltiad â gwaith o'r fath, ac yn caniatáu i bridianau tir gael eu creu i sicrhau bod y treuliau hynny yn cael eu talu.
213. Mae gan awdurdodau lleol ystod o bwerau gorfodi statudol i ddelio ag adeiladau sy'n fregus neu sydd mewn perygl. Mae Deddf 1990 eisoes yn darparu ar gyfer dyroddi hysbysiadau atgyweirio a gwneud gwaith brys ar adeiladau rhestredig o dan adrannau 38 a 54 yn eu tro. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau yn adran 54 hefyd.
214. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond o dan adran 54 y gall gwaith brys gael ei wneud i ddiogelu adeiladau nad ydynt wedi eu meddiannu neu rannau o adeiladau sydd wedi eu meddiannu nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae'r cyfyngiad hwn yn golygu na ellir gwneud gwaith brys pan na fo adeilad sydd mewn perygl yn cael ei ddefnyddio ddigon, ond nid yw'r adeilad yn wag, neu pan fo'r adeilad yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol at y diben a fwriedir megis warws neu ysgubor er mai anaml yr ymwelir â'r adeilad.
215. Mae adran newydd 54(4A) yn diwygio'r amgylchiadau ar gyfer caniatáu i waith brys gael ei wneud i ddiogelu adeiladau rhestredig yng Nghymru. Mae'n galluogi i waith brys gael ei wneud ar unrhyw adeilad rhestredig yng Nghymru ar yr amod nad yw'n amharu'n afresymol â'r defnydd preswyl a wneir ohono. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith brys i do a chafnau dŵr adeilad rhestredig er mwyn diogelu'r adeilad. Os nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl, er enghraifft ysgubor neu warws, bydd gwneud y gwaith hwnnw bellach yn bosibl. Bydd hefyd yn bosibl gwneud y gwaith hwnnw os yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl, ar yr amod nad yw'r gwaith yn amharu'n afresymol ar y defnydd preswyl a wneir ohono.
216. Mae adran 30(3) yn mewnosod is-adran newydd (5A) yn adran 54 o Ddeddf 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben preswyl gael dim llai na saith niwrnod o hysbysiad o'r bwriad i ymgymryd â gwaith brys i'r eiddo.
217. Os yw awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru yn mynd i gostau wrth ymgymryd â gwaith brys i adeilad rhestredig cânt adennill y costau hynny yn unol ag adran 55 o Ddeddf 1990. Mae adran 55 yn darparu mai drwy gyflwyno hysbysiad i'r perchennog y cychwynnir y broses adennill. Caiff y perchennog herio'r bwriad i adennill costau drwy gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar y seiliau a nodir yn adran 55(4). Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar y swm y gellir ei adennill.
218. Mae adran 30(6) yn mewnosod is-adran newydd (5A) yn adran 55 o Ddeddf 1990 sy'n caniatáu i berchennog adeilad rhestredig, o fewn 28 o ddiwrnodau o gael

penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran y swm y gellir ei adennill, apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r llys sirol. Caiff awdurdod lleol hefyd apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru yn yr un modd.

219. Ar hyn o bryd nid oes darpariaethau yn Neddf 1990 i'r awdurdodau adennill y costau ar ffurf codi tâl ar yr eiddo ac o ganlyniad rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol fynd ar drywydd adennill y costau drwy'r llysoedd sy'n gallu bod yn broses hir a chostus.
220. Mae adran 30(6) hefyd yn mewnosod is-adrannau newydd (5B) i (5G) yn adran 55 o Ddeddf 1990 sy'n darparu mai pridiant ar y tir lle y mae'r adeilad rhestredig yn sefyll yw'r costau yr aed iddynt wrth wneud gwaith brys. Mae'r is-adrannau newydd hefyd yn darparu: i log gael ei osod ar y swm sy'n ddyledus ar gyfradd sydd i'w rhagnodi drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, y dull y mae pridiant tir yn cymryd effaith, a'r pwerau a'r rhwymedïau sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 i orfodi'r pridiant, gan gynnwys pŵer i benodi derbynnydd.

Adran 31 - Cyflwyno dogfennau drwy gyfathrebiad electronig

221. Mae adran 31 yn diwygio is-adran 89(1A) o Ddeddf 1990 sy'n nodi cyfyngiadau o ran pa bryd y gall dogfennau gael eu cyflwyno'n electronig. Mae adran 31 yn dileu'r cyfyngiad hwn mewn perthynas ag adeiladau yng Nghymru, gan ganiatáu i bob dogfen gael ei chyflwyno drwy gyfathrebiadau electronig.

Adran 32 - Penderfynu ar apelau gan berson a benodir: darpariaeth atodol

222. Mae adran 32 yn mewnosod paragraff newydd 7(3) yn Atodlen 3 i Ddeddf 1990. Mae'r paragraff newydd yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi aelod o staff Llywodraeth Cymru i benderfynu ar apel o dan Atodlen 3, fod y swyddogaethau o benderfynu ar yr apel a'r swyddogaethau o wneud unrhyw beth mewn cysylltiad â'r apel i'w trin fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae hyn yn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu a wneir mewn perthynas â'r ffordd y mae'r person a benodir yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

RHAN 4: AMRYWIOL

Adran 33 – Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol

223. Mae adran 33 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru.

Adran 34 - Cofnodion amgylchedd hanesyddol

224. Mae adran 34 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol i greu a chadw'n gyfredol gofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer ei ardal benodol.
225. Ar gyfer y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy, mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffynonellau gwybodaeth hollbwysig. Mae'r wybodaeth honno yn fan cychwyn pwysig ar gyfer

prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, ac ymgysylltu â'r cyhoedd ac allgymorth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n sail i'r cyngor archaeolegol a'r cyngor rheoli treftadaeth arall a ddarperir i awdurdodau cynllunio lleol. Heb wybodaeth o'r fath, byddai amheuaeth ynghylch y cyngor hanfodol sy'n llywio, er enghraifft, effaith cynigion datblygu ar yr amgylchedd hanesyddol.

226. Mae is-adran (2) yn nodi'r ystod o wybodaeth y mae rhaid ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol. Mae paragraffau (a) i (d) yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion yr asedau hanesyddol hynny a warchodir neu a gofrestrir yn statudol o dan Ddeddfau 1979 neu 1990 gael eu cynnwys. Mae paragraffau (e), (f) ac (g) yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion safleoedd gwrthdaro, tirweddau hanesyddol a safleoedd treftadaeth y byd gael eu cynnwys.
227. Mae paragraff (h) yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion pob ardal, safle neu fan arall sydd o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ym marn yr awdurdod gael eu cynnwys. Caiff y rhain gynnwys manylion am asedau hanesyddol y mae cymunedau lleol wedi eu nodi fel rhai sydd o arwyddocâd lleol.
228. Mae paragraff (i) yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth ynghylch y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal gael ei chynnwys. Caniateir i'r wybodaeth hon ddod oddi wrth brosesau a rhaglenni pennu nodweddion ardaloedd trefol a gwledig parhaus megis arfarniadau ardaloedd cadwraeth. Mae'r astudiaethau hyn sy'n seiliedig ar ardal yn ychwanegu gwerth drwy esbonio sut y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at gymeriad lleol/rhanbarthol nodweddiadol ardal a sut y gellir cadw'r cymeriad hwn at y dyfodol.
229. Mae paragraff (k) yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu dull o gael mynediad i fanylion pob enw lle hanesyddol mewn ardal awdurdod cynllunio lleol sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a lunnir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 33.
230. Mae is-adrannau (3) i (8) yn diffinio'r termau gwahanol a ddefnyddir yn is-adran (2) i ddisgrifio'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn cofnod amgylchedd hanesyddol.
231. Mae is-adrannau (9) a (10) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, y categorïau o wybodaeth y mae rhaid eu cynnwys mewn cofnod amgylchedd hanesyddol. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud y rheoliadau.

Adran 35 - Cyhoeddi

232. Mae adran 35 yn ei gwneud yn ofynnol i gofnod amgylchedd hanesyddol fod yn adnodd sydd ar gael i'r cyhoedd, a hynny'n ddi-dâl. Rhaid i awdurdod cynllunio lleol hefyd roi cyngor a chynorthwy proffesiynol er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad iddi drwy gofnod amgylchedd hanesyddol a dehongli'r wybodaeth honno.
233. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i'r awdurdodau perthnasol i godi ffioedd er mwyn adennill y costau o ddarparu gwasanaethau penodol sy'n gysylltiedig â chofnodion

amgylchedd hanesyddol, er enghraifft, llunio adroddiadau sy'n seiliedig ar ddadansoddi cynnwys cofnod amgylchedd hanesyddol. Ni wneir unrhyw elw o ganlyniad i godi ffioedd o'r fath, a bydd y ffioedd yn gyfyngedig i'r costau o ddarparu'r gwasanaeth.

Adran 36 - Trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau

234. Mae rheoliadau a wneir o dan adrannau 19 ac 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i wneud trefniadau i'w swyddogaethau sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol gael eu cyflawni ar gyfer ardaloedd dau neu ragor o awdurdodau cynllunio lleol. Mae adran 36(3) hefyd yn eu galluogi i wneud trefniadau i'w swyddogaethau sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol gael eu cyflawni gan berson ac eithrio awdurdod lleol. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru eisoes yn cynnal cofnodion hanesyddol anstatudol a rhagwelir y bydd y pwerau yn adran 36(3) yn cael eu defnyddio gan awdurdodau cynllunio lleol i wneud trefniadau i ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol ar eu rhan. Cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb ar gyfer cyflawni swyddogaethau, rhaid i awdurdodau gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r trefniadau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau a nodir mewn canllawiau a ddyroddir o dan adran 37.

Adran 37 - Canllawiau

235. Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar: creu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol, cyhoeddi cofnodion amgylchedd hanesyddol a chodi ffioedd mewn cysylltiad â'r swyddogaethau cyhoeddi hynny, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol. Cyn dyroddi'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol ac unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru osod y canllawiau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 38 - Sefydlu Panel a rhaglen waith

236. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru ("y Panel"). Diben y Panel yw darparu arbenigedd ac amrywiaeth o safbwyntiau ar ystod eang o ddatblygiadau a gweithgareddau polisi a strategaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol ehangach, gan gynnwys eiddo sydd o dan ofal y Wladwriaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys casglu, cofnodi a dehongli gwybodaeth megis gwaith ymchwil, gweithgareddau arolygu a chloddiaid; cadw'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys adnabod asedau sydd o arwyddocâd cenedlaethol a chymhwyso'r warchodaeth ddeddfwriaethol briodol; ac ymgysylltiad y cyhoedd â'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cyfranogiad gweithredol a sicrhau bod asedau hanesyddol a gwybodaeth o fewn eu cyrraedd.
237. Bydd y panel cyngori hefyd yn rhoi cyngor arbenigol ar effeithiolrwydd a gweithrediad y fframwaith gwarchod a rheoli statudol presennol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys cyngor cyfnodol ar welliannau posibl yn y dyfodol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

238. Bydd yn ofynnol i'r Panel lunio rhaglen waith tair blynedd a chyflwyno drafft ohoni er mwyn i Weinidogion Cymru ei chymeradwyo. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r rhaglen waith gydag addasiadau neu hebddynt. Rhaid i'r Panel gyhoeddi'r rhaglen waith a gymeradwywyd.
239. Caniateir i'r rhaglen waith gael ei hadolygu a'i diwygio yn ystod y cyfnod o dair blynedd er mwyn ymateb i faterion newydd wrth iddynt godi, ond os bydd y diwygiadau hynny yn rhai sylweddol bydd rhaid i Weinidogion Cymru gytuno arnynt. Rhaid cyhoeddi'r rhaglen waith fel y'i diwygiwyd.

Adran 39 - Cyfansoddiad etc.

240. Mae adran 39 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y Panel ac ynghylch ei statws cyfreithiol.

RHAN 5: CYFFREDINOL

Adran 40 - Rheoliadau a gorchmynion

241. Mae adran 40 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 1979 a Deddf 1990 er mwyn egluro pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion o dan y Deddfau hynny a'r gweithdrefnau sy'n gymwys i wneud y rheoliadau a'r gorchmynion hynny. Bydd y ddarpariaeth ddiwygiedig yn adran 60 o Ddeddf 1979 ac adran 93 o Ddeddf 1990 yn gymwys i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau newydd a fewnosodir yn y Deddfau hynny gan y Bil hwn.
242. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 60 o Ddeddf 1979. Mae'n cadarnhau bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf neu orchymyn o dan adrannau 3, 37 neu 61 yn arferadwy drwy offeryn statudol.
243. Mae is-adran (2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo drwy benderfyniad ddrafft o unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adrannau newydd 1AA (dyletswydd i ymgynghori ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r Gofrestr) neu 9ZB (cytundeb partneriaeth dreftadaeth) neu reoliadau a wneir o dan Ddeddf 1979 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r is-adran hefyd yn sefydlu y bydd unrhyw offerynnau statudol eraill sy'n cynnwys rheoliadau neu orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 1979, ac eithrio o dan adran 19, yn ddarostyngedig i gael eu diddymu drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
244. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 93(1) o Ddeddf 1990 i gadarnhau y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno i Gymru.
245. Mae is-adrannau (4)-(5) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adrannau newydd 2A (dyletswydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i restrau) neu 26M (cytundebau partneriaeth dreftadaeth) o Ddeddf 1990 gael eu gosod ar ffurf ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chael eu cymeradwyo drwy benderfyniad cyn y gall yr offeryn gael ei wneud. Bydd unrhyw reoliadau eraill o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i gael eu diddymu drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

246. Mae is-adran (11) yn ei gwneud yn ofynnol i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 34(9) (pŵer i amrywio ystyr "cofnod amgylchedd hanesyddol") gael ei osod ar ffurf ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chael ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad, cyn y gall yr offeryn gael ei wneud.
247. Mae is-adran (12) yn caniatáu i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 39(7)(h) (Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru: anghymwys staff o sefydliadau penodedig rhag bod yn aelodau) gael ei wneud gan Weinidogion Cymru, ond mae'n rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiddymu unrhyw offeryn a wneir yn y fath fodd.

Adran 41 - Dod i rym

248. Mae adran 41 yn nodi'r darpariaethau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol; y rhai a fydd yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol; a'r rhai a fydd yn cael eu dwyn i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 42 - Enw byr

249. Mae'r adran hon yn nodi enw byr y Ddeddf.

Atodlen 1

250. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 3(3) o'r Bil, ac mae'n mewnosod Atodlen A1 ac Atodlen A2 yn Neddf 1979.

251. Schedule A1 - Darfodiad gwarchodaeth interim

Mae Atodlen A1 yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys pan fo gwarchodaeth interim yn peidio â chael effaith o ganlyniad i benderfyniad gan Weinidogion Cymru

- i beidio â chynnwys heneb yn y Gofrestr, neu
- i beidio â gwneud diwygiad perthnasol sy'n cynyddu'r ardal a ddangosir ar gyfer heneb ar fap sy'n dod gyda chofnod yn y Gofrestr.

252. Gall person barhau i gael ei erlyn am droseddau penodol a wnaed pan oedd gan y warchodaeth interim effaith, er gwaethaf y ffaith bod y warchodaeth interim wedi darfod. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd adennill costau yr aed iddynt wrth gyflawni gwaith o dan adran 9ZF(2) yn dilyn methiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd pan oedd gan y warchodaeth interim effaith. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ddarpariaethau eraill Deddf 1979 sy'n peidio â chael effaith wrth i warchodaeth interim ddarfod: er enghraifft, cydsyniad heneb gofrestredig, hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop dros dro.

253. Atodlen A2 - Penderfyniadau ynghylch adolygiadau gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru

Mae paragraff 1 o Atodlen A2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r dosbarthiadau o adolygiadau y mae person a benodir gan Weinidogion Cymru i seilio ei benderfyniadau arnynt. Bwriedir y bydd y rheoliadau yn darparu y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymgymryd â phob dosbarth o adolygiadau.

254. Mae paragraff 2 yn nodi pwerau a dyletswyddau person a benodir. Mae gan berson a benodir yr un pwerau a dyletswyddau â Gweinidogion Cymru i wneud yr

adolygiad, i wneud penderfyniad ynghylch yr adolygiad ac i benderfynu ar weithdrefnau a chynnal yr adolygiad a'r costau sy'n gysylltiedig ag ef.

255. Ni ellir herio penderfyniad person a benodir ac eithrio drwy adran 55 o Ddeddf 1979. Yn ogystal, ni ellir gwneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 55 ar y sail mai Gweinidogion Cymru a ddylai fod wedi gwneud y penderfyniad yn lle'r person a benodir, oni bai bod pŵer y person a benodir i wneud penderfyniad wedi ei herio cyn y gwnaed y penderfyniad ynghylch yr adolygiad.
256. Mae paragraff 3 yn gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru ddirymu awdurdod person a benodir a phenodi person arall i ymgymryd â'r adolygiad.
257. Mae paragraff 4 yn caniatáu i berson a benodir benodi asesydd i roi cyngor ar unrhyw faterion sy'n codi mewn ymchwiliad lleol neu wrandawriad, neu mewn sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn cysylltiad â'r adolygiad. Mae is-baragraff (2) yn cymhwyso darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n caniatáu i berson a benodir alw person i fod yn bresennol a darparu tystiolaeth mewn ymchwiliad. Bydd gwrthod cais i fod yn bresennol yn gwneud person yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, cyfnod o garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu'r ddau.
258. Mae paragraff 5 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y dylai'r person a benodir fod wedi ei wneud, ac eithrio gwneud penderfyniad ynghylch adolygiad. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo mai hwy sydd i ymgymryd â materion megis rhoi hysbysiad am adolygiad, cylchredeg sylwadau neu dystiolaeth a rhoi hysbysiad ynghylch penderfyniad.
259. Mae paragraff 6 yn caniatáu i berson a benodir ddirprwyo i berson arall unrhyw beth y byddai'r person a benodir yn ei wneud ac eithrio cynnal ymchwiliad lleol neu wrandawriad neu wneud penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Mae hyn yn galluogi'r person a benodir i ddirprwyo tasgau gweinyddol, megis rhoi hysbysiad ynghylch cais am adolygiad, hysbysu ynghylch amserlenni a manylion gwrandawriad/ymchwiliad a chylchredeg datganiadau a sylwadau.
260. Mae paragraff 7 yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi aelod o staff Llywodraeth Cymru i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag adolygiad, fod y swyddogaethau hynny i'w trin fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Bydd hyn yn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu a weir mewn perthynas â'r ffordd y mae'r person a benodir yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

Atodlen 2

261. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 24(4) o'r Bil, ac mae'n mewnosod Atodlen 1A ac Atodlen 1B yn Neddf 1990.
262. **Atodlen 1A - Darfodiad gwarchodaeth interim**
Mae Atodlen 1A yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys pan fo gwarchodaeth interim yn peidio â chael effaith o ganlyniad i benderfyniad Gweinidogion Cymru i beidio â

rhedru adeilad. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd unrhyw achosion sy'n deillio o gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu unrhyw gydsyniad a roddir yn darfod, a bydd unrhyw hysbysiadau gorfodi neu hysbysiadau stop dros dro a gyflwynir ar yr adeilad yn peidio â chael effaith. Fodd bynnag, bydd atebolrwydd troseddol unrhyw berson am drosedd a wneir yn ystod y cyfnod gwarchodaeth interim yn parhau.

263. Atodlen 1B - Penderfyniadau ynghylch adolygiadau gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru

Mae paragraff 1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r dosbarth o adolygiad y mae person a benodir gan Weinidogion Cymru i seilio ei benderfyniadau arno. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn darparu mai'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn penderfynu ar bob dosbarth o adolygiad.

264. Mae paragraff 2 yn nodi pwerau a dyletswyddau person a benodir. Mae gan y person a benodir yr un pwerau a dyletswyddau â Gweinidogion Cymru i wneud yr adolygiad, i wneud penderfyniad ynghylch yr adolygiad ac i benderfynu ar y weithdrefn briodol.

265. Mae paragraff 3 yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddirymu awdurdod person a benodir a phenodi person arall i ymgymryd â'r adolygiad.

266. Mae paragraff 4 yn caniatáu i berson a benodir benodi asesydd i roi cyngor ar unrhyw faterion sy'n codi mewn ymchwiliad lleol neu wrandawriad, neu mewn sylwadau ysgrifenedig. Mae is-paragraff (2) yn cymhwyso darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n caniatáu i berson a benodir alw person i fod yn bresennol a darparu tystiolaeth mewn ymchwiliad. Bydd gwrthod cais i fod yn bresennol yn gwneud person yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, cyfnod o garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu'r ddau.

267. Mae paragraff 5 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y dylai'r person a benodir fod wedi ei wneud, ac eithrio gwneud penderfyniad ynghylch adolygiad. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo mai hwy sydd i ymgymryd â materion megis rhoi hysbysiad am adolygiad, cylchredeg sylwadau a thystiolaeth a rhoi hysbysiad ynghylch penderfyniad.

268. Mae paragraff 6 yn caniatáu i berson a benodir ddirprwyo i berson arall unrhyw beth y byddai'r person a benodir yn ei wneud ac eithrio cynnal ymchwiliad lleol neu wrandawriad neu wneud penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Mae hyn yn galluogi'r person a benodir i ddirprwyo tasgau gweinyddol, megis hysbysu ynghylch amserlenni a manylion gwrandawriad/ymchwiliad a chylchredeg datganiadau a sylwadau.

269. Mae paragraff 7 yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi aelod o staff Llywodraeth Cymru i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag adolygiad, fod y swyddogaethau hynny i'w trin fel swyddogaethau Llywodraeth Cymru at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Bydd hyn yn galluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i unrhyw honiadau o gamweinyddu a wneir mewn perthynas â'r ffordd y mae'r person a benodir yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.